Cynnig i gau Ysgol Gynradd Bancffosfelen

Dogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

Geirfa o Fyrfoddau ac Acronymau..... 2
1.Cyflwyniad 3
2. Y Cefndir 3
3. Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig 6
4. Y Cynnig – Cau Ysgol Gynradd Bancffosfelen. 29
5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion 42
6. Yr ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt 48
7. Yr effaith ar ansawdd a safonau addysg 51
8. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 61
9. Cyllid 62
10. Tir ac Adeiladau..... 69
11. Teithio a Chludiant 70
12. Trefniadau Derbyn..... 75
13. Y Broses Ymgynghori 77
Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. 85
Atodiad B: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg 96
Atodiad C: Asesiad Effaith Integredig 116
Atodiad D: Ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig 140
Atodiad E: Dadansoddiad SWOT manwl o bob opsiwn a ystyriwyd 142
Atodiad F: Ffurflen ymateb..... 175

Geirfa o Fyrfoddau ac Acronymau

ACEHI – Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is

AD – Adnoddau Dynol

ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol

ALl – Awdurdod Lleol

CADY – Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

CDL - Cynllun Datblygu Lleol

CDLl – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

CDU – Cynllun Datblygu Unigol

CGCB – Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

CRhAF – Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau

CSCA – Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

eFSM – Prydau Ysgol Am Ddim

AEI – Asesiad Effaith Integredig

LlC – Llywodraeth Cymru

MALlC – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

APP – Asesiad Perfformiad Panel

RhMA – Rhaglen Moderneiddio Addysg

RhYLl – Rheolaeth Ysgolion yn Lleol

SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol

TGCh – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

UPFSM – Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

1.Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro cynnig yr Awdurdod Lleol i newid y ddarpariaeth addysg gynradd yn wardiau Pontyberem a Llangyndeyrn, gan gynnwys y cynnig i gau Ysgol Gynradd Bancffosfelen (Ysgol Bancffosfelen) o 31 Rhagfyr 2027. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Pontyberem (Ysgol Pontyberem), Heol y Felin, Pontyberem, Llanelli, SA15 5EB ar 1 Ionawr 2028.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r ysgol ar hyn o bryd, yr opsiynau a ystyrir i fynd i'r afael â'r materion hyn, a'r opsiwn a ffefrir. Mae'n rhoi cyfle i rieni, gofalwyr, staff yr ysgol, a phobl eraill sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau neu gynigion eraill i'w hystyried. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd y Cyngor Sir yn adolygu'r holl adborth cyn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynigion.

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2026) (y Cod). Bydd y cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal rhwng 10 Tachwedd 2026 a 22 Rhagfyr 2026. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori hon.

2. Y Cefndir

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod Lleol i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo ac a yw'n llwyddo i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyfleusterau er mwyn cyflawni ei ddyheadau addysgol ar gyfer holl blant Sir Gaerfyrddin.

Cafodd Strategaeth Rhaglen Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar 18 Tachwedd 2024, a'i diben yw cyflawni dyheadau'r Awdurdod Lleol o ran moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion.

Fe'i hategir gan set o amcanion strategol ac egwyddorion addysg gynradd. Mae'r amcanion strategol yn cynnwys:

- Datblygu rhwydwaith o ysgolion sy'n effeithiol yn addysgol ac sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gynaliadwy yn y tymor hir;
- Datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n eu galluogi i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif, gan hwyluso'r gwaith o wireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel;
- Darparu dull strategol o ran buddsoddiadau cyfalaf, ac integreiddio hynny â rhaglen i resymoli'r ddarpariaeth ledled y rhwydwaith ysgolion er mwyn cyflenwi'r galw yn effeithiol;
- Gwella effeithlonrwydd a dichonoldeb addysgol y sector ysgolion drwy leihau nifer y lleoedd gwag hyd at lefel resymol, a hwyluso, lle bo hynny'n ymarferol, y dewisiadau a fynega'r rhieni gan ymateb yn effeithiol i newidiadau demograffig.
- Datblygu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac integredig sy'n cyd-fynd â pholisïau trafnidiaeth lleol a chenedlaethol, gan sicrhau mynediad effeithlon i ddisgyblion tra'n cydbwyso gofynion statudol ag ystyriaethau fforddiadwyedd. Mae hyn yn cynnwys optimeiddio lleoliadau ysgolion, cysylltiadau trafnidiaeth a

llwybrau teithio llesol i gefnogi hygyrchedd, cynaliadwyedd amgylcheddol a chost-effeithiolrwydd.
- Anelu at ailadeiladu, ailfodelu, adnewyddu neu foderneiddio pob safle ysgol sy'n cael eu cadw yn yr hirdymor, fel eu bod yn cydymffurfio mor agos ag sy'n ymarferol â'r safonau dylunio mabwysiedig.
- Datblygu seilwaith mewn ysgolion sy'n gwbl hygyrch i bob unigolyn ac sy'n galluogi pob dysgwr i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel, waeth beth fo'u hanghenion unigol.

Mae'r amcanion strategol yn cyd-fynd â set o Egwyddorion Addysg Gynradd sy'n nodau uchelgeisiol ar gyfer rhwydwaith ysgolion cynradd yr Awdurdod. Yr egwyddorion yw:

- Anelu at gael arweinyddiaeth gynaliadwy, gydag arweinwyr sy'n rhydd i arwain a rheoli, heb unrhyw ymrwymiad addysgu parhaol amser llawn.
- Anelu at sefyllfa lle na fydd mwy na 2 grŵp blwyddyn ym mhob dosbarth addysgu.
- Ymdrechu i gynnal nifer disgyblion sy'n ddigonol i gefnogi'r trefniadau strwythurol uchod.
- Bod yn ddichonol yn ariannol o dan fframwaith ariannu Rheoli Ysgolion yn Lleol a gweithredu yn y tymor hir heb ddiffyg cyllidebol.
- Cael mynediad at gyfleusterau addysgu awyr agored addas i wella dysgu a chefnogi llesiant corfforol ar draws yr ysgol.
- Bod yn gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.
- Cael cyfleusterau modern sy'n cefnogi dysgu digidol.
- Creu amgylchedd dysgu o safon uchel sy'n cefnogi llesiant yr holl ddysgwyr ac sy'n gwella eu cynnydd a'u cyflawniadau ar draws ystod eang o sgiliau a meysydd cwricwlwm.

Yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion strategol hyn, gall pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin gael ei gwerthuso yn erbyn cyfres o feini prawf seiliedig ar dystiolaeth, sy'n caniatáu gwneud asesiad o hyfywedd gweithredol yr ysgol, a gwneud penderfyniadau ar sail angen buddsoddi cymharol pob ysgol. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu rhaglen yn wrthrychol ar gyfer yr adolygiad strategol o'r rhwydwaith ysgolion a buddsoddi mewn moderneiddio'r ystad ysgolion mewn modd sy'n dryloyw ac yn amlwg yn deg.

Mae safle o fewn continwwm hyfywedd yn cael ei neilltuo i bob un o ysgolion yr Awdurdod, er mwyn cadarnhau'r prognosis ar gyfer yr ysgol honno. Mae'r crynodeb o'r asesiad hyfywedd yn sail ar gyfer nodi prosiectau moderneiddio a chynigion rhesymoli o fewn y rhaglen gyffredinol.

Defnyddir y meini prawf hyfywedd i asesu hyfywedd ysgol neu grŵp o ysgolion mewn ardal benodol, ac i benderfynu a fyddem am gynnal adolygiad o hyfywedd yr ysgol. Mae cyd-destun pob ysgol yn wahanol a gallai ysgol unigol brofi heriau gan unrhyw un o'r meini prawf hyfywedd, neu gyfuniad ohonynt.

Y meini prawf hyfywedd yw:

- Ansawdd a safonau addysg
- Arweinyddiaeth
- Nifer y disgyblion, tueddiadau a rhagolygon
- Lleoedd gwag
- Hyfywedd ariannol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgol
- Cyfleoedd cyllido/adfywio cydweithredol

Rhaid i benderfyniadau a wneir gan y Cyngor o fewn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg ymateb i dirwedd addysg sy'n newid. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu pwysau ariannol cynyddol, ynghyd â chyfraddau genedigaethau gostyngol, gostyngiad yn nifer y disgyblion, cynnydd mewn lleoedd ysgol gwag, heriau recriwtio, a chostau adeiladu a chynnal a chadw cynyddol. Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr yn duedd allweddol sy'n wynebu'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, a rhagwela ffigurau Llywodraeth Cymru ostyngiad o 15% yn nifer y disgyblion erbyn 2041.

Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy difrifol yn y sector cynradd ar hyn o bryd, ac yn Ionawr 2026 roedd mwy na 1000 yn llai o ddysgwyr cynradd oedran statudol yn Sir Gaerfyrddin nag yn 2021. Mae'n ofynnol i bob ysgol feddu ar gapasiti disgyblion sydd wedi'i gyfrifo'n ffurfiol, ac yn Ionawr 2026 roedd mwy na 3,500 o leoedd gwag ar draws y 94 o ysgolion cynradd sydd yn y sir. Mae hyn gyfystyr â thros 20 y cant o gyfanswm capasiti disgyblion cynradd ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Mae gan hyn oblygiadau ar gynaliadwyedd ariannol y rhwydwaith ysgolion, gan fod cyllidebau ysgolion yn gysylltiedig yn uniongyrchol â niferoedd disgyblion, a hynny o ran cyfanswm y cyllid a gaiff Sir Gaerfyrddin gan Lywodraeth Cymru, ac o ran sut caiff y cyllid hwn ei ddirprwyo wedyn gan yr Awdurdod Lleol i ysgolion unigol drwy'r fformiwla gyllido.

Ers 2024, mae pwysau ariannol cynyddol yn wynebu rhwydwaith ysgolion y Sir. Mae mwy a mwy o ysgolion mewn diffyg ariannol eisoes, gan fod nifer y lleoedd gwag ar draws yr ystad ysgolion wedi cynyddu. Mae llai o ddisgyblion mewn ysgolion, a'r cynnydd mewn lleoedd gwag wedi lleihau hyfywedd ariannol llawer mwy o ysgolion. Gall pwysau ariannol mewn ysgolion gael effaith sylweddol ar eu gallu i ddarparu addysg o safon i blant. Yn naturiol, mae effaith hyn yn amlycach mewn ysgolion lle mae niferoedd y disgyblion yn llai neu'n gostwng. Yn Ionawr 2024 roedd gan 18 o ysgolion Sir Gaerfyrddin 50 neu lai o ddisgyblion. Erbyn Ionawr 2026 roedd y rhif hwn wedi cynyddu i 22 o ysgolion.

Y gyllideb o £158.9m ar gyfer ysgolion yw'r fwyaf o blith holl wasanaethau'r Cyngor. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26, roedd y gyllideb hon mewn diffyg o £9.5m. Mae'r straen ariannol cynyddol sydd ar ysgolion yn peri risg sylweddol i allu'r Cyngor i ddarparu ei holl wasanaethau eraill i drigolion y sir. O ganlyniad, mae'r Cabinet wedi cytuno bod cynnydd tuag at foderneiddio a rhesymoli ysgolion y sir yn hanfodol, os yw cyllidebau ysgolion yn mynd i aros yn fforddiadwy. Mae angen lleihau nifer y safleoedd ysgol er mwyn gwneud hyn, yn ogystal ag arbedion eraill. Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad strategaeth y gyllideb refeniw yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2025. Cafodd ei gymeradwyo wedyn gan y cyngor llawn ar 26 Chwefror 2025.

Yn ogystal â hyn, mae'r naratif rheoleiddio dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn fwyfwy clir. Y neges gyson yn arolygiad Estyn (2023), ymweliad Estynedig Arolygwyr Arweiniol Awdurdodau Lleol Estyn (Mehefin 2025) a'r Asesiad Perfformiad gan Banel (2025) yw bod gan Sir Gaerfyrddin strategaeth moderneiddio ysgolion gredadwy, ond bod y gwaith o'i gweithredu wedi bod yn rhy araf o ystyried y pwysau demograffig ac ariannol mae'r system addysg yn ei wynebu.


Mae Estyn wedi dod i'r casgliad ddwywaith fod oedi wedi atal yr awdurdod rhag cyflawni ei gynlluniau ad-drefnu i'r graddau sydd ei angen. Mae Estyn hefyd wedi gwneud cysylltiad penodol rhwng ad-drefnu ysgolion a lleoedd gwag, diffygion cynyddol ysgolion, a risgiau ariannol i'r Cyngor. Bu i'r Asesiad Perfformiad gan Banel atgyfnerthu'r angen am newid trawsnewidiol amserol mewn ymateb i ddirywiad demograffig a phwysau ariannol.
Mae rheoleiddwyr yn unfryd nad absenoldeb strategaeth yw'r risg fwyaf mwyach, ond arafwch wrth ei chyflawni. Mae'n bwysig felly i ystyried y cynnig a gyflwynir yn y Ddogfen Ymgynghori hon yn y cyd-destun ehangach a amlinellir uchod.

2.1 Trafodaethau Llunio (Cam 0)

Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda'r Pennaeth, y Corff Llywodraethu a'r Aelod Lleol yn Ysgol Bancffosfelen. Yn y cyfarfodydd hyn trafodwyd y materion mae'r ysgol yn eu hwynebu a'r posibiliadau ar gyfer y dyfodol. Mae opsiynau amgen a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu wedi'u hystyried fel rhan o'r Ddogfen Ymgynghori hon.

3. Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig

Mae Ysgol Bancffosfelen yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 4-11 wrth ymyl y B4306 ym mhentref Bancffosfelen. Sefydlwyd yr ysgol ym 1877 a'i henw ar y pryd oedd Ysgol Fwrdd Bancffosfelen. Mae wedi darparu addysg i'r gymuned leol ers 149 o flynyddoedd.

Lleoliad yr Ysgol	**Llun o'r Ysgol**
	

Cafodd Ysgol Bancffosfelen ei nodi ar gyfer adolygiad yn dilyn Asesiad Hyfywedd o bob Ysgol Gynradd. Aseswyd yr ysgol yn erbyn y Meini Prawf Hyfywedd a nodir yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg sydd wedi'i diweddaru, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn diffinio “ysgol wledig” drwy gyfeirio at restr ysgolion gwledig dynodedig Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar feini prawf penodol fel lleoliad, dwysedd poblogaeth a phatrwm anheddiad. Dim ond yr ysgolion hynny a nodwyd yn ffurfiol ar y rhestr hon sy'n ddarostyngedig i'r rhagdybiaeth yn erbyn cau a'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol, gan gynnwys asesiadau effaith manylach ac ystyried opsiynau eraill.

Nid yw Ysgol Bancffosfelen wedi'i chynnwys ar restr ysgolion gwledig dynodedig Llywodraeth Cymru ac felly nid yw'n cael ei dosbarthu'n ysgol wledig at ddibenion y Cod. O ganlyniad, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gymhwyso'r darpariaethau ychwanegol a'r camau gweithdrefnol sy'n ymwneud yn benodol ag ysgolion gwledig wrth ddatblygu cynigion sy'n effeithio ar yr ysgol ac ymgynghori yn eu cylch.

3.1 Gwybodaeth am yr Ysgol

		Ysgol Gynradd Bancffosfelen
Lleoliad yr Ysgol		Bancffosfelen, Llanelli, SA15 5DR
Ystod Oedran		4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol
Categori laith		3, Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2026)	**Oedran Meithrin**	2
	Derbyn – B.6	46
	Cyfanswm	48
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)	**Ionawr 2025**	54
	Ionawr 2024	56
	Chwefror 2023	53
	Ebrill 2022	55
Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio Meithrin) (2025) (CYBLD)	**Ionawr 2027**	46
	Ionawr 2028	49
	Ionawr 2029	51
	Ionawr 2030	44
	Ionawr 2031	46
Capasiti Meithrin 25/26		12
Capasiti Derbyn-B.6 25/26		86
Cyfanswm Capasiti 25/26		98
Capasiti Meithrin 26/27		12
Capasiti Derbyn-B.6 26/27		86
Cyfanswm Capasiti 26/27		98
% y lleoedd gwag yn CYBLD 2026		51%
Cost fesul disgybl (2025/26)		£5,186
Cyllideb Ysgol (2025/26)		£280,062
Cost fesul disgybl (2026/27)		£5,641
Sefyllfa'r gyllideb diwedd 2025/26		Diffyg o £62,924
Sefyllfa'r gyllideb diwedd 2026/27 fel yr oedd ym mis Mehefin 2026.		Diffyg o £107,733

Cyllideb Ysgol (2026/27)	£270,773
Canlyniad Arolygiad Estyn (Mehefin 2018)	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Templed o Adroddiad yr Arolygiad
Categori Cyflwr Adeilad (2024)	C
Addasrwydd Adeilad (2025)	D

(CYBLD) - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

Graddau Categori Cyflwr Adeilad		**Addasrwydd**	
Gradd A	Fel newydd	Gradd A	Cyfleusterau da sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol.
Gradd B	Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig	Gradd B	Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd.
Gradd C	Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.	Gradd C	Gwael, mae dulliau addysgu yn rhwystro/cael effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol.
Gradd D	Anweithredol neu risg ddifrifol o fethiant mawr	Gradd D	Gwael, mae'r adeiladau'n rhwystro gallu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm yn ddifrifol.

3.2 Trefniadau Cyfredol – y Status Quo yn Ysgol Gynradd Bancffosfelen

Mae Ysgol Bancffosfelen yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 4-11 oed ym mhentref Bancffosfelen. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Bancffosfelen yn gweithredu o fewn trefniant ffederasiwn anffurfiol ag ysgol gyfagos, ac mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau arwain ar draws y ddau leoliad.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei amser rhwng Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Yn fwy diweddar, ac ar gais yr Awdurdod Lleol, gofynnwyd iddo ymgymryd dros dro ag arweinyddiaeth trydedd ysgol, sef Ysgol Pontiets.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gweithredu â dau ddosbarth oedran cymysg, sy'n cynnwys dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2 a dosbarth Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6.

Cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn ym mis Mehefin 2018 ac yn unol â Deddf Addysg 2005, roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn nad oedd angen mesurau dilynol mewn perthynas â'r ysgol. Cyfeirir drwy gydol y ddogfen hon at adroddiad arolygu Estyn yr ysgol yn 2018, gan mai hwn yw'r adroddiad arolygu mwyaf diweddar sydd ar gael yn y parth cyhoeddus. Er bod yr adroddiad wedi nodi nifer o argymhellion ar gyfer gwelliant, ni osodwyd yr ysgol mewn unrhyw gategori dilyniant gan Estyn. At hynny, yn dilyn ymweliad monitro yn 2019, nododd Estyn ei fod yn fodlon â'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a gododd o'r arolygiad.

Ers hynny, mae'r ysgol wedi bod drwy arolygiad Estyn pellach ym mis Medi 2026, ac nid yw canlyniad yr arolygiad hwnnw wedi'i gyhoeddi eto. Felly, byddai'n amhriodol dyfalu ynghylch ei ganfyddiadau. Fodd bynnag, dylai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol y gall perfformiad a darpariaeth gyfredol yr ysgol fod yn wahanol i'r hyn ac adlewyrchir yn adroddiad arolygu 2018, sydd bellach yn nifer o flynyddoedd o oed. Bydd canfyddiadau adroddiad arolygu Estyn 2026 yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad

ymgynghori, ynghyd â'r ymateb y bydd Estyn yn ei gyflwyno fel rhanddeiliad i'r ymgynghoriad.

Dangosodd data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (2026) fod 48 o ddisgyblion ar y gofrestr, 2 ddisgybl o dan oedran ysgol statudol (Meithrin) a 46 o oedran ysgol statudol (Derbyn ac uwch).

O blith y 48 disgybl ar y gofrestr yn CYBLD 2026, roedd 23 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o fewn y dalgylch tra bod y 25 disgybl arall yn mynychu'r ysgol y tu allan i'r dalgylch. Yn ogystal, roedd 41 o ddisgyblion a oedd yn byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill. Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026 oedd 98 lle. Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026-2027 yw 98 lle.

Mae'r ysgol yn wynebu nifer o heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw, ochr yn ochr â ffactorau demograffig ehangach y mae'n rhaid eu hystyried, er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth ysgolion cynradd, gan gynnwys:

Niferoedd disgyblion sy'n isel ac yn gostwng

Mae niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgol ers cryn dipyn o amser. Mae'r tabl yn dangos bod nifer y disgyblion wedi aros yn isel ond yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd, gan amrywio'n gyffredinol rhwng y 50au isel a'r 50au canol, gyda'r cyfansymiau yn amrywio o 55 (2022) i 56 (2024), sef y nifer uchaf. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad bach, gyda'r cyfanswm yn gostwng o 56 yn 2024 i 54 yn 2025 ac ymhellach i 48 yn 2026. Yn gyffredinol, mae'r data yn awgrymu tuedd ar i lawr yn ddiweddar yn dilyn cyfnod o sefydlogrwydd cymharol a thwf cymedrol.

Blwyddyn CYBLD	Meithrin Amser Llawn	Derbyn	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
2026	2	3	6	8	5	14	5	5	48
2025	3	8	8	4	14	5	5	7	54
2024	5	7	4	15	6	5	8	6	56
2023	1	5	16	7	7	5	6	6	53
2022	2	16	7	7	5	7	6	5	55

Mae data cyfraddau genedigaethau ar gyfer dalgylch Bancffosfelen yn dangos patrwm parhaus o niferoedd genedigaethau isel. Mae nifer y plant a anwyd yn ardal côd post y dalgylch yn amrywio rhwng tri a deg y flwyddyn, gyda chyfartaledd o tua chwe genedigaeth bob blwyddyn ar draws y carfanau a fydd yn cyrraedd oedran Derbyn rhwng 2024 a 2030. Yn 2026, cofrestrwyd tri o'r chwe phlentyn a anwyd yn y dalgylch yn y dosbarth Derbyn yn Ysgol Bancffosfelen.

Data Dalgylchoedd

Mae data CYBLD 2026 yn dangos bod nifer isel o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o'r dalgylch. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill yn yr ardal.

Cyfanswm nifer y disgyblion	Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon	Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon	Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill
48	23	25	41*
* Ysgol Gynradd Cefneithin, Ysgol Gynradd Tre Ioan, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, Ysgol Gynradd Llangynnwr, Ysgol Gynradd Llannon, Ysgol Pen-bre, Ysgol Gynradd Pontyberem, Ysgol Gynradd Swiss Valley, Ysgol Gynradd y Tymbl, Ysgol y Castell, Ysgol y Dderwen			

Nifer uchel o leoedd gwag

Rhwng 2022 a 2026 mae lefel y lleoedd gwag yn yr ysgol wedi bod rhwng 43.9% a 51%.

Fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) adran 1.21 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill "*Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a dylent ystyried p'un ai i wneud cynigion ar gyfer eu dileu, os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol (fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr 21/2011) ac o leiaf 30 o leoedd gwag".*

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 50 o leoedd gwag, sef capasiti lleoedd gwag o 51%, sy'n bodloni'r trothwy o ran yr hyn sy'n cael ei ystyried yn sylweddol o dan y Cod.

	CYBLD Hanesyddol				
	2022	**2023**	**2024**	**2025**	**2026**
Cyfanswm Capasiti	98	98	98	98	98
Cyfanswm Cyfrif Pennau	55	53	56	54	48
Lleoedd gwag	43	45	42	44	50
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r agosaf)	44%	46%	43%	45%	51%

Nodyn pwysig

Mae'r niferoedd disgyblion, capasiti, lleoedd gwag a'r ystadegau cysylltiedig a gyflwynir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar ddata CYBLD cyhoeddedig Llywodraeth Cymru, gan mai hwn yw'r ffynhonnell wybodaeth swyddogol a chyson a ddefnyddir ar draws cynigion trefniadaeth ysgolion.

Fodd bynnag, dylid nodi bod rhan o adeilad Ysgol Bancffosfelen wedi cael ei dynnu allan o ddefnydd oherwydd ei gyflwr. O ganlyniad, mae capasiti defnyddiadwy presennol yr ysgol yn is na'r capasiti CYBLD cyhoeddedig.

Y capasiti CYBLD cyhoeddedig ar gyfer 2026 yw 98 lle (12 lle meithrin ac 86 lle derbyn ac oedran statudol). Capasiti defnyddiadwy presennol yr ysgol yw 86 lle (10 lle

meithrin a 76 lle derbyn ac oedran statudol), sy'n cynrychioli gostyngiad o 12 lle. Y ffigur capasiti newydd hwn fydd y ffigur cyhoeddedig ar gyfer yr ysgol ym mlwyddyn academaidd 2027/28.

O ganlyniad, efallai na fydd rhai o'r ffigurau cyhoeddedig sy'n ymwneud â lleoedd gwag yn adlewyrchu'n llawn gapasiti gweithredol presennol yr ysgol. Er enghraifft, mae data CYBLD cyhoeddedig 2026 yn dangos capasiti o 98 lle, 48 o ddisgyblion ar y gofrestr, 50 o leoedd gwag a chanran capasiti dros ben o 51%. Pe bai'r ffigurau hyn yn cael eu hailgyfrifo gan ddefnyddio'r capasiti defnyddiadwy presennol o 86 lle, y ffigurau cyfatebol fyddai 48 o ddisgyblion ar y gofrestr, 38 o leoedd gwag a chanran capasiti dros ben o tua 44%.

Er bod yr addasiad hwn yn lleihau nifer y lleoedd gwag, byddai'r ysgol yn parhau i fod â lefel sylweddol o gapasiti dros ben. Mae'r defnydd o ddata CYBLD cyhoeddedig drwy'r ddogfen hon yn sicrhau cysondeb ag ystadegau ysgolion a gyhoeddir yn genedlaethol, tra bod y nodyn hwn yn darparu cyd-destun ychwanegol ynghylch capasiti ffisegol presennol yr ysgol.

Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion ac Amcanestyniadau o Gapasiti Lleoedd Gwag

Mae amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn ystod y cyfnod 2027 i 2031 yn dangos rhai mân amrywiadau yn hytrach na thuedd gyson ar i fyny neu ar i lawr, gyda'r niferoedd yn parhau i fod yn sefydlog ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau'n dangos y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfanswm capasiti'r ysgol drwy gydol y cyfnod hwn, gan arwain at lefel gyson uchel o leoedd gwag.

Mae adolygiad o gynigion datblygu tai yn nalgylch Ysgol Bancffosfelen yn dangos mai prin yw'r cyfle ar gyfer twf tai ychwanegol sylweddol yn y dyfodol agos. Er bod dyraniadau blaenorol y cynllun datblygu wedi nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl, mae'r rhain naill ai wedi'u cwblhau, nid ydynt bellach wedi'u dyrannu yn y cynllun datblygu sy'n cael ei lunio, neu nid oes ganddynt ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd.

Yr unig ddatblygiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt yw nifer fach o anheddau unigol sydd wedi cael caniatâd cynllunio ond lle nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau eto. O ystyried maint a statws y datblygiadau hyn, ni ragwelir y bydd twf tai yn y dalgylch yn y dyfodol yn arwain at gynnydd digonol yn nifer y disgyblion i newid yn sylweddol y galw presennol am leoedd ysgol neu'r hyn a ragwelir.

Mae data cyfraddau genedigaethau ar gyfer dalgylch Bancffosfelen yn dangos tuedd barhaus o niferoedd genedigaethau isel. Er na ellir byth warantu amcanestyniadau demograffig, byddai parhad y duedd hon yn awgrymu bod nifer y disgyblion a ragwelir yn debygol o aros yn gyson â'r rhagolygon cyfredol.

Blwyddyn	Ionawr 2027	Ionawr 2028	Ionawr 2029	Ionawr 2030	Ionawr 2031
Amcanestyniadau o nifer y disgyblion gan gynnwys disgyblion meithrin	51	53	46	48	47
Cyfanswm nifer y lleoedd	97	97	97	97	97
Lleoedd gwag	46	44	51	49	50
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r agosaf)	47%	45%	53%	51%	52%

**Mae'r fethodoleg o ran amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn defnyddio cyfartaledd treigl o ddisgyblion 5, 6, 7 ac 8 oed ar gyfer ysgolion cynradd. Felly, mae unrhyw newidiadau sydyn ym mhoblogaeth y disgyblion yn cymryd tua phedair blynedd cyn i'r anghysondebau hyn gael eu normaleiddio a bydd dewis rhieni yn penderfynu sut mae'r niferoedd gwirioneddol yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd amrywiadau rhifiadol bach, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol yn cael mwy o effaith gyfrannol mewn ysgolion gyda niferoedd isel o ddisgyblion. Gweler y nodyn uchod ynghylch rhif y capasiti.*

Materion ynghylch Cyllideb yr Ysgol

Pennwyd dyraniad cyllideb Adran 52 yr ysgol ar gyfer 2026/27 ar £270,773 i ddechrau, a gyfrifwyd yn ôl cyllid ar sail disgyblion a thaliadau atodol cysylltiedig o ran y fformiwla.

Mae nifer isel y disgyblion yn yr ysgol wedi cyfrannu at bwysau cyllidebol sylweddol sydd wedi arwain at ddiffyg ariannol yn yr ysgol ers 2022-23. Roedd gan yr ysgol warged ariannol hyd at 2021-22 ond ers hynny mae diffyg wedi cynyddu'n raddol, sef £34,444 yn 2024-25. Y gorwariant yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2025-26 oedd £28,480 a arweiniodd at ddiffyg o £62,924 ym mis Mawrth 2026. Rhagwelir y bydd y diffyg a ragwelwyd ym mis Mehefin 2026 yn cynyddu i £107,733 erbyn diwedd y flwyddyn ym mis Mawrth 2027. Disgwylir rhagolygon wedi'u diweddaru drwy gydol y flwyddyn a byddant yn cael eu hadlewyrchu drwy gydol y broses.

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod o leiaf 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddiffyg ariannol, heb gymeradwyaeth diffyg ar waith. Mae'r holl ddangosyddion ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd y diffyg yn parhau i gynyddu ac nad oes posibilrwydd o wrthdroi'r duedd o ran diffyg. Mae'r tablau canlynol yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

Balans diwedd blwyddyn	(gwarged / diffyg) £
2021/22	-43,245
2022/23	-24,017
2023/24	9,223
2024/25	34,444
2025/26	£62,924

2026/27	
Dyraniad cyllideb yr ysgol	£270,773
Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2026)	48
Cyllid fesul disgybl	£5,641
Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl	£5,969
Diffyg a gadarnhawyd Mawrth 2026	£62,924
Diffyg a ragwelir Mawrth 2027 fel yr oedd ym mis Mehefin 2026.	£107,733

Heriau gyda darpariaeth addysgol oherwydd nifer o grwpiau blwyddyn yn yr un dosbarth.

Oherwydd y nifer isel o ddisgyblion ar y gofrestr, mae staff addysgu yn Ysgol Bancffosfelen yn wynebu'r her barhaus o gynllunio a darparu dysgu i ddisgyblion ar draws ystod eang o oedrannau, galluoedd a chyfnodau datblygiadol. Mae'r ysgol wedi ei threfnu yn ddau ddosbarth oedran cymysg ar hyn o bryd: un ar gyfer disgyblion Meithrin i Flwyddyn 2 ac un ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6.

Er bod staff yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr, mae'n anorfod bod addysgu ac asesu disgyblion ar draws sawl grŵp blwyddyn yn yr un ystafell ddosbarth yn cynyddu'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cwricwlwm. Mae'n ofynnol i athrawon gynllunio profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion disgyblion ar wahanol gamau cynnydd ar yr un pryd, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio a'i gefnogi'n briodol. Gall hyn beri heriau penodol wrth gynllunio'r cwricwlwm, gwahaniaethu a darparu profiadau dysgu sy'n briodol i'r oedran yn effeithiol.

Mae Egwyddorion Addysg Gynradd Cyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024, yn nodi dyhead yr Awdurdod Lleol y dylid, yn gyffredinol, addysgu disgyblion mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys dim mwy na dau grŵp blwyddyn. Nid yw'r drefniadaeth bresennol yn Ysgol Bancffosfelen yn cyd-fynd â'r dyhead hwn, gan fod disgyblion yn cael eu haddysgu o fewn dosbarthiadau sy'n rhychwantu hyd at bedwar grŵp blwyddyn.

Cyflwr yr Adeilad

Mae'r ysgol yn wynebu problemau sylweddol yn ymwneud â chyflwr yr adeiladau. Cafodd estyniad o'r 1960au a oedd yn cynnwys tair ystafell ddosbarth ei ddigomisiynu yn flaenorol oherwydd ei gyflwr gwael ac ers hynny mae'r ysgol wedi gorfod defnyddio'r neuadd ar gyfer gweithgareddau allweddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf,

datganwyd hefyd fod y neuadd yn strwythurol anniogel a bod angen ei dymchwel, gan arwain at golli'r lle hwn yn barhaol.

Mae'r holl addysgu bellach yn digwydd o fewn yr adeilad Fictoraidd gwreiddiol o'r 1870au, sydd hefyd yn profi problemau cynnal a chadw sylweddol, gan gynnwys dŵr yn treiddio i mewn yn barhaus, lleithder a llwydni. Mae gwaith atgyweirio brys wedi'i gyflawni; fodd bynnag, oherwydd oedran a chyflwr yr adeilad, mae'n debygol y bydd problemau o'r fath yn ailgodi mewn rhannau eraill o'r adeilad yn y dyfodol. Mae tua £48,000 wedi'i wario'n ddiweddar ar system boeler newydd a £49,000 ar waith atgyweirio'r to. Roedd y gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i weithredu. Mae gwaith gwerth tua £16,000 i osod ffenestri newydd mewn rhan o'r adeilad wedi'i gynllunio er mwyn disodli ffenestri sydd angen eu hadnewyddu.

Byddai gwaith i ddymchwel y rhannau o'r adeilad sydd allan o ddefnydd ac i adfer y safle yn gofyn am gyllid sylweddol. Yna byddai angen ystyried y gwaith fyddai'n ofynnol i wella addasrwydd yr adeilad yn dilyn y dymchwel. Byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol.

Amcangyfrifodd yr arolwg cyflwr mwyaf diweddar gostau rhagolwg cyfalaf cynnal a chadw pum mlynedd o £616,424 sy'n cynnwys y gost o'r ddymchwel.

Roedd cyflwr yr adeilad wedi'i raddio'n Radd C yn yr arolwg cyflwr diweddaraf (2024), yn bennaf oherwydd y problemau sy'n gysylltiedig â'r neuadd ac ystafelloedd dosbarth eraill sydd allan o ddefnydd. Pe bai'r rhannau hyn o'r adeilad yn cael eu tynnu, mae'n bosibl y byddai gradd cyflwr gyffredinol yr adeilad yn gwella, yn amodol ar arolwg pellach.

Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol

Addasrwydd adeiladau'r ysgol yw priodoldeb adeiladau a safle'r ysgol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol. Y sgôr addasrwydd bresennol yw Gradd D, sef "Gwael, mae'r adeiladau'n rhwystro gallu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm yn ddifrifol".

Mae asesiad Addasrwydd yn wahanol ac ar wahân i arolwg Cyflwr, ac mae'n asesiad o addasrwydd adeiladau'r ysgol o safbwynt addysgu a dysgu, yn ogystal â lles disgyblion a staff.

Mae'r sgôr Gradd D yn adlewyrchu nifer o heriau addasrwydd sylweddol a nodwyd yn ystod yr asesiad.

Data Cyfraddau Geni

Yn ogystal â data CYBLD a rhagamcanion disgyblion, dadansoddwyd data geni lleol er mwyn asesu'r galw posibl yn y dyfodol am leoedd ysgol gynradd o fewn dalgylch Ysgol Bancffosfelen.

Mae data cyfraddau geni ar gyfer dalgylch Bancffosfelen yn dangos patrwm parhaus o niferoedd geni isel. Yn y blynyddoedd diwethaf mae nifer y plant a anwyd o fewn ardal cod post y dalgylch yn amrywio rhwng tri a deg y flwyddyn, gyda chyfartaledd o

tua chwe genedigaeth yn flynyddol ar draws y carfannau a fydd yn cyrraedd oedran Derbyn rhwng 2024 a 2030. Yn 2026, cofrestrodd tri o'r chwe phlentyn a anwyd yn y dalgylch yn nosbarth Derbyn Bancffosfelen. Nid yw'r patrwm cyffredinol yn dangos twf cynaliadwy a fyddai'n cynyddu'r galw am leoedd ysgol yn sylweddol yn yr hirdymor.

Mae'r tabl canlynol yn darparu cymhariaeth rhwng data geni lefel cod post yn nalgylch Ysgol Bancffosfelen a nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y Dosbarth Derbyn, fel y cofnodwyd yn CYBLD, ar gyfer y blynyddoedd academaidd cyfatebol.

Disgyblion a Anwyd yn Ardal Cod Post y Dalgylch yn erbyn Disgyblion ar y Gofrestr yn CYBLD yn y Dosbarth Derbyn ar gyfer y Flwyddyn Academaidd Berthnasol								
Bancffosfelen	**Blwyddyn Geni**	**2020**	**2021**	**2022**	**2023**	**2024**	**2025**	**2026**
	Blwyddyn Derbyn	**2024**	**2025**	**2026**	**2027**	**2028**	**2029**	**2030**
	Genedigaethau	9	3	6	4	10	3	7
	CYBLD	7	8	3				

Mae cymhariaeth o'r data geni a CYBLD sydd ar gael yn dangos nad yw nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru yn y Dosbarth Derbyn bob amser yn cyfateb yn uniongyrchol â nifer y plant a anwyd yn y dalgylch. Mewn rhai blynyddoedd, mae llai o ddisgyblion yn cofrestru nag a anwyd yn lleol, tra mewn blynyddoedd eraill mae cofrestriad y Dosbarth Derbyn yn uwch na nifer y genedigaethau a gofnodwyd yn y dalgylch. Gall hyn adlewyrchu ffactorau megis dewis rhieni, symudedd disgyblion, presenoldeb mewn darpariaeth amgen, neu disgyblion yn mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch. Er gwaethaf hyn, byddai hyd yn oed y blynyddoedd geni uwch yn trosi'n garfannau cymharol fach.

Yn gyffredinol, nid yw'r data geni sydd ar gael yn darparu tystiolaeth gref o'r potensial ar gyfer adferiad cynaliadwy yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol Bancffosfelen. Er y gall peth gynnydd ddigwydd yn y byr dymor, mae'r proffil cyffredinol yn awgrymu bod niferoedd y disgyblion yn debygol o aros yn isel, gan gefnogi'r rhagamcanion a amlinellir yn y ddogfen hon sy'n rhagweld pwysau parhaus yn gysylltiedig â chapasiti dros ben dros y blynyddoedd i ddod.

3.3 Cryfderau a gwendidau o ran cynnal y status quo

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys asesiad o gryfderau a gwendidau cynnal y status quo, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd a bygythiadau posibl yn sgil yr opsiwn hwn. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o sut y gall yr opsiwn hwn effeithio ar ansawdd a safonau addysg yr ysgol, effeithio ar y gymuned leol ac effeithio ar drefniadau teithio.

Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n cadw parhad a chynefindra i ddisgyblion, staff a theuluoedd, heb darfu ar unwaith ar ddysgu, llesiant,	Mae gan adeilad yr ysgol sgôr addasrwydd wael ac mae angen buddsoddiad sylweddol i ddarparu amgylchedd sy'n cyd-fynd yn llawn â

perthnasoedd sefydledig na chysylltiadau cymunedol.	disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru ac arferion addysgol modern
Mae'n cadw rôl yr ysgol fel ased cymunedol sefydledig ac yn cynnal mynediad lleol i addysg ym Mancffosfelen.	Prin o hyd fyddai'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau cyfoedion mwy o oedran a chyfnod datblygiad tebyg.
Dim newidiadau i drefniadau cludiant a dim costau ychwanegol.	Bydd lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau, gan barhau i effeithio ar y defnydd effeithlon o'r adeilad, adnoddau addysgol a chynaliadwyedd tymor hir yr ysgol.
Bydd effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau teithio cyfredol yn aros yr un fath.	Ni fydd pwysau ar y gyllideb a'r diffyg presennol yn cael sylw gan y bydd rhwymedigaethau a materion sy'n effeithio ar y gyllideb yn parhau i achosi problemau. Bydd y diffyg anghynaliadwy yn y gyllideb ar hyn o bryd yn parhau i gynyddu oherwydd niferoedd isel y disgyblion.
Mae'n cynnal darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn y gymuned, gan gefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050.	Mae disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn gan greu heriau parhaus mewn perthynas â chynllunio, cynnydd, asesu a gwahaniaethu o ran y cwricwlwm.
Mae'r ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, dysgu proffesiynol, datblygu'r cwricwlwm a rhannu ymarfer effeithiol.	Mae amcanestyniadau disgyblion yn dangos tuedd sefydlog yn y dyfodol hyd at 2031 ond rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau i fod yn isel gyda lefelau uchel o leoedd gwag gan arwain at ddefnydd aneffeithlon parhaus o'r adeilad ac adnoddau addysgol.
Mae'r trefniant rhannu arweinyddiaeth presennol yn darparu rhywfaint o sefydlogrwydd trefniadaethol ac yn denu tâl atodol ffederasiwn blynyddol sy'n cyfrannu at gostau arweinyddiaeth. Mae'r trefniant ffederasiwn meddal presennol yn denu tâl atodol o £6,000 y flwyddyn.	Er gwaethaf y ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol heb eu datrys mewn perthynas â nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a chyflwr/addasrwydd yr adeilad.
Byddai cynnal y trefniadau presennol yn caniatáu i'r ysgol barhau i adeiladu ar y berthynas sefydledig ag Ysgol Llanddarog a'r gymuned ehangach.	Gallai ehangder y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ymyriadau arbenigol a gwasanaethau cymorth

	ehangach fod yn fwy cyfyngedig na'r rhai sydd ar gael mewn ysgolion mwy.
Mae disgyblion eisoes yn elwa ar brofiadau ehangach drwy gydweithio, gan gynnwys ymweliadau addysgol, gweithgareddau chwaraeon a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol â grŵp ehangach o gyfoedion	Mae strwythurau staffio llai yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig, arbenigedd cwricwlwm, cydweithio proffesiynol a gwydnwch trefniadaethol.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gweithredu cynllun gwella wedi'i dargedu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud a'r adeilad megis atgyweirio toeau a chywiro problemau gyda'r neuadd a gwella cyfleusterau'r disgyblion.	Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol, heb unrhyw sicrwydd y byddai buddsoddiad o'r fath yn gwella hyfywedd neu gynaliadwyedd tymor hir.
Y potensial i gynnwys y gymuned mewn codi arian a gwirfoddoli i gryfhau gweithrediadau'r ysgol a lleihau cyllidebau diffyg.	Gallai pwysau ariannol parhaus gyfyngu fwyfwy ar ddatblygu'r cwricwlwm, hyblygrwydd staffio, gwaith gwella'r ysgol a buddsoddiad mewn darpariaeth addysgol.
Er y gallai gwella cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol wella ansawdd yr amgylchedd dysgu, byddai'n rhaid gwneud buddsoddiad cyfalaf sylweddol. O ystyried y patrwm presennol o ran niferoedd isel ar y gofrestr a niferoedd cyfyngedig o'r dalgylch, mae'n ansicr a fyddai buddsoddiad o'r fath ar ei ben ei hun yn arwain at gynnydd parhaus yn nifer y disgyblion neu'n mynd i'r afael â chynaliadwyedd tymor hir yr ysgol.	Gallai niferoedd isel parhaus effeithio ymhellach ar hyfywedd a gwydnwch trefniadaethol yr ysgol a pha mor ddeniadol ydyw i ddarpar deuluoedd.
Mae'r trefniant ffederasiwn meddal presennol yn darparu cyfleoedd i ddatblygu ymhellach gydweithio, dysgu proffesiynol a gweithgareddau a rennir ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn ar eu pennau eu hunain yn annhebygol o fynd i'r afael â'r heriau cynaliadwyedd sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.	Gallai diffyg cynyddol barhau i dyfu, gan olygu y bydd angen mwy o gymorth ariannol gan yr Awdurdod Lleol.
	Gallai dirywiad pellach yn adeilad yr ysgol gynyddu rhwymedigaethau cynnal a

	chadw, risgiau gweithredol a phryderon iechyd a diogelwch.
	Gallai pryderon ynghylch addasrwydd yr adeilad a chynaliadwyedd tymor hir olygu bod rhieni yn fwy tebygol o ddewis ysgolion amgen.
	Rhagwelir y bydd lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau, gan arwain at aneffeithlonrwydd parhaus a phwysau ar adnoddau cyhoeddus.
	Gallai ansicrwydd tymor hir ynghylch cynaliadwyedd yr ysgol yn y dyfodol effeithio ar recriwtio staff, cadw staff, hyder rhieni a phatrymau cofrestru yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Byddai cadw'r trefniadau presennol yn darparu parhad a sefydlogrwydd i ddisgyblion, staff a theuluoedd yn y tymor byr. Byddai dysgwyr yn aros mewn amgylchedd cyfarwydd ac yn parhau i gael eu haddysgu gan staff y maent yn eu hadnabod, heb unrhyw darfu sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgol neu drosglwyddo i ysgol arall. Cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn yn 2018 ac nid yw mewn categori gweithgarwch dilynol ar hyn o bryd, sy'n dangos ei bod yn parhau i ddarparu safon dderbyniol o addysg. O ganlyniad, gellid disgwyl yn rhesymol y byddai safonau addysg yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos o dan y status quo.

Byddai'r ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth gydag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog ac Ysgol Pontiets yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, deialog broffesiynol a rhannu ymarfer effeithiol. Byddai'r disgyblion yn parhau i elwa ar weithgareddau ar y cyd, ymweliadau addysgol, cyfleoedd chwaraeon a phrofiadau dysgu ehangach, a byddai staff yn parhau i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm ar y cyd a dysgu proffesiynol. Mae'r trefniadau hyn wedi cryfhau cyfleoedd addysgol i ddysgwyr ac wedi darparu lefel bwysig o sefydlogrwydd trefniadaethol a pharhad arweinyddiaeth.

Fodd bynnag, er gwaethaf y manteision sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ffederasiwn presennol, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn ymwneud â nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. Mae'r trefniadau presennol wedi helpu i liniaru rhai o'r heriau hyn ond nid ydynt wedi mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a ysgogodd yr adolygiad. O ganlyniad, ni fyddai llawer o'r ffactorau sy'n effeithio ar hyfywedd a chynaliadwyedd tymor hir yr ysgol yn newid o dan yr opsiwn hwn.

Her sylweddol o dan yr opsiwn hwn fyddai parhau â niferoedd isel iawn o ddisgyblion a threfniadau addysgu oedran cymysg. Er bod staff yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr, mae maint bach yr ysgol yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau cyfoedion mwy o oedran a chyfnod

datblygiad tebyg. Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, trafodaeth rhwng cyfoedion, gwaith grŵp, cystadleuaeth iach a phrofiadau cymdeithasol ehangach yn fwy cyfyngedig nag mewn lleoliadau ysgol mwy.

Mae'r strwythur dosbarthiadau presennol hefyd yn golygu bod angen i athrawon gynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu ar draws sawl grŵp blwyddyn a cham cynnydd yn yr un ystafell ddosbarth. Er bod hyn yn cael ei reoli'n effeithiol gan staff, mae'n anorfod y bydd yn cynyddu'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chyflwyno, asesu a gwahaniaethu o ran y cwricwlwm. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni uchelgais ac ehangder llawn y Cwricwlwm i Gymru mewn cyd-destun ysgol fach iawn yn parhau.

Yn ogystal, byddai dysgwyr yn parhau i gael mynediad mwy cyfyngedig i ehangder cyfleoedd y cwricwlwm, arbenigedd, gweithgareddau allgyrsiol, cymorth llesiant a darpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael yn hwylus mewn ysgolion mwy.

Hefyd, ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella'r amgylchedd dysgu a phrin yw'r dystiolaeth y byddai buddsoddi yn yr adeilad yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau addysgol, trefniadaethol a chynaliadwyedd ehangach sy'n wynebu'r ysgol.

Mae amcanestyniadau disgyblion yn dangos bod disgwyl i'r niferoedd aros yn isel ac y bydd y lleoedd gwag yn parhau. O ganlyniad, mae'r heriau addysgol, trefniadaethol ac ariannol sy'n gysylltiedig â gweithredu ysgol fach iawn yn debygol o barhau dros y tymor hwy. Er y gellid parhau i gynnal safonau, o dan yr opsiwn hwn prin fyddai'r cyfle i ehangu profiadau addysgol, cryfhau capasiti arweinyddiaeth, cynyddu gwydnwch trefniadaethol, gwella hyblygrwydd y cwricwlwm neu sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

Yn gyffredinol, byddai cadw'r trefniadau presennol yn sicrhau parhad ac yn darparu sefydlogrwydd tymor byr i ddisgyblion a theuluoedd. Fodd bynnag, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol nac yn creu'r amodau angenrheidiol i sicrhau gwelliant a chynaliadwyedd tymor hir.

Er bod safonau addysgol yn debygol o gael eu cynnal yn y tymor byr, mae'r opsiwn yn gyfyngedig o ran ei allu i wella profiadau dysgwyr, ehangu cyfleoedd y cwricwlwm, cryfhau capasiti arweinyddiaeth, gwella gwydnwch trefniadaethol neu wella'r amgylchedd dysgu. Yn bwysig ddigon, byddai'r opsiwn yn cynnal y sefyllfa bresennol yn hytrach na chyflawni'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd drwy'r adolygiad.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai cadw'r status quo yn cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth yn y gymuned yn y tymor byr. Fodd bynnag, gallai'r heriau parhaus sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion a phwysau ariannol, effeithio ar gynaliadwyedd tymor hwy y ddarpariaeth hon.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau.
Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn Yn gyffredinol, byddai cadw'r status quo yn methu â mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag, sefyllfa ariannol anghynaladwy, a phryderon ynghylch addasrwydd a chyflwr yr adeilad. Er y byddai'n darparu sefydlogrwydd tymor byr a bod y ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cydweithio, rhannu arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a phrofiadau addysgol ehangach i ddisgyblion, mae'r trefniadau hyn wedi bod ar waith ers mis Medi 2024 ac nid ydynt wedi mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Ni fyddai cadw'r status quo yn cynnig ateb tymor hir hyfyw i wella'r ddarpariaeth addysgol, mynd i'r afael â phwysau cyllidebol, neu sicrhau cynaliadwyedd yr ysgol i ddysgwyr y dyfodol. Felly, nid yw'r opsiwn hwn yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithiol na strategol ac nid yw'n cael ei ystyried yn ffordd bosibl ymlaen. Mae hyn er gwaethaf y manteision sydd eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y ddarpariaeth bresennol yn hytrach na'i gwella.

3.4 Pam ystyrir bod angen newid

O ystyried y ffactorau a ddisgrifir uchod, mae angen newid i sicrhau darpariaeth addysg o ansawdd uchel i blant lleol. Ystyrir bod cynnal yr ysgol yn ei ffurf bresennol yn ariannol anghynaliadwy. O ystyried cyflwr ac addasrwydd adeilad Ysgol Bancffosfelen, bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i sicrhau ei fod yn cyrraedd safon dderbyniol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn galluogi ailddyrannu adnoddau i ysgolion sy'n fwy addas ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Byddai hefyd yn mynd i'r afael â materion lleoedd gwag ac yn cefnogi defnydd mwy effeithlon o arian cyhoeddus. Un o brif nodau'r cynnig hwn yw darparu ystod ehangach o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion yn y gymuned sy'n deg o gymharu ag ardaloedd eraill.

3.5 Opsiynau Amgen a ystyriwyd

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026, ystyriodd yr Awdurdod Lleol ystod o opsiynau amgen cyn nodi cynnig a ffefrir. Aseswyd pob opsiwn yn erbyn ei botensial i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen, gan gynnwys darpariaeth

addysgol, cynaliadwyedd ariannol, lleoedd gwag, cyflwr ac addasrwydd yr adeilad, yr effaith ar y gymuned a hyfywedd tymor hir yr ysgol.

Cynhaliwyd dadansoddiad SWOT ar wahân (gan edrych ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) ar gyfer pob opsiwn i helpu i nodi'r ffordd fwyaf addas ymlaen. Mae'r asesiad hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad E.

Wrth asesu opsiynau amgen sy'n cynnwys trefniadau ffedereiddio, cydweithio, clystyru ac ysgol â mwy nag un safle, ystyriodd yr Awdurdod Lleol brofiad y trefniant ffederasiwn anffurfiol presennol rhwng Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, sydd wedi bod ar waith ers mis Medi 2024. Roedd hyn yn darparu tystiolaeth ymarferol o'r manteision a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chydweithio agosach rhwng ysgolion.

Mae dadansoddiad SWOT manwl o'r holl opsiynau a ystyriwyd wedi'i gynnwys yn **Atodiad E**

Opsiwn 1. Cynnal y Status Quo

O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Bancffosfelen yn parhau ar agor heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r trefniadau presennol.
Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r ddarpariaeth addysg yn y gymuned ac yn osgoi tarfu i ddisgyblion, staff a theuluoedd yn y tymor byr. Ni fyddai'r trefniadau teithio presennol yn newid a byddai'r ysgol yn parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o'i lleoliad presennol.

Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol ar hyn o bryd. Rhagwelir y byddai nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel, y byddai nifer y lleoedd gwag yn parhau i fod yn fwy na 45% o'r capasiti (CYBLD), y byddai'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol yn parhau i gynyddu ac y byddai angen buddsoddiad sylweddol i fynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd yr adeiladau.

Er bod y trefniadau rhannu pennaeth a'r ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Llanddarog yn darparu rhai manteision drwy gydweithio a rhannu arweinyddiaeth, nid yw'r trefniadau hyn wedi mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Byddai'r heriau addysgol sy'n gysylltiedig â dosbarthiadau oedran cymysg hefyd yn parhau.

Am y rhesymau hyn, nid yw cynnal y status quo yn cael ei ystyried yn ateb tymor hir cynaliadwy.

Opsiwn 2. Newid ystod oedran Ysgol Bancffosfelen o 4-11 i 3-11

Ystyriodd yr Awdurdod Lleol a allai ymestyn ystod oedran yr ysgol i ddarparu addysg o 3 oed yn hytrach na 4 oed wella cynaliadwyedd yr ysgol.

Gallai'r opsiwn hwn greu darpariaeth feithrin ychwanegol a chynyddu cyfleoedd ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yn y gymuned. Fodd bynnag, dangosodd dadansoddiad na fyddai'r cynnydd tebygol yn nifer y disgyblion yn ddigonol i wella hyfywedd cyffredinol yr ysgol yn sylweddol. Byddai'r materion sy'n ymwneud â lleoedd

gwag, cynaliadwyedd ariannol, cyflwr yr adeilad a threfniadaeth addysgol yn parhau i raddau helaeth.

O ganlyniad, ni chredwyd bod yr opsiwn hwn yn rhoi ateb tymor hir hyfyw.

Opsiwn 3. Ffedereiddio ag ysgolion eraill

Ystyriodd yr Awdurdod Lleol a allai ffederasiwn ffurfiol ag ysgol arall ddarparu dyfodol cynaliadwy i Ysgol Bancffosfelen.

Gallai ffedereiddio gryfhau trefniadau llywodraethu, darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arweinyddiaeth ac annog mwy o gydweithio rhwng ysgolion. Gallai hefyd ddarparu cyfleoedd i rannu adnoddau, arbenigedd proffesiynol a phrofiadau o ran y cwricwlwm.

Nododd yr Awdurdod Lleol fod llawer o'r manteision sy'n gysylltiedig â ffedereiddio eisoes yn cael eu gwireddu drwy drefniadau presennol yr ysgol. Mae Ysgol Bancffosfelen yn rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog ar hyn o bryd, ac mae'r ddwy ysgol eisoes yn gweithio'n agos gyda'i gilydd mewn nifer o feysydd mewn trefniant ffederasiwn meddal. Mae'r trefniant ffederasiwn anffurfiol hwn wedi cefnogi capasiti arweinyddiaeth, hwyluso cydweithio rhwng staff a darparu cyfleoedd i rannu arferion da.

Ers mis Medi 2024, mae'r trefniant hefyd wedi darparu manteision pendant i ddisgyblion, gan gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a rennir, ymweliadau addysgol a rhyngweithio cymdeithasol ehangach â chyfoedion o ysgol arall. Mae rhannu cludiant ac adnoddau hefyd wedi golygu bod modd cynnal mwy o weithgareddau cyfoethogi na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

Er gwaethaf y trefniadau hyn, mae'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen yn parhau. Mae nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel, mae nifer y lleoedd gwag yn parhau i fod yn llawer uwch na'r hyn sy'n cael ei ystyried yn effeithlon o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol yn parhau i gynyddu ac mae angen buddsoddiad sylweddol i fynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgol. Yn ogystal, byddai'r heriau addysgol sy'n gysylltiedig â charfanau bach a dosbarthiadau oedran cymysg yn parhau.

Daeth yr Awdurdod Lleol i'r casgliad, er y gallai ffederasiwn ffurfiol ddarparu rhai manteision llywodraethu a threfniadaethol ychwanegol, bod y trefniant rhannu arweinyddiaeth presennol yn dangos bod ffederasiwn ar ei ben ei hun yn annhebygol o ddarparu manteision addysgol ychwanegol sylweddol y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn cael eu gwireddu. Hefyd, ni fyddai ffederasiwn ffurfiol yn mynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n ymwneud â niferoedd disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, cyflwr yr adeilad ac addasrwydd yr adeilad.

Am y rhesymau hyn, ni chredwyd y byddai ffedereiddio yn darparu ateb tymor hir digonol ac ni chafodd hwn ei nodi fel yr opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 4. Cydweithio ag ysgolion eraill

Ystyriodd yr Awdurdod Lleol a allai mwy o gydweithio ag ysgolion cyfagos ddarparu ateb amgen.

Gallai'r dull hwn alluogi mwy o rannu adnoddau, arbenigedd staff a chyfleoedd o ran y cwricwlwm wrth gadw'r ddarpariaeth addysg yn yr ysgol. Gallai disgyblion elwa ar fwy o gyfleoedd i gydweithio â dysgwyr o ysgolion eraill a gallai staff gael mynediad at rwydweithiau proffesiynol ehangach a chyfleoedd dysgu proffesiynol.

Nododd yr Awdurdod Lleol fod Ysgol Bancffosfelen eisoes yn elwa ar rywfaint o gydweithio drwy'r trefniant rhannu pennaeth presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Mae'r trefniant hwn wedi galluogi'r ysgolion i gydweithio ar nifer o faterion ac mae eisoes wedi sicrhau llawer o'r manteision sy'n gysylltiedig fel arfer â mwy o gydweithio, gan gynnwys cyfleoedd chwaraeon a rennir, ymweliadau addysgol, rhyngweithio cymdeithasol ehangach rhwng disgyblion a chyfleoedd cyfoethogi gwell o ran y cwricwlwm.

Er y gallai mwy o gydweithio wella rhai agweddau ar y ddarpariaeth addysgol, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r niferoedd isel o ddisgyblion yn yr ysgol, y lefelau uchel o leoedd gwag, rhwymedigaethau cynnal a chadw sylweddol neu'r diffyg yn y gyllideb. Byddai'r materion o ran cyflwr ac addasrwydd sy'n gysylltiedig ag adeiladau'r ysgol hefyd yn parhau heb eu datrys. Felly, byddai hyfywedd tymor hir yr ysgol yn parhau i fod yn ansicr.

Daeth yr Awdurdod Lleol i'r casgliad, er y gallai mwy o gydweithio ddarparu rhai manteision addysgol ychwanegol, mai prin fyddai'r rheiny y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r trefniadau presennol ac na fyddent yn darparu ateb tymor hir digonol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

O ganlyniad, y farn oedd nad oedd yr opsiwn hwn yn gallu mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Opsiwn 5. Sefydlu ysgol â mwy nag un safle

Ystyriodd yr Awdurdod Lleol a allai sefydlu ysgol â mwy nag un safle ddarparu modd o gadw darpariaeth addysgol o fewn Bancffosfelen wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau gweithredol sy'n wynebu'r ysgol.

Fel rhan o'r dull hwn, byddai Ysgol Bancffosfelen yn rhan o un ysgol sy'n gweithredu ar draws mwy nag un safle, lle byddai arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethu, staffio ac adnoddau yn cael eu rheoli gyda'i gilydd. Gallai'r trefniant hwn olygu bod modd cadw darpariaeth addysgol o fewn y gymuned o bosib wrth greu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng staff a dysgwyr.

Nododd yr Awdurdod Lleol fod Ysgol Bancffosfelen eisoes yn elwa ar drefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Mae'r trefniant hwn wedi darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arweinyddiaeth, gweithio ar y cyd, a chydweithio rhwng y ddwy ysgol, gan ddarparu rhai o'r manteision a allai fod yn gysylltiedig â model ysgol â mwy nag un safle fel arfer. Nododd yr Awdurdod Lleol hefyd fod llawer o'r

manteision addysgol a chyfoethogi sy'n aml yn gysylltiedig â threfniant ysgol â mwy nag un safle, megis gweithgareddau a rennir, rhyngweithio ehangach rhwng disgyblion a chydweithio rhwng staff, eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r trefniadau ffederasiwn anffurfiol presennol.

Gallai trefniant ysgol â mwy nag un safle sicrhau rhai arbedion effeithlonrwydd trefniadaethol ychwanegol a gallai helpu ymhellach i rannu adnoddau arweinyddiaeth ac addysgu ar draws sawl lleoliad. Byddai hefyd yn golygu bod modd parhau i ddefnyddio'r adeilad ysgol presennol at ddibenion addysgol.

Fodd bynnag, ni fyddai trefniant ysgol â mwy nag un safle yn mynd i'r afael â nifer o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol. Byddai'r materion sylweddol yn ymwneud â chyflwr ac addasrwydd yr adeilad yn parhau a byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd i gynnal a chadw'r safle. Byddai lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau a byddai'r costau gweithredol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw a rheoli sawl safle yn parhau i fod yn sylweddol. Yn ogystal, byddai llawer o'r heriau addysgol sy'n gysylltiedig â'r niferoedd bach o ddisgyblion yn yr ysgol yn parhau, yn enwedig lle mae dysgwyr yn parhau i gael eu dosbarthu ar draws safleoedd ar wahân.

Mae'r tabl canlynol yn dangos bod 220 o leoedd gwag ar gael yn yr ysgolion cynradd o amgylch Ysgol Bancffosfelen, sy'n dangos na fyddai cadw'r adeilad fel rhan o ysgol â mwy nag un safle yn gost-effeithiol.

Ni fyddai trefniant ysgol â mwy nag un safle yn cael ei ystyried yn briodol yn yr ardal hon gan na fyddai nifer y disgyblion yn cyfiawnhau'r cymhlethdod a'r gost ychwanegol, felly byddai'r dull hwn yn aneffeithlon ac ni fyddai'n darparu buddion addysgol neu ariannol.

Ni fyddai creu ysgol â mwy nag un safle yn datrys y materion sylfaenol y mae'r ysgol yn eu hwynebu, gan gynnwys diffyg anghynaliadwy yn y gyllideb a materion yn ymwneud â chyflwr yr adeilad, addasrwydd yr adeilad a niferoedd isel y disgyblion.

Ysgol	**Ysgol Bancffosfelen**	**Ysgol Llanddarog**	**Ysgol Pontyberem**	**Ysgol Gynradd Ponthenri**	**Ysgol Gynradd Gwynfryn**	**Cyfanswm**
Capasiti 2025/2026	98	94	242	94	95	669
Nifer ar y gofrestr CYBLD 2026	48	56	210	60	60	449
Nifer y lleoedd gwag	50	38	32	34	35	220
% y lleoedd gwag	51.0%	40.4%	13.2%	36.2%	36.8%	32.9%

Daeth yr Awdurdod Lleol i'r casgliad, er y gallai trefniant ysgol â mwy nag un safle ddarparu rhai manteision trefniadaethol ychwanegol, mai prin fyddai'r rheiny y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r trefniadau rhannu arweinyddiaeth presennol. Hefyd, ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sy'n

ymwneud â niferoedd disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, cyflwr yr adeilad ac addasrwydd yr adeilad.

O ganlyniad, er y gallai trefniant ysgol â mwy nag un safle gadw darpariaeth addysgol yn y gymuned, y farn oedd na fyddai'n gallu darparu ateb tymor hir digon cynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol ac felly ni chafodd ei nodi fel yr opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 6. Clystyru Ysgol Bancffosfelen ag ysgolion lleol eraill

Ystyriodd yr Awdurdod Lleol a allai trefniant clystyru ffurfiol ag ysgolion cyfagos ddarparu opsiwn arall cynaliadwy yn lle cau Ysgol Bancffosfelen.

Mae clystyru ysgolion yn golygu bod ysgolion yn cydweithio i rannu adnoddau, arbenigedd a chyfleoedd addysgol, wrth barhau i fod yn sefydliadau ar wahân. Gallai hyn gynnwys cydweithio i gynllunio'r cwricwlwm, datblygu staff ar y cyd, gweithgareddau a rennir i ddysgwyr a mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion.

Gallai trefniant clystyru ddarparu rhai manteision addysgol a phroffesiynol o bosib. Gallai dysgwyr elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd â disgyblion o ysgolion eraill a gallai staff elwa ar fwy o fynediad at ddysgu proffesiynol a chydweithio. Hefyd byddai'r ysgol yn parhau i fod ar agor yn y gymuned ac yn parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol.

Nododd yr Awdurdod Lleol fod Ysgol Bancffosfelen eisoes yn elwa ar rywfaint o gydweithio drwy'r trefniant rhannu pennaeth presennol a'r ffederasiwn meddal ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Mae'r trefniant hwn wedi galluogi'r ysgolion i gydweithio ar nifer o faterion ac mae eisoes wedi sicrhau llawer o'r manteision sy'n gysylltiedig fel arfer â chlystyru a chydweithio, gan gynnwys cyfleoedd chwaraeon a rennir, ymweliadau addysgol, rhyngweithio cymdeithasol ehangach rhwng disgyblion a chyfleoedd cyfoethogi gwell o ran y cwricwlwm.

Fodd bynnag, ni fyddai clystyru yn mynd i'r afael â'r prif faterion sy'n wynebu'r ysgol. Byddai nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel, byddai'r nifer mawr o leoedd gwag yn parhau, a byddai'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol yn parhau heb ei ddatrys. Byddai'r materion o ran cyflwr ac addasrwydd sy'n gysylltiedig ag adeiladau'r ysgol hefyd yn parhau a byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd. Er y gallai clystyru wella cyfleoedd i gydweithio, byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn carfanau bach a dosbarthiadau oedran cymysg.

Daeth yr Awdurdod Lleol i'r casgliad, er y gallai dull clystyru ddarparu rhai manteision addysgol ychwanegol, mai prin fyddai'r rheiny y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r trefniadau presennol ac na fyddent yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sylfaenol, sef cynaliadwyedd, lleoedd gwag, hyfywedd ariannol, cyflwr yr adeilad ac addasrwydd yr adeilad. O ganlyniad, ni nodwyd yr opsiwn hwn fel yr un a ffefrir.

Opsiwn 7. Mwy o Ddefnydd Cymunedol o Safle'r Ysgol

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ystyriodd yr Awdurdod Lleol a fyddai'n ymarferol ac yn economaidd cydleoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Bancffosfelen i gefnogi'r defnydd parhaus o'r safle a gwrthbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r ysgol ac a ellid defnyddio'r adeiladau presennol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi darparu amrywiaeth o wasanaethau cymunedol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall ysgolion ddarparu cyfleusterau cymunedol gwerthfawr ac y gall cydleoli gwasanaethau, mewn rhai amgylchiadau, gefnogi defnydd mwy effeithlon o asedau cyhoeddus. Felly, ystyriwyd a ellid darparu gwasanaethau cymunedol, addysgol, gofal plant, iechyd neu wasanaethau cyhoeddus eraill ychwanegol yn adeilad yr ysgol.

Fodd bynnag, mae gan yr ysgol lefel sylweddol o leoedd gwag ar hyn o bryd ac mae'n defnyddio adeilad sydd wedi nodi problemau o ran cyflwr ac addasrwydd. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i fynd i'r afael â'r materion hyn waeth a oedd gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cydleoli ar y safle. Hefyd, nid yw'n glir sut y byddai cyflwyno gwasanaethau ychwanegol yn creu digon o incwm neu arbedion gweithredol i fynd i'r afael â heriau ariannol sylfaenol yr ysgol, gan gynnwys y diffyg presennol yn y gyllideb, niferoedd isel y disgyblion a chyfran uchel o leoedd gwag.

Ystyriodd yr Awdurdod Lleol oblygiadau ymarferol darparu gwasanaethau ychwanegol ar y safle hefyd. Mae'r adeiladau'n cael eu defnyddio at ddibenion ysgol sy'n golygu nad oes lle ychwanegol yn yr adeilad i ddarparu gwasanaethau ychwanegol a defnydd cymunedol, yn enwedig pan fydd yr ysgol ar agor. Mae'r Cylch Meithrin eisoes yn gweithredu o'r ysgol ac mae'r ystafelloedd sy'n weddill yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd dosbarth neu ar gyfer y gwasanaeth cinio.

Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol nifer fach o leoedd parcio ac nid oes digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y staff, y defnyddwyr gwasanaeth a'r ymwelwyr ychwanegol a allai fod yn gysylltiedig â chydleoli gwasanaethau eraill. Gallai hyn greu anawsterau gweithredol, rhoi pwysau ychwanegol ar drefniadau parcio lleol ac effeithio ar weithrediad diogel y safle o bosib.

Mae problemau mynediad o ran grisiau i'r fynedfa a thrwy'r adeilad, mae'r caeau ar oleddf ac mae'n annhebygol y bydd eu hangen ar dimau chwaraeon lleol ar gyfer gemau, mae diffyg cyfleusterau hygyrch i bobl anabl ac ar hyn o bryd nid oes lle yn yr adeilad i ddarparu gwasanaethau ychwanegol heb darfu ar yr ysgol.

Ystyriwyd hefyd y galw tebygol am gydleoli gwasanaethau yn yr ardal. Mae'r Cylch Meithrin eisoes yn gweithredu ar y safle ac mae'r cyfleoedd cydleoli ychwanegol yn gyfyngedig oherwydd maint, cynllun a hygyrchedd yr adeilad.

Daeth yr Awdurdod Lleol i'r casgliad na fyddai lleoli gwasanaethau ychwanegol yn y tymor hir yn darparu ateb cynaliadwy nac yn darparu digon o fantais ariannol i wrthbwyso'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw, gweithredu a gwella'r safle.

Er bod cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol o gyfleusterau ysgol a chydweithio â sefydliadau lleol wedi'u cydnabod, daethpwyd i'r casgliad na fyddai cydleoli gwasanaethau yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol o ran materion addysgol ac ariannol, cyflwr yr adeilad ac addasrwydd yr adeilad sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen. O ganlyniad, ni chredwyd bod cydleoli a mwy o ddefnydd cymunedol yn opsiwn amgen ymarferol neu economaidd i'r cynnig yr ymgynghorir yn ei gylch.

Am y rhesymau hyn, nid oedd yr opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn opsiwn amgen cynaliadwy.

Opsiwn 8. Cau Ysgol Bancffosfelen a Throsglwyddo'r Disgyblion i'w hysgol agosaf

Ystyriodd yr Awdurdod Lleol yr opsiwn i gau Ysgol Bancffosfelen a chaniatáu i'r disgyblion drosglwyddo i'w hysgol addas agosaf, yn amodol ar ddewis y rhieni a'r lleoedd sydd ar gael. O dan yr opsiwn hwn, gallai'r disgyblion fynychu nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg cyfagos yn yr ardal leol yn hytrach na throsglwyddo i un ysgol dderbyn ddynodedig.

Byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â nifer o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol. Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion sydd ag adeilad, cyflwr ac addasrwydd gwell yn gyffredinol na'r adeilad presennol yn Ysgol Bancffosfelen a byddent yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gan yr ysgolion yn yr ardal leol ddigon o leoedd i ddarparu ar gyfer yr holl ddysgwyr sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd, a byddai cau'r ysgol yn lleihau nifer y lleoedd gwag, yn mynd i'r afael â'r diffyg parhaus yng nghyllideb yr ysgol ac yn dileu'r angen am fuddsoddiad sylweddol yn yr adeilad presennol yn y dyfodol.

Nododd yr Awdurdod Lleol y gallai'r disgyblion elwa ar fynediad at gyfleoedd cwricwlwm ehangach, grwpiau cyfoedion mwy, mwy o ddarpariaeth allgyrsiol a phrofiadau addysgol ehangach. Hefyd mae gan nifer o'r ysgolion cyfagos strwythurau staffio mwy, capasiti arweinyddiaeth cryfach a mwy o wydnwch trefniadaethol. Gallai cynnydd yn nifer y disgyblion hefyd gyfrannu mewn modd cadarnhaol at gynaliadwyedd yr ysgolion sy'n derbyn yn y tymor hir.

Fodd bynnag, byddai'r manteision addysgol sydd ar gael i ddisgyblion yn amrywio yn dibynnu ar yr ysgol y maent yn ei mynychu. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r ysgolion sy'n derbyn mewn categori gweithgarwch dilynol gan Estyn a'u bod yn darparu addysg sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, mae gwahaniaethau rhwng ysgolion o ran adeiladau, darpariaeth cwricwlwm, trefniadau arweinyddiaeth a deilliannau addysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y gallai disgyblion gael eu gwasgaru ar draws sawl ysgol wahanol. Gallai hyn arwain at wahanu grwpiau cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth sefydledig a gallai greu heriau ychwanegol mewn perthynas â llesiant dysgwyr, trefniadau pontio a pharhad y ddarpariaeth addysgol. Byddai'r trefniadau teithio hefyd yn amrywio yn dibynnu ar yr ysgol sy'n cael ei mynychu a gallai arwain at gynyddu pellteroedd teithio a chostau cludiant.

Byddai cau'r ysgol yn arwain at golli ased cymunedol pwysig a gallai olygu goblygiadau i wasanaethau lleol, gan gynnwys Cylch Meithrin Bancffosfelen. Hefyd, byddai cau'r ysgol yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog i ben, a fyddai'n golygu bod angen rhoi trefniadau arweinyddiaeth ac ariannol amgen ar waith.

Er y byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â niferoedd disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a chyflwr adeilad presennol yr ysgol, y farn oedd ei fod yn achosi rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cyrchfannau terfynol dysgwyr, profiadau addysgol, trefniadau pontio a pharhad i ddisgyblion. O ganlyniad, daeth yr Awdurdod Lleol i'r casgliad nad oedd yr opsiwn hwn yn darparu canlyniad digon cyson a rhagweladwy i ddysgwyr ac felly ni chafodd ei nodi fel y ffordd ymlaen a ffefrir.

Opsiwn 9. Cau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem

Yr opsiwn olaf a ystyriwyd oedd cau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu mynediad i ysgol cyfrwng Cymraeg fwy o faint â chyfleusterau modern, adeilad gwell ac amgylchedd dysgu sy'n fwy addas ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Byddai'r disgyblion yn elwa ar ddosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran, grwpiau cyfoedion mwy, cwricwlwm ehangach, cyfleoedd allgyrsiol ehangach a mynediad at amrywiaeth ehangach o arbenigedd staff, gwasanaethau llesiant a chymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Byddai'r cynnig hefyd yn gosod y disgyblion mewn ysgol sy'n elwa ar gapasiti arweinyddiaeth benodedig a strwythur trefniadaethol mwy cynaliadwy. Byddai trosglwyddo'r dysgwyr i un ysgol sy'n derbyn hefyd yn helpu i gynnal grwpiau cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth presennol a darparu mwy o barhad yn ystod y broses bontio.

Byddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â nifer o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen. Byddai'n lleihau lleoedd gwag yn ystâd ysgolion lleol, yn mynd i'r afael â diffyg cyllideb cynyddol yr ysgol ac yn dileu'r angen am waith cyfalaf cynnal a chadw sylweddol yn y dyfodol i ddatrys y materion cyflwr ac addasrwydd sy'n gysylltiedig ag adeilad presennol yr ysgol. Byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael ei ddarparu'n lleol a byddai cynnydd yn nifer y disgyblion yn cefnogi cynaliadwyedd parhaus yr ysgol dderbyn.

Roedd yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y byddai'r cynnig hefyd yn arwain at nifer o anfanteision. Byddai cau'r ysgol yn golygu colli ased cymunedol gwerthfawr sydd wedi'i hen sefydlu a gallai olygu goblygiadau i wasanaethau lleol, gan gynnwys Cylch Meithrin Bancffosfelen. Byddai disgyblion, teuluoedd a staff yn wynebu cyfnod o newid a throsglwyddo, a gallai fod goblygiadau staffio gan gynnwys adleoli neu ddileu swyddi o bosib. Byddai rhai disgyblion yn wynebu pellteroedd teithio hirach a byddai'r cynnig yn arwain at gostau ychwanegol i'r Awdurdod Lleol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y byddai cau Ysgol Bancffosfelen yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog i ben. Byddai hyn yn arwain at golli'r tâl atodol ffederasiwn sy'n gysylltiedig

â'r trefniant ac yn golygu y bydd yn rhaid i Ysgol Llanddarog adolygu ei strwythur arweinyddiaeth yn y dyfodol a'i threfniadau ariannol cysylltiedig.

Er ei fod yn cydnabod yr effaith ar y gymuned a'r tarfu sy'n gysylltiedig â throsglwyddo, roedd yr Awdurdod Lleol o'r farn mai'r opsiwn hwn oedd y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r heriau addysgol, ariannol, trefniadaethol ac eiddo sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen. Felly, cafodd ei nodi fel yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y broses ymgynghori.

3.6 Casgliad ynghylch yr opsiynau amgen

Ar ôl ystyried yr opsiynau amgen rhesymol sydd ar gael, daeth yr Awdurdod Lleol i'r casgliad na fyddai unrhyw un o'r opsiynau amgen yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r cyfuniad o heriau sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd.

Er bod nifer o opsiynau yn cyflwyno manteision posibl, naill ai'n unigol neu ar y cyd, ni fyddai unrhyw un yn datrys y materion yn ymwneud â niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, y diffyg cynyddol yng nghyllideb yr ysgol, neu gyflwr ac addasrwydd gwael yr adeiladau.

Hefyd, mae opsiynau amgen fel ffedereiddio, cydweithio, clystyru a threfniadau rhannu arweinyddiaeth eisoes wedi'u harchwilio i wahanol raddau ac nid ydynt wedi mynd i'r afael â'r pryderon sylfaenol ynghylch hyfywedd.

Aseswyd mai'r cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem oedd yr unig opsiwn sy'n gallu mynd i'r afael â'r heriau addysgol, ariannol, trefniadaethol ac eiddo sy'n wynebu'r ysgol wrth gadw addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai'n rhoi mynediad i'r disgyblion at gyfleusterau gwell, amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol, grwpiau cyfoedion sy'n briodol i'w hoedran ac amgylchedd dysgu mwy cynaliadwy.

Ar ôl gwerthuso'r holl opsiynau amgen realistig, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad bod achos cryf dros gau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem. Felly, mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi mai cau'r ysgol a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem yw'r opsiwn a ffefrir ganddo ar gyfer y broses ymgynghori.

4. Y Cynnig – Cau Ysgol Gynradd Bancffosfelen.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori ynghylch y cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen o 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem.

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen yn mynd rhagddo, yr opsiwn a ffefrir yw i'r disgyblion drosglwyddo i Ysgol Pontyberem o 1 Ionawr 2028 ymlaen.

Nid yw'r dyddiad gweithredu arfaethedig yn benderfyniad terfynol ac mae yn fater i'w ymgynghori arno. Wrth i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ystyried y cynnig, gofynnodd aelodau am ystyriaeth a fyddai, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, yn cael ei weithredu ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2027/28 gan y gallai hyn fod yn fwy priodol.

Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu barn ynghylch a ddylai'r gweithrediad ddigwydd ar 31 Rhagfyr 2027, ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2027/28, neu ar ddyddiad priodol arall. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad terfynol, bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys buddiannau dysgwyr, parhad addysgol a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol, yn cael eu hystyried.

Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud naill ai ar y cynnig i roi'r gorau i'r ysgol nac, os yw'r cynnig yn mynd rhagddo, ar y dyddiad gweithredu priodol.

Mae Ysgol Pontyberem yn Ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Cymraeg 4-11 yn Heol y Felin, Pontyberem, Llanelli, SA15 5EB tua 1.3 milltir i ffwrdd o Ysgol Bancffosfelen. Felly, cynigir y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgol o'r un cyfrwng iaith (Cyfrwng Cymraeg) a chategori (Cynradd Gymunedol).

Efallai y bydd rhai rhieni/gofalwyr disgyblion Ysgol Bancffosfelen yn dymuno dewis ysgol arall yn lle Ysgol Pontyberem. Mae'n bwysig pwysleisio bod rhieni'n cadw'r hawl i fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos.

Nid yw mynegi ysgol a ffefrir yn rhoi sicrwydd y caiff plentyn le yn yr ysgol honno. Bwriad cynnwys ysgol a ffefrir yn y ddogfen hon yw cefnogi cynllunio mewn perthynas â chapasiti, cludiant a pharhad addysg, ond nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni.

Bydd penderfyniadau terfynol ar leoliadau ysgolion yn cael eu gwneud yn unol â pholisi derbyn yr awdurdod lleol a dewis y rhieni, yn amodol ar fod lleoedd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol arall.

Os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu, bydd derbyn i unrhyw ysgol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i bolisi Derbyn yr Ysgol a bydd angen i rieni gyflwyno cais yn unol â hynny.

4.1 Rhesymau dros y Cynnig

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem. Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu i sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel ac i wella cyfleoedd a deilliannau i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Manteision Addysgol i'r Disgyblion

- Byddai'r disgyblion yn elwa ar ddysgu mewn amgylchedd ysgol mwy, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i gydweithio, trafod a dysgu ochr yn ochr â grŵp ehangach o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg. Mae hyn yn debygol o helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, cymdeithasol a meddwl yn feirniadol, wrth wella ymgysylltu â dysgu.
- Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran yn hytrach nag o fewn y trefniadau oedran cymysg presennol, sy'n

ymestyn dros fwy na dau grŵp blwyddyn. Byddai hyn yn golygu bod modd cynllunio profiadau dysgu yn agosach at anghenion y disgyblion o ran datblygiad a'r cwricwlwm ac yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chyfoedion, dysgu ar y cyd a her academaidd.

- Mae gan Ysgol Pontyberem strwythur staffio mwy, gan ddarparu mwy o gapasiti o ran y cwricwlwm, mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio proffesiynol ac amrywiaeth ehangach o arbenigedd i gefnogi addysgu, dysgu a datblygu'r cwricwlwm.
- Byddai'r disgyblion yn cael mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol, cyfleoedd chwaraeon, perfformiadau, ymweliadau addysgol a gweithgareddau arweinyddiaeth disgyblion. Gall y profiadau hyn gyfrannu'n gadarnhaol at hyder, llesiant a datblygiad personol ehangach dysgwyr.
- Mae Ysgol Pontyberem yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ac mae ganddi drefniadau sefydledig i gefnogi llesiant, cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Byddai'r ffaith bod yr ysgol yn fwy ac amrywiaeth ehangach o adnoddau yn gwella ei gallu i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr a darparu cymorth wedi'i dargedu lle bo angen.
- Byddai'r disgyblion yn mynychu ysgol sydd ag adeilad a chyfleusterau o ansawdd uchel. Cafodd Ysgol Pontyberem ei hadnewyddu'n eang yn 2019 ac mae'n darparu amgylcheddau dysgu modern, ystafelloedd dosbarth sydd ag adnoddau da, mannau dysgu awyr agored helaeth, lleoedd chwarae mawr ac amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys caeau chwarae a chyrtiau tenis/pêl-rwyd.
- Aseswyd bod gan yr ysgol sgôr Gradd A ar gyfer cyflwr ac addasrwydd, gan ddarparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel sy'n gymwys i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a diwallu anghenion dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Byddai'r cynnig yn gosod y disgyblion mewn cymuned ysgol fwy o faint a mwy cynaliadwy â chapasiti arweinyddiaeth benodedig a mwy o wydnwch trefniadaethol, gan helpu i sicrhau ansawdd tymor hir yr addysg sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ardal.

Manteision Strategol a Gweithredol

- Byddai'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r her barhaus o ran niferoedd y disgyblion yn Ysgol Bancffosfelen sy'n isel ac yn gostwng, gan helpu i ddarparu addysg mewn lleoliad ysgol mwy cynaliadwy sydd â mwy o wydnwch trefniadaethol.
- Byddai'r cynnig yn cyfrannu at leihau nifer y lleoedd gwag yn ystad ysgolion cynradd yr Awdurdod Lleol, gan helpu i ddefnyddio adnoddau addysgol yn fwy effeithlon a chyd-fynd ag amcanion y Rhaglen Moderneiddio Addysg.
- Byddai cau Ysgol Bancffosfelen yn dileu'r gofyniad i'r Awdurdod Lleol ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyfalaf i fynd i'r afael â materion adeiladu ac yn dileu'r costau cylch bywyd parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal safle'r ysgol.
- Byddai'r cynnig yn golygu bod modd defnyddio'r adnoddau sydd ar hyn o bryd wedi'u cyfeirio at gynnal ysgol fach â niferoedd isel o ddisgyblion, yn fwy

effeithiol, gan gefnogi buddsoddi mewn addysgu, dysgu a'r ddarpariaeth i ddisgyblion ar draws y system addysg ehangach.
- Mae lleoedd gwag yn Ysgol Pontyberem ac mae mewn sefyllfa dda i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau i'r safle a fyddai'n ofynnol er mwyn derbyn holl disgyblion o Ysgol Bancffosfelen heb amharu ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Byddai hyn yn gwneud y mwyaf o'r defnydd o'r adeilad, y cyfleusterau a'r adnoddau presennol yn y rhwydwaith ysgolion lleol.

Manteision Ariannol

- Byddai'n rhoi sylw i'r problemau o ran y diffyg sy'n cynyddu yng nghyllideb Ysgol Bancffosfelen a'i atal rhag gwaethygu.
- Byddai'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu, yn arwain at arbedion refeniw parhaus i'r Awdurdod Lleol.
- Mae'r cynnig yn creu cyfle posibl i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r safle.
- Gan fod y mwyafrif o'r cyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei gyfrifo yn ôl nifer y disgyblion, mae'r holl gyllid ar sail nifer y disgyblion yn trosglwyddo gyda phob plentyn i'w ysgol amgen, gan gefnogi cyllidebau ysgolion eraill.

Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn cefnogi nod strategol yr Awdurdod Lleol o gynnig darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel mewn ysgolion sydd ag adnoddau priodol dda ac sy'n addas i'r diben, wrth sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

4.2 Manteision ac Anfanteision y cynnig

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, dyma fanteision ac anfanteision posibl y cynnig o'i gymharu â'r status quo:

Manteision	Anfanteision
Mae'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, pryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol a materion yn ymwneud â chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol.	Byddai'r cynnig yn newid sylweddol i ddisgyblion, teuluoedd a staff a gallai greu ansicrwydd yn ystod y cyfnod pontio.
Mae'n lleihau nifer y lleoedd gwag yn yr ystad ysgolion leol ac yn helpu i ddefnyddio adeiladau addysgol ac adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithlon.	Efallai y bydd goblygiadau staffio, gan gynnwys newidiadau i rolau, prosesau adleoli a'r potensial ar gyfer dileu swyddi.
Mae'n darparu ateb tymor hir a chynaliadwy i faterion sydd wedi parhau er gwaethaf y trefniadau rhannu pennaeth a chydweithio presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Ysgol Llanddarog.	Byddai cau'r ysgol yn arwain at golli ased cymunedol a sefydliad addysgol gwerthfawr sydd wedi'i hen sefydlu ym Mancffosfelen.
Gallai gynyddu nifer y disgyblion a'r cyllid cysylltiedig yn yr ysgol sy'n derbyn a fyddai'n cryfhau hyfywedd tymor hir yr	Mwy o amser teithio i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd fel yr ysgol agosaf.

ysgol sy'n derbyn drwy gynyddu nifer y disgyblion a defnyddio staff ac adnoddau yn fwy effeithlon.	
Mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at ysgol sydd â chapasiti trefniadaethol cryfach, arbenigedd staffio ehangach a mwy o wydnwch arweinyddiaeth.	Costau cludiant i'r Awdurdod Lleol pe bai disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant yn dewis trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn.
Mae'n galluogi disgyblion i gael mynediad at gwricwlwm ehangach, cyfleoedd allgyrsiol ehangach, ymweliadau addysgol, gweithgareddau chwaraeon a phrofiadau cyfoethogi.	Gallai mwy o deithio arwain at symudiadau traffig a theithiau cerbydau ychwanegol ar adegau allweddol.
Mae'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a chymdeithasu o fewn carfanau mwy o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg, gan gefnogi cydweithio, llesiant, hyder a datblygiad cymdeithasol.	Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod yr ysgol yn cau, gallai fod effaith ar wasanaethau lleol, yn enwedig Cylch Meithrin Bancffosfelen, sydd wedi'i leoli yn Ysgol Bancffosfelen ac efallai y bydd angen ei adleoli. Os na ellid dod o hyd i leoliad amgen addas, byddai'n cael effaith ar deuluoedd lleol sy'n defnyddio'r ddarpariaeth.
Bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem sydd â gwell sgôr o ran addasrwydd adeiladau sef Gradd A sy'n cael ei ddiffinio fel adeilad a safle gyda'r canlynol, "Cyfleusterau da, sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol".	Byddai'n rhaid cynnal a chwblhau Proses Statudol ar gyfer y newidiadau arfaethedig. Gallai hyn greu ansicrwydd i staff a disgyblion ynghylch dyfodol yr ysgol wrth i'r broses Trefniadaeth Ysgolion fynd rhagddi dros gyfnod o amser.
Mae'n rhoi mynediad i ysgol sydd wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar sydd â mannau addysgu o ansawdd uchel, darpariaeth gref o ran llesiant, gwasanaethau cymorth sefydledig a chyfleusterau pwrpasol i gefnogi dysgu a chynhwysiant.	Byddai cau Ysgol Bancffosfelen yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog i ben a golygu bod angen rhoi trefniadau arweinyddiaeth amgen ar waith.
Mae'n cefnogi llesiant dysgwyr drwy gael mynediad at gymorth arbenigol ehangach, gwell darpariaeth ADY, arbenigedd ehangach o ran staff a gwasanaethau ymyrraeth sefydledig.	Gallai'r cynnig arwain at ail-leoli darpariaeth addysgol y tu allan i'r gymuned agos.
Disgwylir i'r newidiadau arfaethedig greu arbedion refeniw blynyddol ac atal y diffyg yn y gyllideb rhag cynyddu ymhellach yn Ysgol Bancffosfelen.	
Mae'n cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r disgyblion yn parhau	

i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn elwa ar fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn academaidd â charfan fwy o gyfoedion, gan gefnogi amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050.	
Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem sydd â gwell sgôr o ran cyflwr yr adeilad, sef Gradd A sy'n cael ei diffinio fel adeilad mewn cyflwr "Fel newydd".	
Byddai'n dileu'r costau ariannol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gweithredu, gwresogi a chynnal a chadw adeilad ysgol sy'n heneiddio ac sydd â heriau sylweddol o ran cyflwr ac addasrwydd.	
Mae'n creu model mwy gwydn a chynaliadwy o ddarpariaeth addysgol sydd mewn sefyllfa well i ymateb i heriau demograffig, addysgol ac ariannol yn y dyfodol.	

4.3 Rheoli Risg

Caiff y risgiau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn, a'r ffactorau rheoli eu rhestru isod:

Risg		Rheoli Risg
1.	Ansicrwydd i staff, disgyblion a theuluoedd ynghylch dyfodol yr ysgol yn ystod y broses ymgynghori a gwneud penderfyniadau.	Sicrhau cyfathrebu rheolaidd a thryloyw â staff, disgyblion, rhieni, a rhanddeiliaid ynghylch datblygiadau a phenderfyniadau allweddol drwy gydol y broses. Darparu cyfleoedd ar gyfer adborth ac ymgysylltu.
2.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i fwrw ymlaen â'r cynnig.	Cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion a'r gweithdrefnau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), gan gynnwys ymgynghoriad cynhwysfawr ac asesiadau effaith trylwyr.
3.	Tarfu ac effaith emosiynol newid amgylchedd ysgol, yn enwedig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sydd ar adegau pontio pwysig.	Ystyried yr angen am gynlluniau pontio ar gyfer yr holl ddisgyblion yr effeithir arnynt a'u rhoi ar waith os bydd angen. Mae Ysgol Pontyberem wedi'i nodi fel yr ysgol sy'n derbyn. Sicrhau cydweithrediad agos rhwng staff a theuluoedd er mwyn i'r broses drosglwyddo ddigwydd mewn modd

		cefnogol. Darparu cymorth bugeiliol neu arbenigol ychwanegol lle bo angen.
4.	Cyfyngiadau capasiti yn Ysgol Pontyberem, a allai effeithio ar faint dosbarthiadau, adnoddau, neu ansawdd yr addysg.	Mae gofynion adnoddau a chapasiti yn yr ysgol sy'n derbyn wedi'u hasesu yn gynnar. Rhagwelir y bydd angen addasiadau yn Ysgol Pontyberem i addasu i'r newidiadau arfaethedig heb amharu ar safonau.
5.	Pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion, gan godi pryderon am amser teithio, diogelwch a chost.	Mae Ysgol Pontyberem tua 1.3 milltir o Ysgol Bancffosfelen. Adolygu ac addasu trefniadau cludiant i gydymffurfio â pholisïau cludiant ysgol yr awdurdod lleol. Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys a sicrhau bod mesurau diogelwch teithio ar waith.
6.	Ansicrwydd staff ynghylch cyflogaeth yn y dyfodol a'r risg o ddileu swyddi.	Cefnogi staff trwy ymgynghoriad ffurfiol yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol.
7.	Effaith negyddol bosibl ar gydlyniant cymunedol a hunaniaeth leol oherwydd y cynnig i gau'r ysgol.	Edrych ar gyfleoedd i gadw defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol lle bo hynny'n bosibl.
8.	Risg o wasgaru disgyblion yn fwy eang gan arwain at golli rhwydweithiau cyfoedion a chymorth cymdeithasol.	Y cynnig yw symud y disgyblion i Ysgol Pontyberem er mwyn ceisio atal disgyblion rhag cael eu gwasgaru ond dewis y rhieni fydd yn pennu pa ysgol y bydd disgyblion yn ei mynychu os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu. Annog grwpiau cymorth gan gyfoedion a chynnal sianeli cyfathrebu rhwng y rheiny a arferai fod yn gyd-ddisgyblion lle bo hynny'n bosibl.
9.	Bydd angen cyllid cyfalaf sylweddol i ariannu'r addasiadau angenrheidiol yn yr ysgol sy'n derbyn.	Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried amrywiaeth o ffynonellau cyllid mewnol ac allanol posibl, gan gynnwys Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, i gefnogi unrhyw waith cyfalaf angenrheidiol. Byddai asesiadau dichonoldeb a chostau manwl yn cael eu cynnal i bennu cwmpas y gwaith a'r cyllid sydd ar gael.
10.	Byddai cau Ysgol Bancffosfelen yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog i ben. Gallai hyn greu pwysau ariannol ac arweinyddiaeth i Ysgol Llanddarog gan y byddai'r trefniant rhannu	Byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r corff llywodraethu, awdurdodau esgobaethol (os yw'n berthnasol), gwasanaethau gwella ysgolion ac arweinwyr ysgolion i gynllunio ar gyfer y broses bontio. Byddai digon o amser ar gael cyn gweithredu'r cynnig i adolygu trefniadau

	pennaeth presennol yn dod i ben a byddai'r ysgol yn colli'r tâl atodol ffederasiwn sy'n gysylltiedig â'r trefniant.	arweinyddiaeth, strwythurau'r gweithlu a chynllunio cyllideb i sicrhau parhad arweinyddiaeth a lleihau unrhyw effaith andwyol ar y ddarpariaeth addysgol yn Ysgol Llanddarog.

4.4 Asesiad o'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Bancffosfelen.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem pe bai'n mynd rhagddo:

Cau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Pontyberem	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgol fwy â chyfleusterau modern o ansawdd uchel sy'n fwy cymwys i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a darparu amgylchedd dysgu gwell.	Gallai disgyblion a theuluoedd wynebu tarfu ar arferion sefydledig, perthnasoedd a chynefindra, a allai effeithio ar lesiant emosiynol yn ystod y cyfnod pontio.
Mae gan Ysgol Pontyberem sgôr Gradd A ar gyfer cyflwr ac addasrwydd, o'i chymharu â Gradd D yn Ysgol Bancffosfelen, gan ddarparu amgylchedd dysgu diogel ac addas i'r diben.	Byddai cau'r ysgol yn arwain at golli ysgol yng nghymuned leol Bancffosfelen.
Byddai'r cynnig yn lleihau lefelau uchel o leoedd gwag ac yn helpu i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon ar draws yr awdurdod lleol.	Byddai'r cynnig yn cael effaith ar staff, gan gynnwys dileu swyddi neu adleoli o bosib, a allai effeithio ar lesiant staff a pharhad.
Byddai'n rhoi sylw i'r problemau o ran y diffyg ariannol yng nghyllideb Ysgol Bancffosfelen a'i atal rhag gwaethygu.	Mae'r ysgol yn ased cymunedol pwysig ar hyn o bryd, a gallai ei chau leihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymunedol a gweithgareddau lleol.
Byddai disgyblion yn elwa o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran na fydd yn ymestyn dros fwy na dau grŵp blwyddyn, o fewn carfan fwy, gan wella cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chyfoedion, cydweithio a her academaidd briodol.	Efallai y bydd effaith andwyol ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar leol, yn enwedig Cylch Meithrin Bancffosfelen, y byddai angen iddo symud o bosibl neu gallai fod mewn perygl os nad oes adeilad amgen addas ar gael.
Byddai'r disgyblion yn cael mynediad at ddarpariaeth cwricwlwm ehangach, cyfleoedd allgyrsiol ehangach ac amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol.	Byddai'r awdurdod lleol yn wynebu costau cludiant uwch sy'n gysylltiedig â darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion sy'n gymwys. Amcangyfrifir bod y costau yn £57,000 y flwyddyn ar hyn o bryd.

Byddai'r arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol cyffredinol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu wrth gyfrannu at gynaliadwyedd y ddarpariaeth addysg. Byddai cyllid nifer y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd gyda'r disgybl a thrwy hynny wella cyllideb yr ysgol honno.	Byddai rhai disgyblion yn wynebu pellteroedd teithio ac amseroedd teithio hirach, a allai effeithio ar arferion dyddiol a threfniadau teuluol.
Byddai'r garfan bresennol o ddisgyblion yn trosglwyddo gyda'i gilydd, gan helpu i gynnal grwpiau cyfeillgarwch sefydledig a lleihau tarfu yn ystod y broses bontio, yn ogystal â sicrhau mynediad parhaus at ddarpariaeth deg mewn ysgol yn yr un categori iaith.	Gallai mwy o draffig yn yr ysgol sy'n derbyn yn ystod yr oriau prysuraf effeithio ar y rhwydwaith priffyrdd lleol ac efallai y bydd angen rheoli hyn.
Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo o ysgol sydd â phroblemau hysbys o ran cyflwr yr adeilad i ysgol ag adeilad mewn cyflwr "Gradd A", gan ddarparu amgylchedd dysgu diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.	Efallai y bydd rhai disgyblion yn colli'r profiad o amgylchedd ysgol fach gan gynnwys maint dosbarthiadau llai a bod yn gyfarwydd â'r holl ddisgyblion a staff.
Bydd disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol sy'n derbyn gan sicrhau parhad y ddarpariaeth iaith a chefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.	Byddai cau'r ysgol yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog i ben, gan arwain at golli trefniadau rhannu arweinyddiaeth a chydweithio sefydledig rhwng yr ysgolion.
Byddai'r cynnig yn gosod disgyblion mewn ysgol sydd â strwythur arweinyddiaeth cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar un gymuned ysgol.	Byddai'r cynnig yn golygu goblygiadau ariannol i Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, na fyddai'n derbyn y tâl atodol o ran cyllid ffederasiwn sy'n gysylltiedig â'r trefniant presennol mwyach a byddai angen iddi adolygu ei strwythur arweinyddiaeth yn y dyfodol a'i threfniadau cyllido cysylltiedig.
Byddai'r disgyblion yn cael mynediad at amrywiaeth ehangach o arbenigedd staff, gwasanaethau cymorth arbenigol a darpariaeth llesiant, gan gynnwys cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), oherwydd y strwythur ysgol mwy.	
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Mae'r cynnig yn rhoi cyfle i sicrhau model mwy cynaliadwy o ddarpariaeth addysg yn yr ardal, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y Rhaglen Moderneiddio Addysg.	Efallai y bydd gwrthwynebiad gan rieni, staff a'r gymuned ehangach a allai effeithio ar ymgysylltu â'r broses a'r trefniadau pontio.

Gallai gwaredu'r safle gynhyrchu derbyniad cyfalaf y gellid ei ailfuddsoddi i wella cyfleusterau addysgol ar draws yr awdurdod, gan gynnwys drwy raglenni fel y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.	Gallai cau ysgol bentref sydd wedi'i hen sefydlu a'i heffaith ganfyddedig ar hunaniaeth a chydlyniant cymunedol achosi pryder cryf yn y gymuned.
Cyfle i leihau lleoedd nifer y lleoedd gwag ar lefel strategol, gan wella effeithlonrwydd a sicrhau bod adnoddau wedi'u targedu at ddarpariaeth gynaliadwy.	Risg na fyddai'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen yn yr ysgol sy'n derbyn yn cael ei gyflawni o fewn yr amserlenni neu'r gyllideb a ragwelir.
Gallai'r adnoddau sydd eu hangen ar hyn o bryd i gynnal ysgol fach â niferoedd isel o ddisgyblion gael eu hailgyfeirio at wella deilliannau addysgol a chefnogi dysgwyr ar draws y system addysg ehangach.	Mae risg o effaith tymor byr ar lesiant ac ymgysylltiad rhai disgyblion yn ystod y cyfnod pontio.
Cryfhau'r ddarpariaeth addysgol drwy fynediad at grwpiau cyfoedion mwy, cyfleoedd ehangach o ran y cwricwlwm a gwell capasiti staffio.	Gallai pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion effeithio ar bresenoldeb, prydlondeb neu gyfranogiad os na chaiff hyn ei reoli'n effeithiol.
Cyfle i gryfhau deilliannau addysgol tymor hir drwy fynediad at gyfleusterau gwell, cyfleoedd dysgu ehangach a gwasanaethau cymorth gwell.	Gallai amrywiadau yn nifer y disgyblion yn y dyfodol roi pwysau ychwanegol ar adeilad ac adnoddau yn yr ysgol sy'n derbyn
	Efallai y bydd rhai rhieni yn mynegi ffafriaeth dros ysgolion amgen a fydd yn golygu bod angen rheoli derbyniadau a disgwyliadau yn ofalus.
	Gallai dod â'r trefniant rhannu pennaeth presennol i ben greu pwysau tymor byr o ran arweinyddiaeth ac o safbwynt ariannol ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog wrth i drefniadau eraill gael eu sefydlu.
	Risg y gallai costau cludiant uwch wrthbwyso arbedion ariannol eraill sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem, gan elwa ar grwpiau cyfoedion mwy, cyfleoedd dysgu ehangach a mynediad at amrywiaeth ehangach o adnoddau. Mae Estyn yn adrodd bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn a bod yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cefnogi cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.

Byddai'r disgyblion hefyd yn elwa ar ddarpariaeth gref o ran llesiant, gofal ac anghenion dysgu ychwanegol, a gefnogir gan drefniadau pontio effeithiol. Yn

ogystal, mae gan yr ysgol arweinyddiaeth gref ac effeithiol a mwy o gapasiti i gefnogi gwelliant parhaus.

Ar y sail hon, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar safonau addysgol ac mae'n debygol o wella darpariaeth addysgu, dysgu a llesiant i ddisgyblion. Ceir rhagor o fanylion am yr effeithiau tebygol ar ansawdd a safonau yn **Adran 7**.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai cau'r ysgol yn golygu colli ased cymunedol pwysig a gallai gael effeithiau ehangach ar gydlyniant cymunedol, hunaniaeth a chyfranogiad mewn gweithgareddau lleol. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu canolbwynt ar gyfer digwyddiadau, ymgysylltu a defnydd cymunedol, a gallai ei chau leihau cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn y pentref. Efallai y bydd goblygiadau i wasanaethau lleol hefyd, yn arbennig Cylch Meithrin Bancffosfelen, y byddai angen iddo symud o bosibl a gallai fod mewn perygl os na fydd darpariaeth amgen addas yn cael ei sicrhau. Gallai hyn effeithio ar fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg leol o ran y blynyddoedd cynnar a llwybrau dilyniant sefydledig i addysg cyfrwng Cymraeg.

Gallai'r cynnig hefyd gael effeithiau y tu hwnt i gymuned uniongyrchol Bancffosfelen. Byddai cau'r ysgol yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog i ben. Byddai hyn yn arwain at golli'r tâl atodol o ran cyllid ffederasiwn sy'n gysylltiedig â'r trefniant ac yn golygu y bydd yn rhaid i Ysgol Llanddarog adolygu ei strwythur arweinyddiaeth yn y dyfodol a'i threfniadau cyllido cysylltiedig, gan fod swydd bresennol y pennaeth yn cael ei rhannu ar draws y ddwy ysgol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gydag Ysgol Llanddarog i liniaru unrhyw risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithredu'r cynigio.

Mae Asesiad mwy manwl o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio (cludiant)

Byddai'r trefniadau teithio i ddisgyblion yn newid, a byddai rhai disgyblion yn wynebu pellteroedd ac amseroedd teithio hirach. Byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi cludiant yr awdurdod lleol ar gyfer y rhai sy'n gymwys. Gallai'r cynnig arwain at fwy o draffig yn yr ysgol sy'n derbyn yn ystod yr oriau prysuraf a bydd angen rheoli hyn yn briodol.

Y rheswm dros ffafrio'r opsiwn hwn

Yn gyffredinol, er y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at darfu yn y tymor byr i ddisgyblion, staff a'r gymuned, byddai'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yn Ysgol Bancffosfelen, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag, pwysau ariannol a materion sylweddol yn ymwneud â chyflwr ac addasrwydd yr adeilad.

Felly, credir bod yr opsiwn hwn yn darparu model tymor hir mwy cynaliadwy ar gyfer darparu addysg gan ei fod yn lleihau nifer y lleoedd gwag yn yr ardal ac yn atal y diffyg yn y gyllideb rhag gwaethygu ymhellach. Byddai buddsoddi mewn

cyfleusterau modern ac addas i'r diben mewn lleoliad ysgol mwy cynaliadwy yn defnyddio adnoddau mewn modd mwy effeithiol a strategol nag ymrwymo cyfalaf sylweddol i adeilad sy'n heneiddio sy'n gwasanaethu ysgol â heriau parhaus o ran y nifer sy'n cofrestru, hyfywedd ariannol, a chynaliadwyedd tymor hir.

Bydd y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol dderbyn arfaethedig yn elwa ar adeilad addas i'r diben, a mynediad i grwpiau cyfoedion mwy. Gall yr ysgol dderbyn arfaethedig gynnig cyfleusterau sy'n ategu cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wrth gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol.

Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y byddai'r cynnig yn golygu goblygiadau i'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, nid yw'r effeithiau hyn yn drech na'r achos cryf dros gau'r ysgol a'r heriau addysgol, ariannol ac ystadau sylweddol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Bancffosfelen.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut y bydd yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen yn cael sylw pe bai'r opsiwn a ffefrir yn mynd rhagddo:

Yr Her Allweddol	**Opsiwn a Ffefrir – Sut roedd yn mynd i'r afael â'r her allweddol**
Nifer isel y disgyblion. Mae ffigyrau CYBLD 2026 yn dangos bod 48 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo'r disgyblion sy'n weddill i'r ysgol dderbyn arfaethedig (Ysgol Pontyberem) neu ysgolion eraill gerllaw yn amodol ar ddewis y rhieni.
Data Dalgylchoedd Mae data CYBLD yn dangos bod 41 o ddisgyblion yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill yn yr ardal ac nad yw ysgol Bancffosfelen yn cael ei ffafrio gan y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn y dalgylch.	Pe bai'n cael ei weithredu, byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r her hon drwy sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol yn cyd-fynd yn well â'r patrymau presennol o ran dewis y rhieni. Gan fod llawer o ddisgyblion o'r dalgylch eisoes yn teithio i ysgolion eraill, byddai'r cynnig yn ffurfioli presenoldeb mewn ysgol gyfagos gynaliadwy sydd â digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer disgyblion a rhoi mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol a chymdeithasol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg o ansawdd uchel mewn lleoliad ysgol hyfyw a chynaliadwy wrth adlewyrchu patrymau sefydledig o ran dewis y rhieni.
Nifer uchel o leoedd gwag. Roedd data CYBLD 2026 yn dangos bod 50 o leoedd gwag yn yr ysgol, sy'n cyfateb i gapasiti dros ben o 51%, sydd yn uwch na'r trothwy a awgrymir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adolygu.	Mae amcanestyniadau yn dangos bod lefelau uchel o leoedd gwag yn debygol o barhau yn y dyfodol. Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo'r disgyblion i'r ysgol sy'n derbyn. Byddai hyn yn lleihau nifer y lleoedd gwag yn Ysgol Pontyberem ac o bosibl ysgolion lleol eraill yn dibynnu ar ble mae'r

	disgyblion yn trosglwyddo os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu.
Amcanestyniadau isel o nifer y disgyblion yn y dyfodol. Mae amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn ystod y cyfnod 2027 i 2031 yn dangos rhai mân amrywiadau yn hytrach na thuedd gyson ar i fyny neu ar i lawr, gyda'r niferoedd yn parhau i fod yn sefydlog ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau'n dangos y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfanswm capasiti'r ysgol drwy gydol y cyfnod hwn, gan arwain at lefel gyson uchel o leoedd gwag	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo disgyblion i'r ysgol sy'n derbyn ac o bosibl gwella amcanestyniadau disgyblion yn yr ysgol honno pe bai pob un neu rai yn dewis trosglwyddo.
Materion ynghylch cyllideb yr ysgol. Roedd gan Ysgol Bancffosfelen ddiffyg o £34,444 yn y gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 gyda diffyg hyd at fis Mawrth 2026 o £62,924.	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai cau'r ysgol yn atal y diffyg yn y gyllideb rhag gwaethygu ymhellach. Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn sydd mewn sefyllfa ariannol fwy cynaliadwy. Byddai cau Ysgol Bancffosfelen yn cryfhau sefyllfa ariannol yr ysgol sy'n derbyn y disgyblion, yn hytrach na pharhau i ddarparu cymorth i ysgol nad yw'n gynaliadwy yn ariannol.
Heriau gyda darpariaeth addysgol oherwydd bod nifer y disgyblion yn fach Oherwydd y nifer isel o ddisgyblion yn yr ysgol, mae staff addysgu yn wynebu'r her barhaus o gynllunio a chyflwyno gwersi i ddosbarthiadau sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau a galluoedd cymysg.	Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn sydd â charfan fwy o ddisgyblion ac amrywiaeth mwy o ddosbarthiadau grwpiau blwyddyn. Mae cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn llawer llai heriol i athrawon ac mae disgyblion yn gallu cymysgu, rhyngweithio a chael eu herio o fewn eu grŵp oedran eu hunain. Mae hyn yn cyd-fynd â Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin sy'n anelu at gael dim mwy na dau grŵp blwyddyn ym mhob dosbarth.
Cyflwr yr Adeilad Mae'r ysgol yn wynebu problemau sylweddol o ran cyflwr yr adeilad, ac mae ganddi gyflwr Gradd C ar hyn o bryd. Mae mannau wedi cael eu digomisiynu ac mae angen eu dymchwel. Yr arolwg cyflwr mwyaf diweddar gostau rhagolwg cynnal a chadw pum mlynedd o £616,424.	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo i adeilad mwy modern â gwell sgôr o ran cyflwr sef Gradd A "Fel newydd". Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar yr adeilad hwn o hyd i gyflwyno mesurau i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn.

Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol Y sgôr addasrwydd bresennol yw Gradd D, sef "Gwael, mae'r adeiladau'n rhwystro gallu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm yn ddifrifol”.	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo i adeilad mwy modern gyda gwell sgôr o ran addasrwydd sef Gradd A sy'n cael ei ddiffinio fel "Cyfleusterau da, sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol”.

4.5 Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig

Os bydd y cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen yn mynd rhagddo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi rhieni a disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen i sicrhau cyfnod pontio hwylus. Byddai cyfathrebu clir, rheolaidd a dwyieithog â theuluoedd yn cael ei sicrhau drwy gydol unrhyw newidiadau i drefniadaeth ysgolion, gan gynnig cymorth priodol i deuluoedd sy'n llai hyderus yn y Gymraeg.

Byddai rhieni a disgyblion yn cael gwybod am yr holl ddigwyddiadau a gynhelir yn yr ysgol amgen arfaethedig yn ystod a'r tu allan i oriau ysgol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ParentPay a llythyr newyddion yr ysgol.

Bydd anghenion unigol yn cael eu rheoli drwy gydweithio â'r pennaeth a'r Ymgynghorydd Cymorth Addysg yn yr ysgol sy'n derbyn, gan sicrhau bod y trefniadau mwyaf priodol ar waith i sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol arall.

Os bydd rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall heblaw Ysgol Gynradd Pontyberem, bydd angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion, sydd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

5.1 A fydd gan ddarpariaeth yr ysgol arall ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a’r niferoedd a ragwelir?

Yr opsiwn a ffefrir, os caiff ei gymeradwyo, yw i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Pontyberem o 1 Ionawr 2028.

Cyfanswm capasiti Ysgol Pontyberem ar gyfer y flwyddyn academaidd 26/27 yw 34 o leoedd cyn derbyn, a 210 o leoedd derbyn a'r grwpiau blwyddyn sy'n weddill o flwyddyn 1-6. Y cyfanswm capasiti yw 244 gyda nifer derbyn o 30.

Mae'r tabl canlynol yn dangos niferoedd cyfunol y disgyblion yn seiliedig ar amcanestyniadau pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu a bod yr holl ddisgyblion presennol yn trosglwyddo i'r ysgol dderbyn arfaethedig.

		Amcanestyniadau				
	CYBLD 2026*	**2027***	**2028***	**2029***	**2030***	**2031***
Ysgol Bancffosfelen	48	51	53	46	48	47
Ysgol Pontyberem	210	214	211	213	222	219
Cyfanswm	**258**	**265**	**264**	**259**	**270**	**266**

*gan gynnwys disgyblion meithrin

Mae'r tabl blaenorol yn dangos na fyddai gan Ysgol Pontyberem ddigon o gapasiti ar gyfer niferoedd disgyblion presennol y ddwy ysgol gyda'i gilydd a'r niferoedd a ragwelir.

Mae'r tabl canlynol yn dangos effaith y cynnig ar grwpiau blwyddyn yn yr ysgol sy'n derbyn pe bai pob disgybl sydd ar gofrestr Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem yn seiliedig ar ffigurau CYBLD 2026.

	Meithrin	**Derbyn**	**Bl 1**	**Bl 2**	**Bl 3**	**Bl 4**	**Bl 5**	**Bl 6**	**Cyfanswm**
Ysgol Bancffosfelen	2	3	6	8	5	14	5	5	48
Ysgol Pontyberem	14	19	32	34	22	30	33	26	210
Cyfanswm	**16**	**22**	**38**	**42**	**27**	**44**	**38**	**31**	**258**

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod yn dangos, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod pob disgybl yn dewis trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen i Ysgol Pontyberem, y byddai'n creu problemau yn yr ysgol sy'n derbyn lle byddai'r nifer derbyn yn uwch na 30 mewn sawl grŵp blwyddyn.

Wrth ystyried y potensial ar gyfer cynnydd yn y galw yn y dyfodol, mae'r Cyngor wedi adolygu data cyfraddau genedigaethau lleol a datblygiadau preswyl arfaethedig yn y dalgylch. Mae data genedigaethau ar gyfer dalgylch Bancffosfelen yn dangos tuedd barhaus o niferoedd genedigaethau cymharol isel yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er na ellir rhagweld tueddiadau demograffig yn y dyfodol gyda sicrwydd, mae'r patrwm hwn yn awgrymu bod nifer y disgyblion yn debygol o aros fwy neu lai yn gyson â'r rhagolygon presennol a bod cynnydd sylweddol yn y galw yn annhebygol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried effaith bosibl datblygiadau tai yn y dyfodol. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Is-adran Gynllunio wedi'i hadolygu i asesu dyraniadau tai presennol ac arfaethedig o fewn y dalgylchoedd, gan gynnwys safleoedd a ddyrannwyd o fewn cynlluniau datblygu presennol neu rai sy'n dod i'r amlwg a safleoedd sydd wedi cael caniatâd cynllunio ond nad ydynt wedi'u datblygu eto.

Er bod nifer o safleoedd tai wedi'u nodi ar draws y dalgylchoedd, mae ansicrwydd o hyd ynglŷn â chyflawni rhai o'r datblygiadau. Mae cyngor cynllunio yn nodi bod nifer o safleoedd a nodwyd mewn cynlluniau datblygu blaenorol naill ai wedi'u cwblhau, nid

ydynt bellach wedi'u dyrannu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg, neu nid oes ganddynt ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd. Mewn cyferbyniad, mae'r datblygiadau yr ymrwymwyd iddynt sy'n weddill yn cynnwys nifer cyfyngedig o gynlluniau tai ar raddfa fach ac anheddau unigol â chaniatâd cynllunio sydd eto i'w hadeiladu. Yn nalgylch Pontyberem, y prif ddatblygiad yr ymrwymwyd iddo yw dyraniad llai y disgwylir iddo ddarparu oddeutu 15 o anheddau rhwng 2028 a 2031.

O ystyried maint a statws y datblygiadau a nodwyd, a'r tebygolrwydd y cânt eu cyflawni, nid yw'r Cyngor o'r farn bod twf tai yn y dyfodol yn y dalgylchoedd yn debygol o arwain at gynnydd digonol yn nifer y disgyblion i newid yn sylweddol y galw a ragwelir am leoedd yn yr ysgol. Felly, mae'r Cyngor o'r farn bod tueddiadau demograffig a thai yn y dyfodol yn annhebygol o greu pwysau ychwanegol sylweddol ar gapasiti yr ysgol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y niferoedd disgyblion cyfunol yn Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem ym mis Ionawr 2027, 2028 a 2029 yn seiliedig ar amcanestyniadau CYBLD 2026 sy'n dangos lle gallai'r nifer derbyn fod yn uwch na 30 mewn sawl grŵp blwyddyn, pe bai pob disgybl o Ysgol Bancffosfelen yn dewis trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn.

Amcanestyniadau CYBLD 2026*	**Meithrin**	**Derbyn**	**Bl1**	**Bl2**	**Bl3**	**Bl4**	**Bl5**	**Bl6**	**Cyfanswm**
Bancffosfelen 2027	2	3	8	6	8	5	14	4	**51**
Pontyberem 2027	14	19	30	32	34	22	30	33	**214**
Cyfanswm	**16**	**22**	**38**	**38**	**42**	**27**	**44**	**37**	**255**
Bancffosfelen 2028	2	3	7	8	6	8	5	14	**53**
Pontyberem 2028	14	19	30	30	32	34	22	30	**211**
Cyfanswm	**16**	**22**	**37**	**38**	**38**	**42**	**27**	**44**	**254**
Bancffosfelen 2029	2	3	7	7	8	6	8	5	**46**
Pontyberem 2029	14	19	32	30	30	32	34	22	**213**
Cyfanswm	**16**	**22**	**39**	**37**	**38**	**38**	**42**	**27**	**259**

Os cymeradwyir y cynnig i gau'r ysgol, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'r Corff Llywodraethu i gefnogi cyfnod pontio hwylus i bob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo. Cydnabyddir os bydd pob disgybl, neu'r mwyafrif, yn dewis symud i'r ysgol dderbyn arfaethedig, y bydd nifer y disgyblion yn fwy na nifer derbyn presennol yr ysgol dros dro.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael i bob disgybl a bydd yn buddsoddi mewn adeiladau ac adnoddau ychwanegol i gynyddu'r capasiti sydd ar gael.

Ni fyddai'r ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn cael effaith niweidiol ar y rhan fwyaf o'r cyfleusterau presennol. Byddai'r cyfleusterau presennol ac unrhyw rai newydd a ddarperir yn bodloni neu'n rhagori ar ansawdd amgylchedd presennol Ysgol Bancffosfelen.

Mae Ysgol Pontyberem wedi elwa ar fuddsoddiad mewn cyfleusterau gwell yn 2019 ac mae ganddi gaeau chwarae mawr a mannau chwarae gwastad mawr ag arwyneb sy'n cydymffurfio â'r safonau ar gyfer safleoedd ysgol. Byddai unrhyw adeilad newydd a ddarperir yn cael ei ddylunio yn unol â Chanllawiau Arwynebedd Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a safonau perthnasol eraill.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn prosesu unrhyw geisiadau yn unol â'i Bolisi Derbyn i Ysgolion a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Er bod ysgol amgen benodol yn cael ei chynnig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae teuluoedd yn cadw'r hawl i fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol. Gallai rhieni ddewis ysgol wahanol ar gyfer eu plentyn, a gallai hyn effeithio ar yr amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn y ddogfen hon. O ganlyniad, gall argaeledd cyffredinol lleoedd ar draws ysgolion fod yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y dull a ddefnyddir i ragweld nifer y disgyblion yn seiliedig ar gyfartaledd treigl o ddisgyblion rhwng 5 ac 8 oed mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw newidiadau sydyn yn nifer y disgyblion gymryd sawl blwyddyn i gael eu hadlewyrchu'n llawn yn y data. Mewn ysgolion gyda nifer llai o ddisgyblion, gall hyd yn oed mân newidiadau gael effaith gymharol fwy ar amcanestyniadau. Felly, dylid ystyried yr amcanestyniadau o nifer y disgyblion a gyflwynir yma fel amcangyfrif yn hytrach na'r union ffigurau.

5.2 A fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae safle presennol yr ysgol ym Mancffosfelen yn cyflwyno nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â mynediad i ddisgyblion a staff anabl. Er y gellir gwneud addasiadau rhesymol lle bo angen, mae dyluniad a chynllun yr adeilad yn cyfyngu ar gyfleoedd i wella hygyrchedd ymhellach heb fuddsoddiad cyfalaf sylweddol.

O ran mynediad corfforol, nid yw'r ysgol yn darparu mynediad llawn heb risiau ar draws y safle ar hyn o bryd. Mae'r lefelau yn newid yn yr adeilad, ac mae angen defnyddio grisiau i gyrraedd yr ystafelloedd dosbarth a'r mannau ymgasglu ac nid oes rampiau na lifftiau wedi'u gosod. Er bod disgyblion sy'n gallu cerdded yn gallu symud o gwmpas yr ysgol, byddai'r cyfluniad hwn yn peri rhwystrau i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn neu'r rhai sydd ag amhariad symud sylweddol. Nid oes mannau parcio dynodedig i'r anabl na threfniadau gollwng ffurfiol ar gyfer disgyblion neu staff ag anghenion symudedd ychwanegol.

Mae toiledau ar gael ar y llawr gwaelod ond nid yw'r cynllun a'r cyfleusterau wedi'u dylunio i fod yn doiledau i bobl anabl sydd wedi'u haddasu ac yn gwbl hygyrch. Er bod addasiadau wedi'u gwneud ar gyfer disgyblion iau (e.e. cyfleusterau byrrach), nid yw'r ddarpariaeth yn bodloni'r safon o ran bod yn gyfleusterau hygyrch sy'n cydymffurfio'n llawn.

Mae'r mannau awyr agored, gan gynnwys y lleoedd chwarae, yn hygyrch yn gyffredinol. Mae ganddynt arwynebau gwastad i raddau helaeth ond mae rhai llethrau

ac mae'r cae chwarae ar lethr fwy sylweddol, a allai gyfyngu ar hygyrchedd i rai disgyblion.

O ran mynediad at y cwricwlwm, mae'r ysgol yn dangos cryfderau. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol yn esbonio ei bod ar hyn o bryd yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) drwy staff hyfforddedig sydd ag arbenigedd mewn meysydd fel ymarfer sy'n ymwybodol o drawma, llythrennedd emosiynol (ELSA) ac ymyriadau wedi'u targedu. Er nad oes cyfleusterau arbenigol pwrpasol (e.e. ystafelloedd synhwyraidd), mae'r ysgol yn darparu mannau hyblyg ar gyfer ymyrraeth a rheoleiddio emosiynol, sy'n cefnogi ymarfer cynhwysol.

Mewn perthynas â chymryd rhan ym mywyd yr ysgol, mae'r disgyblion yn cael eu cynnwys mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, teithiau a chyfleoedd cymunedol. Mae'r rhain yn cael eu cynllunio gan ystyried anghenion dysgwyr, sy'n cefnogi cyfranogiad cynhwysol.
Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cyfyngiadau hygyrchedd corfforol yr ysgol yn golygu na fydd o bosib, heb addasiadau sylweddol, yn gallu diwallu anghenion pob disgybl ag anabledd corfforol yn llawn yn y dyfodol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wella hygyrchedd i safleoedd ysgol a sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol. Felly, er bod yr ysgol yn gwneud darpariaeth briodol o fewn ei sefyllfa bresennol ar hyn o bryd, yn enwedig o ran cymorth bugeiliol a'r cwricwlwm, mae cyfyngiadau'r adeilad yn cyfyngu ar y graddau y gellir gwella mynediad i ddisgyblion anabl heb fuddsoddiad cyfalaf sylweddol.

Mae'r ysgol dderbyn arfaethedig, sef Ysgol Pontyberem, yn darparu lefel uwch o hygyrchedd corfforol na safle presennol Bancffosfelen. Mae mynediad i'r ysgol ar gael drwy brif fynedfa heb risiau ac mae'r adeilad yn cynnwys mynediad lifft rhwng y lloriau, gan alluogi disgyblion, staff ac ymwelwyr ag amhariad symud i symud drwy'r ysgol. Mae toiledau hygyrch ar gael ar bob llawr ac mae gan y safle leoedd parcio dynodedig i bobl anabl a threfniadau gollwng addas. Mae'r mannau dysgu a chwarae awyr agored yn hygyrch yn gyffredinol, ac mae'r rhan fwyaf o'r mannau allanol wedi'u lleoli ar dir gwastad.

O ran mynediad at y cwricwlwm, mae gan Ysgol Pontyberem brofiad helaeth o gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n cefnogi nifer sylweddol o ddisgyblion sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol ac anghenion ymyrraeth ychwanegol ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn gweithredu prosesau sefydledig ar gyfer nodi anghenion dysgwyr, rhoi cymorth ar waith a'i adolygu, a gweithio gydag asiantaethau allanol lle bo hynny'n briodol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ddisgrifio fel un eang a chytbwys sy'n gallu cael ei addasu, gan alluogi staff i ymateb yn effeithiol i amrywiaeth eang o anghenion dysgwyr drwy ymarfer cynhwysol a gwahaniaethol.

Mae'r ysgol hefyd yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau arbenigol ac amgylcheddau cymorth, gan gynnwys darpariaeth anogaeth, mannau llesiant ac ystafelloedd synhwyraidd pwrpasol sy'n cefnogi disgyblion sydd angen cymorth yn ymwneud â rheoleiddio emosiynol, iechyd meddwl, prosesu synhwyraidd neu drefniadau pontio. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnig lefel o ddarpariaeth arbenigol nad yw ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Bancffosfelen.

Mae gan Ysgol Pontyberem strwythurau staffio sefydledig i gefnogi cynhwysiant, gan gynnwys CADY pwrpasol, staff llesiant hyfforddedig a phersonél sydd ag arbenigedd mewn ymarfer sy'n ymwybodol o drawma, cymorth llythrennedd emosiynol ac ymyriadau wedi'u targedu. Mae'r ysgol hefyd wedi dangos ymrwymiad cryf i alluogi disgyblion anabl a disgyblion ag ADY i gymryd rhan lawn mewn ymweliadau addysgol, gweithgareddau allgyrsiol a bywyd ehangach yr ysgol drwy ddefnyddio addasiadau rhesymol, cymorth wedi'i dargedu ac asesiadau risg wedi'u haddasu.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod anghenion hygyrchedd yn amrywio rhwng unigolion a bod yn rhaid parhau i ystyried addasiadau rhesymol fesul achos. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai proses cynllunio pontio fanwl yn cael ei chynnal gan nodi unrhyw addasiadau angenrheidiol ymlaen llaw i sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn parhau i gael eu diwallu.

Yn gyffredinol, credir bod y cynnig yn debygol o wella mynediad i ddysgwyr anabl yn unol â nodau a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Er bod Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn darparu cymorth bugeiliol a dysgu priodol ar hyn o bryd, mae'r cyfyngiadau o ran oedran, cynllun a hygyrchedd yr adeilad presennol yn cyfyngu ar gyfleoedd i wella mynediad ymhellach heb fuddsoddiad cyfalaf sylweddol. Mewn cyferbyniad, mae Ysgol Pontyberem yn darparu mynediad heb risiau, lifftiau, toiledau hygyrch, lleoedd parcio dynodedig i bobl anabl ynghyd â mynediad heb risiau o'r maes parcio i'r dderbynfa, darpariaeth llesiant a synhwyraidd arbenigol, a phrofiad helaeth o gefnogi disgyblion ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, credir bod y cynnig yn debygol o wella hygyrchedd corfforol a mynediad at y cwricwlwm a bywyd ehangach yr ysgol i ddisgyblion anabl.

5.3 A yw’r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a’r galw a ragwelir am ysgolion o’r un iaith ac (os yw'n berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig.

Bydd capasiti ychwanegol yn cael ei ddarparu yn Ysgol Pontyberem i dderbyn disgyblion sy'n deillio o'r trefniant arfaethedig. Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu'r lle angenrheidiol i gynyddu capasiti'r ysgol.

Hefyd, mae capasiti ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg eraill sy'n gwasanaethu dalgylch ehangach Ysgol Bancffosfelen, gan sicrhau bod darpariaeth amgen o'r un categori iaith ar gael pe bai rhieni yn mynegi ffafriaeth am leoliad gwahanol.

Yn unol â hynny, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod digon o ddarpariaeth mewn ysgolion ar gael, neu y bydd digon ar gael, i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

5.4 Cynigion eraill ynghylch trefniadaeth ysgolion

Mae'r Cyngor wedi ymgymryd yn ddiweddar â phroses statudol ar wahân mewn perthynas â chynnig i gau Ysgol Y Fro. Cymeradwywyd y cynnig hwn ar 14 Hydref 2026 a bydd yn cael ei weithredu o 31 Rhagfyr 2026. Mae'r Cyngor wedi ystyried a yw'r cynnig ynghylch Ysgol Y Fro a'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Bancffosfelen yn gyfystyr â chynigion cysylltiedig o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2026.

Barn y Cyngor yw na fyddai gweithredu'r cynnig ynghylch Ysgol Y Fro yn atal nac yn tanseilio gweithrediad effeithiol y cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Bancffosfelen. Yn unol â hynny, nid ystyrir bod y cynigion yn gynigion cysylltiedig at ddibenion y Cod.

6. Yr ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) nodir yn Atodiad D yr ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y gallai disgyblion fod yn dymuno trosglwyddo iddynt, ynghyd â manylion yr ysgol dderbyn arfaethedig.

6.1 Effaith y cynnig ar ysgolion y byddai hyn yn debygol o effeithio arnynt

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried effaith bosibl y cynnig ar ysgolion y byddai'n debygol o effeithio arnynt, yn enwedig Ysgol Pontyberem fel yr ysgol dderbyn arfaethedig ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal gyfagos.

Bydd cynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Pontyberem o ganlyniad i'r cynnig. Disgwylir i hyn gael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd tymor hir yr ysgol, gan gefnogi trefniadaeth dosbarthiadau sefydlog, defnydd effeithlon o adnoddau a chynnal cwricwlwm eang a chytbwys. Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu lle ychwanegol i gynyddu capasiti'r ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn gallu darparu ar gyfer y niferoedd cynyddol o ddisgyblion heb gael effaith andwyol ar addysgu a dysgu. Efallai y bydd ychydig o darfu ar fywyd yr ysgol wrth i'r gwaith adeiladu barhau, ond byddai hyn yn cael ei reoli yn unol â hynny yn ystod y cyfnod adeiladu.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y byddai'r cynnig yn golygu goblygiadau i Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Byddai cau Ysgol Bancffosfelen yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol a'r model rhannu pennaeth i ben. Byddai hyn yn arwain at golli'r tâl atodol ffederasiwn sy'n gysylltiedig â'r trefniant ac yn golygu y bydd yn rhaid i'r ysgol a'r Awdurdod Lleol adolygu ei strwythur arweinyddiaeth yn y dyfodol a'i threfniadau cyllido cysylltiedig. Byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r corff llywodraethu a rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r broses cynllunio pontio a sicrhau parhad y trefniadau arweinyddiaeth.

Nid oes disgwyl i'r cynnig gael effaith niweidiol ar ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg eraill gerllaw. Efallai y bydd disgyblion yn cael eu hailddosbarthu ychydig yn dibynnu ar ddewis y rhieni, ond ni ddisgwylir i unrhyw ysgol unigol wynebu gostyngiad neu gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion a fyddai'n effeithio ar ei hyfywedd, ei strwythur staffio neu ei gallu i gyflwyno'r cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y bydd y cynnig yn cael effaith niwtral i gadarnhaol ar ysgolion cyfagos ac na fydd yn cael effaith andwyol ar ddarpariaeth neu ansawdd addysg yn yr ardal.

6.2 Effaith y cynnig ar y staff

Nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yn llawn yr effaith sylweddol y gall cynigion o'r fath ei chael ar y aelodau o staff amser llawn a rhan-amser sy'n gweithio yn Ysgol Bancffosfelen a hefyd ar y staff yn yr ysgol dderbyn arfaethedig.

Un o brif flaenoriaethau'r Awdurdod Lleol yw lleihau tarfu a chefnogi staff ysgol drwy unrhyw gyfnod o newid pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei allu i osgoi dileu swyddi yn orfodol yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r holl gyfleoedd adleoli posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses.

Fodd bynnag, er y bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni ellir diystyru'r posibilrwydd o ddileu swyddi. Lle nad yw adleoli yn ymarferol, bydd proses deg a thryloyw yn cael ei dilyn a rhoddir cefnogaeth i'r rheiny yr effeithir arnynt.

Mae'r Awdurdod Lleol yn deall y gallai hyn greu ansicrwydd i staff a'u teuluoedd, ac maent wedi ymrwymo i ddarparu cyfathrebu clir, diweddariadau amserol, a mynediad at wasanaethau cymorth trwy gydol y broses. Bydd tîm Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses.

Byddai unrhyw newidiadau yn yr ysgol sy'n derbyn yn cael eu rheoli trwy ei chorff llywodraethu, yn unol â rheoliadau staffio ysgolion a pholisïau Adnoddau Dynol, a byddai hefyd yn destun ymgynghoriad priodol â staff yr effeithir arnynt a'r undebau.

6.3 Effaith y cynnig ar gymuned leol Bancffosfelen

Disgwylir y bydd y prif effeithiau ar bentref Bancffosfelen yn ymwneud â cholli rôl yr ysgol fel canolfan gymunedol. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu lleoliad ar gyfer cyfarfodydd cymunedol, gweithgareddau codi arian, boreau coffi, ffeiriau a digwyddiadau lleol eraill, yn ogystal â mynediad i gyfleusterau awyr agored nad ydynt ar gael yn hwylus mewn mannau eraill yn y pentref. Felly gallai ei chau leihau'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad cymunedol a gwanhau rhai o'r rhwydweithiau cymdeithasol sydd wedi datblygu o amgylch yr ysgol.

Gallai'r cynnig hefyd effeithio ar wasanaethau eraill sy'n gweithredu o'r ysgol ar hyn o bryd, yn enwedig Cylch Meithrin Bancffosfelen. Os na ellir sicrhau adeilad amgen addas, efallai y bydd tarfu ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a gofal plant lleol ac effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned leol. Gallai colli neu adleoli'r Cylch Meithrin greu heriau ychwanegol i deuluoedd o ran teithio a gofal plant a gallai effeithio ar y llwybr dilyniant sefydledig i addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned.

Os gwneir penderfyniad i gau'r ysgol, bydd Adran Addysg yr Awdurdod Lleol yn gweithio ar y cyd â'r Adran Gwasanaethau Plant, y Cylch Meithrin perthnasol a'r Mudiad Meithrin i archwilio a nodi opsiynau llety amgen posibl ar gyfer y ddarpariaeth Cylch Meithrin yr effeithir arnynt. Er y bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r broses hon, bydd y penderfyniad terfynol ynghylch unrhyw leoliad yn y dyfodol a hyfywedd ariannol gweithredu o safle amgen yn gorwedd ar y Cylch Meithrin a'r Mudiad Meithrin unigol. Wrth ddod i benderfyniad, bydd angen i'r Cylch Meithrin ystyried goblygiadau adleoli'n ofalus, gan gynnwys ymrwymiadau refeniw parhaus fel taliadau cyfleustodau, costau cynnal a chadw ac atgyweirio, yswiriant, ac unrhyw dreuliau gweithredol eraill sy'n

gysylltiedig â'r adeilad newydd, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Efallai y bydd effeithiau economaidd a demograffig ehangach hefyd. Gallai cau'r ysgol leihau gweithgarwch lleol yn y pentref, effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth lleol ac arwain at rai costau teithio ychwanegol a heriau logistaidd i deuluoedd. Er y gallai diffyg ysgol bentref wneud y gymuned yn llai deniadol i rai teuluoedd â phlant ifanc, disgwylir i'r ffaith bod Ysgol Pontyberem yn agos a bod asedau cymunedol eraill yn parhau i fod ar gael helpu i liniaru'r effeithiau hyn.

O'r 64 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Bancffosfelen, mae 23 yn mynychu Ysgol Bancffosfelen ac mae 41 yn mynychu ysgolion eraill (CYBLD 2026). Mae'r Awdurdod yn nodi bod dadansoddiad o ddata symudiadau disgyblion yn dangos bod Ysgol Pontyberem ar hyn o bryd yn addysgu mwy o ddisgyblion o ddalgylch Ysgol Bancffosfelen nag unrhyw ysgol arall. Mae hyn yn dangos nid yn unig bod nifer sylweddol o deuluoedd eisoes yn dewis Ysgol Pontyberem, ond hefyd bod gan yr ysgol eisoes gysylltiadau sefydledig â theuluoedd sy'n byw yng nghymuned a dalgylch Ysgol Bancffosfelen.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried proffil economaidd-gymdeithasol y gymuned drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan y dalgylch fel arfer lefelau isel i gymedrol o amddifadedd ar y cyfan ac nad yw'n cael ei nodweddu gan amddifadedd incwm crynodedig. Fodd bynnag, mae MALIC 2025 yn nodi amddifadedd cymharol mewn perthynas â mynediad at wasanaethau ar draws rhannau o'r dalgylch, gan adlewyrchu natur wledig y gymuned a phwysigrwydd cyfleusterau a gwasanaethau hygyrch yn lleol. Yn y cyswllt hwn, gallai colli ysgol leol gael mwy o effaith ar hygyrchedd a seilwaith cymunedol nag a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau mwy trefol.

Cydnabyddir hefyd fod yr ysgol dderbyn arfaethedig, sef Ysgol Pontyberem, tua 1.3 milltir o Ysgol Bancffosfelen. O ganlyniad, byddai mynediad at addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn agos at gymuned Bancffosfelen a byddai llawer o deuluoedd yn parhau i gael mynediad at addysg, gweithgareddau a gwasanaethau yn yr ardal leol ehangach. Gallai hyn helpu i liniaru rhai o'r effeithiau ymarferol sy'n deillio o golli ysgol yn y pentref, er y byddai rôl yr ysgol fel canolbwynt cymunedol yn dal i gael ei cholli.

Mae'r asesiad yn cydnabod y gallai cau'r ysgol arwain at gyfnod pan fydd adeilad yr ysgol yn wag dros dro, gan greu pryderon ynglŷn â fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gynnal a chadw'r safle. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod Lleol yn rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith ac yn ceisio nodi defnydd ar gyfer y safle yn y dyfodol cyn gynted â phosibl, gan gynnwys edrych ar gyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol parhaus lle bo hynny'n briodol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn nodi bod y brif risg gymunedol sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn ymwneud â cholli gwasanaeth lleol ac ased cymunedol mewn ardal lle mae mynediad at wasanaethau yn gymharol fwy cyfyngedig nag mewn llawer o rannau eraill o Gymru. Nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar gymuned sy'n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol

difrifol, ond mae'n dangos y dylid ystyried yn ofalus hygyrchedd, cydlyniant cymunedol a chyfleusterau cymunedol a ddarperir yn y dyfodol.

At ei gilydd, mae'r asesiad yn cydnabod y byddai cau Ysgol Bancffosfelen yn cael effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol ar y gymuned ac y gallai leihau mynediad at rai gwasanaethu a chyfleusterau lleol. Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â hyfywedd addysgol a chynaliadwyedd ariannol yr ysgol yn y tymor hir. Mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad, er bod yr effeithiau ar y gymuned yn sylweddol ac yn cael eu cydnabod, bod yr angen i sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel i ddysgwyr yn y dyfodol yn drech na'r effeithiau hynny.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnwys yn Atodiad A a bydd yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses statudol i adlewyrchu unrhyw adborth sy'n dod i law.

7. Yr effaith ar ansawdd a safonau addysg

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol, gan ystyried meysydd arolygu perthnasol Estyn. Nodir y rhain yn yr adran ganlynol.

Ar adeg ei 2018 arolygiad, nododd Estyn nifer o feysydd i'w gwella yn Ysgol Bancffosfelen yn ymwneud ag arweinyddiaeth, lefel yr her yn yr addysgu, gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a datblygu sgiliau Cymraeg, rhifedd a TGCh y disgyblion.

Yn dilyn adolygiad yn 2019, daeth Estyn i'r casgliad bod Ysgol Bancffosfelen wedi gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion, gan olygu nad oedd angen cymryd camau dilynol rhagor.

Mae tystiolaeth Estyn yn dangos bod Ysgol Pontyberem yn darparu profiadau addysgu a dysgu effeithiol a chwricwlwm eang a chytbwys sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r arolygwyr yn adrodd bod profiadau dysgu yn ddiddorol ac yn bwrpasol ac yn helpu disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau yn effeithiol.

Byddai'r cynnig yn gosod y disgyblion mewn ysgol fwy o faint â mwy o gapasiti o ran y cwricwlwm, tîm staff mwy a mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol a chyfleoedd dysgu. Byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran ochr yn ochr â charfan fwy o gyfoedion, gan gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a thrafod ar y cyd.

Yn gyffredinol, disgwylir i'r ysgol amgen arfaethedig gyflawni canlyniadau a chynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i'r dysgwyr hynny (gan gynnwys dysgwyr ag ADY). Mae ansawdd y ddarpariaeth a nodwyd gan Estyn yn Ysgol Pontyberem, ynghyd â'r cwricwlwm ehangach a gynigir gan yr ysgol a mwy o gapasiti staffio, yn dangos y byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysgu effeithiol a chwricwlwm eang a chytbwys.

Cafodd Ysgol Bancffosfelen ei harolygu gan Estyn ym mis Mehefin 2018. Roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn nad oedd angen mesurau dilynol mewn perthynas â'r ysgol hon. Roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

A1. Sicrhau arweinydd sefydlog i'r ysgol
A2. Cynyddu lefel yr her yn yr addysgu
A3. Gweithredu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llawn
A4. Gwella medrau llafar a medrau ysgrifennu Cymraeg disgyblion
A5. Gwella medrau rhifedd a TGCh disgyblion

Arolygwyd Ysgol Bancffosfelen yn ddiweddar gan Estyn ar 21 Medi 2026 a bydd gwybodaeth ynghylch canlyniadau arolygiad Estyn yn cael ei nodi drwy gydol y broses statudol.

Cafodd Ysgol Pontyberem ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2023 ac ni chafodd ei rhoi mewn unrhyw gategori gweithgarwch dilynol. Nododd Estyn yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella pellach:

A1. Sicrhau bod gan yr holl athrawon a staff ategol ddisgwyliadau sy'n gyson uchel a threfniadaeth dosbarth effeithiol.
A2. Sicrhau bod gweithdrefnau hybu medrau a mwynhad disgyblion wrth ddarllen yn eang ac yn gyson effeithiol ar draws yr ysgol.

Nododd yr arolygiad hefyd fod arweinyddiaeth yn yr ysgol yn gryf ac yn effeithiol, bod cwricwlwm eang a chytbwys yn cael ei ddarparu, a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

7.1 Yr effaith debygol ar addysgu a dysgu

Pe bai'r Cyngor Sir yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Bancffosfelen yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem.

Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Byddai'r disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Pontyberem yn elwa ar ddysgu mewn amgylchedd ysgol mwy, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i gydweithio, trafod a dysgu ochr yn ochr â grŵp ehangach o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg. Mae hyn yn debygol o helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, meddwl a chymdeithasol, wrth wella ymgysylltu â dysgu.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu a bod pob disgybl yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem, mae'n debygol y byddai rhai grwpiau blwyddyn, er mwyn gallu darparu ar gyfer carfan lawn Ysgol Bancffosfelen, yn cael eu rhannu a'u haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg a fyddai'n cynnwys dim mwy na dau grŵp blwyddyn, sy'n unol â'r egwyddorion addysg gynradd sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Rhaglen Moderneiddio Addysg yr Awdurdod. Byddai'r trefniant hwn yn galluogi athrawon i gynllunio a darparu profiadau dysgu sy'n cyd-fynd yn agosach ag oedran ac anghenion datblygiadol disgyblion, gan leihau'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig ag addysgu mwy na dau grŵp blwyddyn yn yr un ystafell ddosbarth. Disgwylir i'r carfanau mwy hefyd ddarparu cyfleoedd gwell ar gyfer dysgu ar y cyd, cymorth gan gyfoedion,

gwaith grŵp a chystadleuaeth iach, gan gyfrannu mewn modd cadarnhaol at hyder, llesiant a dyhead y disgyblion.

Yn ogystal, byddai'r disgyblion yn cael mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol, adnoddau a chyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael mewn lleoliad ysgol mwy. Felly, credir bod y cynnig yn debygol o wella ansawdd cyffredinol yr amgylchedd dysgu a chefnogi gwell deilliannau addysgol i ddisgyblion. O ganlyniad, ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar safonau addysgol a gallai ddarparu cyfleoedd i wella ansawdd addysgu, dysgu a chyflawniad disgyblion ymhellach.

Mae Estyn yn adrodd bod y rhan fwyaf o'r disgyblion, wrth iddynt symud ymlaen drwy Ysgol Pontyberem, yn gwneud cynnydd cadarn, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, Mae'r disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol ac yn defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd yn llwyddiannus mewn cyd-destunau a phrofiadau newydd. Mae Estyn hefyd yn nodi bod bron pob disgybl hŷn yn cymryd cyfrifoldeb yn aeddfed am ei ddysgu ei hun ac yn defnyddio ei sgiliau yn hyderus at ddibenion penodol. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen yn symud i ysgol sydd â deilliannau sicr ac arferion addysgu a dysgu effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r disgyblion yn effeithiol. Mae Estyn yn nodi bod profiadau dysgu yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach, wrth hyrwyddo eu datblygiad fel dinasyddion gwybodus a chyfrifol.

Mae'r tîm staff mwy yn Ysgol Pontyberem yn darparu mwy o gapasiti ar gyfer dylunio'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol a rhannu ymarfer effeithiol. Mae hyn yn galluogi mwy o gydweithio rhwng ymarferwyr, yn cefnogi arloesi mewn dulliau addysgu ac yn cryfhau gallu'r ysgol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol wrth gynnal gwelliant parhaus mewn addysgu a dysgu.

Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol ar safonau addysgol a byddai Ysgol Pontyberem yn gallu sicrhau deilliannau a chynnig darpariaeth sydd o leiaf cyfateb i'r hyn sydd ar gael i ddysgwyr yn Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd. Gan ystyried ansawdd yr addysgu, y deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan y disgyblion, ehangder y cwricwlwm a ddarperir a'r cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael mewn amgylchedd ysgol mwy, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu a chefnogi cynnydd a chyrhaeddiad parhaus y disgyblion.

7.2 Yr effaith debygol ar ofal, cymorth ac arweiniad

Er y byddai'r cynnig yn golygu bod yn rhaid i ddisgyblion drosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen i Ysgol Pontyberem, byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion a theuluoedd drwy gydol y broses. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys ymweliadau wedi'u cynllunio, cyfleoedd i gwrdd â staff a chyfoedion, a chymorth pwrpasol i ddysgwyr unigol lle bo angen, gan helpu i sicrhau proses bontio gadarnhaol a llwyddiannus.

Byddai proses cynllunio pontio fanwl yn sicrhau bod gwybodaeth am ddysgu, llesiant, presenoldeb ac anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn cael ei rhannu'n

effeithiol rhwng yr ysgolion. Byddai hyn yn cefnogi parhad y ddarpariaeth ac yn golygu bod modd rhoi ymyriadau a strategaethau cymorth priodol ar waith o'r cychwyn cyntaf.

Byddai'r cynnig yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a chymdeithasu mewn grŵp cyfoedion mwy, gan gefnogi'r broses o wneud ffrindiau a datblygu sgiliau cyfathrebu, hyder, gwydnwch ac ymdeimlad o berthyn. Byddai'r disgyblion hefyd yn elwa ar gael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, diwylliannol a chwaraeon sy'n gallu gwella llesiant a datblygiad personol.

Mae Estyn yn adrodd bod bron pob disgybl yn Ysgol Pontyberem yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng nghymuned ofalgar a chynhwysol yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo bod staff yn gwrando ar ei farn ac yn ymateb yn briodol i unrhyw bryderon. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos hyder a gwydnwch cynyddol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod yr ysgol mewn sefyllfa dda i gefnogi disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen.

Ar hyn o bryd mae gan bedwar o ddysgwyr yn Ysgol Bancffosfelen Gynlluniau Datblygu Unigol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r holl ddysgwyr sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol yn parhau i dderbyn cymorth yn unol â'u hanghenion a nodwyd. Byddai'r trefniadau pontio yn cael eu cynnal mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr, staff ysgol ac asiantaethau perthnasol i sicrhau parhad y ddarpariaeth a lleihau tarfu ar y cymorth.

Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Bancffosfelen gryfder a ffocws cryf o ran cefnogi llesiant disgyblion a mesurau ac ymyriadau priodol i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Estyn yn nodi bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder sylweddol yn Ysgol Pontyberem. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth cynhwysfawr o ymyriadau a chymorth llesiant, gan gynnwys darpariaeth synhwyraidd, mannau llesiant, gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar ac Y Nyth, sef cyfleuster anogaeth pwrpasol sydd wedi'i sefydlu i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae ethos cynhwysol yr ysgol, staff profiadol a ffocws cryf ar lesiant y plentyn cyfan yn cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol i ddisgyblion ar draws amrywiaeth eang o anghenion.

Mae'r ysgol yn cynnal partneriaethau cryf â rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol, gan alluogi dull cydgysylltiedig o gefnogi llesiant, presenoldeb ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Byddai'r rhwydweithiau sefydledig hyn yn helpu i sicrhau bod y disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen yn parhau i gael mynediad at gymorth a gwasanaethau priodol.

Yn gyffredinol, er y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion yn ystod y cyfnod pontio, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar ofal, cymorth ac arweiniad. Disgwylir i'r cyfuniad o broses cynllunio pontio effeithiol, systemau bugeiliol cryf, diwylliant ysgol cynhwysol a darpariaeth llesiant hynod effeithiol a'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Pontyberem gefnogi deilliannau cadarnhaol i bob dysgwr a byddai'n cyflawni deilliannau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr hynny yn Ysgol Bancffosfelen. Yn y tymor hwy,

mae'r disgyblion yn debygol o elwa ar gyfleoedd cymdeithasol gwell, grwpiau cyfeillgarwch ehangach a mynediad at amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymorth mewn cymuned ysgol fwy.

7.3 Yr effaith debygol ar arwain a gwella

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Bancffosfelen yn gweithredu o fewn trefniant ffederasiwn anffurfiol gydag ysgol leol arall. Er bod y trefniant hwn wedi cefnogi parhad arweinyddiaeth, byddai'r cynnig yn golygu y byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol fwy sydd â chapasiti arweinyddiaeth cynaliadwy wedi'i ganolbwyntio ar un gymuned ysgol.

Mae Estyn yn adrodd bod arweinyddiaeth yn Ysgol Pontyberem yn gryf ac yn effeithiol ac yn parchu cyfraniadau holl aelodau cymuned yr ysgol. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar gynnal ysgol agos a chroesawgar ag ethos gofalgar a chefnogol lle mae pob disgybl yn cyflawni'n dda ac yn datblygu fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi hyder yng ngallu'r ysgol i reoli a chefnogi'r broses bontio yn llwyddiannus.

Mae gan Ysgol Pontyberem strwythur arweinyddiaeth mwy, sy'n darparu mwy o gapasiti ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig ar draws meysydd allweddol bywyd yr ysgol. Mae hyn yn galluogi rhannu cyfrifoldebau arwain yn effeithiol ymhlith tîm ehangach, yn cryfhau trefniadau cynllunio olyniaeth ac yn cefnogi trefniadau cadarn ar gyfer hunanwerthuso, gwaith gwella'r ysgol ac atebolrwydd.

Mae'r strwythur staffio ac arweinyddiaeth mwy hefyd yn darparu cyfleoedd gwell ar gyfer cydweithio proffesiynol, datblygu'r cwricwlwm, hyfforddi a mentora, a rhannu ymarfer effeithiol. Mae'r capasiti mwy hwn yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn cryfhau gallu'r ysgol i ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau addysgol lleol a chenedlaethol, gan gynnwys y gwaith parhaus o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Byddai'r cynnig yn cyfuno arbenigedd arweinyddiaeth, adnoddau a gwasanaethau cymorth mewn un lleoliad ysgol, gan gyfrannu at gynaliadwyedd tymor hir y ddarpariaeth addysgol. Mae ysgol fwy fel arfer yn llai agored i newidiadau mewn staffio ac mae mewn sefyllfa well i gynnal parhad arweinyddiaeth a'r gallu i wella dros amser.

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth a gwella'r ysgol a byddai'n sicrhau deilliannau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr hynny yn Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd. Mae'r arweinyddiaeth gref ac effeithiol a nodwyd gan Estyn, ynghyd â manteision strwythur arweinyddiaeth mwy o faint a mwy gwasgaredig, yn darparu sylfaen ddiogel ar gyfer cynnal darpariaeth o ansawdd uchel, hyrwyddo gwelliant parhaus a sicrhau deilliannau cadarnhaol i bob dysgwr.

7.4 Effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Er y gall unrhyw achos o newid ysgol greu cyfnod o addasu i rai dysgwyr, byddai trefniadau pontio priodol yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a sicrhau bod eu hanghenion llesiant yn cael eu nodi a'u hystyried drwy gydol

y broses. Byddai cyfleoedd ar gyfer ymweliadau, gweithgareddau ymgyfarwyddo, cyfarfodydd pontio a chymorth bugeiliol gwell yn helpu i leihau tarfu a chefnogi proses bontio gadarnhaol i Ysgol Pontyberem.

Ar hyn o bryd mae gan pedwar o ddysgwyr yn Ysgol Bancffosfelen Gynlluniau Datblygu Unigol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r holl ddysgwyr sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol yn parhau i dderbyn darpariaeth yn unol â'u hanghenion a nodwyd. Byddai trefniadau cynllunio pontio yn cael eu rhoi ar waith ar y cyd â rhieni a gofalwyr, staff ysgol ac asiantaethau partner perthnasol i sicrhau bod y cymorth yn parhau a bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai sy'n wynebu anawsterau cymdeithasol neu emosiynol, neu'r rhai o gefndiroedd dan anfantais economaidd. Mae'r strwythur staffio mwy a'r amrywiaeth ehangach o adnoddau sydd ar gael yn Ysgol Pontyberem yn debygol o wella gallu'r ysgol i nodi anghenion dysgwyr unigol ac ymateb iddynt a darparu cymorth wedi'i dargedu lle bo angen.

Mae gan Ysgol Pontyberem drefniadau sefydledig i gefnogi llesiant a chynhwysiant disgyblion. Mae Estyn yn nodi bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd effeithiol iawn o waith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen ymyriadau gynhwysfawr, ystafell synhwyraidd, mannau llesiant, darpariaeth ymwybyddiaeth ofalgar a'r ddarpariaeth anogaeth, sef 'Y Nyth', sydd wedi'i sefydlu'n llwyddiannus i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed.

Mae Estyn hefyd yn nodi bod arbenigedd ac ymrwymiad y staff yn helpu i greu amgylchedd dysgu cwbl gynhwysol lle mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'i fannau cychwyn. Mae partneriaethau cryf â rhieni a gofalwyr, ynghyd â chysylltiadau cynhyrchiol ag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol, yn cryfhau'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr sy'n agored i niwed a'u teuluoedd ymhellach.

Byddai'r cynnig yn rhoi mynediad i ddysgwyr sy'n agored i niwed at amrywiaeth ehangach o arbenigedd, ymyriadau a gwasanaethau cymorth nag a allai fod ar gael mewn lleoliad ysgol llai. Mae'r capasiti mwy hwn yn debygol o gryfhau'r gwaith o nodi anghenion yn gynnar, cymorth wedi'i dargedu a gweithio amlasiantaethol, gan sicrhau bod disgyblion yn derbyn darpariaeth amserol a phriodol.

Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae trefniadau pontio cynhwysfawr, parhad y ddarpariaeth ADY a'r cymorth cynhwysiant a llesiant hynod effeithiol sydd ar gael yn Ysgol Pontyberem yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael eu cefnogi'n effeithiol. Yn y tymor hwy, mae'r dysgwyr yn debygol o elwa ar gael mynediad gwell at gymorth arbenigol, cyfleoedd cymdeithasol ehangach a'r adnoddau sy'n gysylltiedig â chymuned ysgol fwy.

7.5 Effaith cynigion ar gyrhaeddiad addysgol dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais economaidd

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar ddysgwyr o gefndiroedd dan anfantais economaidd, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae data CYBLD 2026 yn dangos bod oddeutu 8% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais fod yn fwy agored i darfu sy'n deillio o newidiadau mewn trefniadaeth ysgolion ac felly mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i hyn wrth asesu'r effeithiau posibl.

Yn ogystal â data disgyblion, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried mesurau amddifadedd yn seiliedig ar ardal drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025. Y prif Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y dalgylch yw Llangyndeyrn 2, Pontyberem 2 a Phontyberem 1, sydd yn safleoedd 5, 4 a 7, yn y drefn honno, o ran degraddau amddifadedd. Mae ardaloedd ategol yn y dalgylch, gan gynnwys y Glyn a Llanddarog, yn rhan o ddegraddau 6 a 6 yn y drefn honno. Mae hyn yn dangos nad yw'r dalgylch yn cael ei nodweddu gan lefelau uchel o amddifadedd ac, yn gyffredinol, bod ganddo lefelau isel i gymedrol o amddifadedd ar y cyfan o gymharu â gweddill Cymru.

Er nad yw'r dalgylch yn cael ei nodweddu gan lefelau uchel o amddifadedd yn gyffredinol, mae dangosyddion incwm MALIC 2025 yn nodi lefelau nodedig o amddifadedd incwm plant yn rhai o brif Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y dalgylch. Mae cyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd wedi'u hamddifadu o incwm yn amrywio o oddeutu 25.8% i 40.5% ar draws y prif ddalgylchoedd. Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai cyfran o ddysgwyr wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol ac y dylid ystyried unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r cynnig yn y cyd-destun hwnnw.

Mae tystiolaeth MALIC 2025 yn awgrymu bod y ffactor amddifadedd mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar rannau o'r dalgylch yn ymwneud â mynediad at wasanaethau yn hytrach nag amddifadedd incwm crynodedig. Mae sawl dalgylch ymhlith yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau, gan adlewyrchu natur wledig y gymuned a'r angen i deithio i gael mynediad at addysg a gwasanaethau eraill.

Yn ogystal, mae dangosyddion addysgol MALIC 2025 yn nodi lefelau cymharol uchel o absenoldeb parhaus ymhlith dysgwyr oedran cynradd mewn rhai rhannau o'r dalgylch. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn cefnogi ymgysylltu parhaus ag addysg, yn enwedig i ddysgwyr a allai fod yn agored i anfantais addysgol.

Ystyriodd yr Asesiad Effaith Integredig y cysylltiad rhwng nodweddion gwarchodedig ac anfantais economaidd-gymdeithasol hefyd, yn enwedig lle gallai newidiadau i drefniadau trafnidiaeth a hygyrchedd gael effaith anghymesur ar grwpiau penodol.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni drwy'r broses dderbyn. Mae gan Ysgol Pontyberem strwythur staffio mwy o faint, cyfleoedd cwricwlaidd ehangach ac amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymorth i ddysgwyr. Byddai dysgwyr hefyd yn cael mynediad at ddosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran, grwpiau cyfoedion mwy, gweithgareddau allgyrsiol a rhaglenni ymyrraeth wedi'u targedu a allai gefnogi cyrhaeddiad, llesiant ac ymgysylltu.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai newidiadau i drefniadau teithio gael mwy o effaith ar rai aelwydydd incwm is, yn enwedig lle mae mynediad at drafnidiaeth breifat yn gyfyngedig. I liniaru'r effeithiau hyn, darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn unol â Pholisi'r Cyngor ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer dysgwyr cymwys a darperir cymorth pontio priodol.

Ar ôl ystyried data Prydau Ysgol am Ddim a thystiolaeth MALIC 2025, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd dan anfantais economaidd. Er y bydd rhywfaint o darfu tymor byr o bosib yn ystod y cyfnod pontio, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y prif faterion economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar y dalgylch yn ymwneud ag anfantais incwm sy'n effeithio ar rai teuluoedd a hygyrchedd gwasanaethau mewn ardal wledig. Felly, disgwylir i'r cynnig gynnal, ac mewn rhai agweddau wella, cyfleoedd addysgol a chymorth sydd ar gael i ddysgwyr dan anfantais.

Mae effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol hefyd wedi'i hystyried drwy'r Asesiad Effaith Integredig yn Atodiad C.

7.6 Materion o ran cydraddoldeb sy'n deillio o'r cynigion, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i gynnal i ystyried effeithiau posibl y cynnig ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r asesiad wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

Daeth yr asesiad i'r casgliad nad oes disgwyl i'r cynnig arwain at wahaniaethu anghyfreithlon neu greu effeithiau andwyol anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Fodd bynnag, byddai'r cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a staff sy'n gysylltiedig ag Ysgol Bancffosfelen ac felly byddai cymorth a mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Rhoddwyd sylw arbennig i ddisgyblion ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Er nad oes unrhyw effaith andwyol wedi'i nodi mewn perthynas â hygyrchedd, cydnabyddir y gallai rhai dysgwyr deimlo'n orbryderus neu angen cymorth ychwanegol wrth drosglwyddo i amgylchedd ysgol gwahanol. Mae gan Ysgol

Pontyberem gyfleusterau hygyrch, trefniadau cymorth ADY sefydledig a mynediad at wasanaethau arbenigol. Byddai cynlluniau pontio unigol, addasiadau rhesymol ac ymgysylltu parhaus â theuluoedd yn cael eu rhoi ar waith lle bo angen i gefnogi dysgwyr drwy gydol y broses bontio.

Ystyriodd yr Asesiad Effaith Integredig y cysylltiad rhwng nodweddion gwarchodedig ac anfantais economaidd-gymdeithasol hefyd. Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025 yn dangos bod gan y dalgylch yn gyffredinol lefelau isel i gymedrol o amddifadedd.

Fodd bynnag, nododd yr asesiad hefyd fod gan rannau o'r dalgylch lefelau cymharol uchel o amddifadedd incwm plant ac y gallai rhai teuluoedd felly fod yn fwy agored i newidiadau mewn hygyrchedd, trefniadau teithio ac ymgysylltu â gweithgareddau ysgol. Nododd yr asesiad y gallai rhai unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig dysgwyr anabl, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a theuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, fod yn fwy sensitif i'r newidiadau hyn. Yn unol â hynny, mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth ddatblygu mesurau lliniaru a threfniadau pontio.

Nododd yr asesiad hefyd y gallai newidiadau i drefniadau teithio olygu goblygiadau i rai teuluoedd, gan gynnwys rhieni sy'n feichiog, ar gyfnod mamolaeth, neu a allai fel arall ei chael hi'n anoddach cymryd rhan yn y broses. I liniaru hyn, byddai'r Cyngor yn darparu cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori hyblyg, cyfathrebu clir a chymorth mewn perthynas â threfniadau cludiant lle bo hynny'n briodol. Byddai unrhyw oblygiadau staffio sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau cyflogaeth y Cyngor i sicrhau triniaeth deg a chyfartal i bob gweithiwr.

Yn gyffredinol, er bod yr effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo wedi'u nodi ar gyfer rhai grwpiau, mae'r asesiad yn dod i'r casgliad y gellir lliniaru'r effeithiau hyn yn effeithiol drwy gynllunio a chymorth priodol.

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon neu effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig neu ddysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol, gan y byddai'r mesurau lliniaru a nodir yn y cynnig, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad Effaith Integredig yn cael eu rhoi ar waith pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu.

Mae'r mesurau lliniaru hyn yn cynnwys:

- Rhaglen bontio strwythuredig, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo a chyfleoedd i ddysgwyr ddod i arfer ag amgylchedd yr ysgol sy'n derbyn.
- Trefniadau cynllunio pontio unigol ac addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- Asesiadau unigol o ofynion cludiant a darparu trefniadau cludiant arbenigol lle bo angen.
- Cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi'r Cyngor ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.
- Cymorth i ddysgwyr a chymorth bugeiliol a llesiant parhaus ar ôl trosglwyddo.

- Monitro presenoldeb, prydlondeb, ymgysylltu a llesiant yn ystod ac ar ôl y broses weithredu.
- Ymgysylltu'n barhaus â rhieni, gofalwyr a theuluoedd drwy gydol y broses bontio.
- Trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu hyblyg i sicrhau bod yr holl unigolion yr effeithir arnynt yn gallu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniad.
- Mesurau i gefnogi mynediad teg at weithgareddau ysgol a chyfleoedd i ddysgwyr a allai fod dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn amodol ar weithredu'r mesurau lliniaru hyn, byddai'r cynnig yn parhau i ddarparu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, darpariaeth addysgol gynhwysol, cymorth llesiant a gwasanaethau arbenigol yn yr ysgol dderbyn arfaethedig, gan helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal a deilliannau gwell i bob dysgwr.

7.7 Gallu pennaeth/corff llywodraethu yr ysgol i fodloni eu gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf 2021 ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr ym mhob rhan o'r continwwm addysg 3-16.

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw bryderon am ansawdd yr addysg a ddarperir yn Ysgol Pontyberem. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr addysgu, y dysgu neu'r ddarpariaeth cwricwlwm a geir gan y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd.

Mae Ysgol Pontyberem mewn sefyllfa dda i gyflawni ei chyfrifoldebau statudol o dan y Cwricwlwm i Gymru. Mae strwythur staffio mwy yr ysgol yn darparu mwy o gapasiti ar gyfer dylunio, cynllunio, cyflwyno a gwerthuso'r cwricwlwm, wrth alluogi staff i gydweithio ar gynllunio cynnydd, asesu, cymedroli a datblygu arferion addysgu effeithiol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cefnogi'r gwaith parhaus o fireinio a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r tîm staff mwy hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol a rhannu arbenigedd ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn gwella gallu'r ysgol i ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm, sefydlu addysgeg effeithiol a sicrhau cysondeb wrth gyflwyno'r cwricwlwm a chynnydd dysgwyr.

Mae Estyn yn adrodd bod Ysgol Pontyberem yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r disgyblion. Mae profiadau dysgu yn ddiddorol ac yn bwrpasol, gan ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o'u rôl o fewn cymdeithas a phwysigrwydd bod yn ddinasyddion cyfrifol a moesegol.

Mae strwythur arweinyddiaeth sefydledig yr ysgol a'r capasiti staffio ehangach yn cefnogi prosesau sicrhau ansawdd ac arweinyddiaeth effeithiol o ran y cwricwlwm. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer monitro cynnydd dysgwyr, gwerthuso effaith y cwricwlwm a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru.

Ar y cyfan, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol ar allu'r ysgol i gyflawni ei dyletswyddau statudol o dan y Cwricwlwm i Gymru. At ei gilydd, mae'r capasiti staffio

mwy, yr arbenigedd ehangach o ran y cwricwlwm a'r ddarpariaeth addysgol gref sydd ar gael yn Ysgol Pontyberem yn debygol o wella gallu'r ysgol i ddylunio, cyflwyno a gwella cwricwlwm o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod Ysgol Pontyberem yn darparu darpariaeth addysgol sydd o leiaf yn gyfwerth â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Bancffosfelen.

8. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gan fod yr ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cynnig neu yr effeithir arnynt yn darparu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac mae'r asesiad hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth penodol sy'n dod i law.

8.1 Sut mae'r cynnig yn ffurfio rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd

Mae Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r cynnig wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â thargedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod Lleol, er ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n nodi gweledigaeth deng mlynedd (2022-2032) ar gyfer cynyddu a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sef Cymraeg 2050. Byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynnig yn golygu trosglwyddo dysgwyr o un ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol gyfrwng Cymraeg arall, a fyddai'n diogelu cyfleoedd addysgol cyfrwng Cymraeg ac, os caiff ei reoli'n effeithiol, gallai gryfhau cynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Drwy gyfuno disgyblion mewn ysgol cyfrwng Cymraeg fwy, mae'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu nifer y disgyblion a gwella gwydnwch.

8.2 Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.

Byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem ill dwy yn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Byddai hyn yn sicrhau bod mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gadw. Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg cychwynnol ac mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd yn parhau i gael y cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy drosglwyddo i Ysgol Pontyberem, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Mae hyn yn sicrhau y gellir cynnal parhad addysg cyfrwng Cymraeg, ac y gall dysgwyr barhau i ddatblygu

eu sgiliau Cymraeg yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod Lleol.

Bydd y cynnig yn cyfuno darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol sydd â mwy o gapasiti, staffio ac adnoddau. Mae hyn yn debygol o gryfhau ansawdd a chynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg, gan roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod ehangach o gyd-destunau, o fewn yr ystafell ddosbarth ac drwy weithgareddau allgyrsiol.

Er bod y cynnig yn cynnal addysg cyfrwng Cymraeg ac y disgwylir iddo gefnogi datblygiad ieithyddol parhaus y disgyblion, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai cau Ysgol Bancffosfelen effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned leol a gallai fod ganddo oblygiadau ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg leol pe na bai llety amgen ar gyfer Cylch Meithrin Bancffosfelen yn cael ei sicrhau. Ystyrir y materion hyn yn fanwl yn yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg a gweithredir mesurau lliniaru priodol lle bo hynny'n bosibl.

I grynhoi, er y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bancffosfelen yn dod i ben, mae'r cynnig yn cynnal ac yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr ardal ehangach. Mae'n sicrhau mynediad parhaus, yn hyrwyddo dilyniant mewn dysgu Cymraeg, ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd a thwf hirdymor darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol ag amcanion y CSCA.

9. Cyllid

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn nodi bod yn rhaid cynnal dadansoddiad o effaith ariannol debygol y cynigion os cânt eu gweithredu.

9.1 Costau refeniw/rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, o leiaf, ac a yw'r cyllid refeniw/rheolaidd angenrheidiol ar gael (gan gynnwys costau staffio, cynnal a chadw adeiladau a chludiant ychwanegol)

Y costau refeniw rheolaidd y dylid eu hystyried fel arfer dros gyfnod o leiaf tair blynedd yw'r costau blynyddol parhaus sy'n parhau ar ôl gweithredu'r cynnig, yn hytrach na chostau ymgynghori, cyfreithiol neu gyfalaf untro.

Ar gyfer cynnig i gau ysgol gynradd a throsglwyddo'r disgyblion i ysgol dderbyn gyfagos, byddai'r prif gostau refeniw rheolaidd fel arfer yn cynnwys:

1. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Hon fyddai'r gost barhaus fwyaf sylweddol fel arfer.

- Gwasanaethau cludiant dyddiol dan gontract.
- Costau hebrwng lle bo angen.
- Cludiant ychwanegol ar gyfer dysgwyr ADY os ydynt yn gymwys.
- Rhagdybiaethau o ran tanwydd, cerbydau newydd a chwyddiant contractau.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r costau cludiant sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynnig yn seiliedig ar brisiau cyfredol a lleoliad presennol y disgyblion ac wrth dybio y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem.

2. Costau staffio ychwanegol yn yr ysgol sy'n derbyn

Pan fo nifer y disgyblion yn cynyddu'n ddigonol fel bod angen:

- Staff addysgu ychwanegol.
- Cynorthwywyr addysgu.

Byddai'r costau hyn yn cael eu cynnwys dim ond os bydd twf disgyblion yn sbarduno gofynion staffio ychwanegol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, byddai'r costau hyn yn cael eu cydbwyso gan gyllid ychwanegol fesul disgybl y mae'r ysgol yn ei dderbyn ar gyfer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

3. Cymorth ADY ychwanegol

Pan fo angen y canlynol ar ddisgyblion sy'n trosglwyddo:

- Cymorth dysgu arbenigol.
- Cymorth ymddygiad.
- Cludiant arbenigol neu therapïau a ariennir gan yr awdurdod.

Dim ond ar ôl cael gwybod pa ysgol(ion) y mae disgyblion unigol yn debygol o drosglwyddo iddi/iddynt y gellid cyfrifo'r costau hyn. Gallai'r rhain arwain at arbedion hefyd, os oes cymorth ychwanegol eisoes ar gael yn yr ysgol sy'n derbyn ac nad oes angen ei gynyddu.

4. Costau cynnal safle cynyddol yn yr ysgol sy'n derbyn

Mae'n anodd meintioli'r rhain fel costau ychwanegol ac maent yn tueddu i fod yn weddol fach o gymharu â'r arbedion sy'n deillio o gau ysgol oherwydd bod yr ysgol sy'n derbyn eisoes yn wynebu'r costau sefydlog hyn, megis:

- Cyfleustodau (trydan, nwy, dŵr).
- Costau glanhau.
- Costau arlwyo.
- Trwyddedau a chymorth TGCh.

5. Parhau i gynnal a chadw adeiladau ar y safle sydd wedi cau (os caiff ei gadw)

Os nad yw'r hen adeilad ysgol yn cael ei waredu ar unwaith, gallai'r costau refeniw parhaus gynnwys:

- Diogelwch.
- Yswiriant.
- Gwaith cynnal a chadw sylfaenol.
- Cyfleustodau sydd eu hangen i gynnal a chadw'r adeilad.
- Cynnal a chadw tiroedd.

Mae'r costau hyn yn parhau nes bod yr adeilad yn cael ei waredu, ei drosglwyddo i'r gymuned, neu nes bod defnydd amgen yn cael ei wneud.

6. Cymorth o ran Asedau Cymunedol neu Gyfleusterau a Rennir

Os bydd y Cyngor yn cadw rhan o'r safle at ddefnydd cymunedol:

- Rheoli'r adeilad.
- Cyfraniadau cyfleustodau.
- Cytundebau lefel gwasanaeth.
- Trefniadau cymorth prydlesu cymunedol.

Cynnydd o ran chwyddiant

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn disgwyl i gynigion ystyried costau yn y dyfodol yn hytrach na gwerthoedd y flwyddyn bresennol yn unig. Felly, dylai rhagolygon fel arfer ganiatáu ar gyfer:

- Chwyddiant cludiant.
- Dyfarniadau cyflog.
- Chwyddiant ynni.
- Cynnydd o ran contractau.

Ar gyfer y cynnig hwn, gellir amcangyfrif costau rheolaidd a refeniw parhaus fel a ganlyn:

Cost Refeniw Rheolaidd	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Cyfanswm
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	£57,000	£58,710	£60,471	£176,181
***Staff ychwanegol - dau athro ychwanegol @£67567 yr un (amcangyfrif)**	£135,134	£139,188	£143,363	£417,685
Costau dal y safle sydd wedi cau	£4,000	£4,120	£4,244	£12,364
Cyfanswm y costau rheolaidd	£196,134	£202,018	£208,078	£606,230

** Yn ddibynnol ar gyd-destun ysgolion unigol a symudiadau posibl disgyblion / dewis rhieni.*

Yn achos cau ysgol gynradd fach, cludiant yw'r unig gost reolaidd newydd sylweddol yn aml, ac mae'r cynnig cyffredinol yn dal i greu arbediad refeniw blynyddol net.

9.2 A yw cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi'r awdurdod lleol o dan y fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac felly'n cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac at well rheolaeth strategol ar yr ystad ysgolion

Nid yw'r cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem yn rhan o raglen buddsoddi strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer yr 21ain ganrif.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu byddai'n arwain at ostyngiad yn yr ystad ysgolion ac yn gwella ei rheolaeth strategol. Mae adolygu maint a hyfywedd yr ystad ysgolion wedi'i nodi fel blaenoriaeth gorfforaethol i'r Awdurdod Lleol fel rhan o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024.

9.3 Costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael

Bwriedir buddsoddi rhwng £900,000 a £1,200,000 yn Ysgol Pontyberem i ddarparu llety ychwanegol. Gofynnir am gyllid ar gyfer hyn drwy Grant Cymraeg Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes.

Os na fydd cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau, darperir cyllid o'r cyllidebau cyfalaf presennol sydd ar gael o fewn y rhaglen gyfalaf gyfredol. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu symud ymlaen â'r ehangiad hwn mewn llety p'un a yw'r cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen yn cael ei weithredu ai beidio.

9.4 Maint unrhyw arbedion net arfaethedig pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion) ac a gaiff unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion yr awdurdod lleol?

Dylid nodi, pan fydd ysgol yn cael ei chau, ei bod yn annhebygol iawn na fydd costau cludiant ychwanegol. Mae hyn oherwydd, drwy ddiffiniad, bod cau ysgol yn debygol o olygu y bydd plant yn byw ymhellach i ffwrdd o'u hysgol ddalgylch ac felly'n gymwys i gael cludiant o dan Bolisi'r Cyngor ynghylch Cludiant i'r Ysgol.

Hefyd, dylid nodi bod cyllideb y Cyngor ar gyfer cludiant ysgol ar wahân ac yn wahanol i'r gyllideb a ddirprwyir i ysgolion. Bydd arbedion refeniw sy'n deillio o gau'r ysgol fel arfer yn cael eu hailddosbarthu yn ôl i'r gyllideb ysgolion gyffredinol ac felly nid ydynt yn arbedion uniongyrchol i gyllideb gyffredinol y Cyngor.

Mae cyllidebau ysgolion yn seiliedig i raddau helaeth ar niferoedd disgyblion. Mewn ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn isel, nid yw'r cyllid fesul disgybl yn ddigonol fel arfer i'r ysgol barhau i fod yn hyfyw o safbwynt gweithredol. Lle mae nifer y disgyblion yn isel, mae costau sefydlog, a chostau (megis staffio) nad ydynt yn cynyddu neu'n lleihau yn unol â nifer y disgyblion, yn ffurfio cyfran lawer uwch o gostau cynnal yr ysgol.

Mae'r fformiwla gyllido felly yn cynnwys taliadau atodol megis taliadau atodol ysgol fach a thaliadau atodol lleoedd gwag. Mae'r fformiwla felly yn cydnabod yr hyn sydd ei angen ar ysgol fach i weithredu gyda'r lleiafswm staffio sy'n briodol ac i dalu costau gweithredol. Mae'r taliadau atodol yn golygu bod y gost gyfartalog fesul disgybl wrth redeg ysgol lai yn fwy o gymharu ag ysgolion mwy.

Mae'r arbedion refeniw sy'n deillio o gau'r ysgol yn ymwneud â'r taliadau atodol sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb yr ysgol yn unig. Mae hyn oherwydd bod y cyllid fesul disgybl yn cael ei drosglwyddo gyda disgyblion i'w hysgol newydd. Mae hyn yn helpu'r ysgol sy'n derbyn i ddod yn fwy sefydlog a chynaliadwy yn ariannol.

Fodd bynnag, mae'r arbedion refeniw fel arfer yn cael eu dychwelyd i gyllideb gyffredinol yr ysgolion a'u hailddosbarthu ar draws y rhwydwaith ar ffurf cyllid i bob ysgol. Mae cyllideb ddirprwyedig yr ysgolion yn cynnwys cyllid fesul disgybl a thaliadau atodol i gefnogi lle na fyddai cyllid fesul disgybl yn ddigonol i ddiwallu anghenion sylfaenol yr ysgol. Felly mae taliadau atodol yn lleihau'r cyllid fesul disgybl sydd ar gael i bob ysgol arall, sy'n golygu bod y cyllid ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ysgolion llai yn effeithio ar holl ysgolion yr Awdurdod.

Yn seiliedig ar y dyraniadau cyllid gwreiddiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, mae'r arbedion refeniw yn sgil cau Ysgol Bancffosfelen fel a ganlyn:

Tâl atodol	**Swm**
Tâl atodol ysgol fach	£0.00
Tâl Atodol Lleoedd Gwag	£13,309
Tâl Atodol Ffederasiwn	£6,000
Ardrethi Annomestig	£3,815
Cyfanswm	£23,124

Bydd y cyllid ar sail niferoedd disgyblion yn cael ei drosglwyddo gyda disgyblion i'w hysgol dderbyn.

Os nad yw ysgol yn cau ar 31 Mawrth, bydd dyraniad y flwyddyn gyntaf ar sail pro rata.

Mae enghraifft yn seiliedig ar gyllid blwyddyn lawn Ysgol Bancffosfelen yn seiliedig ar niferoedd disgyblion ar gyfer blwyddyn ariannol 26/27 fel a ganlyn:

Cyllid	
Cyllid fesul disgybl ar gyfer 48 o ddisgyblion	£237,634
Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (Amddifadedd, Plant sy'n Derbyn Gofal a Chynlluniau Datblygu Unigol)	£10,015
Cyfanswm	£247,649

Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, bydd y wybodaeth ariannol ddiweddaraf yn cael ei darparu pan fydd ar gael.

Mae'r cyllid hwn yn sicrhau bod modd talu unrhyw gostau refeniw ychwanegol a ddaw i ran yr ysgol sy'n derbyn, megis ar gyfer staff ychwanegol, a allai fod yn gysylltiedig â niferoedd disgyblion. Mae hefyd yn cefnogi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd cyllideb yr ysgol sy'n derbyn os na fydd costau ychwanegol.

Os bydd Ysgol Bancffosfelen yn cau, bydd y balans, boed yn warged neu'n ddiffyg, yn trosglwyddo'n ôl i'r Adran Addysg.

Mae arbedion eraill yn deillio o gau'r ysgol ar wahân i gyllideb yr ysgolion, ac maent yn cynnwys arbedion corfforaethol yn sgil gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog i ysgolion o achos ôl troed ysgolion llai. Er bod rhai o'r rhain, megis Cymorth

Adnoddau Dynol, Addysg a Gwasanaethau Cymorth ADY, Gwasanaeth Cerdd, Glanhau a Chynnal a Chadw Tiroedd yn anodd eu meintioli, gellir cyfrifo eraill.

Nododd yr arolwg cyflwr diweddaraf ragolwg costau cynnal a chadw pum mlynedd o oddeutu £616,424. Gall gweithredu'r cynigion yn arwain at arbedion i'r Awdurdod Lleol, gan na fyddai'r rhai o'r gwaith hwn yn angenrheidiol mwyach.

Mae'r Gwasanaeth Arlwyo yn darparu clwb brecwast (£7,388) i ddisgyblion a gwasanaeth cinio (£38,313) am gyfanswm cost flynyddol i'r Awdurdod Lleol o £45,701. Er bod hyn yn cael ei wrthbwyso gan y grant gan Lywodraeth Cymru o £21,802 i ddarparu prydau bwyd, mae arbediad net i'r gwasanaeth, ac felly i'r Cyngor o £23,899. Bydd grant Llywodraeth Cymru o £21,802 ar gyfer prydau bwyd yn symud gyda'r disgyblion i'w hysgol newydd. Mae'n annhebygol y bydd costau ychwanegol o ran darparu'r prydau bwyd yn yr ysgolion hynny, felly bydd cost net darparu'r gwasanaeth yn lleihau yn yr ysgol sy'n derbyn. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon ar wahân i gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgolion.

9.5 A fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion;

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae'r tablau isod yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

Balans diwedd blwyddyn	**(gwarged / diffyg) £**
2021/22	-43,245
2022/23	-24,017
2023/24	9,223
2024/25	34,444
2025/26	£62,924

2026/27	
Dyraniad cyllideb yr ysgol	£270,773
Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2026)	48
Cyllid fesul disgybl	£5,641
Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl	£5,969
Diffyg a gadarnhawyd Mawrth 2026	£62,924
Diffyg a ragwelir Mawrth 2027 (Mehefin 2026)	£107,733

Mae'r wybodaeth uchod yn dangos bod nifer isel y disgyblion yn yr ysgol wedi cyfrannu at bwysau cyllidebol sylweddol sydd wedi arwain at ddiffyg ariannol yn yr ysgol ers 2022-23. Roedd gan yr ysgol warged ariannol hyd at 2021-22 ond ers hynny mae diffyg wedi cynyddu'n raddol, sef £34,444 yn 2024-25. Y gorwariant yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2025-26 oedd £28,480 a arweiniodd at ddiffyg o £62,924. Rhagwelir

y bydd y diffyg a ragwelwyd ym mis Mehefin 2026 yn cynyddu i £107,733 erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2027 ym mis Mawrth 2027. Disgwylir rhagolygon wedi'u diweddaru drwy gydol y flwyddyn, a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu drwy gydol y broses. Byddai hyn yn awgrymu bod y diffyg yn anghynaliadwy ac, o ystyried nifer presennol y disgyblion a'r nifer a ragwelir, bod yr ysgol yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i adfer y diffyg o fewn amserlen resymol.

Roedd gan Ysgol Pontyberem £29,154 yn weddill yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Mawrth 2024 a gynyddodd i £38,060 ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Mawrth 2025. Mae'r gyllideb wedi parhau i gynyddu i £106,071 dros ben ym mis Mawrth 2026, fodd bynnag rhagwelir y bydd yn lleihau i £4,642 dros ben erbyn diwedd y flwyddyn ym mis Mawrth 2027. Byddai hyn yn cynyddu o bosib gyda chyllid ychwanegol ar sail nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen.

Dylid cydnabod bod taliadau atodol yn lleihau'r cyllid fesul disgybl sy'n cael effaith anfanteisiol ar bob ysgol fwy, ac felly yn effeithio ar fwy o ddisgyblion. Mae taliadau atodol mwy i ysgolion bach yn eu galluogi i osod cyllideb gytbwys a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar eu balansau. Mae cyfaddawd amlwg rhwng balans yr ysgol h.y. gwarged/diffyg a lefel y tâl atodol a roddir.

9.6 A fyddai'r enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol.

Fel rheol, o ganlyniad i Raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ac yn dilyn proses statudol ofynnol Llywodraeth Cymru (gan gynnwys yr holl asesiadau effaith priodol, y gymuned, cludiant, y Gymraeg ac ati), bydd safleoedd ysgol y nodwyd nad ydynt bellach yn ofynnol at ddibenion addysg, yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored oni bai bod angen yr adeilad/safle diangen a'i gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned.

Os gwneir y penderfyniad i gau Ysgol Bancffosfelen, gwneir asesiad i nodi unrhyw angen corfforaethol posibl am y safle. Os nodir angen o'r fath yna bydd yr ysgol yn cael ei throsglwyddo i'r adran berthnasol drwy broses feddiannu. Os nad oes angen ei chadw o safbwynt corfforaethol, efallai y byddai'n briodol, mewn rhai amgylchiadau, ystyried defnydd cymunedol parhaus i gynnwys grwpiau gwirfoddol, elusennol a mentrau cymdeithasol.

Gellid cymeradwyo defnydd o'r fath os oes angen clir a nodwyd am y defnydd arfaethedig yn yr ardal a lle mae cynllun busnes priodol yn cael ei baratoi sy'n dangos hyfywedd y defnydd amgen ac a allai gefnogi adferiad economaidd gwledig yr ardal.

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu safle diangen fel arfer yn cael eu clustnodi i'w defnyddio yn y dyfodol yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol yn y sir.

10. Tir ac Adeiladau

10.1 Manylion am unrhyw waith trosglwyddo neu waredu tir neu adeiladau a allai fod angen o ganlyniad i'r cynigion.

Mae Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, ni fyddai angen Ysgol Bancffosfelen wedyn. Yn gyffredinol, bydd ysgolion y nodwyd nad oes eu hangen mwyach at ddibenion addysgol yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, oni bai bod angen yr adeilad / safle gwag a'i gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned os yn briodol.

10.2 A yw'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt

Mae Adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol wedi adolygu dogfennau'r Gofrestrfa Tir a'r gweithredoedd swyddogol ac, o'r dogfennau sydd wedi'u hadolygu ar hyn o bryd, nid ydynt yn credu y bydd y cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen yn effeithio ar unrhyw ymddiriedolaethau neu fuddiannau elusennol.

10.3 Ansawdd adeilad yr ysgol y byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo ohoni

Mae ansawdd yr adeilad a'r cyfleusterau yn Ysgol Pontyberem o safon uwch o gymharu â'r rhai yn Ysgol Bancffosfelen o ran cyflwr, addasrwydd a'r cyfleusterau sydd ar gael.

Mae Ysgol Pontyberem yn ysgol fwy ag adeilad mwy modern a gafodd ei wella'n sylweddol yn 2019. Mae ganddo gyfleusterau da ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm, dysgu yn yr awyr agored, chwarae a gweithgarwch corfforol.

Mae gan Ysgol Pontyberem hygyrchedd da y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad ers cael ei hadnewyddu'n ddiweddar yn 2019 ac mae'n cynnwys mannau chwarae, caeau chwaraeon a chyrtiau gwastad i raddau helaeth. Dangosir manylion cyflwr a graddfeydd addasrwydd y ddau adeilad yn y tabl canlynol.

	Ysgol Bancffosfelen	**Ysgol Pontyberem**
Cyflwr Adeilad yr Ysgol	Gradd C. Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.	Gradd A. Fel newydd.
Addasrwydd Adeilad yr Ysgol	Gradd D. Gwael, mae'r adeiladau'n rhwystro gallu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm yn ddifrifol.	Gradd A. Cyfleusterau da ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol.

Newidiwyd cyflwr yr adeilad i Radd C o Radd B yn yr arolwg cyflwr diweddaraf (2024), yn bennaf oherwydd y materion sy'n ymwneud â'r neuadd ac ystafelloedd dosbarth eraill nad ydynt yn cael eu defnyddio. Pe bai'r rhannau hyn o'r adeilad yn cael eu tynnu bant, gallai gradd cyflwr gyffredinol yr adeilad wella, yn amodol ar arolwg pellach.

10.4 Gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sy'n angenrheidiol i sicrhau y gellir darparu lle i'r plant sy'n cael eu trosglwyddo yn y ddarpariaeth amgen;

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'i Chorff Llywodraethu i sicrhau ei bod yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo.

Pe bai'r holl ddisgyblion presennol yn dewis trosglwyddo, cydnabyddir y byddai'r ysgol sy'n derbyn dros ei chapasiti a'i nifer derbyn presennol mewn rhai grwpiau blwyddyn. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai angen dwy ystafell ddosbarth ychwanegol i ddarparu ar gyfer y rhai sy'n trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y byddai'r costau ar gyfer y gwaith hwn oddeutu £900,000 i £1,200,000.


Mae ymarferion dichonoldeb cychwynnol wedi nodi y gellid gosod yr ystafelloedd dosbarth ychwanegol ar y safle heb fawr o effaith ar yr ysgol a'i chyfleusterau allanol.

11. Teithio a Chludiant

Mae data CYBLD 2026 yn dangos bod gan Ysgol Bancffosfelen 48 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol yn dangos bod tua 44% o'r dysgwyr yn cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd a bod tua 46% yn teithio i'r ysgol mewn car preifat. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddisgyblion yn derbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Y cynnig yw cau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem sydd tua 1.3 milltir o'r ysgol bresennol. Mae'r ddwy ysgol wedi'u cysylltu gan y B4306 a ffyrdd preswyl lleol. Amcangyfrifir mai'r amseroedd teithio rhwng yr ysgolion yw tua 3 munud mewn car, 6 munud ar feic, a thua 28 munud ar droed. Oherwydd topograffi'r ardal, mae amseroedd teithio yn hirach wrth deithio i'r cyfeiriad arall, gan gynyddu i oddeutu 4 munud mewn car, 21 munud ar feic a 38 munud ar droed.

Mae'r cynllun canlynol yn dangos lleoliad y ddwy ysgol.



11.1 Newidiadau i drefniadau teithio dysgwyr a hygyrchedd y ddarpariaeth

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai mynediad at addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn agos at y gymuned drwy Ysgol Pontyberem. Fodd bynnag, byddai trefniadau teithio yn newid ar gyfer rhai dysgwyr ac efallai y bydd llai o gydgerdded ynghyd â mwy o ddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat a chludiant o'r cartref i'r ysgol.

Yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n byw y tu hwnt i'r pellter cerdded statudol (dwy filltir ar hyn o bryd) o'u hysgol gynradd ddynodedig yn y dalgylch. O ganlyniad, byddai cludiant am ddim ar gael i unrhyw ddysgwyr cymwys sy'n trosglwyddo i'w hysgol dalgylch newydd ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim. Byddai disgyblion ag ADY hefyd yn gymwys i gael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os yw hynny wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Rhieni disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol fyddai'n gyfrifol am gludiant i'r ysgol ac adref.

Mae modelu cychwynnol yn nodi:

- Efallai y bydd nifer fach o ddysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim os byddant yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem.
- Gallai tua 16 o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd sydd eisoes yn byw yn nalgylch Pontyberem wynebu pellteroedd teithio tebyg neu bellterau teithio byrrach.
- Gallai nifer fach o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen o'r tu allan i'r dalgylch wynebu newidiadau o ran bod yn gymwys i gael cludiant yn dibynnu ar ddewis y rhieni a'r ysgol a ddewisir.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd dewis y rhieni a phenderfyniadau derbyn yn y dyfodol yn dylanwadu ar y trefniadau teithio terfynol ac, felly, mae rhywfaint o ansicrwydd yn parhau ynghylch yr union alw am gludiant sy'n deillio o'r cynnig.

11.2 Llwybrau Cerdded, Olwyno a Beicio

Mae asesiad o gysylltiadau teithio llesol rhwng Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem wedi'i gynnal. Roedd hyn yn ystyried y llwybr uniongyrchol ar hyd y B4306 a ffordd arall drwy strydoedd preswyl, gan gynnwys Ffordd Aneirin.

Er bod y ddau lwybr yn darparu cysylltiad cymharol uniongyrchol ac yn bennaf yn mynd drwy ardaloedd lle mae terfyn cyflymder 20mya, nodwyd nifer o gyfyngiadau sylweddol. Mae'r llwybrau yn cynnwys rhiwiau serth a pharhaus, gan gynyddu'r amseroedd teithio a'r ymdrech gorfforol, yn enwedig wrth fynd i fyny rhiw. Mae'r rhiwiau hyn yn debygol o fod yn heriol i ddysgwyr iau, defnyddwyr llai abl a'r rhai ag amhariadau symud.

Nododd yr asesiad hefyd:

- Rhannau o'r droedffordd sy'n gul neu wedi'i rhwystro.
- Bylchau yn y ddarpariaeth i gerddwyr.
- Cyfleoedd cyfyngedig i groesi.
- Cyfyngiadau i feicwyr lle mae'n rhaid rhannu'r ffordd gerbydau â thraffig modur.
- Cyfyngiadau seilwaith sy'n lleihau hygyrchedd i rai defnyddwyr.

O ystyried y ffactorau hyn gyda'i gilydd, mae'n golygu, er bod llwybrau cerdded a beicio ar gael rhwng y ddwy ysgol, nad ydynt yn darparu cysylltiad teithio llesol parhaus, diogel, cyfforddus a chwbl gynhwysol ar gyfer y dalgylch disgyblion ehangach. Yn y cyd-destun hwn, efallai na fydd teithio llesol yn opsiwn ymarferol neu resymol i bob dysgwr. Serch hynny, byddai cyfleoedd i gerdded a beicio yn parhau i rai teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw'n agosach at Ysgol Pontyberem neu ar rannau mwy ffafriol o'r rhwydwaith priffyrdd lleol.

Mae gan Ysgol Pontyberem gysgodfannau storio ar gyfer beiciau a sgwteri a dwy gysgodfan i rieni eu defnyddio yn ystod adegau casglu.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, bydd cyfleoedd ar gyfer teithio cynaliadwy yn parhau i gael eu hyrwyddo lle mae hyn yn ddiogel, yn ymarferol ac yn briodol.

11.3 Yr effaith ar Deithiau ac Amseroedd Teithio

I'r rhan fwyaf o'r dysgwyr, disgwylir i'r amseroedd teithio aros yn gymharol fyr o ystyried agosrwydd Ysgol Pontyberem at Ysgol Bancffosfelen. Fodd bynnag, bydd y cynnig yn arwain at newidiadau i drefniadau teithio rhai disgyblion a gallai arwain at deithiau dyddiol hirach, mwy o ddibyniaeth ar gludiant a llai o gyfleoedd i deithio'n annibynnol i'r ysgol. Er na ddisgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn wynebu anawsterau sylweddol, efallai y bydd angen amser teithio ychwanegol a threfniadau teithio mwy cymhleth ar rai disgyblion o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall newidiadau i arferion teithio dyddiol olygu goblygiadau o ran presenoldeb, prydlondeb a chyfranogiad ym mywyd yr ysgol. Er bod disgwyl i unrhyw effeithiau fod yn fach i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr, gallai nifer fach

gael llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol neu efallai y bydd angen amser i addasu i drefniadau teithio newydd.

I fynd i'r afael â hyn, bydd yr Awdurdod ac Ysgol Pontyberem yn gweithio'n agos gyda theuluoedd yn ystod y cyfnod pontio, yn monitro presenoldeb a phrydlondeb, ac yn sicrhau bod trefniadau cludiant yn helpu dysgwyr i gyrraedd a gadael yr ysgol yn brydlon. Pan fydd materion sy'n gysylltiedig â theithio yn cael eu nodi, darperir cymorth ac ymyrraeth briodol.

11.4 Newidiadau mewn trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Gallai effaith newidiadau i drefniadau teithio a phontio i ysgol newydd fod yn fwy yn achos rhai dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Ar hyn o bryd mae ADY gan oddeutu 8% o ddisgyblion Ysgol Bancffosfelen. I rai dysgwyr, gallai newidiadau i arferion, trefniadau teithio anghyfarwydd, ac addasu i amgylchedd ysgol mwy o faint arwain at ragor o orbryder neu'r angen am gymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod pontio.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu hystyried yn ofalus drwy gydol y broses weithredu. Caiff asesiadau unigol o ofynion cludiant eu cynnal lle bo angen a bydd cludiant arbenigol ar gael lle nodir ei bod yn briodol. Bydd rhaglen bontio strwythuredig yn cael ei gweithredu hefyd i gefnogi dysgwyr cyn iddynt drosglwyddo. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i ymweld ag Ysgol Pontyberem, cyfarwyddo â threfniadau teithio, a magu hyder yn yr amgylchedd ysgol newydd.

Bydd yr ysgol sy'n derbyn yn darparu cymorth bugeiliol a llesiant priodol, ac yn monitro presenoldeb, ymgysylltiad a llesiant yn dilyn trosglwyddo. Er y gallai heriau ychwanegol ddod ar draws rhai dysgwyr ag ADY yn ystod y cyfnod pontio, mae'r Awdurdod o'r farn y gellir rheoli'r rhain yn effeithiol drwy gynllunio gofalus, trefniadau cymorth unigol, ac ymgysylltu parhaus â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

11.5 Ystyriaethau o ran Cydraddoldeb a Hygyrchedd

Mae'r cynnig wedi'i ystyried yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a dyletswyddau cydraddoldeb y Cyngor.

Mae'r Asesiad Teithio Llesol wedi nodi nad yw'r llwybrau cerdded a beicio presennol yn gwbl gynhwysol ac y gallent beri rhwystrau ar gyfer:

- Dysgwyr iau.
- Dysgwyr ag anableddau neu amhariadau symud.
- Dysgwyr nad ydynt yn gallu defnyddio seilwaith di-dor i gerddwyr yn ddiogel.

Mae yna hefyd botensial ar gyfer effaith anghymesur ar aelwydydd incwm is a theuluoedd heb fynediad at drafnidiaeth breifat. I liniaru'r effeithiau hyn, darperir cludiant am ddim yn sgil bodloni'r meini prawf cymhwysedd a bydd teuluoedd yn cael gwybodaeth glir ynghylch hawliau cludiant a threfniadau cymorth. Gallai'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn rheolaidd rhwng y cymunedau

hefyd helpu i gefnogi mynediad i rieni, gofalwyr ac ymwelwyr sy'n dod i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ysgol.

11.6 Costau Cludiant a Goblygiadau Teithio Ehangach

Byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gynyddu costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddysgwyr yn derbyn cludiant ysgol i Ysgol Bancffosfelen. Mae'r amcangyfrifon presennol yn dangos y byddai cost darparu cludiant i ddysgwyr cymwys o ddalgylch presennol Bancffosfelen i Ysgol Pontyberem oddeutu £57,000 y flwyddyn, er y bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar ddewis rhieni, nifer y disgyblion terfynol a'r trefniadau caffael cludiant. Mae'n bosibl y bydd costau cludiant ychwanegol yn codi lle mae dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd o'r tu allan i'r dalgylch yn trosglwyddo i ysgolion y byddent yn gymwys i gael cludiant iddynt.

Mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn gweithredu rhwng Bancffosfelen a Phontyberem drwy gydol y dydd, gan gynnwys gwasanaethau sy'n stopio'n agos at y ddwy gymuned a'r ddwy ysgol. Ar hyn o bryd, mae nifer o wasanaethau bws yn darparu cysylltiadau uniongyrchol rhwng Bancffosfelen a Phontyberem, ac mae'r amseroedd teithio fel arfer yn cymryd llai na 10 munud. Mae hyn yn darparu cyswllt trafnidiaeth gyhoeddus presennol rhwng y cymunedau. Fodd bynnag, o ystyried oedran y dysgwyr yr effeithir arnynt, amseroedd agor a chau'r ysgol, a'r cludiant o'r cartref i'r ysgol sydd ar gael i ddysgwyr cymwys, ni ragwelir mai trafnidiaeth gyhoeddus fydd y prif ddull o deithio i'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Pontyberem. Gallai'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn rheolaidd rhwng y cymunedau hefyd helpu i gefnogi mynediad i rieni, gofalwyr ac ymwelwyr sy'n dod i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ysgol.

Gallai'r cynnig hefyd effeithio ar drefniadau teithio ar gyfer staff, rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr. Efallai y bydd staff yn gweld newidiadau i batrymau cymudo yn dibynnu ar drefniadau cyflogaeth yn y dyfodol ac efallai y bydd angen i rieni, gofalwyr ac ymwelwyr deithio i Ysgol Pontyberem ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau ysgol a gweithgareddau eraill. O ystyried y pellter cymharol fyr rhwng y ddwy ysgol, ni ragwelir y bydd yr effeithiau hyn yn sylweddol ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

Nid oes gan Ysgol Bancffosfelen gyfleusterau casglu a gollwng pwrpasol ar hyn o bryd ac mae rhieni'n defnyddio'r briffordd gyhoeddus. Mae gan Ysgol Pontyberem gyfleusterau gollwng a chasglu pwrpasol ar gyfer oddeutu 60 o geir ynghyd â mannau parcio dynodedig i bobl anabl. Mae'r safle yn cynnwys elfen o wahanu rhwng symudiadau cerddwyr a cherbydau, gan gynnwys troedffyrdd a mannau croesi pwrpasol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleusterau storio beiciau a sgwteri a chyfleusterau aros i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at newidiadau i drefniadau teithio rhai dysgwyr. Er bod Ysgol Pontyberem dim ond tua 1.3 milltir o Ysgol Bancffosfelen, mae cyfyngiadau o ran y llwybr yn golygu efallai na fydd teithio llesol yn opsiwn realistig i bob dysgwr er gwaethaf y pellter cymharol fyr. Felly, rhagwelir y bydd mwy o ddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat a chludiant o'r cartref i'r ysgol.

Disgwylir y bydd modd rheoli'r effeithiau ar bresenoldeb, llesiant ac ymgysylltu drwy drefniadau pontio priodol, darparu cludiant a monitro parhaus. Bydd ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi i ddysgwyr iau, dysgwyr ag ADY a'r rhai y mae eu hamgylchiadau'n dangos y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod pontio.

12. Trefniadau Derbyn

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweinyddu'r broses dderbyn i Ysgol Pontyberem neu unrhyw un ysgol arall a gynhelir gan Sir Gaerfyrddin yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion yr Awdurdod Lleol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Cyngor Sir Caerfyrddin,
Yr Adran Addysg a Hamdden,
Adeilad 3,
Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n rhaid i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid gyflwyno cais am le yn Ysgol Pontyberem, neu ysgol arall a gynhelir o'u dewis yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â threfniadau presennol y Cyngor o ran derbyn i ysgolion. Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn dileu'r angen i wneud cais drwy'r broses dderbyn arferol.


12.1 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Yn 11 oed, mae plant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Rhaid cyflwyno cais ar gyfer yr ysgol uwchradd a ffefrir, gan nad oes trosglwyddiad awtomatig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn ystod tymor yr hydref o flwyddyn olaf yr ysgol gynradd, bydd teuluoedd yn derbyn hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth am bob ysgol uwchradd yn y sir a manylion ar sut i wneud cais.


Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Gellir cyflwyno ceisiadau ar gyfer unrhyw ysgol uwchradd yn y sir. Mae'r cais yn seiliedig ar gartref y plentyn ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd.

12.2 Y Dalgylch


Mae'r cynllun canlynol yn dangos dalgylch presennol Ysgol Bancffosfelen.



Mae'r cynllun canlynol yn dangos sut y bydd y dalgylch yn cael ei ddiwygio ym mis Medi 2027 yn seiliedig ar yr adolygiad diweddar o ddalgylchoedd ledled yr Awdurdod Lleol.



Os cymeradwyir y cynnig, bydd dalgylch Ysgol Bancffosfelen yn peidio â bodoli a bydd yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch Ysgol Pontyberem.



12.3. Trefniadau Pontio

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gydag Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem i sicrhau cyfnod pontio hwylus a chefnogol i'r disgyblion i gyd. Llunnir rhaglen bontio gynhwysfawr a fydd yn cynnwys ymweliadau ysgol, sesiynau ymgyfarwyddo, a chyfleoedd i ddisgyblion gwrdd â staff a'u grwpiau cyfoedion newydd cyn trosglwyddo.

Bydd rhieni a gofalwyr yn cael eu gwahodd i fynychu sesiynau gwybodaeth ac ymgysylltu i drafod trefniadau a chodi unrhyw gwestiynau neu bryderon. Rhoddir sylw arbennig i gefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed drwy ddatblygu cynlluniau pontio unigol a pharhau â'r trefniadau cymorth presennol.

Bydd cymorth llesiant a bugeiliol priodol yn cael ei ddarparu drwy gydol y cyfnod pontio i helpu disgyblion i addasu i'w hamgylchedd dysgu newydd. Bydd yr ysgolion hefyd yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod gwybodaeth am addysg, llesiant a chymorth yn cael ei rhannu'n effeithiol er mwyn cynnal parhad dysgu a sicrhau bod anghenion pob disgybl yn parhau i gael eu diwallu o'r pwynt trosglwyddo ymlaen.

13. Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

Â phwy yr ymgynghorir?

Bydd dolen i'r Ddogfen Ymgynghori yn cael ei darparu i'r rhanddeiliaid canlynol (fel y pennir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026):

Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid:

- Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt
- Darpar ddisgyblion, lle bo'n bosibl
- Disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt
- Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd yr effeithir arni;

Staff ac arweinyddiaeth yr ysgol:

- Aelodau staff ysgolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion
- Aelodau staff unrhyw ysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni
- Cyrff llywodraethu ysgolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion
- Cyrff llywodraethu unrhyw ysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni.

Awdurdodau lleol a'r llywodraeth:

- Awdurdod cynhaliol ar gyfer yr ysgolion yr effeithir arnynt, gan gynnwys timau trafnidiaeth a phriffyrdd perthnasol
- Awdurdodau lleol cyfagos ac unrhyw awdurdod lleol arall y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt
- Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth DDdY arbenigol, unrhyw awdurdod lleol sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli dysgwyr ag ADY yn y ddarpariaeth
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol o'r Senedd ac Aelodau Seneddol ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan yr ysgolion
- Estyn
- Gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol
- Medr (yn achos cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion)

Grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr:

- Undebau athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli staff yn yr ysgolion dan sylw
- Cynghorau cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan yr ysgolion
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;

- Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni
- Sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu'r ardal (yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd)

Darpariaeth blynyddoedd cynnar ac ADY:

- Darparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin
- Sefydliadau ambarél cenedlaethol sy'n cefnogi darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys:
    - NDNA Cymru
    - Clybiau Plant Cymru
    - Blynyddoedd Cynnar Cymru
    - PACEY Cymru
    - Chwarae Cymru
    - Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
    - Cyrff iechyd neu sefydliadau trydydd sector perthnasol (yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth DDdY/ADY)

Darpariaeth Gymraeg:

- Comisiynydd y Gymraeg (yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg)
- Mentrau Iaith perthnasol

Ymgynghori â Disgyblion

Bydd copïau o Ddogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc yn cael eu darparu i'r disgyblion.

Yn ogystal, bydd cyfle i'r disgyblion (Cyngor yr Ysgol o leiaf) yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gan Swyddog o'r Awdurdod Lleol neu drwy arolwg ar-lein pwrpasol.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r ymgynghoriad gyda'r disgyblion yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

<u>Cam 1. Cyfnod Ymgynghori</u>

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 10 Tachwedd 2026 ac yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2026.

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig neu ddarparu awgrymiadau eraill. Gallwch hefyd:

- wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau amgen yn lle cau sydd wedi'u nodi, yn ogystal â'r prif gynnig ac
- awgrymu opsiynau amgen eraill yn lle cau a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros gau (h.y. yr heriau allweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu).

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau, mynegi eich barn neu ddarparu opsiynau eraill i'w hystyried erbyn 22 Rhagfyr 2026 fan bellaf drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: Arolwg SNAP
- Anfon neges e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad canlynol: Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, SA31 1JP
- Neu lenwi copi papur o'r ffurflen ymateb (atodiad F) a'i dychwelyd at Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, SA31 1JP neu anfon copi wedi'i sganio drwy e-bost at RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk.

Nodwch mai dim ond drwy un dull cyfathrebu y mae angen i chi gyflwyno'ch ymateb.

Bydd sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi trwy lenwi a chyflwyno'r ffurflen ymateb yn Atodiad F.

Bydd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Cam 2. Cyfnod Gwrthwynebu o ran yr Hysbysiad Statudol

Os bydd Cabinet y Cyngor Sir yn penderfynu parhau â'r cynnig, rhaid cyhoeddi "Hysbysiad Statudol".

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad hefyd ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi trwy anfon e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk.

Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad.

Cam 3. Penderfynu

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newid arfaethedig yn mynd yn ei flaen. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cyngor Sir a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.

13.1 Amserlen a ragwelir ar gyfer Gweithdrefnau Statudol

Pe bai Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem, byddai'r amserlen a ragwelir fel a ganlyn:

Disgrifiad	Hyd
Ymgynghoriad Dosbarthu'r ddogfen ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.	10 Tachwedd 2026 - 22 Rhagfyr 2026
Adroddiad Ymgynghori Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.	Mehefin 2027 Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig:	
Hysbysiad Statudol Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol.	Mehefin – Gorffennaf 2027 O leiaf 28 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 15 diwrnod ysgol a heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi)
Adroddiad Gwrthwynebu Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.	Hydref 2027 Cyn pen 7 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y penderfyniad.
Penderfynu Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig.	Hydref 2027 Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 16 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu
Os bydd y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Ysgol Bancffosfelen yn cau.	**31 Rhagfyr 2027**

Cynnig i gau Ysgol Gynradd Bancffosfelen

Atodiadau



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Asesiadau o'r Effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar gymuned Bancffosfelen. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad A. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol a ddaw i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol a ddaw i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae asesiad effaith integredig cychwynnol wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn atodiad C. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.
Y Pwnc: Y cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gyfer unrhyw gynnig i gau ysgol.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses statudol i adlewyrchu unrhyw adborth sy'n dod i law:

1. **Gwybodaeth am y gyfran o ddisgyblion o'r tu mewn i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol a disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill y tu allan i'r dalgylch:**

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill a pha ysgolion y maent yn eu mynychu.

Blwyddyn	**Nifer y Disgyblion**	**Yn y dalgylch**	**Y tu allan i'r dalgylch**	**Yn y dalgylch mewn ysgolion eraill***
CYBLD 2026	48	23	25	41
***Ysgolion eraill** Ysgol Gynradd Cefneithin, Ysgol Gynradd Tre Ioan, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, Ysgol Gynradd Llangynnwr, Ysgol Gynradd Llannon, Ysgol Pen-bre, Ysgol Gynradd Pontyberem, Ysgol Gynradd Swiss Valley, Ysgol Gynradd y Tymbl, Ysgol y Castell, Ysgol y Dderwen				

2. **gwybodaeth am y gyfran o ddysgwyr sydd o fewn y trothwyon ar gyfer darpariaeth cludiant i'r ysgol ar hyn o bryd (2 filltir ar gyfer ysgol gynradd a 3 milltir ar gyfer ysgol uwchradd) sy'n mynychu'r ysgol a sut y bydd y cynnig yn effeithio arnynt;**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddisgyblion yn derbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

3. **Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgol amgen yn yr un categori iaith (ar gyfer pob dull teithio);**

Y cynnig yw cau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem sydd tua 1.3 milltir i ffwrdd ar hyd y B4306. Amcangyfrifir mai'r amseroedd teithio yw tua 3 munud mewn car, 6 munud ar feic, a thua 28 munud ar droed rhwng y ddwy ysgol. Oherwydd y topograffi a'r rhiwiau serth rhwng y ddau leoliad, mae amseroedd teithio yn hirach wrth deithio o Bontyberem i Fancffosfelen, gan gynyddu i oddeutu 4 munud mewn car, 21 munud ar feic a 38 munud ar droed.

4. Yr effaith ar iechyd a llesiant e.e., pe bai'n fwy anodd i ddysgwyr gerdded neu feicio i'r ysgol;

Gallai cau'r ysgol effeithio ar allu rhai disgyblion i gerdded neu feicio oherwydd y cynnydd yn y pellter a phryderon diogelwch ffyrdd yn ymwneud â rhiwiau, troedffyrdd a mannau croesi diogel. I rai disgyblion, gallai hyn leihau cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol bob dydd, ond gallai roi cyfle i'r disgyblion hynny sy'n byw yn agosach at Ysgol Pontyberem ac o fewn dalgylch presennol yr ysgol dderbyn arfaethedig gerdded a beicio i'r ysgol. Byddai angen cludiant ysgol ar ddisgyblion cymwys.

Mae effeithiau llesiant posibl y cynnig yn cynnwys:

- Mwy o flinder sy'n gysylltiedig â theithiau hirach neu fwy heriol
- Llai o annibyniaeth oherwydd dibyniaeth ar drafnidiaeth
- Llai o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol dyddiol anffurfiol drwy gerdded
- Pryder sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r drefn arferol
- Effeithiau emosiynol a chymdeithasol ar ddisgyblion sy'n deillio o gau amgylchedd ysgol cyfarwydd
- Effaith gadarnhaol bosibl ar rai disgyblion sy'n byw yn agosach at Ysgol Pontyberem neu o fewn ei dalgylch, a allai gael gwell cyfleoedd i gerdded neu feicio i'r ysgol.

I liniaru'r effeithiau hyn, bydd rhaglen bontio strwythuredig yn cael ei rhoi ar waith, gan gynnwys ymweliadau â'r ysgol sy'n derbyn i ddarparu cyfleoedd i ddod yn gyfarwydd â threfniadau teithio newydd. Bydd yr ysgol sy'n derbyn yn darparu cymorth bugeiliol i helpu dysgwyr i addasu a bydd yn monitro llesiant, ymddygiad ac ymgysylltiad y disgyblion. Hefyd, bydd dysgwyr yn elwa ar y cyfleoedd sydd ar gael yn Ysgol Pontyberem, gan gynnwys grwpiau cyfoedion ehangach, profiadau dysgu gwell a mynediad at wasanaethau cymorth ehangach.

Mae MALlC 2025 yn nodi mai mynediad at wasanaethau yw un o'r ffactorau amddifadedd mwy arwyddocaol sy'n effeithio ar rannau o'r dalgylch. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd cynnal cyfleoedd i ddisgyblion a theuluoedd gael mynediad at wasanaethau addysgol, cymunedol a chymorth ar ôl gweithredu'r cynnig yn bwysig wrth liniaru effeithiau posibl ar lesiant.

5. Gwybodaeth am oblygiadau ehangach y newidiadau ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus;

Ni ragwelir unrhyw effeithiau ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus os gweithredir y cynigion.

6. Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach;

Gallai cau'r ysgol olygu bod safle'r ysgol yn wag am gyfnod. Gall adeiladau cyhoeddus gwag ddenu fandaliaeth, tresmasu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thipio anghyfreithlon, gan greu pryderon ynghylch diogelwch cymunedol a chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â diogelwch y safle a'i gynnal a'i gadw.

Gallai cau leihau lefelau gweithgarwch dyddiol a goruchwyliaeth anffurfiol yng nghyffiniau'r ysgol. Gallai llai o ddefnydd greu cyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnydd anawdurdodedig o dir yr ysgol, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Gall y risg o danau bwriadol fod yn fwy mewn adeiladau gwag. Gallai unrhyw ddigwyddiad o'r fath olygu goblygiadau y tu hwnt i'r safle ei hun, gan gynnwys risgiau i drigolion cyfagos, effeithiau amgylcheddol a gofynion ar y gwasanaethau brys.

Disgwylir i unrhyw broblemau diogelwch cymunedol posibl sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol fod yn rhai dros dro ac maent yn dibynnu i raddau helaeth ar ddefnydd y safle yn y dyfodol.

I liniaru'r risgiau hyn, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r eiddo a lleihau'r risg o fynediad anawdurdodedig, fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon neu danau bwriadol. Hefyd, bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i benderfynu ar ddefnydd y safle yn y dyfodol cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau unrhyw gyfnod pan fydd yr adeilad yn wag o bosib a lleihau'r tebygolrwydd o bryderon ynghylch diogelwch cymunedol yn y tymor hwy.

Gallai cau adeilad yr ysgol gael goblygiadau ehangach i'r gymuned leol, yn enwedig os yw'r safle wedi cael ei ddefnyddio'n anffurfiol neu ar sail achlysuron penodol yn y gorffennol fel man lloches, man cyfarfod neu leoliad cymorth cymunedol yn ystod argyfyngau. Fodd bynnag, gan nad yw'r ysgol wedi'i chynnwys ar restr canolfannau gorffwys dynodedig yr Awdurdod Lleol, ni ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol ar y trefniadau lloches brys sefydledig. Felly, os caiff ei gymeradwyo, ni ragwelir y bydd y cau yn cael effaith sylweddol ar drefniadau ymateb brys lleol na diogelwch cymunedol ehangach yn hyn o beth.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod Ysgol Bancffosfelen yn cau, efallai y bydd pentref Bancffosfelen yn gweld llai o symudiadau traffig a gwelliannau i ddiogelwch ffyrdd yng nghyffiniau'r ysgol, yn enwedig ar adegau casglu a gollwng. Efallai y bydd mwy o ofynion teithio i ysgolion amgen, gan arwain at symudiadau cerbydau ychwanegol ar y rhwydwaith ffyrdd ehangach. Mae gan Ysgol Pontyberem gyfleuster parcio pwrpasol i rieni ollwng eu plant sy'n lliniaru effeithiau posibl mwy o deithio mewn ceir preifat ar ddiogelwch ffyrdd.

7. Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn rhoi lle iddynt neu'n eu darparu;

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth allgyrsiol a gofal plant, gan gynnwys Clwb Brecwast a gweithgareddau a ddarperir mewn partneriaeth â Menter Cwm Gwendraeth a'r Urdd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi llesiant disgyblion, datblygiad cymdeithasol, cyfranogiad mewn gweithgareddau Cymraeg a diwylliannol, ac yn darparu cymorth ychwanegol i deuluoedd sy'n gweithio.

Mae'r ysgol hefyd yn gartref i Gylch Meithrin Bancffosfelen, sef gwasanaeth pwysig sy'n cael ei werthfawrogi gan y gymuned. Mae'r Cylch Meithrin yn lleoliad cymeradwy Gofal Plant Dechrau'n Deg ac mae'n gweithredu bob dydd rhwng 9:00am a 3:00pm

ac yn darparu gwasanaeth addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg pwysig i deuluoedd lleol. Ar hyn o bryd mae wyth o blant yn mynychu un sesiwn, a bydd yn gallu cefnogi dysgwyr ychwanegol wrth i'r galw gynyddu. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod yr ysgol yn cau, ni fyddai disgyblion bellach yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hyn yn yr ysgol, a allai arwain at golli rhywfaint o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol. Gallai hynny beri heriau gofal plant a chludiant i rai teuluoedd.

Pe bai'r ysgol yn cau ac na ellid dod o hyd i leoliad arall ar gyfer y Cylch Meithrin, efallai y bydd hynny'n tarfu ar brofiadau addysgol cynnar plant lleol ac yn gwanhau llwybr sefydledig i addysg cyfrwng Cymraeg.

8. Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen y gall y dysgwyr ei mynychu;

Ar hyn o bryd mae'r ysgol dderbyn arfaethedig, sef Ysgol Pontyberem, yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyfoethogi sy'n cefnogi anghenion addysgol, cymdeithasol a llesiant disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnal Clwb Brecwast dyddiol, sy'n darparu gofal plant dan oruchwyliaeth cyn dechrau'r diwrnod ysgol, a chlwb ar ôl ysgol bob dydd Iau. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal cymorth cwnsela wythnosol drwy Area 43, gan helpu i hyrwyddo llesiant disgyblion a gwydnwch emosiynol. Mae darpariaeth gymunedol hefyd ar gael yn yr ysgol, gan gynnwys y grŵp rhieni a babanod "Cân a Chlonc" a ddarperir gan y Tîm Blynyddoedd Cynnar, a lle i'r Cylch Meithrin lleol drwy drefniant prydlesu tymor hir â'r Awdurdod Lleol.

Hefyd, mae'r disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys clybiau'r Urdd a chlybiau pêl-droed, yn ogystal â digwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon fel Cystadleuaeth Bêl-droed yr Urdd, Gŵyl Bêl-droed Bancffosfelen, Mabolgampau Mynydd Mawr a Chystadleuaeth Traws Gwlad Mynydd Mawr. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi iechyd corfforol, datblygiad cymdeithasol, ymgysylltu cymunedol a chyfranogiad mewn profiadau Cymraeg a diwylliannol.

Yn ogystal â'r gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion, mae Ysgol Pontyberem yn cael ei defnyddio gan amrywiaeth o sefydliadau cymunedol ac mae'n cynnal nifer o ddigwyddiadau cymunedol drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys clybiau chwaraeon lleol a grwpiau cymunedol sy'n defnyddio tir yr ysgol, gan ddangos rôl yr ysgol fel ased cymunedol sefydledig a darparu cyfleoedd pellach i ddisgyblion a theuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau lleol.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnal cysylltiadau cryf ag amrywiaeth o sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol, gan gynnwys Llyfrgell Pontyberem, Pantri'r Pentre, eglwysi a chapeli lleol, Coalbrook House, Menter Iaith Cwm Gwendraeth ac Elli a'r grŵp 'Young at Heart'. Mae'r partneriaethau hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymunedol, gwirfoddoli, gweithgareddau llesiant a dysgu rhwng cenedlaethau, gan helpu i gryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae Ysgol Pontyberem hefyd yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi defnydd y Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys gweithgareddau'r

Urdd, boreau coffi i rieni a gynhelir mewn partneriaeth â Menter Iaith, sesiynau Cân a Chlonc, a chyfleoedd cymorth Cymraeg i rieni a theuluoedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ac aelodau o'r gymuned gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ac yn helpu i hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus yn y gymuned ehangach.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod y disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pontyberem, byddent yn parhau i gael mynediad at amrywiaeth o gyfleusterau, gwasanaethau cymorth a chyfleoedd allgyrsiol tebyg i'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Bancffosfelen. Byddai'r darpariaethau hyn yn cefnogi llesiant, dysgu, datblygiad cymdeithasol a chyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chymunedol, gan helpu i liniaru'r effeithiau posibl sy'n deillio o golli gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysgol Bancffosfelen.

9. Sut y gellid helpu rhieni a dysgwyr i ymgysylltu â'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen ac unrhyw gyfleusterau a gynigir ganddynt:

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen yn mynd rhagddo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gefnogi disgyblion a rhieni i ymgysylltu â'r ysgol amgen a hwyluso proses bontio hwylus. Gallai hyn gynnwys ymweliadau pontio, cyfleoedd i fynd i ddigwyddiadau ysgol a gweithgareddau allgyrsiol, darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr, a chyfathrebu parhaus i sicrhau bod disgyblion, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais, yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.

Bydd anghenion unigol yn cael eu hystyried drwy gydweithio rhwng yr Awdurdod Lleol, y pennaeth a staff perthnasol yn yr ysgol sy'n derbyn i sicrhau bod trefniadau pontio a chymorth priodol ar waith ac i hyrwyddo ymgysylltiad cadarnhaol â chymuned yr ysgol.

Os bydd rhieni'n dewis i'w plentyn fynychu ysgol heblaw Ysgol Pontyberem, byddai ceisiadau'n cael eu hystyried yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor a'r trefniadau derbyn cysylltiedig.

10. A yw'r ysgol yn wir ganolbwynt bywyd y gymuned ai peidio, a ddefnyddir at ddibenion eraill – megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cymorthfeydd a digwyddiadau cymdeithasol eraill – a fyddai naill ai'n dod i ben neu'n dioddef o gael eu symud i rywle arall

Mae Ysgol Bancffosfelen yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi gweithgareddau cymunedol a darparu lleoliad ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau a chyfarfodydd lleol. Mae'r ysgol yn cael ei defnyddio gan sefydliadau cymunedol, gan gynnwys y Cyngor Cymuned a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, ac mae'n darparu man cyfarfod hygyrch i drigolion a grwpiau lleol.

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol a chodi arian sy'n dod â disgyblion, teuluoedd ac aelodau o'r gymuned ehangach ynghyd. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal digwyddiadau cymunedol fel boreau coffi, nosweithiau agored a ffeiriau tymhorol, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a rhyngweithio â'r gymuned.

Mae safle'r ysgol yn cynnwys cyfleusterau nad ydynt ar gael fel arall yn y pentref, yn enwedig cae awyr agored sylweddol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau cymunedol mwy. Er bod cyfleusterau dan do amgen ar gael yn y gymuned, mae lle awyr agored cyfatebol yn fwy cyfyngedig. O ganlyniad, gallai cau'r ysgol leihau'r lleoliadau addas sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau penodol, gan olygu o bosib bod rhaid iddynt symud, gweithredu ar raddfa lai neu ddod i ben yn gyfan gwbl.

Yn ogystal â'r defnydd o adeiladau a thir yr ysgol, mae staff yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd cymunedol drwy fod yn rhan o drefnu a chefnogi gweithgareddau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae'r berthynas rhwng staff, disgyblion, teuluoedd a thrigolion yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at gydlyniant cymunedol ac yn helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn yn y pentref. O ganlyniad, gallai cau'r ysgol gael effaith nid yn unig ar y cyfleusterau cymunedol sydd ar gael, ond hefyd ar y rhwydweithiau cymdeithasol a'r cysylltiadau anffurfiol sydd wedi datblygu o amgylch yr ysgol dros amser.

Byddai maint unrhyw effaith yn dibynnu ar y lleoliadau amgen sydd ar gael yn y gymuned a gallu sefydliadau lleol i barhau â'u gweithgareddau mewn mannau eraill. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yr ysgol ar hyn o bryd yn ganolbwynt pwysig ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltu cymunedol yn y pentref.

11. A fydd colli'r ysgol, a theuluoedd o bosibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned;

Gallai cau'r ysgol gael goblygiadau ehangach o ran gwydnwch economaidd cymuned Bancffosfelen. Mae ysgolion yn aml yn gweithredu fel canolbwyntiau cymdeithasol ac economaidd, a gallai eu cau gyfrannu at leihau gweithgarwch lleol a chael effeithiau anuniongyrchol ar gyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a busnesau lleol.
Mae'r ysgol yn cyfrannu at yr economi leol drwy'r cyfleoedd cyflogaeth y mae'n eu darparu, gan gynnwys cymorth a rolau gweithredol sy'n gysylltiedig â rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Gallai cau'r ysgol gael goblygiadau i staff sy'n cael eu cyflogi ar y safle ar hyn o bryd a gallai arwain at lai o gyfleoedd cyflogaeth lleol.

Mae'r ysgol hefyd yn cyfrannu at ddysgu proffesiynol a datblygu'r gweithlu drwy bartneriaethau sy'n darparu cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau yn y sector addysg.

Gallai'r cynnig hefyd olygu goblygiadau ariannol i rai teuluoedd. Byddai angen i ddisgyblion fynychu ysgol arall, a allai arwain at newidiadau i drefniadau teithio ac, i rai aelwydydd, gynnydd yn yr amseroedd teithio a'r costau cysylltiedig. Efallai y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu teimlo'n fwy difrifol gan deuluoedd dan anfantais economaidd.

Cydnabyddir efallai na fydd cyfran o'r disgyblion sy'n byw o fewn pellter cerdded i Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd bellach yn gallu cerdded i'w hysgol agosaf pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Gallai hyn greu ystyriaethau logistaidd ychwanegol i deuluoedd a gallai effeithio ar gyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol a bywyd ehangach yr ysgol lle mae angen trefniadau teithio.

Fodd bynnag, mae Ysgol Pontyberem, yr ysgol dderbyn arfaethedig, tua 1.3 milltir o Ysgol Bancffosfelen, ac mae rhai rhannau o ddalgylch Ysgol Bancffosfelen yn llawer agosach. Er bod Bancffosfelen a Phontyberem yn gymunedau gwahanol, oherwydd bod y ddwy gymuned yn agos at ei gilydd rhagwelir y byddai llawer o deuluoedd yn parhau i gael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardal gyfagos, a allai helpu i liniaru effeithiau andwyol posibl ar yr economi leol.

12. Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol:

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod yr ysgol yn cau, gallai fod yna effaith ar wasanaethau lleol, yn enwedig y Cylch Meithrin, ac efallai y bydd angen ei symud neu ei gau os na ellir dod o hyd i gyfleusterau priodol. Byddai'r effaith bosibl ar y Cylch Meithrin yn cael ei theimlo gan deuluoedd lleol sy'n dibynnu ar y gwasanaeth drwy leihau mynediad at wasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant lleol i deuluoedd, gyda'r potensial ar gyfer goblygiadau ehangach o ran hyrwyddo a thwf y Gymraeg yn y gymuned. Mae'r Cylch yn lleoliad cymeradwy Gofal Plant yn unig Dechrau'n Deg a phe bai'n cau o ganlyniad i weithredu'r cynigion, byddai'n effeithio ar fynediad plant i'w horiau gofal plant wedi'u hariannu, ac ar rieni sydd mewn addysg neu waith efallai.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnal cysylltiadau ag amrywiaeth o aelodau a sefydliadau cymunedol, gan gynnwys y capel lleol, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sy'n cefnogi gweithgareddau a phrofiadau dysgu yn yr ysgol. Gallai cau'r ysgol leihau cyfleoedd ar gyfer y partneriaethau a'r cysylltiadau sefydledig hyn.

Gallai cau'r ysgol hefyd arwain at golli cysylltiadau â nifer o sefydliadau a grwpiau cymunedol y cyfeirir atynt uchod. Er bod gan y pentref fynediad i neuadd bentref sy'n gwasanaethu fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd a gweithgareddau cymunedol, a chapel y pentref, sy'n chwarae rhan bwysig mewn bywyd cymunedol a digwyddiadau lleol, nid yw'n glir ar hyn o bryd a allai gynnal y gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol pe bai'n cau.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud mewn cyfleusterau cymunedol yn y pentref, gan gynnwys gwelliannau i'r maes chwarae lleol. Pe bai plant yn cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau mewn cymunedau cyfagos yn fwyfwy, gallai hynny effeithio ar lefel y defnydd a'r budd cymunedol sy'n deillio o'r buddsoddiadau hyn.

Gallai'r cynnig hefyd gael effeithiau ehangach y tu hwnt i'r gymuned ysgol uniongyrchol. Ar hyn o bryd mae Ysgol Bancffosfelen yn rhan o drefniant ffederasiwn meddal ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog drwy drefniant rhannu pennaeth. Byddai cau Ysgol Bancffosfelen yn dod â'r trefniant hwn i ben a byddai'n golygu bod angen adolygu trefniadau arweinyddiaeth a chyllid yn y dyfodol yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Er y byddai'r effeithiau hyn yn cael eu teimlo y tu allan i Fancffosfelen ei hun, maent yn rhan o'r canlyniadau ehangach sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried proffil economaidd-gymdeithasol y dalgylch gan ddefnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r dalgylch ymhlith yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru a bod ganddo lefelau isel i gymedrol o amddifadedd yn gyffredinol. Fodd

bynnag, mae MALIC 2025 yn nodi amddifadedd cymharol mewn perthynas â mynediad at wasanaethau ar draws nifer o'r dalgylchoedd. Mae hyn yn adlewyrchu natur wledig y gymuned ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfleusterau lleol wrth gefnogi mynediad o ddydd i ddydd at wasanaethau. Felly, mae gan bresenoldeb ysgol leol arwyddocâd sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg yn unig ac yn cyfrannu at hygyrchedd seilwaith cymunedol yn yr ardal.

Er bod y cynnig yn cynnal addysg cyfrwng Cymraeg ac y disgwylir iddo gefnogi datblygiad ieithyddol parhaus y disgyblion, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai cau Ysgol Bancffosfelen effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned leol a gallai fod ganddo oblygiadau ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg leol pe na bai llety amgen ar gyfer Cylch Meithrin Bancffosfelen yn cael ei sicrhau. Ystyrir y materion hyn yn fanwl yn yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg a gweithredir mesurau lliniaru priodol lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall colli ysgol gael effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac emosiynol sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg yn unig. Mae'r effeithiau posibl hyn wedi'u pwyso a'u mesur yn ofalus yn erbyn hyfywedd addysgol yr ysgol yn y tymor hir, ei chynaliadwyedd ariannol, a'i gallu i gyflawni disgwyliadau llawn y Cwricwlwm i Gymru. Er cydnabod yr effeithiau sylweddol ar y gymuned, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn drech na'r heriau sy'n wynebu'r ysgol o ran ei chynaliadwyedd, na'r angen i sicrhau darpariaeth gydnerth o ansawdd uchel i ddysgwyr yn y tymor hir.

13. Pa effaith y gallai cau ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol:

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod Ysgol Bancffosfelen yn cau, gallai hyn gael effaith ar wasanaethau lleol, yn enwedig y Cylch Meithrin. Mae gan y pentref neuadd bentref a chapel y gellid eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol ond nid yw'r wybodaeth a dderbyniwyd gan yr ysgol yn cadarnhau hyn yn benodol. Pe bai'r Cylch Meithrin yn mynd yn anhyfyw o ganlyniad i gau'r ysgol, byddai'n effeithio ar y teuluoedd lleol sy'n dibynnu ar y gwasanaeth.

14. A fyddai cau'r ysgol yn peri i deuluoedd â phlant o oedran ysgol adael y gymuned neu'n golygu bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned:

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni fyddai gan Fancffosfelen ysgol yn y pentref mwyach ac, o ganlyniad, efallai y bydd rhai yn gweld y gymuned yn llai deniadol i deuluoedd â phlant oedran ysgol. Mewn rhai amgylchiadau, gall colli ysgol leol gyfrannu at newid demograffig wrth i lai o deuluoedd ifanc symud i'r ardal ac arwain at broffil poblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy dros amser. Gallai llai o alw gan deuluoedd sy'n chwilio am dai o fewn pellter cerdded i ysgol hefyd gael goblygiadau i'r farchnad dai leol.

Fodd bynnag, mae Ysgol Pontyberem, yr ysgol dderbyn arfaethedig, tua 1.3 milltir o Ysgol Bancffosfelen, ac mae rhai rhannau o ddalgylch Ysgol Bancffosfelen yn llawer agosach. Er bod Bancffosfelen a Phontyberem yn gymunedau gwahanol, mae eu hagosrwydd daearyddol agos yn golygu y byddai mynediad at ddarpariaeth addysgol

yn parhau i fod ar gael yn agos i'r pentref. Hefyd, mae gwybodaeth am ddalgylchoedd yn dangos bod nifer o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Bancffosfelen eisoes yn mynychu Ysgol Pontyberem, sy'n dangos bod rhieni ar hyn o bryd yn ystyried yr ysgol fel opsiwn addysgol hyfyw.

Yn ogystal, byddai Bancffosfelen yn cadw nifer o asedau cymunedol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd cymunedol ac a allai barhau i wneud y pentref yn ddeniadol i deuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys maes chwarae cymunedol sy'n darparu lle hamdden diogel i blant, neuadd bentref sy'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, a chapel y pentref, sy'n parhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned. Gyda'i gilydd, mae'r cyfleusterau hyn yn cefnogi cydlyniant cymunedol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac yn helpu i wneud y pentref yn lle deniadol i fyw yn gyffredinol.

Gan ystyried y ffactorau hyn, credir ei bod yn annhebygol y byddai'r cynnig yn arwain at nifer sylweddol o deuluoedd yn gadael y gymuned. Yn yr un modd, er y gallai diffyg ysgol leol fod yn ffactor i rai darpar drigolion, mae agosrwydd at ddarpariaeth addysgol amgen a'r cyfleusterau cymunedol eraill sy'n parhau i fod ar gael yn awgrymu bod y cynnig yn annhebygol o atal teuluoedd ifanc rhag symud i'r ardal i raddau sylweddol.

Er nad oes gan y dalgylch lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn gyffredinol, mae tystiolaeth MALIC 2025 yn dangos bod gan rai rhannau o'r ardal amddifadedd cymharol mewn perthynas â mynediad at wasanaethau. O ganlyniad, gallai'r cyfleusterau cymunedol a'r gwasanaethau lleol sy'n parhau i fod ar gael fod yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar ganfyddiadau o ba mor ddeniadol yw'r ardal fel lle i deuluoedd fyw.

Mae cysylltiadau presennol hefyd rhwng y ddwy gymuned ysgol drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon a chymunedol ar y cyd, gan gynnwys Gŵyl Bêl-droed Bancffosfelen a gweithgareddau clwstwr ehangach Mynydd Mawr. Gallai'r perthnasoedd sefydledig hyn helpu disgyblion a theuluoedd i gynnal cysylltiadau cymunedol ac addasu i unrhyw newid sy'n deillio o'r cynnig.

15. Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau:

Pe bai'r ysgol yn cau, byddai lleoliad a chynaliadwyedd rhai gwasanaethau sy'n gweithredu o'r safle ar hyn o bryd yn ansicr. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y Cylch Meithrin, sy'n defnyddio rhan o'r ysgol. Pe bai'r ysgol yn cau, byddai angen chwilio am adeilad arall. Gallai symud y ddarpariaeth arwain at gostau adeilad a chostau gweithredol ychwanegol, a allai roi pwysau ariannol ar y lleoliad.

Hefyd mae gan y Cylch Meithrin berthynas agos ag Ysgol Bancffosfelen, gan ddarparu llwybr dilyniant cyfrwng Cymraeg sefydledig i addysg gynradd. Mae cyfran sylweddol o blant sy'n mynychu'r Cylch yn trosglwyddo i Ysgol Bancffosfelen wedyn. Felly, gallai cau'r ysgol effeithio ar y nifer sy'n cofrestru ar gyfer y Cylch Meithrin yn y dyfodol os bydd rhieni'n dewis darparwyr blynyddoedd cynnar amgen sy'n cynnig llwybr dilyniant mwy uniongyrchol i'w dewis ysgol gynradd.

Er bod darpariaeth blynyddoedd cynnar amgen ar gael yn yr ardal ehangach, mae Cylch Meithrin Pontyberem yn llawn ar hyn o bryd ac mae ganddo restr aros. O ganlyniad, ni ellir tybio y byddai pob plentyn sy'n mynychu'r Cylch presennol yn gallu trosglwyddo yno ar unwaith. O ganlyniad, gallai cau Ysgol Bancffosfelen greu ansicrwydd ynghylch darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y gymuned yn y dyfodol a gall effeithio ar hyfywedd hirdymor y Cylch Meithrin presennol oni bai bod modd sicrhau adeilad a threfniadau amgen addas.

Byddai angen symud gweithgareddau, cyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol eraill sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd i leoliadau cymunedol eraill, os ydynt ar gael, fel neuadd y pentref. Fodd bynnag, er bod adeiladau dan do eraill ar gael yn y gymuned, gallai cyfleusterau cyfatebol, yn enwedig mynediad i fannau awyr agored fel cae'r ysgol, fod yn fwy cyfyngedig. O ganlyniad, efallai y bydd angen i rai gweithgareddau weithredu o leoliadau amgen, cael eu haddasu o ran maint, neu ddod i ben yn gyfan gwbl os nad oes cyfleusterau newydd addas ar gael.

O ran dyfodol adeilad yr ysgol, os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu ac na fydd angen Ysgol Bancffosfelen mwyach o ran gofynion addysgol yr Awdurdod Lleol, ymagwedd gyffredinol y Cyngor yw ystyried yn gyntaf a oes angen y safle at unrhyw ddiben corfforaethol mewnol arall. Os na fydd unrhyw ofyniad o'r fath yn cael ei nodi, mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn briodol ystyried y potensial i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r adeilad. Gallai hyn gynnwys defnydd gan sefydliadau gwirfoddol neu elusennol neu fentrau cymdeithasol, megis y Cylch Meithrin, yn amodol ar angen lleol clir gyda thystiolaeth.

Lle bo'n briodol, ac yn amodol ar benderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn â'r safle, byddai'r Awdurdod Lleol yn edrych ar gyfleoedd i gadw defnydd cymunedol o rannau o'r adeilad neu'r safle. Efallai y bydd gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol a gynhelir gan yr ysgol ar hyn o bryd hefyd yn gallu symud i leoliadau amgen yn y gymuned, fel neuadd y pentref, lle mae lle addas ar gael.

16. A gaiff cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach eu gwella neu a ellid eu gwella pe câi'r ysgol ei chau:

Gellid ystyried gwella cyfleusterau cymunedol presennol pe bai'r ysgol yn cau. Byddai'r Awdurdod lleol yn cysylltu'n gynnar â darparwr y Cylch, Mudiad Meithrin a'r gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, er mwyn edrych ar yr opsiynau ymarferol ar gyfer parhau â'r gwasanaeth ym Mancffosfelen neu'r cyffiniau, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Byddai'r Awdurdod Lleol hefyd yn cysylltu â darparwr y Cylch Meithrin yn Ysgol Pontyberem i ystyried a oes lle i gynyddu'r capasiti i ddarparu ar gyfer unrhyw ddefnyddwyr blynyddoedd cynnar sy'n symud o ganlyniad i'r effeithiau ar Gylch Meithrin presennol Bancffosfelen.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud yn y seilwaith lleol i gefnogi plant, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Yn benodol, mae tua £100,000 wedi'i fuddsoddi ym maes chwarae y pentref, gan ddarparu adnodd hamdden gwerthfawr i drigolion lleol.

Er y gellid ystyried gwelliannau i gyfleusterau cymunedol fel neuadd y pentref neu'r maes chwarae o bosibl, nid oes sicrwydd y byddai gwelliannau o'r fath yn

gwrthbwyso'n llawn yr effeithiau sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol. Felly, nid oes unrhyw gynlluniau i wella neu ychwanegu at gyfleusterau eraill yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach fel rhan o'r cynigion presennol.

Atodiad B: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Paratowyd gan: Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Cyflwyniad a Phwrpas

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn ystyried effeithiau tebygol cynnig Cyngor Sir Caerfyrddin i gau Ysgol Gynradd Bancffosfelen ar 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Pontyberem o 1 Ionawr 2028. Mae'r cynnig hefyd yn golygu newid lleoliad y ddarpariaeth addysg gynradd ar gyfer dalgylch Bancffosfelen.
Mae'r Asesiad yn cael ei baratoi i edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg. Paratowyd yr asesiad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) Llywodraeth Cymru 2026 (001/2026), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Fframwaith Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
Mae'r asesiad yn ystyried:

- cyfleoedd i ddysgwyr, rhieni, staff a'r gymuned ddefnyddio'r Gymraeg;
- yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- parhad addysg cyfrwng Cymraeg;
- defnydd cymdeithasol ac anffurfiol o'r Gymraeg;
- y berthynas rhwng yr ysgol, y teulu a'r gymuned;
- effaith bosibl cau safle Ysgol Bancffosfelen ar weithgareddau Cymraeg lleol;
- y mesurau sydd eu hangen i gynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol.

2. Methodoleg a Sylfaen Dystiolaeth

Mae'r asesiad yn cael ei lywio gan y ddogfen ymgynghori statudol; Adroddiad Arolygu Estyn; Data Cymraeg Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin a'r ardal benodol; Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032; a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymraeg 2050 a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Mae’r asesiad wedi’i gryfhau drwy driongli tystiolaeth o’r ddogfen ymgynghori, ymatebion y ddwy ysgol, ac adroddiadau arolygu Estyn. Mae’n gwahaniaethu rhwng effaith addysgol, effaith gymunedol, effaith ar y blynyddoedd cynnar ac effaith ar fynediad ymarferol.

- Adroddiad Estyn Ysgol Gynradd Pontyberem, Mawrth 2023.
- Adroddiad Estyn Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, Mehefin 2018.
- Asesiad Effaith: ymateb Ysgol Pontyberem.
- Holiadur Asesiad Effaith 2026 gan y Pennaeth: ymateb Ysgol Bancffosfelen.
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022-2032, Cymraeg 2050, Safonau’r Gymraeg a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion perthnasol.

3. Cyd-destun:

Mae Ysgol Bancffosfelen yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sy’n gwasanaethu’r pentref a’r ardal wledig gyfagos. Mae’r ddogfen ymgynghori yn nodi bod 48 o ddisgyblion ar y gofrestr yn PLASC 2026, sef 46 o oedran ysgol statudol a dau ddisgybl meithrin. Roedd 23 o’r disgyblion yn byw yn y dalgylch a 25 y tu allan iddo, tra oedd 41 o blant o’r dalgylch yn mynychu ysgolion eraill.
Mae’r cynnig yn cynnal llwybr cyfrwng Cymraeg drwy drosglwyddo’r disgyblion i Ysgol Pontyberem. Yn adroddiad arolygu Estyn 2023, cofnodwyd mai Cymraeg oedd iaith Ysgol Pontyberem a bod 50.2% o’i disgyblion oedran statudol yn siarad Cymraeg gartref ar adeg yr arolygiad.
Canfu Estyn fod cwricwlwm Ysgol Pontyberem yn adlewyrchu natur ieithyddol a diwylliannol yr ardal, yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn i’r pentref, ac yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr gymryd rhan mewn eisteddfodau, cyngherddau a gweithgareddau diwylliannol.
Fodd bynnag, nid yw parhad addysg cyfrwng Cymraeg ynddo’i hun yn dileu’r risg i ddefnydd cymunedol o’r Gymraeg ym Mancffosfelen. Mae Ysgol Bancffosfelen yn cynnal neu’n cefnogi gweithgareddau megis clwb yr Urdd, sesiynau gyda Menter Iaith, gweithgareddau Cymraeg i rieni, eisteddfodau, Cân a Chlonc a sesiynau Mudiad Meithrin. Mae’r safle hefyd yn cael ei ddefnyddio gan grwpiau chwaraeon a digwyddiadau cymunedol.

4. Asesiad Effaith y Gymraeg (Tabl 1)

Mae'r adran hon yn asesu'r cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), yn benodol y Safonau Llunio Polisïau (Safonau 88–93), Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), a Safonau Gweithredol (Safonau 127–135).
Dylid nodi y bydd yr Asesiad Effaith y Gymraeg yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd er mwyn sicrhau ystyriaeth gydwybodol. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

Byddwn yn cynnwys data, tystiolaeth, mewnwelediad ac adborth o ymchwil ac ymgynghoriadau mewnol a'r ymgynghoriad cyhoeddus wrth ddilyn y broses honno.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol (cyfarchiad, arwyddion, arferion, cyfathrebu cyffredinol)	Gall symud i ysgol Gymraeg fwy ddarparu rhwydwaith ehangach o gyfoedion ac ystod fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae Estyn wedi nodi bod y rhan fwyaf o ddisgyblion Pontyberem yn gwneud cynnydd cadarn yn eu sgiliau llafar yn y ddwy iaith a bod y cwricwlwm yn adlewyrchu cymeriad ieithyddol yr ardal. Fodd bynnag, gall pontio amharu dros dro ar arferion iaith, grwpiau cyfeillgarwch, hyder a'r ymdeimlad o berthyn. Mae risg y bydd rhai plant yn defnyddio mwy o Saesneg wrth ffurfio perthnasoedd newydd neu os nad oes cefnogaeth fwriadol i gynnal eu harferion Cymraeg presennol.	Cymysg	• Sefydlu rhaglen bontio drwy gyfrwng y Gymraeg cyn y trosglwyddo. • Trefnu diwrnodau ar y cyd, gweithgareddau chwarae a chlybiau gyda disgyblion Pontyberem. • Defnyddio cynllun "bydi" Cymraeg ar gyfer pob plentyn sy'n trosglwyddo. • Cynnal gweithgareddau penodol sy'n dathlu hunaniaeth Bancffosfelen. • Gosod targedau ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn y cynllun pontio.	• Mesur hyder a defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg cyn ac ar ôl trosglwyddo, yn y ddwy gymuned nid dim ond yn yr ysgol. (gweler hefyd yr adran Cyfleoedd Cymunedol isod) • Cynnal grwpiau cyfeillgarwch lle bo hynny er lles y plant. • Darparu cymorth bugeiliol drwy gyfrwng y Gymraeg. • Cynnwys llais y disgyblion wrth lunio'r trefniadau pontio.	Niwtral i gadarnhaol, yn amodol ar weithredu a monitro effeithiol.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Safonau a darpariaeth gyfredol y Gymraeg	Gan fod y ddwy ysgol yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg, ni ddisgwylir colli'r llwybr addysgol Cymraeg. Mae tystiolaeth Estyn yn nodi bod Ysgol Pontyberem yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, gyda darpariaeth sy'n datblygu sgiliau Cymraeg a Saesneg ac yn adlewyrchu'r ardal leol. Yn adroddiad Bancffosfelen 2018, nododd Estyn fod llawer o ddisgyblion yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, ond bod angen gwella defnydd gwirfoddol o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.	Positif	• Cwblhau asesiad gwaelodlin unigol o sgiliau Cymraeg pob disgybl. • Rhannu cofnodion cynnydd, anghenion ieithyddol a strategaethau cymorth. • Sicrhau bod darpariaeth Pontyberem yn adeiladu ar ddysgu blaenorol. • Monitro cynnydd mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg fesul tymor.	• Darparu ymyriadau Cymraeg i blant sydd angen cymorth ychwanegol. • Osgoi unrhyw ddisgwyliad bod plant yn "ailddechrau" rhaglenni iaith. • Cynnwys targedau Cymraeg mewn cynlluniau pontio unigol lle bo angen.	Positif – angen monitro dilyniant ieithyddol
Cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi (cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog)	Mae Ysgol Bancffosfelen yn cynnig clwb Urdd, sesiynau Menter Iaith a chyfleoedd i gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod Bancffosfelen. Mae hefyd yn	Cymysg	• Gwarantu mynediad cyfartal at glybiau Urdd, cerddoriaeth, chwaraeon ac eisteddfodau.	• Cynnal asesiad trafnidiaeth ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol. • Ystyried cludiant hwyr neu gymorth	Niwtral, os sicrheir mynediad ymarferol a fforddiadwy.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
	cynnal gweithgareddau chwaraeon a digwyddiadau sy'n cyfrannu at ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Gall Ysgol Pontyberem gynnig ystod ehangach o weithgareddau mewn ysgol fwy, ond gall trafnidiaeth, amseroedd teithio neu drefniadau casglu leihau cyfranogiad plant Bancffosfelen, yn enwedig plant o deuluoedd heb gludiant preifat.		• Cyd-gynllunio gweithgareddau gyda'r Urdd, Menter Iaith a Mudiad Meithrin. • Cynnal rhai gweithgareddau ym Mancffosfelen os oes lleoliad addas ar gael. • Hyrwyddo gweithgareddau'n rhagweithiol i deuluoedd Bancffosfelen.	costau lle mae angen. • Monitro cyfranogiad plant Bancffosfelen yn ôl gweithgaredd a grŵp, a chefnogaeth eu rhieni wedi'r symud. • Cymryd camau cywiro os yw eu cyfradd cyfranogiad yn gostwng.	
Cyfleoedd cymunedol (cymorth i rieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach)	Mae'r ysgol bresennol yn cefnogi boreau coffi Menter Iaith, Cân a Chlonc, sesiynau Cymraeg Mudiad Meithrin a deunyddiau i helpu rhieni i gefnogi datblygiad iaith eu plant. Mae hefyd wedi meithrin cysylltiadau â chapeli, eglwysi, grwpiau lleol a gwasanaethau cymunedol.	Negyddol	• Creu rhaglen ysgol, teulu a chymuned ar y cyd rhwng Pontyberem a Bancffosfelen. • Parhau â sesiynau Cymraeg i rieni, gan gynnwys opsiynau wyneb	• Nodi lleoliad cymunedol amgen ar gyfer gweithgareddau Cymraeg ym Mancffosfelen fel bod yr ysgol yn rhannu digwyddiadau cymaint â phosib	Negyddol bach i niwtral.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
	Gall cau'r safle leihau presenoldeb sefydliadol y Gymraeg ym Mancffosfelen a gwneud i rai teuluoedd deimlo'n llai cysylltiedig ag ysgol fwy mewn cymuned arall.		yn wyneb a digidol. • Penodi unigolyn cyswllt penodol ar gyfer teuluoedd Bancffosfelen. • Sicrhau cynrychiolaeth briodol i gymuned Bancffosfelen yng ngweithgareddau'r ysgol.	rhwng y ddwy gymuned. • Cytuno ar raglen flynyddol o weithgareddau lleol cyn cau'r ysgol. • Monitro cyfranogiad rhieni a chynnal arolwg blynyddol o brofiad teuluoedd.	
Cefnogaeth i gyfranogiad diwylliannol Cymru (Urdd, Mentrau Iaith, eisteddfodau, treftadaeth)	Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod y gallai'r Cylch Meithrin orfod adleoli neu gau oni bai bod cyfleuster addas arall yn cael ei nodi. Byddai hynny'n lleihau mynediad lleol at ofal plant a gwasanaethau blynyddoedd cynnar ac yn gallu effeithio'n ehangach ar hyrwyddo a thwf y Gymraeg yn y gymuned. Mae hwn yn un o'r risgiau ieithyddol mwyaf sylweddol oherwydd bod y Cylch yn	Negyddol	• Defnyddio'r newid fel cyfle i gryfhau'r llwybr o'r Cylch i addysg Gymraeg. • Hyrwyddo'r cynnig blynyddoedd cynnar i deuluoedd newydd. • Cynnal gweithgareddau pontio rhwng y Cylch ym Mancffosfelen, y Cylch ym	• Cynnal asesiad lleoliad, trafnidiaeth, rhent, capasiti a hygyrchedd. • Cydweithio â Mudiad Meithrin i sicrhau parhad di-dor. • Monitro nifer y plant sy'n mynychu a'r gyfran sy'n symud ymlaen i addysg Gymraeg.	Niwtral os sicrheir safle cynaliadwy lleol.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
	cefnogi caffael iaith yn gynnar ac yn gallu bwydo'r llwybr addysg Gymraeg. Mae Ysgol Bancffosfelen yn cefnogi gweithgareddau'r Urdd, eisteddfodau lleol, digwyddiadau chwaraeon a chysylltiadau cymunedol. Mae Ysgol Pontyberem hefyd yn cynnig cyfleoedd rheolaidd mewn perfformiadau, eisteddfodau, cyngherddau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo hunaniaeth a threftadaeth Cymru.		Mhontyberem ac Ysgol Pontyberem.	• Archwilio defnydd iaith Gymraeg ehangach posib gyda phartneriaid i liniaru colli'r Cylch Meithrin.	
Aliniad â CSCA a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru	Mae'r cynnig yn cefnogi parhad addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyd-fynd ag amcanion CSCA Sir Gaerfyrddin a Cymraeg 2050 drwy gynnal darpariaeth Gymraeg a hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.	Positif	Datblygu a gweithredu fframwaith trochi Cymraeg strwythuredig ar gyfer Dysgu Sylfaen, gan gynnwys arferion llafaredd, patrymau	Adolygu'r asesiad yn rheolaidd wrth i dystiolaeth newydd ddod i law.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
			iaith a dilyniant geirfa gyson. Sicrhau bod trochi a darpariaeth ddwyieithog yn cael ei ddarparu trwy ddulliau cynhwysol, hygyrch, gan gynnwys cymorth gweledol, modelu ac ailadrodd. Darparu cymorth a monitro wedi'i dargedu i ddysgwyr sydd ag ADY i sicrhau bod datblygiad y Gymraeg yn cael ei gefnogi'n briodol.		
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg Mae'r gofyniad	Bydd yr holl weithgareddau ymgynghori, cyfathrebu a darparu gwasanaethau yn parhau i gael eu cynnig yn	Positif	Sicrhau bod y fersiwn sy'n addas i blant ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal a chefnogi	Defnyddio iaith syml, delweddau a chyd-destunau cyfarwydd i annog ymgysylltu a galluogi dysgwyr i	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr holl wasanaethau a chyfathrebiadau sy'n wynebu'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal.	Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg. Rhaid i'r ymgynghoriad, y broses bontio, trefniadau derbyn, trafnidiaeth, digwyddiadau a chyfathrebu â rhieni fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i safon gyfartal. Ni ddylai dewis defnyddio'r Gymraeg arwain at oedi, llai o wybodaeth neu brofiad gwasanaeth israddol.		dewisiadau iaith disgyblion. Ymgorffori adborth a gasglwyd gan blant a phobl ifanc yn y broses ymgynghori, gan sicrhau bod eu barn yn cael eu hystyried yn briodol.	fynegi eu barn yn hyderus. Hwyluso cyfleoedd i ddisgyblion drafod y cynnig yn Gymraeg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn prosesau cyfranogol a democrataidd.	

5. Safonau'r Gymraeg (Tabl 2)

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith y cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83), a'r Safonau Gweithredol (127–135).

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg	**Ydy – effaith gadarnhaol.**	**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032**, Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi'r farn hon yn cynnwys dogfennau polisi strategol cenedlaethol a lleol perthnasol, yn enwedig Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032, yn enwedig canlyniadau sy'n ymwneud â throchi cynnar, dilyniant, a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.	**Positif:** Mae'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael a defnyddio'r Gymraeg drwy drochi cynnar a llwybrau dilyniant clir, gan gefnogi defnydd mwy cyson o'r Gymraeg ar draws cyd-destunau dysgu, cymdeithasol a chymunedol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae unrhyw heriau tymor byr posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo yn cael eu lliniaru trwy weithredu fesul cam, cyfathrebu clir â theuluoedd a chefnogaeth barhaus i ddysgwyr a staff.
Peidio â thrin y Gymraeg yn	**Ydy – effaith gadarnhaol.**	Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1)	**Positif:**

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Ilai ffafriol na'r Saesneg	Mae'r cynnig yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r cynnig, a thrwy hynny atgyfnerthu cydraddoldeb ieithyddol a chydymffurfio â gofynion statudol.	2015; dogfennaeth ymgynghori ddwyieithog; a sefydlu trefniadau cydymffurfio â Safonau Cymreig Awdurdod Lleol. *(Safonau Llunio Polisi 88–93)*	Mae'r cynnig yn atgyfnerthu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol drwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, yn unol â Safonau'r Gymraeg. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae'r cynnig yn cynnal ac yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog, gan liniaru unrhyw risg o driniaeth anghyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
Safonau Llunio Polisïau – ystyriaeth gydwybodol o'r Gymraeg	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar y Safonau Llunio Polisïau drwy ystyried yn benodol yr effaith ar y Gymraeg, asesu cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a nodi mesurau lliniaru i wella canlyniadau cadarnhaol. Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn dangos bod ystyriaeth gydwybodol wedi'i roi i'r Gymraeg yn unol â	Yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn, sydd wedi'i gwblhau wrth ddatblygu'r cynnig er mwyn nodi effeithiau, mesurau lliniaru a chyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei ddiweddaru wrth i dystiolaeth ychwanegol cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori.	**Positif:** Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu gan roi sylw penodol i'r Gymraeg, gyda chefnogaeth Asesiad Effaith ar y Gymraeg sy'n nodi effeithiau, mesurau lliniaru a chyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg, yn unol â gofynion statudol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae ystyried effeithiau'r Gymraeg yn gynnar yn lliniaru'r risg o effeithiau andwyol anfwriadol.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
	Safonau Llunio Polisi 88–93, gan gynnwys ystyriaeth benodol o sut mae'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor o drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Y **ddogfen ymgynghori statudol** sy'n ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg ac sy'n cynnwys trefniadau ymgysylltu dwyieithog. Aliniad â **Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2026**, sy'n gofyn am ystyriaeth benodol o'r Gymraeg wrth ddatblygu cynigion addysg. **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin 2022–2032**, sy'n darparu'r fframwaith strategol sy'n llywio'r cynnig. **Polisi Llywodraeth Cymru**, gan gynnwys *Cymraeg 2050* a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025,	

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		sy'n sail i'r disgwyliadau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.	
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau – gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn Gymraeg	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau, cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal, gan atgyfnerthu cydymffurfiaeth a chynnal cydraddoldeb ieithyddol. Bydd yr holl drefniadau ymgynghori a chyfathrebu yn parhau i gydymffurfio â'r **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83),** gan sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu i safon gyfartal ac nad ydynt yn cael eu lleihau o ganlyniad i'r cynnig.	Rheoliadau **Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**, yn enwedig y **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83),** sy'n gosod gofynion statudol ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal. **Dogfen ymgynghori statudol** sy'n cadarnhau bod yr holl ddeunyddiau ymgynghori, gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu darparu yn ddwyieithog.	**Positif:** Mae'r cynnig yn cynnal ac yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau, gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal, gan gefnogi cydraddoldeb a hygyrchedd ieithyddol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae trefniadau darparu gwasanaethau dwyieithog yn cael eu gwella, ac ni ragwelir unrhyw ostyngiad yn y ddarpariaeth Gymraeg.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		Trefniadau cydymffurfio Safonau'r Gymraeg sefydledig Cyngor Sir Caerfyrddin, gan gynnwys gohebiaeth ddwyieithog, cyhoeddiadau ac arferion ymgysylltu â'r cyhoedd.	
Safonau Gweithredol – defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn cefnogi'r Safonau Gweithredol drwy gryfhau cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rolau proffesiynol, yn enwedig drwy fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dysgu proffesiynol wedi'i dargedu a datblygu capasiti'r gweithlu yn raddol.	Trefniadau datblygu'r gweithlu Cyngor Sir Caerfyrddin, gan gynnwys mynediad at hyfforddiant Cymraeg a dysgu proffesiynol yn unol â'r Safonau Gweithredol (Safonau 127–135). Aliniad â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin 2022–2032, yn enwedig canlyniadau sy'n ymwneud â chryfhau'r gweithlu cyfrwng	**Positif:** Mae'r cynnig yn cefnogi mwy o ddefnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff drwy ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, gyda chefnogaeth gweithredu fesul cam a dysgu proffesiynol wedi'i dargedu, a thrwy hynny gryfhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae unrhyw bwysau posibl sy'n gysylltiedig â mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn cael eu lliniaru drwy weithredu'n raddol, cynllunio'r gweithlu a mynediad at ddatblygiad proffesiynol.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		Cymraeg a defnydd mewnol o'r Gymraeg.	

6. Cyd-destun leithyddol Cymunedol

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws Sir Gaerfyrddin, gyda phwysau nodedig mewn trefi trefol ac ôl-ddiwydiannol. Er bod Sir Gaerfyrddin yn cadw cyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, mae'r gyfran ymhlith grwpiau oedran iau wedi gostwng, gan dynnu sylw at bwysigrwydd trochi cynnar a chryfhau llwybrau iaith Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r cymunedau hyn.

Proffil leithyddol yr ardal

Mae Bancffosfelen a Phontyberem yn gorwedd yn ardal Cwm Gwendraeth yn Sir Gaerfyrddin, un o galonnau hanesyddol yr iaith Gymraeg. Mae'r ardal yn elwa o seilwaith addysgol cyfrwng Cymraeg cryf, gan gynnwys Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem, Cylchoedd Meithrin, gweithgareddau'r Urdd, sefydliadau cymunedol a digwyddiadau diwylliannol sy'n cefnogi'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg.

Er bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol arwyddocaol, mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod pwysau parhaus yn deillio o newid demograffig, patrymau mudo a phatrymau newidiol o ddefnydd iaith ymhlith cenedlaethau iau.

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos mai **Ward Pontyberem sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin**, gyda:

1. **1,685 o siaradwyr Cymraeg**

2. **Mae 60.7% o breswylwyr 3+ oed yn gallu siarad Cymraeg**

Mae hyn yn gosod Pontyberem ymhlith y cymunedau Cymraeg cryfaf yn y sir.

Yn bwysig, nododd dadansoddiad Cyfrifiad y Cyngor:

1. **ACEHI Pontyberem 1** a **Phontyberem 2** ymhlith dim ond pum ACEHI yn Sir Gaerfyrddin lle **mae dros 60% o blant a phobl ifanc 3-18 oed yn gallu siarad Cymraeg**.

Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol oherwydd ei fod yn dangos bod y Gymraeg nid yn unig yn iaith a siaredir gan genedlaethau hŷn yn yr ardal ond yn parhau i fod yn iaith a ddefnyddir ac a gaffaelir gan nifer fawr o blant a phobl ifanc.

Mae Bancffosfelen yn perthyn i ardal ieithyddol ehangach Pontyberem a Gwendraeth ac mae'n rhannu llawer o'r un nodweddion cymdeithasol ac addysgol.

Mae'r gymuned yn cael ei gwasanaethu gan:

1. Addysg cyfrwng Cymraeg.

2. Cylch Meithrin Lleol.

3. Gweithgareddau'r Urdd.

4. Digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau diwylliannol a gynhelir drwy Gymraeg.

5. Cysylltiadau lleol cryf rhwng teuluoedd, ysgolion a sefydliadau cymunedol.

Un o ganfyddiadau pwysicaf Cyfrifiad 2021 yw bod gallu'r Gymraeg ymhlith grwpiau oedran iau wedi dirywio ledled Cymru ac ym mhob ardal awdurdod lleol.
O fewn Sir Gaerfyrddin:
1. Gostyngodd nifer y plant 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021.

2. Profodd y sir ostyngiad o oddeutu 510 o siaradwyr Cymraeg o fewn y grŵp oedran 3-15 oed.

3. Gostyngodd cyfran y plant a'r bobl ifanc Gymraeg 2.6 pwynt canran.

Er gwaethaf y duedd ehangach hon, mae Pontyberem yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd cryfaf ar gyfer caffael y Gymraeg ymhlith pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin, gyda'r ddwy ACEHI Pontyberem yn cofnodi dros 60% o blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.

7. Risgiau a Lliniaru

Risg	Camau lliniaru
Gall ymgysylltu â'r gymuned a'r teulu mewn gweithgareddau Cymraeg fod yn amrywiol.	• Datblygu rhaglen flynyddol o weithgareddau teuluol a chymunedol Cymraeg sy'n cynnwys yr ysgol, yr Urdd, Menter Iaith a sefydliadau lleol. • Darparu cyswllt cyswllt cymunedol penodol ar gyfer teuluoedd Bancffosfelen. Hyrwyddo gweithgareddau trwy gyfathrebu dwyieithog a chyfryngau cymdeithasol. Monitro lefelau cyfranogiad a nodi grwpiau a allai fod yn cael eu tangynrychioli. • Parhau â chyfleoedd dysgu i deuluoedd Cymraeg, gan gynnwys sesiynau anffurfiol ac adnoddau ar-lein.
Hygyrchedd i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.	• Sicrhau bod yr holl gynlluniau, asesiadau a threfniadau cymorth ADY yn trosglwyddo'n ddi-dor rhwng ysgolion. • Cynnal mynediad at gymorth, ymyriadau a gwasanaethau arbenigol ADY cyfrwng Cymraeg. • Cynnal cyfarfodydd pontio unigol gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol. • Monitro cynnydd a lles dysgwyr yn ystod ac ar ôl pontio. • Darparu cymorth bugeiliol ac emosiynol ychwanegol yn Gymraeg lle bo angen.

Risg	Camau lliniaru
Llai o ddefnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol oherwydd amlygiad cyfyngedig i'r gymuned.	• Cefnogi cyfranogiad parhaus yng ngweithgareddau'r Urdd, clybiau chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol a gweithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg. • Gweithio gyda sefydliadau lleol i gynnal gweithgareddau Cymraeg ym Mancffosfelen lle bo hynny'n bosibl. • Hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg y tu allan i'r ysgol drwy gyfathrebu rheolaidd â theuluoedd. • Monitro cyfraddau cyfranogiad a chymryd camau cywiro os bydd ymgysylltu yn gostwng. • Annog cyfranogiad disgyblion mewn prosiectau treftadaeth, diwylliannol a chymunedol lleol drwy Gymraeg.
Camddealltwriaeth o gategorïau iaith a llwybrau dilyniant ymhlith rhieni/gwarcheidwaid.	• Darparu gwybodaeth glir sy'n esbonio llwybrau darpariaeth a dilyniant cyfrwng Cymraeg Categori 3. • Datblygu canllaw cwestiynau cyffredin (FAQ) a phecyn gwybodaeth dwyieithog. • Cynnal sesiynau gwybodaeth i rieni a gofalwyr cyn ac yn ystod pontio. • Darparu cyfleoedd i rieni drafod pryderon yn uniongyrchol gydag arweinwyr a swyddogion ysgolion. • Sicrhau bod pob cyfathrebu yn esbonio'n glir fanteision addysgol ac ieithyddol addysg cyfrwng Cymraeg.
Defnydd cyfyngedig o gymorth Cymreig gan deuluoedd nad oes ganddynt hyder yn y Gymraeg.	• Darparu adnoddau ymarferol "Cymraeg yn y Cartref" a deunyddiau dwyieithog syml. Ystyried cyfleoedd drwy brosiect Cymraeg i Bawb. • Hyrwyddo rhaglenni dysgu teulu a sesiynau cymorth Cymraeg anffurfiol. • Cynnig adnoddau digidol, apiau a chyfleoedd dysgu ar-lein sy'n addas ar gyfer rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg. • Annog cymryd rhan mewn digwyddiadau teuluol Cymraeg mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol. • Sefydlu cyfleoedd cymorth gan gymheiriaid lle gall rhieni cyfrwng Cymraeg profiadol gefnogi teuluoedd eraill.

8. Monitro a Gwerthuso

Bydd camau lliniaru a nodir yn yr asesiad hwn yn cael eu monitro drwy brosesau gwella Awdurdod Lleol ac ysgolion sefydledig ac adborth ymgynghori, gydag addasiadau yn cael eu gwneud lle bo angen i wneud y mwyaf o'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Bydd monitro parhaus yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y Safonau Llunio Polisïau (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83) a'r Safonau Cyflenwi Gweithredol (127-135), gyda chamau cywiro wedi'u cymryd lle bo angen.

9. Mecanweithiau gwella parhaus:
Mae'r cynnig hwn yn dangos ystyriaeth gydwybodol glir i God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg, a bydd yr awdurdod lleol yn monitro canlyniadau'r Gymraeg drwy gydol dylunio, adeiladu a gweithredu, gan adolygu tystiolaeth yn flynyddol a mireinio camau gweithredu.

10. Casgliad a Chrynodeb
Felly, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys gofynion **Safonau Llunio Polisïau 88–93** a **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1–83**, yn amodol ar y mesurau lliniaru a'r trefniadau monitro a amlinellir uchod.

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

Atodiad C: Asesiad Effaith Integredig

<table>
<tr><td colspan="4">MANYLION Y CYNNIG: Cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen.</td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth ac Adran:</td><td>Cwblhawyd gan (swyddog arweiniol):</td><td>Dyddiad yr asesiad cychwynnol:</td><td>Hydref 2026</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Addysg a Gwasanaethau Plant</td><td rowspan="2">Tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg</td><td>Fersiwn rhif:</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:</td><td></td></tr>
<tr><td>Beth yw'r cynnig sydd i'w asesu?</td><td colspan="3">Cynnig i gau Ysgol Bancffosfelen o 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem ar 1 Ionawr 2028.</td></tr>
<tr><td>Ar bwy fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol?</td><td colspan="3">Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd
Rhieni a gofalwyr y disgyblion hyn
Staff ysgol yn Ysgol Bancffosfelen
Llywodraethwyr Ysgol Bancffosfelen
Corff Llywodraethu, staff a disgyblion yr ysgol sy'n derbyn
Cymuned leol Bancffosfelen
Cymuned leol Pontyberem.
Ysgolion lleol eraill.</td></tr>
<tr><td colspan="4"></td></tr>
</table>

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) PUM FFORDD O WEITHIO ***(gelwir hyn yn egwyddor datblygu cynaliadwy hefyd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu fod y Cyngor yn ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn sylfaen)***	
Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw: '… bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'	
Ffyrdd o Weithio	**Sut mae'r cynnig yn dangos ei fod wedi ystyried hyn?**
Tymor Hir **Cydbwyso anghenion tymor byr â rhai tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol**	Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r status quo anghynaliadwy yn Ysgol Bancffosfelen, lle mae nifer y disgyblion yn isel ac yn gostwng (48 o ddisgyblion, 51% o leoedd gwag) a lle mae diffyg sylweddol yn y gyllideb sy'n cynyddu. Ni fyddai cynnal yr ysgol yn hyfyw yn y tymor hir. Drwy drosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem sydd 1.3 milltir i ffwrdd yn unig, mae'r cynnig yn gwella deilliannau addysgol drwy sicrhau mynediad at gwricwlwm ehangach, dosbarthiadau sy'n briodol i'r oedran, a chyfleusterau gwell, gan gefnogi llwyddiant addysgol tymor hir. Mae data cyfraddau genedigaethau ar gyfer dalgylch Bancffosfelen yn dangos patrwm parhaus o niferoedd genedigaethau isel. Mae nifer y plant a anwyd yn ardal côd post y dalgylch yn amrywio rhwng tri a deg y flwyddyn, gyda chyfartaledd o tua chwe genedigaeth bob blwyddyn ar draws y carfanau a fydd yn cyrraedd oedran Derbyn rhwng 2024 a 2030. Yn 2026, cofrestrwyd tri o'r chwe phlentyn a anwyd yn y dalgylch yn y dosbarth Derbyn yn Ysgol Bancffosfelen. Er y bydd mudo i'r ardal ac allan o'r ardal a'r ysgolion y mae rhieni yn eu dewis hefyd yn dylanwadu ar nifer y disgyblion yn y dyfodol, mae cysondeb o ran nifer isel o enedigaethau yn awgrymu bod y dalgylch yn debygol o ddarparu carfanau cymharol fach o ddisgyblion oedran derbyn yn y blynyddoedd nesaf, a allai greu heriau wrth gynnal niferoedd disgyblion dros y tymor hwy. Mae hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol drwy leihau costau parhaus ac atal y diffyg rhag cynyddu ymhellach, gan olygu bod modd defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ledled y sir. Hefyd, mae'r cynnig yn diogelu'r ddarpariaeth at y dyfodol drwy alinio â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ar gyfer dysgu yn yr 21ain ganrif.
	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
	Data CYBLD Adroddiadau cyllideb Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg Data cyfraddau genedigaethau Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)
Atal	Byddai'r cynnig, os caiff ei weithredu, yn atal y sefyllfa rhag gwaethygu drwy fynd i'r afael â'r heriau parhaus sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen cyn iddynt fynd yn rhai na ellir eu datrys.

Atal problemau rhag digwydd neu waethygu	Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn wynebu niferoedd disgyblion sy'n isel ac yn gostwng, gyda dim ond 48 o ddisgyblion ar y gofrestr yn ôl CYBLD 2026 a 51% o leoedd gwag, ynghyd â diffyg sylweddol a chynyddol yn y gyllideb o £62,924 mewn mis Mawrth 2026. Mae tystiolaeth o gyfraddau genedigaethau parhaus isel yn y dalgylch yn ychwanegu at yr heriau hyn, gan gyfyngu ar nifer y disgyblion yn y dyfodol, yn ogystal â phryderon ynghylch cynaliadwyedd tymor hir trefniadau arweinyddiaeth, y gallu i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys yn effeithlon mewn lleoliad ysgol bach iawn, a chyflwr ac addasrwydd yr adeilad ysgol presennol. Byddai cynnal y status quo yn debygol o arwain at ansefydlogrwydd ariannol parhaus a phwysau parhaus ar allu'r ysgol i ddarparu darpariaeth addysgol gynaliadwy. Drwy drosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem, byddai'r cynnig yn lliniaru'r risgiau hyn ac yn darparu mynediad i ysgol fwy, sy'n fwy gwydn yn ariannol, gan gynnig amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol, grwpiau cyfoedion mwy sy'n briodol i'r oedran a chyfleusterau dysgu modern. Byddai'r disgyblion hefyd yn elwa ar gael eu haddysgu mewn adeilad sy'n fwy addas i ofynion addysgu a dysgu cyfoes. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn cyd-fynd â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy, sicrhau'r cyfleoedd addysgol gorau posibl i ddysgwyr ac atal safonau addysgol, cyflwr adeiladau a hyfywedd ariannol rhag dirywio ymhellach.
	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
	Data CYBLD (2026) Adroddiadau cyllideb Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026): Data cyfraddau genedigaethau Adroddiad Cyflwr Adeilad
Integreiddio **Cydnabod perthnasoedd a rhyngddibyniaeth â nodau llesiant eraill ac amcanion meysydd gwasanaeth a phartneriaid eraill.**	Mae'r cynnig yn dangos integreiddio drwy gydnabod y berthynas a'r rhyngddibyniaethau rhwng darpariaeth addysgol, cynaliadwyedd ariannol, llesiant cymunedol, ac amcanion diwylliannol. Mae cau Ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem yn cyd-fynd â Strategaeth Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymraeg 2050. Mae hefyd yn cyfrannu at amcanion corfforaethol ehangach fel Amcan 1 Strategaeth Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin, a lleihau lleoedd gwag, gwella effeithlonrwydd adnoddau, a chefnogi cydraddoldeb economaidd-

	gymdeithasol drwy sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at addysg o ansawdd uchel waeth beth fo'u lleoliad. Mae'r cynnig yn integreiddio â pholisi cludiant drwy ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol i ddisgyblion cymwys, ac â chynllunio cymunedol drwy ystyried yr effaith ar wasanaethau lleol fel Cylch Meithrin Bancffosfelen. Mae'r dull cyfannol hwn yn sicrhau nad yw penderfyniadau ynghylch darpariaeth addysg yn cael eu gwneud ar wahân ond yn ystyried nodau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
	Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Data Ariannol Y Polisi Cludiant Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned MALIC 2025 Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ysgol Bancffosfelen Amcanion Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin – Amcan 1: Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd
Cydweithio **Wedi'i gyflawni trwy weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol eraill (sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol) i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir**	Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno drwy gydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol i nodi atebion cynaliadwy a rennir. Yn fewnol, gweithiodd yr Awdurdod Lleol gyda thimau Gwasanaethau Addysg, Cyllid, Adnoddau Dynol a Chludiant i sicrhau bod y cynnig yn mynd i'r afael â safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol, a hygyrchedd. Yn allanol, ymgysylltwyd â chorff llywodraethu'r ysgol, y pennaeth a'r aelod etholedig lleol yn ystod y trafodaethau cychwynnol. Bydd y broses ymgynghori yn cael ei chynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), sy'n sicrhau y gall rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni, staff, undebau llafur, Estyn, a Chomisiynydd y Gymraeg fynegi eu barn. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cefnogi tryloywder, rhannu cyfrifoldeb, a'r broses o ddatblygu ateb sy'n cydbwyso anghenion addysgol, ariannol a chymunedol.
	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
	Trafodaethau Llunio Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) Dogfen Ymgynghori Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
Cynnwys **Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu**	Bydd y cynnig yn cael ei ddatblygu drwy fynd ati i gynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cwblhau proses ymgynghori gynhwysfawr â rhanddeiliaid.

barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt	Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni, gofalwyr, disgyblion, staff ysgol, cyrff llywodraethu, undebau llafur, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, aelodau etholedig lleol, a chynrychiolwyr cymunedol. Ymgynghorir â disgyblion drwy ddeunyddiau sy'n briodol i'w hoedran a sesiynau gyda'r cyngor ysgol, gan sicrhau y bydd eu lleisiau yn cael eu clywed. Bydd Adroddiad Ymgynghori ffurfiol yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r holl ymatebion ac ystyriaethau'r Cyngor cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud i symud i'r cyfnod Hysbysiad Statudol. Os bydd y cynigion yn symud ymlaen mor bell â hynny, bydd cyfnod Gwrthwynebu yn dechrau a fydd yn rhoi cyfle arall i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gyflwyno gwrthwynebiadau.
	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
	Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) Dogfen Ymgynghori Gweithgareddau ymgynghori a gynlluniwyd Ymrwymiad i gyhoeddi Adroddiad Ymgynghori Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Tymor Hir	I gefnogi cynaliadwyedd tymor hir, bydd y cynnig yn cynnwys cynllun pontio fesul cam i sicrhau bod y disgyblion yn symud yn hwylus i Ysgol Pontyberem, gan gynnal parhad o ran addysg a llesiant. Bydd buddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith cynaliadwy yn yr ysgol sy'n derbyn i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol heb amharu ar ansawdd addysg. Bydd y Cyngor hefyd yn monitro'r effaith tymor hir ar gydlyniant cymunedol ac yn archwilio opsiynau ar gyfer rhoi pwrpas newydd i safle Ysgol Bancffosfelen er budd y gymuned yn unol â pholisi'r Awdurdod Lleol ar gyfer adeiladau ysgol diangen. Os na fydd defnydd corfforaethol ar gyfer y safle ac na fydd ei angen er budd y gymuned, bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio gwaredu'r adeilad cyn gynted â phosibl.
2. Atal	Mae'r mesurau ataliol yn canolbwyntio ar leihau ansicrwydd ac atal y sefyllfa rhag gwaethygu ymhellach. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar a chyfathrebu'n glir â rhieni, gofalwyr a staff, cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod y cyfnod pontio.
3. Integreiddio	Mae'r cynnig yn integreiddio â strategaethau ac amcanion ehangach drwy gyd-fynd â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'n cyd-fynd ag Amcan 1 Strategaeth Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin, polisi Cludiant i'r Ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru a Cymraeg 2050.

	Mae'n sicrhau cysondeb â nodau addysgol a diwylliannol wrth gydlynu â gwasanaethau cludiant i ddarparu trefniadau teithio diogel ac effeithlon.
4. Cydweithio	Mae cydweithio yn ganolog i'r cynnig, gydag ymgysylltu parhaus rhwng timau mewnol, Addysg, Cyllid, Adnoddau Dynol a Chludiant, yr ysgolion yr effeithir arnynt a phartneriaid allanol fel Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, ac undebau llafur. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys yr ysgol sy'n derbyn i sicrhau bod pob parti yn cydweithio'n llawn yn y broses drosglwyddo pe bai'n mynd yn ei flaen.
5. Cynnwys	I sicrhau cyfranogiad ystyrlon, bydd y Cyngor yn cynnal proses ymgynghori dryloyw, gan roi cyfleoedd i rieni, disgyblion, staff a rhanddeiliaid cymunedol roi adborth. Bydd deunyddiau ymgynghori sy'n addas i ddisgyblion a sesiynau gyda'r cyngor ysgol yn cael eu defnyddio i gynnwys plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd Adroddiad Ymgynghori ffurfiol yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r adborth a sut y dylanwadodd ar y penderfyniad terfynol. Os bydd y cynnig yn mynd ymlaen i Hysbysiad Statudol, bydd cyfle arall i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gyflwyno gwrthwynebiadau.

CYDRADDOLDEBAU ***(mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol: dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau)***

Nodweddion Gwarchodedig	**A yw'r cynnig yn effeithio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**
Oedran	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion oedran cynradd sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd, gan y bydd angen iddynt drosglwyddo i ysgol arall. Mae hefyd yn effeithio ar ddisgyblion o oedran ysgol anstatudol nad oes ganddynt hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Mae hefyd yn effeithio ar rieni a gofalwyr a allai fod angen addasu i drefniadau teithio newydd. Mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar yr holl staff a gyflogir yn Ysgol Bancffosfelen a'r rhai yn yr ysgol dderbyn arfaethedig. Bydd angen ystyried lliniaru unrhyw effaith ar staff, gan gynnwys y rhai dros 55 oed.	Data CYBLD (2026) sy'n dangos bod 48 o ddisgyblion ar y gofrestr; Proffil staffio

Anabledd	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Mae'r ysgol dderbyn arfaethedig yn fwy cymwys i dderbyn disgyblion ag anableddau gan fod ganddi amgylcheddau hygyrch y tu mewn a'r tu allan. Efallai y bydd effeithiau posibl ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys gorbryder sy'n gysylltiedig â newid, sensitifrwydd synhwyraidd ac addasu i amgylchedd ysgol mwy. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod rhai dysgwyr yn cael budd o arferion cyfarwydd a lleoliadau llai. Mae gan yr ysgol sy'n derbyn systemau ADY sefydledig a mynediad at wasanaethau arbenigol. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cynllunio pontio unigol, addasiadau rhesymol ac ymgysylltu parhaus â theuluoedd yn hanfodol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl a chefnogi llesiant disgyblion. O dan y Cod ADY, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i nodi ac asesu dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, sicrhau Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol amserol a phriodol, a chynnal prosesau statudol fel Cynlluniau Datblygu Unigol. Byddai Ysgol Pontyberem yn parhau i weithredu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cydweithio â'r Awdurdod Lleol, y bwrdd iechyd, a theuluoedd, a chydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.	Cod ADY Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ysgol Bancffosfelen a'r ysgol dderbyn arfaethedig
Ailbennu rhywedd	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn ymwneud â hunaniaeth rhywedd nac yn cynnwys newidiadau a fyddai'n effeithio ar unigolion sy'n mynd neu wedi mynd drwy broses ailbennu rhywedd. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r cynnig o ran y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â straen posibl yn ymwneud ag addasu i amgylcheddau cymdeithasol newydd lle	Nid yw natur y cynnig (cau ysgol a throsglwyddo'r disgyblion) yn gysylltiedig â'r nodwedd hon.

	gallai arferion cynhwysiant fod yn wahanol.	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Gallai'r cynnig arwain at newidiadau i drefniadau cyflogaeth ar gyfer staff, gan gynnwys y potensial ar gyfer prosesau adleoli neu ddileu swyddi. Fodd bynnag, byddai'r effeithiau hyn yn berthnasol waeth beth yw statws priodasol neu bartneriaeth sifil unigolyn ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n briod neu bobl mewn partneriaeth sifil. Byddai unrhyw oblygiadau staffio sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor.	Cwmpas y cynnig wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth ysgol.
Hil	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, cyfleoedd addysgol na gwasanaethau cymorth ar sail hil, ethnigrwydd neu genedligrwydd. Mae data ethnigrwydd yn dangos bod 100% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen wedi'u cofnodi fel rhai Gwyn Prydeinig. Mae gan yr ysgol dderbyn arfaethedig, sef Ysgol Pontyberem, boblogaeth disgyblion unffurf debyg, ac mae 99.0% o'r disgyblion wedi'u nodi fel rhai Prydeinig Gwyn ac 1.0% mewn grwpiau ethnig eraill. Mae'r ysgol sy'n derbyn eisoes yn cefnogi disgyblion o ystod fach o gefndiroedd ethnig a disgwylir iddi barhau i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a chysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen yn parhau i dderbyn addysg mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a byddent yn cadw mynediad at yr un cwricwlwm a threfniadau cymorth statudol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar ddysgwyr, rhieni, gofalwyr neu staff ar sail hil, ethnigrwydd neu	Data CYBLD 2026 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg adroddiadau Estyn

	genedligrwydd.	
Crefydd/Cred	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg, gwasanaethau cymorth na chyfleoedd addysgol ar sail crefydd neu gred. Mae Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem yn ysgolion cymunedol ac ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar fynediad at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar ddysgwyr, rhieni, gofalwyr neu staff o unrhyw grŵp ffydd, cred neu ddiffyg cred.	Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol heb gymeriad crefyddol dynodedig.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Effaith bosibl ar rieni sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth oherwydd newidiadau i drefniadau teithio. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys cyfathrebu clir a chymorth o ran cludiant. Bydd staff beichiog, y rhai ar gyfnod mamolaeth, neu'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn cael mynediad at gyngor ac arweiniad Adnoddau Dynol parhaus drwy gydol y broses weithredu. Bydd enw person cyswllt Adnoddau Dynol yn cael ei nodi ar gyfer ymholiadau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth.	Polisi cludiant i'r ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin a mesurau cymorth.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg, lleoedd ysgol, gwasanaethau cymorth na chyfleoedd addysgol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen yn parhau i dderbyn addysg mewn amgylchedd dysgu cynhwysol ac yn cadw mynediad at yr un cwricwlwm, cymorth llesiant a gwasanaethau statudol. Gallai'r cynnig arwain at newidiadau i drefniadau cyflogaeth ar gyfer staff; fodd	Mae'r cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a throsglwyddo disgyblion yn unig.

	bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar staff, disgyblion, rhieni neu ofalwyr o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol. Byddai'r ysgol sy'n derbyn yn parhau i weithredu yn unol â deddfwriaeth a pholisïau cydraddoldeb sy'n hyrwyddo cynhwysiant, llesiant a pharch at amrywiaeth.	
Rhyw	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg, lleoedd ysgol, gwasanaethau cymorth na chyfleoedd addysgol ar sail rhyw. Byddai pob disgybl sy'n trosglwyddo o Ysgol Bancffosfelen yn parhau i gael mynediad at yr un cwricwlwm, cymorth llesiant a darpariaeth addysgol waeth beth fo'i ryw. Nodwyd effaith bosibl ar staff. Gallai'r cynnig arwain at newidiadau i drefniadau cyflogaeth, gan gynnwys y potensial ar gyfer adleoli neu ddileu swyddi. Mae proffil staffio presennol Ysgol Bancffosfelen yn dangos mai menywod yr effeithir arnynt fwyaf o ran staff. O ganlyniad, byddai unrhyw effeithiau cyflogaeth sy'n deillio o'r cynnig yn ymwneud â gweithlu sy'n cynnwys menywod yn bennaf. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig wedi'i ddatblygu oherwydd rhyw y gweithwyr yr effeithir arnynt, a byddai unrhyw oblygiadau staffio yn cael eu rheoli yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb, gweithdrefnau adleoli a pholisïau cyflogaeth y Cyngor. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon.	Mae'r cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a throsglwyddo disgyblion yn unig.

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Oedran	Darparu cyfathrebu clir a chymorth pontio i ddisgyblion a rhieni, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo â'r ysgol sy'n derbyn. Cynnig gofal bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion iau i leddfu pryder yn ystod y newid.
2. Anabledd	Mae'r ysgol dderbyn arfaethedig eisoes â'r adnoddau i groesawu disgyblion ag anableddau, ond bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau os oes angen. Gallai hyn gynnwys

	addasiadau hygyrchedd a threfniadau cludiant. Darparu cynlluniau pontio unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
3. Ailbennu rhywedd	Cadw cyfrinachedd a sicrhau bod polisïau cynhwysol yn cael eu cynnal. Darparu hyfforddiant staff (os oes angen) ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth i atal gwahaniaethu a meithrin amgylchedd cynhwysol.
4. Priodas a Phartneriaeth Sifil	Cynnal sianeli cyfathrebu hyblyg ar gyfer rhieni, gofalwyr a staff i ddarparu ar gyfer amgylchiadau teuluol.
5. Hil	Parhau i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn yr ysgol sy'n derbyn. Monitro am unrhyw broblemau posibl a darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth ddiwylliannol i gynnal perthynas gadarnhaol.
6. Crefydd/Cred	Sicrhau bod unrhyw arferion crefyddol neu ofynion deietegol yn parhau i gael eu parchu yn yr ysgol sy'n derbyn. Cyfathrebu â rhieni i gadarnhau'r trefniadau.
7. Beichiogrwydd a mamolaeth	Cynnig opsiynau ymgysylltu hyblyg i rieni sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth, megis cyfarfodydd rhithwir a dyddiadau cau estynedig ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad.
8. Cyfeiriadedd Rhywiol	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff i gynnal amgylchedd cynhwysol ac atal gwahaniaethu os oes angen. Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu gorfodi.
9. Rhyw	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff i gynnal amgylchedd cynhwysol ac atal gwahaniaethu os oes angen. Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu gorfodi. Byddai unrhyw effeithiau staffio sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau cyflogaeth y Cyngor, gan sicrhau triniaeth deg a chyfartal waeth beth fo'u rhyw.

Y GYMRAEG ***(mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r effaith bositif neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)***

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau canlynol?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau positif neu negyddol?
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg unigol a gellir ei ddarllen yn llawn yn Atodiad B. Bydd disgyblion yn parhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Pontyberem, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	Bydd disgyblion yn cael gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn grŵp cyfoedion mwy a chael mynediad at weithgareddau allgyrsiol (e.e. clybiau'r Urdd) sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hefyd yn nodi effeithiau andwyol posibl ar y defnydd cymunedol o'r Gymraeg ac ar ddarpariaeth

			blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg leol pe na bai mesurau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu.
Dim trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg unigol a gellir ei ddarllen yn llawn yn Atodiad B. Bydd darpariaeth Gymraeg yn parhau i gael ei thrin yn gyfartal a'i hyrwyddo yn unol â gofynion statudol.	Mae'r ddwy ysgol yn gweithredu o dan Safonau'r Gymraeg. Mae gan yr ysgol sy'n derbyn ethos Cymreig cryf a chyfleoedd allgyrsiol yn Gymraeg.	Cynnal ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddysgu a chyfathrebu yn bennaf yn Gymraeg.

DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth wneud penderfyniadau strategol, ystyried sut allai ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sydd ynghlwm wrth anfanteision economaidd-gymdeithasol. Mae anghydraddoldeb o ran canlyniadau yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau mesuradwy mewn canlyniadau rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddeall safbwyntiau ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd)	
Gofyniad	
Pa dystiolaeth sydd gennych chi am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?	Mae data CYBLD (2026) yn dangos bod oddeutu 8% o ddisgyblion Ysgol Bancffosfelen yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried proffil economaidd-gymdeithasol y dalgylch gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025, sef dull swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer mesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r dalgylch yn rhan o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llangyndeyrn 2, Pontyberem 2 a Phontyberem 1. Er bod rhannau bach o'r dalgylch yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y Glyn a Llanddarog, mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys tir amaethyddol yn bennaf ac ychydig o eiddo preswyl, os o gwbl, sydd i'w gael yno. O ganlyniad, ni chredir eu bod yn cael dylanwad sylweddol ar broffil economaidd-gymdeithasol cyffredinol y dalgylch. Mae data MALIC 2025 yn dangos bod y prif ddalgylchoedd hyn yn rhan o Ddegraddau 4, 5 a 7 yn y drefn honno, sy'n golygu nad ydynt ymhlith y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan y dalgylch lefelau isel i gymedrol o amddifadedd yn gyffredinol yn hytrach nag amddifadedd economaidd-gymdeithasol crynodedig.

	Mae dangosyddion addysg MALlC 2025 hefyd yn nodi lefelau cymharol uchel o absenoldeb parhaus ymhlith dysgwyr oedran cynradd yn rhai o brif Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y dalgylch. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol fod mewn mwy o berygl o ymddieithrio rhag addysg ac felly mae o'r farn bod trefniadau pontio effeithiol, cymorth bugeiliol a monitro presenoldeb a llesiant yn barhaus yn fesurau lliniaru pwysig pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Mae dangosyddion amddifadedd incwm a chyflogaeth yn gymedrol yn yr un modd, tra bod dangosyddion addysg yn cymharu'n ffafriol â llawer o ardaloedd yng Nghymru. Er nad yw'r dalgylch yn cael ei nodweddu gan lefelau uchel o amddifadedd yn gyffredinol, mae dangosyddion incwm MALlC 2025 yn nodi lefelau nodedig o amddifadedd incwm plant yn rhai o brif Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y dalgylch. Mae cyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd wedi'u hamddifadu o incwm yn amrywio o oddeutu 25.8% i 40.5% ar draws y prif ddalgylchoedd. Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai cyfran o ddysgwyr wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol ac y dylid ystyried unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r cynnig yn y cyd-destun hwnnw. Mae'r ffactor amddifadedd mwyaf arwyddocaol a nodwyd yn ymwneud â mynediad at wasanaethau. Mae Llangyndeyrn 2 yn rhan o Ddegradd 1 ac mae Pontyberem 1 a Phontyberem 2 yn rhan o Ddegradd 3 ar gyfer mynediad at wasanaethau, sy'n adlewyrchu natur wledig y dalgylch a'r pellteroedd sy'n gysylltiedig â chael mynediad at wasanaethau allweddol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai dysgwyr a theuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn fwy sensitif i newidiadau mewn trefniadau teithio a hygyrchedd ac mae wedi ystyried y materion hyn fel rhan o'r broses o asesu'r cynnig. Bydd dangosyddion amddifadedd presennol, gan gynnwys cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, gwybodaeth am bresenoldeb a gwybodaeth am lesiant yn cael eu hystyried wrth gynllunio trefniadau pontio. Bydd cymorth priodol yn cael ei roi i ddysgwyr a theuluoedd lle nodir materion penodol o ran bod yn agored i niwed. Ar ôl ystyried data Prydau Ysgol am Ddim a thystiolaeth MALIC 2025, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd dan anfantais economaidd. Er y bydd rhywfaint o darfu tymor byr o bosib yn ystod y cyfnod pontio, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y prif faterion economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar y dalgylch yn ymwneud ag anfantais incwm sy'n effeithio ar rai teuluoedd a hygyrchedd gwasanaethau mewn ardal wledig. Felly, disgwylir i'r cynnig gynnal, ac mewn rhai agweddau wella, cyfleoedd addysgol a chymorth sydd ar gael i ddysgwyr dan anfantais. Nid yw'r dalgylch ymhlith y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru ac mae'r prif fater economaidd-gymdeithasol a nodwyd yn

	ymwneud â mynediad at wasanaethau a theithio. Disgwylir i'r cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol sydd ar gael i ddysgwyr cymwys, ynghyd â chymorth pontio a llesiant, liniaru effeithiau andwyol posibl. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Pontyberem yn cynnig mynediad at dîm ehangach o staff a mwy o strwythurau cymorth o bosibl, a fyddai o fudd yn arbennig i'r rhai o gefndiroedd o amddifadedd economaidd. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â gweledigaeth ehangach yr awdurdod i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc, lleihau effeithiau tlodi ar ddeilliannau addysgol, a sicrhau cymunedau diogel a ffyniannus.
A ydych wedi ymgysylltu â'r rheiny y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt?	Mae trafodaethau llunio wedi'u cynnal â'r pennaeth a'r corff llywodraethu. Bydd proses ymgynghori statudol yn cael ei chynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni, gofalwyr, disgyblion, staff, a rhanddeiliaid cymunedol drwy arolygon ar-lein, ymatebion drwy e-bost a chyfarfodydd. Bydd llais disgyblion yn cael ei gynnwys drwy sesiynau gyda'r cyngor ysgol, sesiynau ar-lein a deunyddiau sy'n briodol i'r oedran. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle arall i wneud sylwadau ar y cynigion yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.
A ydych wedi ystyried cymunedau a lleoedd o ddiddordeb?	Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned (Atodiad A) wedi'i lunio gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan Ysgol Bancffosfelen ac Ysgol Pontyberem. Mae adborth cychwynnol gan yr ysgolion yn dangos arwyddocâd Ysgol Bancffosfelen yn y gymuned, gan gynnwys ei rôl wrth gefnogi cydlyniant cymdeithasol, hunaniaeth leol a rhyngweithio rhwng cenedlaethau. Roedd yr adborth cychwynnol yn codi pryderon ynghylch effeithiau posibl ar deuluoedd lleol, gweithgarwch cymunedol, defnydd y Gymraeg, a symud gwasanaethau sy'n gweithredu o safle'r ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys y Cylch Meithrin. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i broffil economaidd-gymdeithasol y dalgylch. Mae data MALIC 2025 yn dangos bod y ffactor amddifadedd mwyaf arwyddocaol yn y dalgylch yn ymwneud â mynediad at wasanaethau yn hytrach nag amddifadedd incwm. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi ystyriaeth arbennig i effeithiau teithio a hygyrchedd sy'n deillio o'r cynnig. Roedd adborth cychwynnol gan yr ysgol yn tynnu sylw at bryder sylweddol ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig ar y Cylch Meithrin sy'n gweithredu ar hyn o bryd o Ysgol Bancffosfelen, gan gynnwys risgiau o darfu ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar, effeithiau ar staff a goblygiadau i deuluoedd. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wrth gefnogi caffael iaith a chyfranogiad economaidd-gymdeithasol. Er mai'r darparwr sy'n gyfrifol am weithredu'r Cylch Meithrin, byddai'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol, gan gynnwys Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Mudiad Meithrin, i edrych ar

	opsiynau eraill ar gyfer adeilad lle bo angen. Mae'r effeithiau hyn wedi'u pwyso a'u mesur yn ofalus ochr yn ochr â chynaliadwyedd addysgol ac ariannol yr ysgol. O'r 64 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch, mae 41 yn mynychu ysgolion eraill. Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi bod dadansoddiad o ddata symudiadau disgyblion yn dangos bod Ysgol Pontyberem ar hyn o bryd yn addysgu mwy o ddisgyblion o ddalgylch Ysgol Bancffosfelen nag unrhyw ysgol arall. Mae hyn yn dangos nid yn unig bod nifer sylweddol o deuluoedd eisoes yn dewis Ysgol Pontyberem, ond hefyd bod gan yr ysgol eisoes gysylltiadau sefydledig â theuluoedd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Bancffosfelen. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu cydnabod ac wedi cael eu pwyso a mesur ochr yn ochr â chyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol i sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu ac nad oes angen adeilad yr ysgol mwyach o ran gofynion addysgol, bydd prosesau corfforaethol sefydledig yn ystyried defnydd posibl o'r safle yn y dyfodol, gan gynnwys defnydd cymunedol neu wirfoddol, yn amodol ar ystyriaethau o ran hyfywedd a llywodraethu.
Beth yw prif effeithiau'r cynnig?	Mae'r prif effeithiau yn cynnwys cau ysgol leol, a allai effeithio ar gydlyniant cymunedol a hygyrchedd i deuluoedd ym Mancffosfelen. Byddai'r cynigion yn effeithio ar y Cylch Meithrin lleol a fyddai yn ei dro yn effeithio ar deuluoedd lleol pe bai'n dod yn anhyfyw. Bydd angen i rai disgyblion deithio ymhellach i fynychu'r ysgol dderbyn arfaethedig neu ysgolion amgen yn amodol ar ddewis y rhieni. Gallai'r newidiadau arfaethedig gynyddu'r ddibyniaeth ar gludiant ysgol ac effeithio ar deuluoedd oherwydd costau teithio cynyddol a newidiadau i arferion. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg barhaus a safonau addysgol gwell drwy drosglwyddo'r disgyblion i ysgol fwy â chyfleusterau gwell tua 1.3 milltir i ffwrdd o Ysgol Bancffosfelen. Er nad yw'r dalgylch yn cael ei nodweddu gan lefelau uchel o amddifadedd, gallai'r cynnig gael mwy o effaith ar rai aelwydydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol lle mae gan deuluoedd fynediad cyfyngedig at drafnidiaeth breifat neu'n wynebu rhwystrau i fynd i weithgareddau a digwyddiadau ysgol. Mae'r ystyriaethau hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried proffil MALIC y dalgylch ar gyfer mynediad at wasanaethau. Yn ariannol, mae'r cynnig yn lleihau aneffeithlonrwydd ac yn atal y diffyg rhag cynyddu ymhellach.
Sut gellid gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?	Gellid gwella'r cynnig drwy ddarparu cymorth ychwanegol i deuluoedd sy'n wynebu caledi economaidd, megis: • Sicrhau cludiant ysgol am ddim i bob disgybl cymwys. • Cynnig opsiynau ymgysylltu hyblyg i rieni (e.e., cyfarfodydd rhithwir). • Monitro'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim a chynnig cymorth llesiant wedi'i dargedu yn ystod y broses bontio os oes angen. Mae cyllid ysgolion yn ystyried lefelau amddifadedd drwy ddefnyddio cymhwysedd am Brydau Ysgol am Ddim fel dangosydd o anfantais. Darperir cyllid ychwanegol ar gyfer pob disgybl cymwys, sy'n golygu

	bod ysgolion sydd â mwy o ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yn cael mwy o gymorth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu at y mannau lle mae eu hangen fwyaf. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol sy'n derbyn i nodi dysgwyr a allai fod yn agored i niwed oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol a darparu cymorth wedi'i dargedu lle bo hynny'n briodol. Bydd cynnydd a llesiant dysgwyr dan anfantais yn parhau i gael eu monitro drwy systemau ysgol presennol ar ôl gweithredu'r cynnig.
Beth yw'r effaith debygol ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a beth yw'r effeithiau pellach o ran croestoriadedd?	Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith negyddol ar y rhan fwyaf o'r nodweddion gwarchodedig, gan y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac arferion cynhwysol yn parhau. Fodd bynnag, gallai fod effeithiau croestoriadol i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel sydd hefyd ag anghenion dysgu ychwanegol neu rieni sy'n feichiog/mamolaeth. Efallai y bydd effeithiau ar staff benywaidd hefyd os caiff y cynigion eu gweithredu gan fod y rhan fwyaf o staff Ysgol Bancffosfelen yn fenywod. Er nad oes unrhyw effaith andwyol anghymesur wedi'i nodi, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai anfantais economaidd-gymdeithasol ryngweithio â nodweddion ac amgylchiadau eraill gan gynnwys anabledd, anghenion dysgu ychwanegol, cyflyrau iechyd ac amgylchiadau teuluol. Felly, bydd trefniadau pontio unigol yn cael eu datblygu lle bo angen i leihau unrhyw risg o effaith andwyol.

HAWLIAU'R PLENTYN ***(Yn yr adran hon, mae angen i ni ystyried a yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc)***.			
Gofyniad		**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**	**Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?**
A fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar blant a phobl ifanc?	Bydd y cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar blant sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd, gan y bydd angen iddynt drosglwyddo i ysgol arall. Gallai'r newid hwn effeithio ar eu hymdeimlad o ddiogelwch, grwpiau cyfeillgarwch, ac arferion dyddiol. Mae effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i drefniadau teithio ac effeithiau posibl ar fywyd teuluol. Mae posibilrwydd y bydd yn effeithio ar	Data CYBLD (2026) sy'n dangos bod 48 o ddisgyblion ar y gofrestr. Tystiolaeth a ddarparwyd gan yr ysgol. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Mae Erthygl 28 (Hawl i Addysg) wedi'i hystyried gan fod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ble y bydd plant yn derbyn eu haddysg. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu a fydd mynediad	Datblygu cynllun pontio, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo ag Ysgol Pontyberem os oes angen. Darparu cymorth bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Sicrhau cyfathrebu clir â rhieni a disgyblion ynghylch amserlenni a threfniadau. Cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gynnal perthynas â chyfoedion drwy weithgareddau ar y cyd cyn symud ysgol.

	blant sy'n mynychu'r Cylch Meithrin pe bai hwnnw'n dod yn anhyfyw pe bai'r ysgol yn cau.	at addysg yn cael ei gynnal ac yn nodi y byddai dysgwyr yn parhau i gael mynediad at addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Pontyberem neu ysgol arall a ddewisir gan y rhieni drwy'r broses dderbyn. Mae Erthygl 29 (Nodau Addysg) wedi'i hystyried oherwydd bod y cynnig yn ceisio rhoi mynediad i ddysgwyr at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol, grwpiau cyfoedion mwy, cyfleusterau gwell a phrofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach, gan gefnogi datblygiad galluoedd a photensial pob plentyn. Mae Erthygl 12 (Parch at Farn y Plentyn) yn berthnasol oherwydd bydd disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn yn ystod y broses ymgynghori. Mae Erthygl 30 (Plant o Grwpiau Lleiafrifol) wedi'i hystyried oherwydd bod y cynnig yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r ddarpariaeth yn Ysgol Pontyberem.	Datblygu cynlluniau pontio unigol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed neu'n bryderus, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY. Cynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori gan ddefnyddio deunyddiau sy'n briodol i'w hoedran
A yw'r fenter wedi'i dylunio /	Ydy, mae'r fenter wedi'i chynllunio i wella deilliannau addysgol	Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg sy'n blaenoriaethu	Cynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori gan

chynllunio er budd pennaf plant a phobl ifanc?	drwy drosglwyddo disgyblion i ysgol sydd â chyfleusterau gwell, arweinyddiaeth sefydlog, a'r gallu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn llawn. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddai'r disgyblion (yn amodol ar ddewis y rhieni) yn trosglwyddo i ysgol â mwy o ddisgyblion, lle gall disgyblion ryngweithio â mwy o ddisgyblion yn eu grwpiau blwyddyn a rhannu profiadau. Bydd hefyd yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau allgyrsiol. Mae hefyd yn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg barhaus. Mae gan yr ysgol dderbyn arfaethedig well sgoriau ar gyfer cyflwr ac addasrwydd ac mae'n fwy cymwys o ran hygyrchedd ar hyn o bryd i dderbyn disgyblion a staff ag anableddau.	addysg gynaliadwy o ansawdd uchel. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cadarnhau parhad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Adroddiadau ESTYN Mae Erthygl 3 (Budd Pennaf y Plentyn) wedi'i hystyried drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu goblygiadau addysgol, llesiant, hygyrchedd a chymunedol y cynnig ac mae o'r farn, at ei gilydd, bod y cynnig wedi'i fwriadu i gefnogi budd pennaf dysgwyr yn y tymor hir drwy ddarparu mynediad at addysg Gymraeg gynaliadwy, cyfleoedd addysgol ehangach, cyfleusterau gwell a gwasanaethau cymorth gwell. Mae Erthygl 23 (Plant ag Anableddau) wedi'i hystyried oherwydd gall y cynnig effeithio ar ddysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried hygyrchedd yr ysgol sy'n derbyn, parhad darpariaeth ddysgu ychwanegol, mynediad at wasanaethau arbenigol a'r angen am drefniadau pontio unigol. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, darperir cymorth priodol ac	ddefnyddio deunyddiau sy'n briodol i'w hoedran. Darparu cymorth emosiynol a llesiant yn ystod ac ar ôl y broses bontio. Monitro cynnydd a llesiant y disgyblion sy'n trosglwyddo i sicrhau deilliannau cadarnhaol. Cynnal cyfathrebu â rhieni i fynd i'r afael â phryderon yn brydlon.

		addasiadau rhesymol i sicrhau bod dysgwyr ag anableddau yn parhau i gael mynediad at addysg a chymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae Erthygl 31 (Hamdden, Chwarae a Chyfranogiad mewn Bywyd Diwylliannol) wedi'i hystyried gan y gallai'r cynnig effeithio ar gyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Pontyberem yn cael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg, gan gefnogi eu hawliau o dan Erthygl 31.	

**Mae DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) A CHARBON SERO NET Adran 6 y ddyletswydd yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus "*geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth...ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol". Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol." Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn cydnabod bod gennym ran bwysig i'w chwarae er mwyn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain a rhoi arweiniad er mwyn annog trigolion, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu i leihau eu hôl troed carbon hwythau.*	
Gofyniad	
A yw'r cynnig yn effeithio ar Fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'r sir?	Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith uniongyrchol sylweddol ar fioamrywiaeth neu gydnerthedd ecosystemau. Mae cau Ysgol Bancffosfelen yn golygu rhoi pwrpas newydd i adeilad presennol neu ei werthu yn hytrach na chreu datblygiad newydd, felly ni ddisgwylir tarfu mawr ar gynefinoedd. Fodd bynnag, ni wyddys eto sut y bydd y safle yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol a dylai unrhyw ddefnydd o'r safle yn y dyfodol gydymffurfio â dyletswyddau bioamrywiaeth. Gallai mwy o draffig o ysgol neu drafnidiaeth breifat darfu ar gynefinoedd cyfagos. Fodd bynnag, mae'r effaith yn debygol o fod yn fach iawn gan na fydd angen ehangu seilwaith na cholli mannau gwyrdd sylweddol ar gyfer y cynnig. Gallai'r cynnig hefyd hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy fannau dysgu awyr agored a rhaglenni eco-addysgol yn Ysgol Pontyberem. Gallai cynnydd yn nifer y disgyblion gynhyrchu gwastraff ychwanegol yn Ysgol Pontyberem; fodd bynnag, disgwylir i'r effaith gyffredinol fod yn fach. Nid yw'r disgyblion sy'n trosglwyddo yn newydd i'r system addysg ac felly byddai'r cynnig yn arwain yn bennaf at drosglwyddo'r broses cynhyrchu gwastraff o Ysgol Bancffosfelen i Ysgol Pontyberem yn hytrach na chreu gwastraff ychwanegol sylweddol. Byddai unrhyw effeithiau gweddilliol yn cael eu lliniaru drwy drefniadau rheoli gwastraff ac ailgylchu presennol yr ysgol.
A yw'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar ymrwymiad CSC i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030?	Cofnododd Ysgol Bancffosfelen, a adeiladwyd yn 1877 ac sy'n cael ei gwresogi gan system olew, ôl troed carbon o 21 tunnell o allyriadau CO_2 yn 2024/25. O gymharu, cofnododd Ysgol Pontyberem, lle mae nifer o flociau cymharol fodern yn dyddio o'r 1950au, ac sydd bellach wedi'i gwresogi gan nwy ac a fydd o bosib yn cael ei chefnogi gan baneli solar ffotofoltäig yn fuan, ôl troed carbon o 33 tunnell o allyriadau CO_2 yn 2024/25. Wedi dweud hynny, mae ôl troed Ysgol Pontyberem llawer yn fwy nag Ysgol Bancffosfelen. O ystyried defnydd ynni fesul m2, roedd Ysgol Bancffosfelen yn gyfrifol am 93 kWh/m2 yn ystod 2024/25 o gymharu â 78 kWh/m2 Ysgol Pontyberem. Mae'r ffigurau hyn yn amlygu'r allyriadau amghymesurol o uchel sy'n gysylltiedig â chynnal adeiladau ysgol hŷn, nad ydynt yn ynni-effeithlon a lle mae niferoedd isel o ddisgyblion.

	Disgwylir i'r allyriadau cludiant sy'n gysylltiedig â symud disgyblion fod yn gymharol isel o hyd. At ddibenion enghreifftiol, byddai bws mini a rennir â 53 sedd sy'n teithio rhwng yr ysgol dderbyn arfaethedig a'r pwynt pellaf yn nalgylch Ysgol Bancffosfelen ar y B4306, sef taith o tua 6 milltir (3 milltir bob ffordd), ar bob diwrnod ysgol am 190 diwrnod addysgu yn cynhyrchu oddeutu 2.44 tunnell o allyriadau CO_2 y flwyddyn ar sail ffactorau sy'n deillio o DEFRA (~18.6 kg CO_2 fesul taith). Nid yw'r amcangyfrif hwn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â thaith y cerbyd i gyrraedd y man casglu, ond mae'n parhau i fod yn sylweddol is na'r allyriadau blynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal hen adeilad ysgol. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn ddangosol yn unig a byddant yn dibynnu ar ddewis y rhieni, patrymau cofrestru disgyblion pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, a'r trefniadau terfynol o ran llwybrau cludiant a bennir gan yr awdurdod lleol. Ar hyn o bryd mae Ysgol Bancffosfelen yn darparu ar gyfer nifer gymharol fach o ddisgyblion mewn adeilad hŷn sy'n aneffeithlon yn thermol. Mae gweithredu adeilad o'r maint hwn gyda niferoedd isel o ddisgyblion yn arwain at ddefnydd ynni anghymesurol o uchel fesul disgybl, yn enwedig ar gyfer gwresogi a goleuadau. Mae tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a chanllawiau sector cyhoeddus y DU yn nodi'n gyson fod defnydd ynni adeiladau yn un o'r prif ffynonellau allyriadau carbon yn yr ystad addysg. Byddai cau ysgol nad yw'n llawn yn golygu na fyddai angen gwresogi a chynnal a chadw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio'n aneffeithlon, gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn allyriadau cysylltiedig ag adeiladau. Er y byddai cludiant ysgol a rennir yn cynhyrchu allyriadau ychwanegol, disgwylir i'r rhain fod yn gymharol fach. Mae taith fer gan gerbyd a rennir, dros gyfnod o flwyddyn ysgol, yn cynhyrchu tipyn llai o allyriadau na'r hyn sy'n gysylltiedig â gweithredu adeilad ysgol nad oes defnydd llawn yn cael ei wneud ohono. Mae'r ysgol sy'n derbyn, sef Ysgol Pontyberem, yn gweithredu mewn modd mwy cynaliadwy, gan ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion mewn adeilad sydd wedi'i ddylunio'n well ar gyfer defnyddio ynni'n effeithlon. Bydd effaith amgylcheddol unrhyw waith adeiladu sy'n gysylltiedig â llety newydd yn Ysgol Pontyberem yn cael ei hasesu ar yr adeg briodol pan fydd gwybodaeth fanylach ar gael. Mae cyfuno'r ddarpariaeth mewn lleoliad o'r fath yn gwella effeithlonrwydd ynni cyffredinol ac yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer rheoli ystad ysgolion yn gynaliadwy.
A yw'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar sut gall y Cyngor wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol?	Mae'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar wydnwch. Byddai cyfuno'r ddarpariaeth addysg mewn adeilad modern sy'n effeithlon o ran ynni yn cefnogi nodau addasu i'r hinsawdd. Fodd bynnag, gallai mwy o ddibyniaeth ar gludiant wrthbwyso rhai manteision.

DIOGELU DATA ***(Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn nodi a lleihau risgiau preifatrwydd prosiect yn gynnar. Yn yr adran hon, mae angen i ni weld a oes angen cwblhau'r asesiad hwn ar gyfer y cynnig. Mae gofynion penodol hefyd ynglŷn â defnyddio trydydd partïon i brosesu data personol ar ran y Cyngor, a rhaid yw cael Cytundeb Prosesu Data sy'n rhwymol yn gyfreithlon ar eu cyfer).***		
A yw'r cynnig yn golygu casglu/defnyddio data personol (gwybodaeth yn ymwneud â pherson y mae modd ei adnabod)?	Ydy	**Os ydy, rhowch wybodaeth am y math o ddata** Gofynnir am gyfeiriadau post os yw ymgyngoreion am gael gwybodaeth am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn aros yn gyfrinachol.
A yw'r cynnig yn gofyn am ddefnyddio technolegau newydd ac yn debygol o arwain at berygl sylweddol i hawliau a rhyddid yr unigolion?	Nac ydy.	**Os ydy, rhowch wybodaeth am y math o dechnolegau newydd** Bydd dogfennau ymgynghori ar gael ar-lein ac fel copi papur yn yr ysgol. Bydd ffurflenni ymateb ar gael ar-lein ac fel copi papur yn yr ysgol.
A yw'r cynnig yn golygu bydd trydydd parti yn casglu, yn derbyn, neu fel arall, yn cael mynediad at ddata personol a reolir gan y Cyngor?	Nac ydy	**Os ydy, rhowch wybodaeth am beth fydd hyn yn ei olygu**

GOBLYGIADAU ***(Rhowch ystyriaeth i unrhyw oblygiadau ychwanegol a gwnewch yn siŵr fod y Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth priodol wedi cytuno ar unrhyw oblygiadau sy'n codi, ac y cyfeirir atynt yn fanwl isod)***
A oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol y mae angen eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?
1. Cyfreithiol a Rheoli Risg
Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd angen ymgynghori yn unol â'r gweithdrefnau statudol perthnasol sydd wedi'u cynnwys yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2026. Os bydd y cynnig yn mynd ymlaen i'r cam Hysbysiad Statudol, bydd angen cychwyn cyfnod gwrthwynebu yn unol â'r gweithdrefnau statudol perthnasol. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn nodi mai "prif bwrpas ysgolion yw darparu addysg a dylai unrhyw achos dros gau fod yn gadarn ac er budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal".
2. Cyllid, Caffael, TGCh ac Asedau Ffisegol
Os cymeradwyir y cynnig, bydd yn cael ei ariannu'n unol ag ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol. Mae sefyllfa ariannol bresennol yr ysgol yn ogystal â'r cyllidebau a ragwelir wedi'u hystyried fel rhan o bapurau'r cynnig. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, a phe chytunid iddynt gael eu rhoi ar waith, byddai arbedion refeniw blynyddol disgwyliedig. Yn ogystal, mae arbedion eraill i'r Cyngor

o'r gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog a ddarperir i ysgolion fel Adnoddau Dynol, Addysg a Chymorth ADY, TG, Gwasanaeth Cerdd, glanhau, cynnal a chadw eiddo, cynnal a chadw tiroedd ac arlwyo.

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, byddai'r ysgol sy'n derbyn yn elwa ar gyllid disgyblion ychwanegol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Os nad oes diddordeb corfforaethol neu gymunedol mewn cadw'r adeilad yn unol â'r polisi 'Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid', yna byddai'r adeilad yn cael ei roi ar y farchnad agored a gallai gynhyrchu derbyniad cyfalaf.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol un adeilad ysgol diangen yn ei ystad â gwerth amcangyfrifedig o £125,000. Amcangyfrif lefel uchel cychwynnol yw'r ffigwr hwn a byddai angen asesiad manwl pellach i ddeall gwerth posibl y safle yn llawn. Byddai'r eiddo yn cael ei drosglwyddo i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi ynghylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai angen cyfleusterau ychwanegol yn Ysgol Pontyberem i ddarparu ar gyfer y disgyblion sy'n dymuno trosglwyddo. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd angen rhwng £900,000 a £1,200,000 i ddarparu lle ychwanegol, cyfleusterau storio cysylltiedig a thoiledau. Byddai angen cyllid o gyllidebau cyfalaf presennol sydd ar gael yn y rhaglen gyfalaf bresennol gan na fyddai'r cynnig yn rhan o Raglen Fuddsoddi Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yr awdurdod lleol.

3. Staffio

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, mae posibilrwydd y byddai angen dau athro ychwanegol ar Ysgol Pontyberem a fyddai'n ychwanegu at ei staff presennol. Byddai angen trafodaethau pellach â'r ysgol dderbyn arfaethedig i benderfynu ar yr union angen os o gwbl.

Nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac rydym yn cydnabod yn llawn yr effaith sylweddol y gall cynigion o'r fath ei chael ar y staff sy'n gweithio yno. Ein blaenoriaeth bob amser yw lleihau tarfu a chefnogi ein staff drwy unrhyw gyfnod o newid.

Yn unol â'n Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i osgoi dileu swyddi yn orfodol. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r holl gyfleoedd adleoli posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses.

Fodd bynnag, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni allwn ddiystyru'n llwyr y posibilrwydd o ddileu swyddi. Pan nad yw adleoli yn ymarferol, byddwn yn dilyn proses deg a thryloyw ac yn cefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt.

Rydym yn deall yr ansicrwydd y mae hyn yn ei greu i staff a'u teuluoedd, ac rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir, a darparu diweddariadau amserol a mynediad at wasanaethau cymorth drwy gydol y broses. Bydd ein tîm Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses.

4. Marchnata a'r Cyfryngau

Os bydd y cynnig yn symud ymlaen i'r cam ymgynghori, bydd angen ei farchnata drwy wefan y Cyngor Sir a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid gofynnol.

Os bydd y cynnig yn symud ymlaen o'r cam ymgynghori i'r cam Hysbysiad Statudol, bydd angen marchnata cyfnod gwrthwynebu drwy wefan y Cyngor Sir a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid gofynnol.

5. Troseddau ac Anhrefn

Ni ddisgwylir unrhyw oblygiadau. Gallai cau'r ysgol olygu bod safle'r ysgol yn wag am gyfnod. Gall adeiladau cyhoeddus gwag ddenu fandaliaeth, tresmasu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thipio anghyfreithlon, gan greu pryderon ynghylch diogelwch cymunedol a chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â diogelwch y safle a'i gynnal a'i gadw.

Gallai cau leihau lefelau gweithgarwch dyddiol a goruchwyliaeth anffurfiol yng nghyffiniau'r ysgol. Gallai llai o ddefnydd greu cyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnydd anawdurdodedig o dir yr ysgol, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Gall y risg o danau bwriadol fod yn fwy mewn adeiladau gwag. Gallai unrhyw ddigwyddiad o'r fath olygu goblygiadau y tu hwnt i'r safle ei hun, gan gynnwys risgiau i drigolion cyfagos, effeithiau amgylcheddol a gofynion ar y gwasanaethau brys.

Disgwylir i unrhyw broblemau diogelwch cymunedol posibl sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol fod yn rhai dros dro ac maent yn dibynnu i raddau helaeth ar ddefnydd y safle yn y dyfodol.

I liniaru'r risgiau hyn, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r eiddo a lleihau'r risg o fynediad anawdurdodedig, fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon neu danau bwriadol.

Hefyd, bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i benderfynu ar ddefnydd y safle yn y dyfodol cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau unrhyw gyfnod pan fydd yr adeilad yn wag o bosib a lleihau'r tebygolrwydd o bryderon ynghylch diogelwch cymunedol yn y tymor hwy.

Atodiad D: Ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig					
Enw'r Ysgol		**Ysgol Gynradd Ponthenri**	**Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog**	**Ysgol Gynradd Pontyberem**	**Ysgol Gynradd Gwynfryn**
Lleoliad yr Ysgol		Heol y Pentre, Ponthenri, Llanelli, SA15 5NS	Llanddarog, SA32 8BJ	Heol y Felin, Pontyberem, Llanelli, SA15 5EB	Heol y Meinciau, Pontiets, Llanelli, SA15 5SN
Ystod Oedran		4-11	4-11	4-11	4-11
Categori Ysgol		Cymunedol	Gwirfoddol a Reolir	Cymunedol	Cymunedol
Categori laith		3 - Cyfrwng Cymraeg	3 - Cyfrwng Cymraeg	3 - Cyfrwng Cymraeg	3 - Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2026)	**Meithrin**	0	1	14	4
	Derbyn – B.6	60	55	196	56
	Cyfanswm	60	56	210	60
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)	**Ionawr 2025**	64	69	227	56
	Ionawr 2024	67	70	227	59
	Ionawr 2023	68	74	230	62
	Chwefror 2022	70	80	235	57
Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio Meithrin) (2026)	**Ionawr 2027**	57	52	200	53
	Ionawr 2028	54	52	197	57
	Ionawr 2029	56	51	199	58
	Ionawr 2030	54	50	208	54
	Ionawr 2031	55	47	205	54

Enw'r Ysgol	Ysgol Gynradd Ponthenri	Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog	Ysgol Gynradd Pontyberem	Ysgol Gynradd Gwynfryn
Capasiti Meithrin 25/26	11	11	32	10
Capasiti Derbyn-B6 25/26	83	83	210	85
Cyfanswm Capasiti 25/26	94	94	242	95
Capasiti Meithrin 26/27	10	11	34	10
Capasiti Derbyn-B6 26/27	75	83	210	85
Cyfanswm Capasiti 26/27	85	94	244	95
Cyllideb Ysgol (2026/27) (Cyllideb A52)	£349,676	£340,197	£1,157,600	£295,005
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2026/27) (Cyllideb A52)	£5,464	£4,930	£5,100	£5,268
Cyllideb Ysgol (2026/27) (Cyllideb A52)	£334,409	£313,000	£1,177,055	£331,105
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2026/27) (Cyllideb A52)	£5,573	£5,589	£5,605	£5,518
Canlyniad Arolygiad Estyn	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2024)	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2019)	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2023)	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2025)
Categori Cyflwr Adeilad	B (2023)	B (2024)	A (2023)	C (2024)
Categori Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol	B	B	A	B

Atodiad E: Dadansoddiad SWOT manwl o bob opsiwn a ystyriwyd

Opsiwn Amgen 1 - Cadw'r trefniadau presennol (Status Quo) yn yr ysgol.	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n cadw parhad a chynefindra i ddisgyblion, staff a theuluoedd, heb darfu ar unwaith ar ddysgu, llesiant, perthnasoedd sefydledig na chysylltiadau cymunedol.	Mae gan adeilad yr ysgol sgôr addasrwydd wael ac mae angen buddsoddiad sylweddol i ddarparu amgylchedd sy'n cyd-fynd yn llawn â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru ac arferion addysgol modern.
Mae'n cadw rôl yr ysgol fel ased cymunedol sefydledig ac yn cynnal mynediad lleol i addysg ym Mancffosfelen.	Prin o hyd fyddai'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau cyfoedion mwy o oedran a chyfnod datblygiad tebyg.
Dim newidiadau i drefniadau cludiant a dim costau ychwanegol.	Bydd lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau, gan barhau i effeithio ar y defnydd effeithlon o'r adeilad, adnoddau addysgol a chynaliadwyedd tymor hir yr ysgol.
Bydd effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau teithio cyfredol yn aros yr un fath.	Ni fydd pwysau ar y gyllideb a'r diffyg presennol yn cael sylw gan y bydd rhwymedigaethau a materion sy'n effeithio ar y gyllideb yn parhau i achosi problemau. Bydd y diffyg anghynaliadwy yn y gyllideb ar hyn o bryd yn parhau i gynyddu oherwydd niferoedd isel y disgyblion.
Mae'n cynnal darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn y gymuned, gan gefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050.	Mae disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn gan greu heriau parhaus mewn perthynas â chynllunio, cynnydd, asesu a gwahaniaethu o ran y cwricwlwm.
Mae'r ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, dysgu proffesiynol, datblygu'r cwricwlwm a rhannu ymarfer effeithiol.	Mae amcanestyniadau disgyblion yn dangos tuedd sefydlog yn y dyfodol hyd at 2031 ond rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau i fod yn isel gyda lefelau uchel o leoedd gwag gan arwain at ddefnydd aneffeithlon parhaus o'r adeilad ac adnoddau addysgol.
Mae'r trefniant rhannu arweinyddiaeth presennol yn darparu rhywfaint o sefydlogrwydd trefniadaethol ac yn denu tâl atodol ffederasiwn blynyddol sy'n cyfrannu at gostau arweinyddiaeth. Mae'r trefniant ffederasiwn meddal presennol yn denu tâl atodol o £6,000 y flwyddyn.	Er gwaethaf y ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol heb eu datrys mewn perthynas â nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a chyflwr/addasrwydd yr adeilad.
Byddai cynnal y trefniadau presennol yn caniatáu i'r ysgol barhau i adeiladu ar y	Gallai ehangder y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ymyriadau arbenigol a gwasanaethau cymorth

berthynas sefydledig ag Ysgol Llanddarog a'r gymuned ehangach.	ehangach fod yn fwy cyfyngedig na'r rhai sydd ar gael mewn ysgolion mwy.
Mae disgyblion eisoes yn elwa ar brofiadau ehangach drwy gydweithio, gan gynnwys ymweliadau addysgol, gweithgareddau chwaraeon a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol â grŵp ehangach o gyfoedion.	Mae strwythurau staffio llai yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig, arbenigedd cwricwlwm, cydweithio proffesiynol a gwydnwch trefniadaethol.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Rhoi cynllun gwella wedi'i dargedu ar waith i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r adeilad a gwella cyfleusterau i'r disgyblion.	Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol, heb unrhyw sicrwydd y byddai buddsoddiad o'r fath yn gwella hyfywedd neu gynaliadwyedd tymor hir.
Y potensial i gynnwys y gymuned mewn codi arian a gwirfoddoli i gryfhau gweithrediadau'r ysgol a lleihau cyllidebau diffyg.	Gallai pwysau ariannol parhaus gyfyngu fwyfwy ar ddatblygu'r cwricwlwm, hyblygrwydd staffio, gwaith gwella'r ysgol a buddsoddiad mewn darpariaeth addysgol.
Er y gallai gwella cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol wella ansawdd yr amgylchedd dysgu, byddai'n rhaid gwneud buddsoddiad cyfalaf sylweddol. O ystyried y patrwm presennol o ran niferoedd isel ar y gofrestr a niferoedd cyfyngedig o'r dalgylch, mae'n ansicr a fyddai buddsoddiad o'r fath ar ei ben ei hun yn arwain at gynnydd parhaus yn nifer y disgyblion neu'n mynd i'r afael â chynaliadwyedd tymor hir yr ysgol.	Gallai niferoedd isel parhaus effeithio ymhellach ar hyfywedd a gwydnwch trefniadaethol yr ysgol a pha mor ddeniadol yw hi i ddarpar deuluoedd.
Mae'r trefniant ffederasiwn meddal presennol yn darparu cyfleoedd i ddatblygu ymhellach gydweithio, dysgu proffesiynol a gweithgareddau a rennir ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn ar eu pennau eu hunain yn annhebygol o fynd i'r afael â'r heriau cynaliadwyedd sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.	Gallai diffyg cynyddol barhau i dyfu, gan olygu y bydd angen mwy o gymorth ariannol gan yr Awdurdod Lleol.
	Gallai dirywiad pellach yn adeilad yr ysgol gynyddu rhwymedigaethau cynnal a chadw, risgiau gweithredol a phryderon iechyd a diogelwch.
	Gallai pryderon ynghylch addasrwydd yr adeilad a chynaliadwyedd tymor hir olygu bod rhieni yn fwy tebygol o ddewis ysgolion amgen.
	Rhagwelir y bydd lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau, gan arwain at aneffeithlonrwydd parhaus a phwysau ar adnoddau cyhoeddus.

	Gallai ansicrwydd tymor hir ynghylch cynaliadwyedd yr ysgol yn y dyfodol effeithio ar recriwtio staff, cadw staff, hyder rhieni a phatrymau cofrestru yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Byddai cadw'r trefniadau presennol yn darparu parhad a sefydlogrwydd i ddisgyblion, staff a theuluoedd yn y tymor byr. Byddai dysgwyr yn aros mewn amgylchedd cyfarwydd ac yn parhau i gael eu haddysgu gan staff y maent yn eu hadnabod, heb unrhyw darfu sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgol neu drosglwyddo i ysgol arall. Cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn yn 2018 ac nid yw mewn categori gweithgarwch dilynol ar hyn o bryd, sy'n dangos ei bod yn parhau i ddarparu safon dderbyniol o addysg. O ganlyniad, gellid disgwyl yn rhesymol y byddai safonau addysg yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos o dan y status quo.

Byddai'r ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, deialog broffesiynol a rhannu ymarfer effeithiol. Byddai'r disgyblion yn parhau i elwa ar weithgareddau ar y cyd, ymweliadau addysgol, cyfleoedd chwaraeon a phrofiadau dysgu ehangach, a byddai staff yn parhau i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm ar y cyd a dysgu proffesiynol. Mae'r trefniadau hyn wedi cryfhau cyfleoedd addysgol i ddysgwyr ac wedi darparu lefel bwysig o sefydlogrwydd trefniadaethol a pharhad arweinyddiaeth.

Fodd bynnag, er gwaethaf y manteision sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ffederasiwn presennol, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn ymwneud â nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. Mae'r trefniadau presennol wedi helpu i liniaru rhai o'r heriau hyn ond nid ydynt wedi mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a ysgogodd yr adolygiad. O ganlyniad, ni fyddai llawer o'r ffactorau sy'n effeithio ar hyfywedd a chynaliadwyedd tymor hir yr ysgol yn newid o dan yr opsiwn hwn.

Her sylweddol o dan yr opsiwn hwn fyddai parhau â niferoedd isel iawn o ddisgyblion a threfniadau addysgu oedran cymysg. Er bod staff yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr, mae maint bach yr ysgol yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau cyfoedion mwy o oedran a chyfnod datblygiad tebyg. Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, trafodaeth rhwng cyfoedion, gwaith grŵp, cystadleuaeth iach a phrofiadau cymdeithasol ehangach yn fwy cyfyngedig nag mewn lleoliadau ysgol mwy.

Mae'r strwythur dosbarthiadau presennol hefyd yn golygu bod angen i athrawon gynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu ar draws sawl grŵp blwyddyn a cham cynnydd yn yr un ystafell ddosbarth. Er bod hyn yn cael ei reoli'n effeithiol gan staff, mae'n anorfod y bydd yn cynyddu'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chyflwyno, asesu a gwahaniaethu o ran y cwricwlwm. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni uchelgais ac ehangder llawn y Cwricwlwm i Gymru mewn cyd-destun ysgol fach iawn yn parhau.

Yn ogystal, byddai dysgwyr yn parhau i gael mynediad mwy cyfyngedig i ehangder cyfleoedd y cwricwlwm, arbenigedd, gweithgareddau allgyrsiol, cymorth llesiant a darpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael yn hwylus mewn ysgolion mwy.

Hefyd, ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella'r amgylchedd dysgu a phrin yw'r dystiolaeth y byddai buddsoddi yn yr adeilad yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau addysgol, trefniadaethol a chynaliadwyedd ehangach sy'n wynebu'r ysgol.

Mae amcanestyniadau disgyblion yn dangos bod disgwyl i'r niferoedd aros yn isel ac y bydd y lleoedd gwag yn parhau. O ganlyniad, mae'r heriau addysgol, trefniadaethol ac ariannol sy'n gysylltiedig â gweithredu ysgol fach iawn yn debygol o barhau dros y tymor hwy. Er y gellid parhau i gynnal safonau, o dan yr opsiwn hwn prin fyddai'r cyfle i ehangu profiadau addysgol, cryfhau capasiti arweinyddiaeth, cynyddu gwydnwch trefniadaethol, gwella hyblygrwydd y cwricwlwm neu sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

Yn gyffredinol, byddai cadw'r trefniadau presennol yn sicrhau parhad ac yn darparu sefydlogrwydd tymor byr i ddisgyblion a theuluoedd. Fodd bynnag, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol nac yn creu'r amodau angenrheidiol i sicrhau gwelliant a chynaliadwyedd tymor hir.

Er bod safonau addysgol yn debygol o gael eu cynnal yn y tymor byr, mae'r opsiwn yn gyfyngedig o ran ei allu i wella profiadau dysgwyr, ehangu cyfleoedd y cwricwlwm, cryfhau capasiti arweinyddiaeth, gwella gwydnwch trefniadaethol neu wella'r amgylchedd dysgu. Yn bwysig ddigon, byddai'r opsiwn yn cynnal y sefyllfa bresennol yn hytrach na chyflawni'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd drwy'r adolygiad.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai cadw'r status quo yn cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth yn y gymuned yn y tymor byr. Fodd bynnag, gallai'r heriau parhaus sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion a phwysau ariannol, effeithio ar gynaliadwyedd tymor hwy y ddarpariaeth hon.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Yn gyffredinol, byddai cadw'r status quo yn methu â mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag, sefyllfa ariannol anghynaladwy, a phryderon ynghylch addasrwydd a chyflwr yr adeilad.

Er y byddai'n darparu sefydlogrwydd tymor byr a bod y ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cydweithio, rhannu arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a

phrofiadau addysgol ehangach i ddisgyblion, mae'r trefniadau hyn wedi bod ar waith ers mis Medi 2024 ac nid ydynt wedi mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.

Ni fyddai cadw'r status quo yn cynnig ateb tymor hir hyfyw i wella'r ddarpariaeth addysgol, mynd i'r afael â phwysau cyllidebol, neu sicrhau cynaliadwyedd yr ysgol i ddysgwyr y dyfodol. Felly, nid yw'r opsiwn hwn yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithiol na strategol ac nid yw'n cael ei ystyried yn ffordd bosibl ymlaen. Mae hyn er gwaethaf y manteision sydd eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog.

Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y ddarpariaeth bresennol yn hytrach na'i gwella ac nad yw'n sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel a'r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Opsiwn Amgen 2 - Newid ystod oedran Ysgol Bancffosfelen o 4-11 i 3-11	
Cryfderau	**Gwendidau**
Gallai cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar wneud yr ysgol yn fwy deniadol i ddarpar deuluoedd, ond nid yw'n sicr i ba raddau.	Mae gan adeilad yr ysgol sgôr addasrwydd wael ac mae angen buddsoddiad sylweddol i ddarparu amgylchedd sy'n cyd-fynd yn llawn â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru ac arferion addysgol modern
Mae'n cadw parhad a chynefindra i ddisgyblion, staff a theuluoedd, heb darfu ar unwaith ar ddysgu, llesiant, perthnasoedd sefydledig na chysylltiadau cymunedol.	Os yw'r galw lleol am leoedd y blynyddoedd cynnar eisoes yn cael ei ddiwallu mewn mannau eraill, efallai na fydd llawer yn derbyn y lleoedd.
Gallai cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar ar y safle wneud yr ysgol yn fwy deniadol i rieni.	Yn dibynnu ar y nifer sy'n derbyn y lleoedd, byddai staff addysgu o bosibl yn wynebu'r her barhaus o gynllunio a chyflwyno gwersi i ddosbarthiadau sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau a galluoedd cymysg, fel mae'n gwneud ar hyn o bryd.
Byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, a gallai cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar gefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac uchelgeisiau Cymraeg 2050.	Gallai effeithio ar fusnesau lleol sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar ac mae addysg feithrin ar gael yn y Cylch Meithrin yn Ysgol Gynradd Pontyberem, ychydig dros filltir i ffwrdd.
Mae'n cadw rôl yr ysgol fel ased cymunedol sefydledig ac yn cynnal mynediad lleol i addysg ym Mancffosfelen.	Costau sylweddol sy'n gysylltiedig â gwella cyflwr adeilad yr ysgol i safon dderbyniol a diogel.
Dim newidiadau i drefniadau cludiant a dim costau ychwanegol.	Gallai dosbarthiadau oedran cymysg ar draws sawl grŵp blwyddyn gyfyngu ar allu'r ysgol i gyflwyno ehangder llawn y Cwricwlwm i Gymru yn gyson ac i herio pob dysgwr yn briodol.

Bydd effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau teithio cyfredol yn aros yr un fath.	Ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r diffyg presennol yn y gyllideb a gallai roi pwysau pellach ar gyllid pe bai darpariaeth ychwanegol yn cael ei chyflwyno heb ddefnydd digonol.
Mae'n cynnal darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn y gymuned, gan gefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050.	Efallai y byddai angen addasu'r mannau presennol i gyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar, a allai roi pwysau ychwanegol ar yr adeilad sydd eisoes wedi'i gyfyngu.
Mae'r ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, dysgu proffesiynol, datblygu'r cwricwlwm a rhannu ymarfer effeithiol.	Prin o hyd fyddai'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau cyfoedion mwy o oedran a chyfnod datblygiad tebyg.
Mae'r trefniant rhannu arweinyddiaeth presennol yn darparu rhywfaint o sefydlogrwydd trefniadaethol ac yn denu tâl atodol ffederasiwn blynyddol sy'n cyfrannu at gostau arweinyddiaeth. Mae'r trefniant ffederasiwn meddal presennol yn denu tâl atodol o £6,000 y flwyddyn.	Bydd lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau, gan barhau i effeithio ar y defnydd effeithlon o'r adeilad, adnoddau addysgol a chynaliadwyedd tymor hir yr ysgol.
Byddai cynnal y trefniadau presennol yn caniatáu i'r ysgol barhau i adeiladu ar y berthynas sefydledig ag Ysgol Llanddarog a'r gymuned ehangach.	Ni fydd pwysau ar y gyllideb a'r diffyg presennol yn cael sylw gan y bydd rhwymedigaethau a materion sy'n effeithio ar y gyllideb yn parhau i achosi problemau. Bydd y diffyg anghynaliadwy yn y gyllideb ar hyn o bryd yn parhau i gynyddu oherwydd niferoedd isel y disgyblion.
Mae disgyblion eisoes yn elwa ar brofiadau ehangach drwy gydweithio, gan gynnwys ymweliadau addysgol, gweithgareddau chwaraeon a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol â grŵp ehangach o gyfoedion.	Mae disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn gan greu heriau parhaus mewn perthynas â chynllunio, cynnydd, asesu a gwahaniaethu o ran y cwricwlwm.
	Mae amcanestyniadau disgyblion yn dangos tuedd sefydlog yn y dyfodol hyd at 2031 ond rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau i fod yn isel gyda lefelau uchel o leoedd gwag gan arwain at ddefnydd aneffeithlon parhaus o'r adeilad ac adnoddau addysgol.
	Er gwaethaf y ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol heb eu datrys mewn perthynas â nifer y disgyblion,

	lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a chyflwr/addasrwydd yr adeilad.
	Gallai ehangder y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ymyriadau arbenigol a gwasanaethau cymorth ehangach fod yn fwy cyfyngedig na'r rhai sydd ar gael mewn ysgolion mwy.
	Mae strwythurau staffio llai yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig, arbenigedd cwricwlwm, cydweithio proffesiynol a gwydnwch trefniadaethol.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gallai'r opsiwn hwn ddiwallu anghenion cymunedol a rhoi mwy o opsiynau i rieni ar gyfer addysg y Blynyddoedd Cynnar er bod darpariaeth eisoes ar gael gerllaw.	Risg y byddai cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael effaith negyddol ar ddarparwyr lleol presennol.
Gallai parhad y ddarpariaeth yn y tymor byr gefnogi iechyd a llesiant disgyblion a staff, ond mae risgiau'n dod i'r amlwg os bydd problemau o ran yr adeilad a staffio yn parhau.	Risg bod yr opsiwn yn dargyfeirio adnoddau heb fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd craidd
Cyfle i gryfhau'r broses bontio rhwng addysg y blynyddoedd cynnar ac addysg statudol drwy fodel un safle.	Risg nad yw'r rhagdybiaethau o ran y galw yn cael eu gwireddu, gan arwain at ddarpariaeth nad yw'n cael ei defnyddio'n llawn
	Risg y bydd pwysau ariannol yn cynyddu oherwydd gofynion o ran staffio a'r adeilad
	Risg y gallai cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar olygu bod angen staff ac adnoddau ychwanegol na fyddai'n gynaliadwy o bosib os na fydd llawer yn defnyddio'r ddarpariaeth.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Gallai newid ystod oedran Ysgol Bancffosfelen o 4-11 i 3-11 ddarparu rhai manteision addysgol. Gallai cyflwyno darpariaeth feithrin gryfhau'r trefniadau pontio rhwng addysg y blynyddoedd cynnar ac addysg statudol a darparu llwybr dysgu parhaus i blant a theuluoedd yn y gymuned leol. Gallai'r opsiwn hefyd wella dewis y rhieni a chefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod ac uchelgeisiau Cymraeg 2050 drwy ddarparu addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ychwanegol.

Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth i awgrymu y byddai newid yr ystod oedran ar ei ben ei hun yn arwain at gynnydd sylweddol neu barhaus yn nifer y disgyblion. Mae darpariaeth feithrin eisoes ar gael yn lleol ac felly mae'n ansicr a fyddai cyflwyno dosbarth meithrin yn yr ysgol yn creu digon o alw ychwanegol i fynd i'r afael â heriau sylfaenol yr ysgol o ran cynaliadwyedd. O ganlyniad, byddai'r ysgol yn debygol o barhau i weithredu â niferoedd isel o ddisgyblion, llawer o leoedd gwag a chost uchel fesul disgybl.

Er y gallai'r opsiwn gynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn y blynyddoedd cynnar, ni fyddai'n mynd i'r afael â llawer o'r heriau sy'n effeithio ar y ddarpariaeth addysgol ar hyn o bryd. Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn amgylchedd ysgol bach, gyda dosbarthiadau oedran cymysg yn rhychwantu sawl grŵp blwyddyn. Byddai'r staff yn parhau i wynebu'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu ar draws ystod eang o oedrannau, galluoedd a chamau cynnydd. Gallai cyflwyno grŵp oedran ychwanegol gynyddu cymhlethdod trefniadaethol ymhellach heb fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n effeithio ar hyfywedd yr ysgol.

Byddai'r ffederasiwn meddal presennol a'r trefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog yn parhau. Er bod y trefniadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cydweithio a chymorth arweinyddiaeth, nid ydynt wedi mynd i'r afael â heriau sylfaenol yr ysgol yn ymwneud â nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a'r adeilad.

Hefyd, ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch addasrwydd a chyflwr adeilad yr ysgol. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd i wella'r adeilad a sicrhau bod y cyfleusterau'n briodol ar gyfer y disgyblion presennol ac unrhyw ddarpariaeth feithrin ychwanegol. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen gwneud addasiadau i'r mannau presennol i sefydlu darpariaeth feithrin, gan roi pwysau ychwanegol ar yr adeilad sydd eisoes wedi'i gyfyngu.

Nid oedd arolygiad 2018 Estyn yr ysgol yn ei rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol, gan ddangos y gellir cynnal safonau o dan y trefniadau presennol. Serch hynny, prin yw'r cyfle o dan yr opsiwn hwn i gryfhau capasiti arweinyddiaeth, ehangu cyfleoedd addysgol, gwella gwydnwch trefniadaethol neu wella'r amgylchedd dysgu. Felly, ni fyddai'n gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r ffactorau sydd wedi arwain at yr adolygiad.

Yn gyffredinol, er y gallai'r opsiwn hwn ddarparu rhai manteision o ran dewis y rhieni, parhad blynyddoedd cynnar a darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Efallai y byddai safonau addysgol yn parhau i gael eu cynnal, ond go brin y byddai'r opsiwn hwn yn gwella capasiti arweinyddiaeth, ehangder y cwricwlwm, gwydnwch trefniadaethol, cynaliadwyedd ariannol neu addasrwydd yr amgylchedd dysgu.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai cyflwyno darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn rhoi rhagor o opsiynau addysg gynnar i deuluoedd lleol. Gallai ychwanegu dosbarthiadau'r Blynyddoedd Cynnar ddenu rhagor o deuluoedd i'r ardal, gan arwain at fwy o gystadleuaeth am leoedd ysgol gynradd. Mae integreiddio plant yn gynnar i'r amgylchedd ysgol yn gallu meithrin perthnasoedd cryfach rhwng teuluoedd a sefydliadau addysgol. Gallai hyn wella cydlyniant cymunedol a chefnogi mentrau lleol.

Gallai ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg gefnogi'r gwaith o gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gallai cyflwyno darpariaeth feithrin ddarparu llwybr addysgol di-dor i blant, gan wella parhad ac integreiddio cymunedol.

Gall cynnydd mewn plant oedran ysgol roi pwysau ychwanegol ar seilwaith lleol. Os bydd mwy o deuluoedd yn mynychu'r ysgol gallai greu mwy o draffig yn ystod yr oriau prysuraf, ond mae'r effaith hon yn debygol o fod yn ddibwys yn yr achos hwn oherwydd demograffeg yr ardal a maint bach yr ysgol.

Fodd bynnag, byddai maint y manteision hyn yn dibynnu ar y galw lleol a hyfywedd cynnal darpariaeth blynyddoedd cynnar yn yr ysgol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio. Gan fod y ddarpariaeth o addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol gorfodol, ni fyddai cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion. Gallai cynnydd mewn plant oedran ysgol osod gofynion ychwanegol ar y seilwaith lleol. Os bydd mwy o deuluoedd yn mynychu'r ysgol gallai greu mwy o draffig yn ystod yr oriau prysuraf, ond mae'r effaith hon yn debygol o fod yn ddibwys yn yr achos hwn oherwydd demograffeg yr ardal a maint bach yr ysgol.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Mae'r opsiwn i newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 wedi cael ei ystyried fel modd o gynyddu'r galw a gwella hyfywedd yr ysgol. Er y gallai cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar wneud yr ysgol yn fwy deniadol i rai teuluoedd, prin yw'r dystiolaeth i awgrymu y byddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol neu barhaus yn nifer y disgyblion. Felly, mae'r opsiwn hwn yn annhebygol o gael effaith ystyrlon ar lefelau presennol y lleoedd gwag neu fynd i'r afael â'r gostyngiad parhaus yn nifer y plant sydd ar y gofrestr.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r materion sylweddol sy'n ymwneud â chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. Mae'r adeilad presennol eisoes wedi'i gyfyngu ac mae angen buddsoddiad sylweddol arno, a byddai cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar yn rhoi pwysau ychwanegol ar y cyfleusterau. O ganlyniad, ni fyddai'r opsiwn hwn yn darparu amgylchedd addas na chynaliadwy ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

O safbwynt ariannol, ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r diffyg presennol yn y gyllideb a gallai roi pwysau pellach ar gyllid yr ysgol os nad yw'r galw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael ei wireddu. Hefyd, byddai'r heriau presennol sy'n gysylltiedig ag addysgu oedran cymysg yn parhau a gallent gynyddu yn sgil cyflwyno grŵp oedran ychwanegol.

Yn gyffredinol, er y gallai'r opsiwn hwn gynnig rhai manteision cyfyngedig o ran darpariaeth leol a dewis y rhieni, nid yw'n mynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, pwysau ariannol a chyfyngiadau sylweddol yn ymwneud â'r adeilad. Am y rhesymau hyn, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn ateb tymor hir cynaliadwy ac felly mae wedi'i ddiystyru.

Opsiwn Amgen 3 – Ffedereiddio Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn ffurfiol ag ysgol leol arall e.e. Ysgol Gynradd Pontyberem	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae ffedereiddio yn galluogi'r ysgolion i rannu adnoddau, megis staff, cyfleusterau a deunyddiau, a allai leihau costau a gwella effeithlonrwydd. Mae tystiolaeth o'r ffederasiwn anffurfiol presennol ag Ysgol Llanddarog yn dangos y gall cydweithio wella profiadau disgyblion a darparu mynediad at amrywiaeth ehangach o weithgareddau ac ymweliadau addysgol.	Mae disgyblion yn parhau i fynychu adeilad ysgol sydd â sgôr addasrwydd wael sy'n cyfyngu ar ei allu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol yn y tymor hir.
Mae'r ysgol yn parhau ar agor gan gadw'r ddarpariaeth yn y gymuned yn y tymor byr gan gynnal mynediad lleol i deuluoedd.	Os nad yw'r ffederasiwn yn llwyddo i fynd i'r afael â'r heriau allweddol, gallai arwain at broblemau parhaus yn yr ysgol a risg o ddirywiad pellach.
Dim newidiadau i drefniadau cludiant a dim costau ychwanegol.	Ni fyddai'n mynd i'r afael â materion o ran nifer isel y disgyblion y rhagwelir y byddant yn parhau i fod yn isel, lefelau uchel o leoedd gwag a chost fesul disgybl
Gallai'r ffederasiwn ganiatáu trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth cryfach, gyda thîm arwain mwy profiadol ar draws y ddwy ysgol a allai gefnogi gwelliannau mewn darpariaeth a safonau drwy rannu arweinyddiaeth ac arbenigedd.	Ni fyddai'n mynd i'r afael â materion o ran y gyllideb yn yr ysgol gan y byddai rhwymedigaethau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn parhau.
Byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg gan gefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac uchelgeisiau Cymraeg 2050.	Costau sylweddol sy'n gysylltiedig â gwella cyflwr adeilad yr ysgol i safon dderbyniol a diogel.
Ers mis Medi 2024, mae trefniant ffederasiwn anffurfiol ag Ysgol Llanddarog wedi dangos manteision pendant i ddisgyblion drwy fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, cydweithio, ymweliadau addysgol a rhyngweithio cymdeithasol ehangach, gan ddangos manteision posibl trefniadau cydweithio rhwng ysgolion.	Gallai dosbarthiadau oedran cymysg ar draws sawl grŵp blwyddyn gyfyngu ar allu'r ysgol i gyflwyno ehangder llawn y Cwricwlwm i Gymru yn gyson ac i herio pob dysgwr yn briodol.
Mae'r trefniant ffederasiwn anffurfiol presennol yn cefnogi model rhannu pennaeth ag Ysgol Llanddarog. Byddai ffederasiwn ag ysgol arall yn golygu bod modd parhau i rannu costau arweinyddiaeth ar draws ysgolion a chynnal y manteision trefniadaethol ac ariannol sy'n deillio o'r trefniant ar hyn o bryd.	Ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r diffyg presennol yn y gyllideb a gallai roi pwysau pellach ar gyllid pe bai'n parhau i waethygu.
	Er gwaethaf y manteision a gyflawnwyd drwy'r trefniant ffederasiwn anffurfiol

	presennol ers mis Medi 2024, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn ymwneud â niferoedd isel y disgyblion, lleoedd gwag, pwysau ar y gyllideb a chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol, sy'n awgrymu efallai na fyddai ffedereiddio ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â'r materion hyn.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfleoedd ar gyfer cydweithio gwell rhwng ysgolion, gan gynnwys rhannu arbenigedd staff, adnoddau ac arferion gorau, a allai gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.	Efallai na fydd yn gwella niferoedd disgyblion yn yr ysgol na nifer y lleoedd gwag
Gallai ffedereiddio ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ymhellach drwy weithgareddau allgyrsiol a rennir, chwaraeon cystadleuol, ymweliadau addysgol a phrofiadau dysgu ar y cyd. Mae'r manteision sydd eisoes wedi'u cyflawni drwy'r ffederasiwn anffurfiol presennol yn awgrymu y gellid adeiladu ar y trefniadau hyn drwy strwythur mwy ffurfiol.	Efallai y bydd rhieni, staff a'r corff llywodraethu yn gwrthwynebu'r cynnig i newid
Mae ysgolion sy'n rhan o ffederasiynau ffurfiol neu anffurfiol yn derbyn tâl atodol ffederasiwn o £12,000 neu £6,000 yn y drefn honno. Gallai hyn helpu i leddfu rhai o'r pwysau ariannol, er na fyddai hyn yn mynd i'r afael yn llawn â'r diffyg sylfaenol na'r materion cynaliadwyedd ehangach sy'n wynebu'r ysgol.	Mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad yn unol â'r Broses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru i ffedereiddio ysgol.
Gallai mwy o gydweithio gryfhau llesiant a rhyngweithio â chyfoedion ymhellach drwy roi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a chymdeithasu gyda grŵp ehangach o blant.	Risg nad yw ffedereiddio yn sicrhau gwelliant mesuradwy mewn safonau neu gynaliadwyedd.
Gallai ffederasiwn ffurfiol ddarparu mwy o sefydlogrwydd tymor hir ar gyfer y trefniadau rhannu arweinyddiaeth presennol a galluogi'r ysgolion sy'n cymryd rhan i barhau i elwa ar daliadau atodol cyllid ffederasiwn a strwythurau rheoli ar y cyd.	Risg bod y pwysau ariannol yn parhau er gwaethaf y trefniadau a rennir
	Risg bod y niferoedd isel parhaus o ddisgyblion yn tanseilio hyfywedd hirdymor yr ysgol
Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg Gallai ffederasiwn ffurfiol ag ysgol fwy fel Ysgol Pontyberem ddarparu nifer o fanteision addysgol. Byddai'r ysgol yn elwa ar fwy o gapasiti arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethu cryfach a mynediad at amrywiaeth ehangach o arbenigedd proffesiynol.	

Gallai strwythur arweinyddiaeth mwy gryfhau hunanwerthuso, cynllunio gwella'r ysgol, datblygu'r cwricwlwm, sicrhau ansawdd a datblygu'r gweithlu. Efallai y gallai staff hefyd elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwell, mwy o gydweithio a mwy o rannu ymarfer effeithiol ar draws ysgolion.

Gallai ffederasiwn ag Ysgol Pontyberem gryfhau gwydnwch trefniadaethol. Yn wahanol i'r trefniadau presennol, lle mae capasiti arweinyddiaeth yn cael ei rannu drwy ffederasiwn anffurfiol ag ysgol fach arall, byddai ffederasiwn ag ysgol fwy yn darparu mynediad at bennaeth parhaol nad yw'n addysgu, tîm uwch-arweinwyr ehangach a mwy o allu i gefnogi arweinyddiaeth o ran y cwricwlwm, llesiant, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a gwaith gwella'r ysgol. Nododd Estyn fod arweinyddiaeth yn Ysgol Pontyberem yn gryf ac yn effeithiol, gyda gweledigaeth strategol glir, trefniadau hunanwerthuso cadarn ac ymrwymiad cryf i welliant parhaus. Gallai'r strwythurau arweinyddiaeth sefydledig hyn ddarparu mwy o gapasiti i gefnogi datblygiad tymor hir Ysgol Bancffosfelen nag sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r trefniadau presennol.

Gallai dysgwyr hefyd elwa ar fwy o gyfleoedd i gydweithio â grŵp ehangach o gyfoedion drwy weithgareddau a rennir, digwyddiadau chwaraeon, ymweliadau addysgol, cyfleoedd cyfoethogi a phrosiectau'r cwricwlwm. Mae tystiolaeth o'r ffederasiwn anffurfiol presennol ag Ysgol Llanddarog eisoes wedi dangos yr effaith gadarnhaol y gall cydweithio ei chael o ran ehangu profiadau disgyblion, cynyddu rhyngweithio cymdeithasol a gwella mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd. Gallai ffederasiwn ffurfiol ag ysgol fwy ddarparu cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y manteision hyn a chryfhau pontio, llesiant a phrofiadau o ran y cwricwlwm i ddysgwyr.

Gallai ffedereiddio hefyd wella gallu'r ysgol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru drwy fwy o gyfleoedd ar gyfer cynllunio ar y cyd, deialog broffesiynol, cymedroli ac arweinyddiaeth o ran y cwricwlwm. Byddai gan staff fwy o fynediad at arbenigedd a rhwydweithiau proffesiynol ehangach, gan gefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu a mireinio darpariaeth y cwricwlwm.

Fodd bynnag, er y gallai ffedereiddio gryfhau capasiti arweinyddiaeth, cydweithio proffesiynol a threfniadau gwella'r ysgol, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel ac y byddai llawer o leoedd gwag o hyd. O ganlyniad, ni fyddai'r pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor, effeithlonrwydd trefniadaethol a hyfywedd ariannol yn newid i raddau helaeth.

Yn bwysig ddigon, ni fyddai ffedereiddio yn newid strwythur sylfaenol y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol. Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn a byddai'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chynllunio, asesu, cynnydd a gwahaniaethu o ran y cwricwlwm ar draws ystod oedran eang yn parhau. Byddai cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu ochr yn ochr â charfanau mwy o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg yn parhau i fod yn fwy cyfyngedig o gymharu â'r opsiwn a ffefrir.

Hefyd, ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch addasrwydd a chyflwr adeilad yr ysgol. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd a phrin yw'r dystiolaeth y byddai ffedereiddio ar ei ben ei hun yn gwella ansawdd, addasrwydd neu gynaliadwyedd tymor hir yr amgylchedd dysgu.

Hefyd, mae tystiolaeth o'r trefniant ffederasiwn anffurfiol presennol yn arbennig o arwyddocaol. Ers mis Medi 2024, mae disgyblion eisoes wedi elwa ar weithgareddau cydweithio, cyfleoedd cymdeithasol ehangach, profiadau addysgol a rennir a chymorth arweinyddiaeth drwy weithio ar ffurf ffederasiwn. Er bod y trefniadau hyn wedi sicrhau manteision addysgol clir, nid ydynt wedi mynd i'r afael â heriau'r ysgol o ran niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, pwysau ar y gyllideb a'r adeilad. Mae hyn yn awgrymu bod ffederasiwn ffurfiolyn annhebygol ynddo'i hun o ddarparu ateb cynhwysfawr neu gynaliadwy i'r ffactorau a ysgogodd yr adolygiad.

Yn gyffredinol, gallai ffederasiwn ag ysgol fwy fel Ysgol Pontyberem gryfhau cydweithio proffesiynol, gwydnwch trefniadaethol a gwaith gwella'r ysgol. Gellid cynnal safonau addysgol a gwella agweddau ar ddarpariaeth, yn enwedig drwy arweinyddiaeth wasgaredig gryfach a mynediad at amrywiaeth ehangach o arbenigedd.

Fodd bynnag, ni fyddai ffedereiddio yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol o ran materion demograffig, ariannol, trefniadaethol a'r adeilad sy'n wynebu'r ysgol. Er y gallai wella gallu'r ysgol i reoli'r heriau hyn, ni fyddai'n eu datrys.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth yn y gymuned yn y tymor byr. Fodd bynnag, gallai'r heriau parhaus sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion a phwysau ariannol, effeithio ar gynaliadwyedd tymor hwy y ddarpariaeth hon.

Mae profiad y ffederasiwn anffurfiol presennol wedi dangos y potensial i ysgolion gydweithio wrth gadw eu hunaniaethau unigol a'u presenoldeb yn y gymuned. Mae hyn wedi galluogi disgyblion a theuluoedd i elwa ar weithgareddau a chyfleoedd a rennir. Fodd bynnag, byddai cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth yn y gymuned yn parhau i fod yn ansicr oherwydd yr heriau parhaus sy'n wynebu'r ysgol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Efallai y bydd angen teithio ychwanegol ad-hoc os oes cydweithrediad da rhwng yr ysgolion yn y ffederasiwn fel arall rhagwelir y byddai'r trefniadau teithio yn parhau fel y maent ar hyn o bryd.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Er y gallai ffedereiddio gynnig manteision o ran rhannu arweinyddiaeth, adnoddau, cydweithio o ran y cwricwlwm a chyfleoedd gwell i ddisgyblion, mae tystiolaeth o'r trefniant ffederasiwn anffurfiol presennol ag Ysgol Llanddarog yn dangos y gellir cyflawni llawer o'r manteision hyn eisoes drwy gydweithio. Ers mis Medi 2024, mae'r disgyblion wedi elwa ar fwy o gyfleoedd chwaraeon, ymweliadau addysgol a rhyngweithio cymdeithasol ehangach.

Mae'r trefniant presennol hefyd wedi galluogi rhannu cyfrifoldebau arwain a chostau cysylltiedig rhwng ysgolion, a gefnogir gan dâl atodol cyllid ffederasiwn sydd ar gael drwy'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol hyn, mae'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn parhau.

Er y gallai ffedereiddio ag ysgol fwy fel Ysgol Pontyberem roi mynediad at strwythurau arweinyddiaeth cryfach a thîm uwch-arweinwyr ehangach, ni fyddai'n newid y model addysgol sy'n gweithredu yn Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn sylfaenol nac yn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n effeithio ar ei chynaliadwyedd tymor hir.

Efallai y byddai'r opsiwn yn gwella gallu'r ysgol i reoli'r heriau presennol, ond ni fyddai'n darparu ateb uniongyrchol i'r heriau hynny. O ganlyniad, byddai'r pryderon ynghylch hyfywedd, gwydnwch trefniadaethol a chynaliadwyedd yn parhau.

Daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffedereiddio yn mynd i'r afael â niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, pwysau ariannol, y diffyg presennol yn y gyllideb, neu gyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. O ganlyniad, er y gallai ffedereiddio ddarparu rhai manteision addysgol a gweithredol, ni chredir ei bod yn darparu ateb tymor hir cynaliadwy i'r materion allweddol a nodwyd yn yr ysgol ac felly mae wedi'i ddiystyru.

Opsiwn Amgen 4 – Cydweithio ag ysgolion eraill	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai cydweithio yn galluogi ysgolion i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da, a allai gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.	Ni fyddai cydweithio yn mynd i'r afael â niferoedd disgyblion yn yr ysgol sy'n isel ac yn gostwng, na'r lefelau uchel o leoedd gwag.
Gallai cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng staff wella'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.	Ni fyddai'r opsiwn yn datrys y diffyg presennol yn y gyllideb ac efallai na fyddai'n sicrhau digon o arbedion i wella cynaliadwyedd ariannol.
Byddai'r ysgol yn parhau i fod ar agor, gan gynnal mynediad lleol i addysg yn y gymuned yn y tymor byr.	Byddai'r materion sylweddol yn ymwneud â chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol yn parhau.
Byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac uchelgeisiau Cymraeg 2050.	Byddai'r trefniadau dysgu oedran cymysg yn parhau, a allai gyfyngu ar y gallu i gyflwyno ehangder llawn y Cwricwlwm i Gymru.
Mae'r trefniadau cydweithio presennol eisoes wedi darparu mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu, cyfleoedd allgyrsiol, gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau addysgol nag a fyddai'n bosibl fel arall i ysgol o'r maint hwn.	Gallai effeithiolrwydd trefniadau cydweithio amrywio ac efallai na fyddent yn arwain at welliant parhaus mewn safonau.
Mae'r ysgol eisoes yn elwa ar gydweithio drwy drefniant ffederasiwn anffurfiol ag Ysgol Llanddarog, sydd wedi galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a rennir, ymweliadau addysgol a phrofiadau dysgu ehangach. Mae'r trefniadau hyn wedi cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chyfoethogi.	Er gwaethaf y manteision sydd eisoes wedi'u cyflawni drwy drefniadau cydweithio, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn ymwneud â niferoedd disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol.

Cyfleoedd	Bygythiadau
Cyfle i adeiladu ar y trefniadau cydweithio sydd eisoes wedi'u sefydlu ag Ysgol Llanddarog drwy ddatblygu ymhellach gynllunio a rennir, dysgu proffesiynol a'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae llawer o'r manteision cydweithio eisoes yn cael eu gwireddu drwy'r trefniadau presennol.	Efallai na fyddai cydweithio yn arwain at welliant sylweddol neu fesuradwy mewn deilliannau disgyblion neu gynaliadwyedd yr ysgol.
Potensial i wella deilliannau drwy rannu arbenigedd a mynediad at rwydwaith proffesiynol ehangach.	Risg y bydd yr heriau sylfaenol o ran niferoedd isel y disgyblion a phwysau ariannol yn parhau.
Cyfle i wneud y defnydd mwyaf o'r adnoddau presennol ar draws ysgolion a gwella effeithlonrwydd.	Risg bod cydweithio yn gosod gofynion ychwanegol ar gapasiti staff ac arweinyddiaeth.
Potensial ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi ar y cyd ar draws ysgolion.	Amrywioldeb posibl o ran effeithiolrwydd a chysondeb trefniadau cydweithio.
Cyfle i gryfhau rhwydweithiau proffesiynol a chymorth gan gyfoedion rhwng y staff.	Risg bod adnoddau yn cael eu buddsoddi heb fynd i'r afael â'r materion strwythurol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Gallai cydweithio ag ysgolion eraill ddarparu cyfleoedd i gryfhau dysgu proffesiynol, rhannu arbenigedd a chynyddu mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol i ddysgwyr. Gallai staff elwa ar gyfleoedd i gydweithio i gynllunio'r cwricwlwm, asesu, cymedroli a rhannu ymarfer effeithiol, a gallai dysgwyr gael budd o gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd, ymweliadau addysgol, digwyddiadau chwaraeon, cyfleoedd cyfoethogi a phrofiadau cymdeithasol ehangach.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r manteision hyn eisoes yn cael eu gwireddu drwy drefniadau cydweithio presennol yr ysgol a'r ffederasiwn anffurfiol ag Ysgol Llanddarog. Ers mis Medi 2024, mae'r disgyblion wedi elwa ar fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, ymweliadau addysgol, profiadau dysgu a rennir a rhyngweithio cymdeithasol ehangach. Mae'r staff hefyd wedi elwa ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio, deialog broffesiynol a rhannu arbenigedd. O ganlyniad, mae llawer o'r manteision addysgol sydd fel arfer yn gysylltiedig â chydweithio eisoes wedi'u sefydlu o fewn model gweithredu presennol yr ysgol.

Er y gallai cydweithio pellach ddarparu rhai cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a dysgu proffesiynol, ni fyddai'n newid strwythur y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol yn sylfaenol. Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl blwyddyn a byddai staff yn parhau i wynebu'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu ar draws ystod eang o oedrannau, galluoedd a chamau cynnydd. Byddai cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu ochr yn ochr â charfanau mwy o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg yn parhau i fod yn gyfyngedig o'u cymharu â lleoliadau ysgol mwy o faint a mwy cynaliadwy.

Yn bwysig ddigon, ni fyddai cydweithio yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol a ysgogodd yr adolygiad. Rhagwelir y byddai nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel, y byddai'r nifer

mawr o leoedd gwag yn parhau ac y byddai'r diffyg presennol yn y gyllideb yn parhau. Byddai pryderon ynghylch addasrwydd a chyflwr adeilad yr ysgol hefyd yn parhau heb eu datrys a byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd.

Mae tystiolaeth o'r trefniadau cydweithio presennol yn arbennig o arwyddocaol. Er gwaethaf y manteision cadarnhaol sydd eisoes wedi'u gwireddu drwy gydweithio a gweithio ar ffurf ffederasiwn, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn ymwneud â nifer isel y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth a'r adeilad. Mae hyn yn awgrymu bod mwy o gydweithio ar ei ben ei hun yn annhebygol o gyflawni'r newid sydd ei angen i sicrhau hyfywedd tymor hir yr ysgol.

Ni roddodd Estyn yr ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol yn ei 2018 arolygiad, gan ddangos y gellir cynnal safonau o dan y trefniadau presennol. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn hwn yn darparu llawer o gyfle i gwella gwydnwch trefniadaethol, ehangu cyfleoedd cwricwlwm neu fynd i'r afael â'r heriau demograffig ac ariannol sy'n wynebu'r ysgol. Er y gellid parhau i gynnal safonau, prin yw'r dystiolaeth y byddai cydweithio pellach ar ei ben ei hun yn arwain at welliant sylweddol mewn deilliannau addysgol neu gynaliadwyedd hirdymor.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r ddarpariaeth addysg yn y gymuned yn y tymor byr. Fodd bynnag, gan nad yw'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion a phwysau ariannol, byddai cynaliadwyedd tymor hir y ddarpariaeth yn parhau i fod yn ansicr.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ragwelir unrhyw newidiadau sylweddol i drefniadau teithio o dan yr opsiwn hwn. Efallai y byddai rhywfaint o deithio ad-hoc i gefnogi gweithgareddau cydweithio rhwng ysgolion, ond ni ddisgwylir i hyn fod yn sylweddol.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Er y gallai cydweithio gynnig manteision o ran rhannu arbenigedd, cydweithio a chyfleoedd gwell i ddisgyblion, mae tystiolaeth o drefniadau cydweithio presennol yr ysgol yn dangos bod llawer o'r manteision hyn eisoes yn cael eu cyflawni.

Drwy'r trefniant ffederasiwn anffurfiol ag Ysgol Llanddarog, mae gan ddisgyblion fynediad at amrywiaeth ehangach o weithgareddau chwaraeon, ymweliadau addysgol a chyfleoedd cyfoethogi.

Fodd bynnag, er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol hyn, nid yw cydweithio wedi mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag, y diffyg presennol yn y gyllideb a'r materion sylweddol sy'n ymwneud â chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. Byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn a byddai'r heriau addysgol sy'n gysylltiedig â chynllunio, cynnydd a gwahaniaethu o ran y cwricwlwm yn parhau.

Byddai'r opsiwn i raddau helaeth yn ymestyn y trefniadau sydd eisoes ar waith a phrin yw'r dystiolaeth y byddai rhagor o gydweithio ar ei ben ei hun yn sicrhau gwelliant digonol i fynd i'r afael â'r materion a ysgogodd yr adolygiad. Felly, nid yw cydweithio yn cael ei ystyried yn ateb tymor hir cynaliadwy ar gyfer darparu addysg yn yr ysgol ac felly mae wedi'i ddiystyru.

Opsiwn Amgen 5 – Sefydlu ysgolion â mwy nag un safle er mwyn cadw adeiladau	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai trefniant ysgol â mwy nag un safle yn caniatáu i'r ysgol ym Mancffosfelen aros ar agor, gan gynnal darpariaeth addysg yn y gymuned leol a mynediad lleol i deuluoedd yn y tymor byr.	Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â niferoedd disgyblion ar safle Bancffosfelen sy'n isel ac yn gostwng na'r lefelau uchel o leoedd gwag, y rhagwelir y byddant yn parhau.
Gallai'r model alluogi mwy o hyblygrwydd wrth drefnu staff ar draws safleoedd, gan wella mynediad at amrywiaeth ehangach o arbenigedd a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm o bosib.	Byddai'r diffyg presennol yng nghyllideb Ysgol Bancffosfelen yn parhau, ac mae'n bosibl y byddai gweithredu ar draws sawl safle gyflwyno costau gweithredol a staffio ychwanegol.
Gallai cyfleoedd godi ar gyfer cydweithio rhwng safleoedd, gan gynnwys rhannu cynllunio, addysgu a gweithgareddau allgyrsiol, a allai wella profiadau disgyblion. Mae'r trefniant ffederasiwn anffurfiol presennol ag Ysgol Llanddarog eisoes wedi dangos manteision drwy weithgareddau chwaraeon a rennir, ymweliadau addysgol a chyfleoedd ehangach i ddisgyblion ryngweithio.	Byddai'r materion sylweddol yn ymwneud â chyflwr ac addasrwydd adeilad Ysgol Bancffosfelen yn parhau heb eu datrys, gan olygu bod angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol.
Byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnal parhad y ddarpariaeth yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac uchelgeisiau Cymraeg 2050.	Gallai rheoli'r ddarpariaeth ar draws dau safle gynyddu cymhlethdod logistaidd a gosod gofynion ychwanegol ar yr arweinwyr a staff.
Gallai model ysgol â mwy nag un safle gryfhau'r trefniadau arweinyddiaeth drwy un strwythur arweinyddiaeth ar draws y ddau safle.	Efallai y byddai disgyblion ar safle Bancffosfelen yn parhau i fod yn rhan o ddosbarthiadau oedran cymysg, a allai gyfyngu ar y gallu i gyflwyno ehangder llawn y Cwricwlwm i Gymru.
	Mae'n bosibl na fyddai gweithredu ar draws sawl safle yn rhoi gwerth am arian lle mae lefelau uchel o leoedd gwag.
	Mae llawer o'r manteision addysgol a chyfoethogi sy'n gysylltiedig â model ysgol â mwy nag un safle eisoes yn cael eu gwireddu drwy'r trefniadau cydweithio presennol, gan gyfyngu i ba raddau y byddai strwythur ysgol â mwy nag un safle yn sicrhau manteision ychwanegol.

Cyfleoedd	Bygythiadau
Cyfle i ddarparu llwybr addysgol cyson ar draws safleoedd o dan un strwythur trefniadaethol, gan gryfhau parhad a dilyniant i ddysgwyr o bosib.	Efallai na fyddai'r trefniant ysgol â mwy nag un safle yn arwain at welliant sylweddol yn nifer y disgyblion nac yn lleihau nifer y lleoedd gwag ar safle Bancffosfelen.
Potensial i rannu adnoddau a staff ar draws safleoedd i wella effeithlonrwydd a gwella'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm.	Gallai pwysau ariannol barhau neu gynyddu oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth ar draws sawl safle.
Cyfle i adeiladu ar y gwaith cydweithio presennol drwy ehangu profiadau disgyblion ymhellach drwy weithgareddau ar y cyd a darpariaeth a rennir rhwng safleoedd. Fodd bynnag, mae llawer o'r manteision hyn eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r trefniadau partneriaeth presennol.	Risg bod y capasiti arweinyddiaeth a staff dan bwysau ar draws safleoedd, gan effeithio ar effeithiolrwydd gwella ysgol o bosib.
Potensial i wneud y defnydd mwyaf o'r asedau presennol wrth gynnal darpariaeth yn y gymuned leol.	Risg nad yw buddsoddiad parhaus mewn adeilad sydd â phroblemau sylweddol o ran cyflwr ac addasrwydd yn rhoi gwerth am arian.
Cyfle i resymoli'r ddarpariaeth ar draws safleoedd dros amser, yn amodol ar y galw ac ystyriaethau o ran cynaliadwyedd.	Efallai y byddai'r heriau sylfaenol o ran cynaliadwyedd yn parhau heb eu datrys, gan arwain o bosib at yr angen am ymyrraeth bellach yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Gallai model ysgol â mwy nag un safle ddarparu rhai manteision addysgol drwy rannu arweinyddiaeth, mwy o gydweithio rhwng y staff a mynediad at amrywiaeth ehangach o arbenigedd, adnoddau a chyfleoedd dysgu. Gallai dysgwyr elwa ar fwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ar y cyd, ymweliadau addysgol, digwyddiadau chwaraeon, rhaglenni cyfoethogi a phrofiadau cymdeithasol ehangach, a gallai staff elwa ar well cydweithio proffesiynol, cynllunio'r cwricwlwm a rhannu ymarfer effeithiol.

Gallai'r model gryfhau cysylltiadau trefniadaethol rhwng ysgolion a darparu mynediad at gronfa ehangach o arbenigedd staff nag sydd ar gael mewn un lleoliad ysgol bach o bosib. Gallai cyfleoedd ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd, cymedroli a dysgu proffesiynol gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm a darparu mwy o gyfleoedd i rannu dulliau addysgu a dysgu llwyddiannus.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r manteision hyn eisoes yn cael eu gwireddu drwy'r ffederasiwn anffurfiol a'r trefniadau cydweithio presennol ag Ysgol Llanddarog. Ers mis Medi 2024, mae'r disgyblion wedi elwa o fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, ymweliadau addysgol, gweithgareddau cyfoethogi a rhyngweithio cymdeithasol ehangach. Mae'r staff hefyd wedi elwa ar gydweithio, deialog broffesiynol a threfniadau rhannu gweithio. O ganlyniad, mae llawer o'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â model ysgol â mwy nag un safle eisoes wedi'u sefydlu o fewn trefniadau gweithredu presennol yr ysgol.

Er y gallai strwythur ysgol â mwy nag un safle ffurfioli ac ymestyn y trefniadau presennol, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel ac y byddai llawer o leoedd gwag o hyd. O ganlyniad, ni fyddai'r pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor, effeithlonrwydd trefniadaethol a hyfywedd ariannol yn newid i raddau helaeth. Byddai'r ysgol yn parhau i wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth ar gyfer nifer gymharol fach o ddysgwyr er gwaethaf capasiti sylweddol yn yr ystad ysgolion.

Yn bwysig ddigon, ni fyddai'r opsiwn yn newid strwythur sylfaenol y ddarpariaeth addysgol ar safle Bancffosfelen. Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl blwyddyn a byddai staff yn parhau i wynebu'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu ar draws ystod eang o oedrannau, lefelau cyrhaeddiad a chamau cynnydd. Byddai cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu ochr yn ochr â charfanau mwy o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg yn parhau i fod yn gyfyngedig o'u cymharu â lleoliadau ysgol mwy o faint a mwy cynaliadwy.

Er y gallai model ysgol â mwy nag un safle weithredu o dan un strwythur arweinyddiaeth, gallai hefyd gyflwyno cymhlethdod trefniadaethol a gweithredol ychwanegol. Byddai angen dosbarthu amser arweinyddiaeth, adnoddau staffio a gwasanaethau cymorth ar draws sawl safle, gan leihau effeithlonrwydd a rhoi gofynion ychwanegol ar arweinwyr a staff. Gallai sicrhau cysondeb mewn addysgu, dysgu, cyflwyno'r cwricwlwm, darpariaeth llesiant, cyfathrebu a threfniadau sicrhau ansawdd ar draws safleoedd beri heriau ychwanegol.

Hefyd, ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch addasrwydd a chyflwr adeilad ysgol Bancffosfelen. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd i wella a chynnal a chadw'r adeilad. Byddai cadw a gweithredu sawl safle yn lleihau'r cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r adnoddau a pheidio â rhoi gwerth am arian o bosib o ystyried y lefelau parhaus o leoedd gwag ar draws y ddarpariaeth.

Hefyd, byddai'r opsiwn yn gyfyngedig o ran gallu i wella cynaliadwyedd ariannol. Byddai'r diffyg presennol yn y gyllideb, y gost uchel fesul disgybl a chostau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu sawl safle yn parhau. Gallai costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â threfnu staff, goruchwylio arweinyddiaeth, cynnal a chadw, cyfleustodau a rheoli gweithredol ar draws sawl lleoliad leihau ymhellach yr arbedion effeithlonrwydd ariannol sy'n gysylltiedig fel arfer ag ad-drefnu ysgolion.

Nid oedd arolygiad 2018 Estyn o'r ysgol yn ei rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol, gan ddangos y gellir cynnal safonau o dan y trefniadau presennol. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth y byddai strwythur ysgol â mwy nag un safle yn sicrhau gwelliannau sylweddol mewn deilliannau addysgol, gwydnwch trefniadaethol neu gynaliadwyedd tymor hir y tu hwnt i'r manteision sydd eisoes wedi'u cyflawni drwy'r trefniadau cydweithio presennol.

Yn gyffredinol, er y gallai model ysgol â mwy nag un safle gryfhau cydweithio a darparu rhai cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr a staff, mae llawer o'r manteision hyn eisoes yn cael eu gwireddu drwy'r trefniadau presennol. Ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n ymwneud â niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag,

cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth, addasrwydd adeilad neu hyfywedd tymor hir.

Hefyd, gallai gweithredu ar draws sawl safle gyflwyno cymhlethdodau trefniadaethol, staffio ac arweinyddiaeth ychwanegol wrth leihau cyfleoedd i wireddu manteision llawn model addysgol mwy cynaliadwy.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r ddarpariaeth addysg yn y gymuned drwy gynnal y defnydd o safle Bancffosfelen. Fodd bynnag, gan nad yw'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion a phwysau ariannol, byddai cynaliadwyedd tymor hir y ddarpariaeth hon yn parhau i fod yn ansicr.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ragwelir unrhyw newidiadau sylweddol i drefniadau teithio o dan yr opsiwn hwn. Efallai y bydd angen rhywfaint o deithio ychwanegol rhwng safleoedd ar gyfer staff neu weithgareddau ar y cyd, ond ni ddisgwylir y bydd hyn yn sylweddol.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Er y gallai model ysgol â mwy nag un safle gynnig rhai manteision o ran rhannu arweinyddiaeth, adnoddau a chydweithio, mae tystiolaeth o'r trefniant ffederasiwn anffurfiol presennol yn dangos bod llawer o'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â gweithio'n agosach rhwng ysgolion eisoes yn cael eu gwireddu.

Ers mis Medi 2024, mae'r disgyblion wedi elwa ar weithgareddau chwaraeon ar y cyd, ymweliadau addysgol a chyfleoedd ehangach ar gyfer cydweithio cymdeithasol a chyfoethogi. Fodd bynnag, er gwaethaf y manteision hyn, mae'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn parhau. Ni fyddai model ysgol â mwy nag un safle yn mynd i'r afael â niferoedd isel y disgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag, y diffyg presennol yn y gyllideb, na'r materion sylweddol sy'n ymwneud â chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. Byddai trefniadau addysgu oedran cymysg a heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cwricwlwm hefyd yn parhau.

Gallai gweithredu ar draws sawl safle gynyddu cymhlethdod mewn perthynas ag arweinyddiaeth, trefnu staffio, cyflwyno'r cwricwlwm, sicrhau ansawdd, diogelu a gwella'r ysgol. Byddai angen dosbarthu capasiti arweinyddiaeth a staff ar draws sawl lleoliad, gan leihau effeithlonrwydd a chyfyngu ar gyfleoedd i gryfhau gwydnwch trefniadaethol o bosib.

Byddai cadw sawl safle yn lleihau cyfleoedd i sicrhau gwerth am arian a gallai arwain at fuddsoddiad parhaus mewn adeilad nad yw'n mynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd sylfaenol yr ysgol. Byddai'r opsiwn yn ffurfioli'r trefniadau a'r manteision sydd eisoes ar waith i raddau helaeth, a phrin yw'r dystiolaeth y byddai strwythur ysgol â mwy nag un safle yn sicrhau digon o fanteision addysgol ychwanegol i gyfiawnhau'r cymhlethdod a'r costau cysylltiedig.

O ganlyniad, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn ateb tymor hir cynaliadwy ac felly mae wedi'i ddiystyru.

Opsiwn Amgen 6 - Clystyru Ysgol Gynradd Bancffosfelen ag ysgolion lleol eraill	
Cryfderau	**Gwendidau**
Gallai clystyru wella ymhellach y trefniadau rhannu arweinyddiaeth, staff ac adnoddau ar draws ysgolion, gan adeiladu ar y trefniadau cydweithio presennol a chefnogi gwell effeithlonrwydd heb yr angen am gau'r ysgol ar unwaith.	Nid yw clystyru yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol, sef niferoedd isel y disgyblion a lefelau uchel o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Bancffosfelen.
Mae'r ysgol eisoes yn elwa ar drefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, sy'n dangos y gellir gwireddu rhai o'r manteision sy'n gysylltiedig â chlystyru, gan gynnwys rhannu arweinyddiaeth a chydweithio, yn ymarferol. Gallai trefniadau clystyru pellach adeiladu ar y perthnasoedd presennol hyn.	Gallai hyfywedd yr ysgol barhau i fod mewn perygl yn y tymor hwy os bydd nifer y disgyblion yn parhau i ostwng.
Potensial i ehangu'r cwricwlwm a ddarperir a chyfleoedd allgyrsiol drwy gydweithio rhwng ysgolion.	Nid yw'n datrys pryderon ynghylch cyflwr ac addasrwydd adeilad presennol yr ysgol.
Gallai alluogi disgyblion i aros yn eu cymuned leol wrth elwa ar fwy o gydweithio a darpariaeth a rennir.	Gall manteision clystyru fod yn amrywiol a dibynnu ar effeithiolrwydd y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu.
Gallai clystyru ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio a phrofiadau dysgu a rennir i ddisgyblion.	Gallai galw cynyddol ar gapasiti arweinyddiaeth effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth os nad yw'n cael ei reoli'n effeithiol.
Byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal, gan gefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod.	Efallai y byddai pwysau ariannol yn parhau, gan gynnwys diffygion cyllidebol presennol neu rai a ragwelir.
Gallai ddarparu dull gweithredu trosiannol, gan ganiatáu amser i edrych ar atebion cynaliadwy tymor hwy.	Er gwaethaf y trefniadau cydweithio a rhannu pennaeth presennol, mae'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, pwysau ariannol a phroblemau yn ymwneud â chyflwr yr adeilad, yn parhau heb eu datrys.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfle i ddatblygu modelau cydweithio arloesol, gan gynnwys rhannu staff, cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd a rhannu adnoddau.	Risg nad yw clystyru yn darparu ateb tymor hir cynaliadwy, yn enwedig lle mae nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel.
Y potensial i gryfhau cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff drwy gydweithio ar draws ysgolion.	Risg y byddai'r capasiti arweinyddiaeth dan bwysau, yn enwedig gan fod yr ysgol eisoes yn gweithredu o dan drefniant rhannu pennaeth ag Ysgol Gynradd

	Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Gall trefniadau clystyru pellach gynyddu'r galwadau ar arweinyddiaeth heb fynd i'r afael â'r materion hyfywedd sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.
Cyfle i gadw darpariaeth addysg yn y gymuned wrth edrych ar atebion tymor hwy.	Potensial ar gyfer anghysondebau mewn darpariaeth a safonau ar draws ysgolion sydd wedi'u clystyru.
Potensial i ffurfioli ac ehangu'r perthnasoedd cydweithio presennol ag ysgolion cyfagos, gan adeiladu ar y trefniadau sydd eisoes wedi'u sefydlu drwy'r model rhannu pennaeth presennol.	Risg bod y pwysau ariannol yn parhau neu'n cynyddu, gan gyfyngu ar effeithiolrwydd y trefniant.
Cyfle i gyd-fynd â strategaethau gwella ysgolion ehangach a hyrwyddo arferion cydweithio.	Heriau parhaus wrth gyflwyno'r Cwricwlwm llawn i Gymru mewn lleoliad ysgol bach iawn.
	Risg y gallai oedi atebion mwy cynaliadwy arwain at ansicrwydd hir i ddisgyblion, staff a'r gymuned.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Gallai clystyru Ysgol Gynradd Bancffosfelen ag ysgolion lleol eraill ddarparu cyfleoedd i gryfhau cydweithio, dysgu proffesiynol a rhannu arbenigedd. Gallai staff elwa ar fwy o gyfleoedd ar gyfer cynllunio cwricwlwm ar y cyd, cymedroli, deialog broffesiynol a rhannu ymarfer effeithiol. Gallai dysgwyr elwa ar gael mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol, gan gynnwys gweithgareddau dysgu ar y cyd, ymweliadau addysgol, digwyddiadau chwaraeon, cyfleoedd cyfoethogi a phrofiadau cymdeithasol ehangach.
Gallai clystyru hefyd ddarparu cyfleoedd i gryfhau cydweithio mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru drwy gynllunio ar y cyd, datblygu'r cwricwlwm a gweithgareddau dysgu proffesiynol.

Gallai'r opsiwn roi mynediad at rwydwaith ehangach o arbenigedd addysgol a chryfhau agweddau ar arweinyddiaeth, addysgu a dysgu o bosib drwy fwy o gydweithio rhwng ysgolion. Efallai y byddai staff yn cael mwy o gyfleoedd i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr o ysgolion eraill, gan gefnogi gwaith datblygu'r cwricwlwm, arferion asesu a gweithgareddau gwella'r ysgol. Gallai dysgwyr hefyd elwa ar gyfleoedd ehangach ar gyfer dysgu ar y cyd, rhyngweithio cymdeithasol a chymryd rhan mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r rhai sydd ar gael fel arfer mewn ysgol fach iawn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r manteision hyn eisoes yn cael eu gwireddu drwy ffederasiwn anffurfiol presennol yr ysgol a'r trefniadau rhannu pennaeth ag Ysgol Llanddarog. Ers mis Medi 2024, mae disgyblion wedi elwa ar weithgareddau chwaraeon ar y cyd, ymweliadau addysgol, cyfleoedd dysgu ar y cyd a mwy o ryngweithio cymdeithasol.

Mae staff eisoes yn cymryd rhan mewn cydweithio a deialog broffesiynol, ac mae capasiti arweinyddiaeth yn cael ei rannu ar draws yr ysgolion. O ganlyniad, mae llawer o'r manteision addysgol sydd fel arfer yn gysylltiedig â chlystyru eisoes wedi'u sefydlu o fewn trefniadau presennol yr ysgol.

Er y gallai trefniadau clystyru ychwanegol ehangu'r cyfleoedd hyn, ni fyddent yn newid strwythur y ddarpariaeth addysgol yn Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn sylfaenol. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel ac y byddai llawer o leoedd gwag o hyd. O ganlyniad, byddai'r ysgol yn parhau i wynebu llawer o'r heriau addysgol, trefniadaethol ac ariannol sy'n gysylltiedig â gweithredu ysgol fach iawn. Ni fyddai'r pryderon ynghylch hyfywedd a chynaliadwyedd tymor hir felly yn newid i raddau helaeth.

Yn bwysig ddigon, ni fyddai clystyru yn newid strwythur dosbarthiadau presennol yr ysgol. Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl blwyddyn a byddai staff yn parhau i wynebu'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu ar draws ystod eang o oedrannau, lefelau cyrhaeddiad a chamau cynnydd.

Byddai cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu ochr yn ochr â charfanau mwy o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg yn parhau i fod yn gyfyngedig o'u cymharu â lleoliadau ysgol mwy o faint a mwy cynaliadwy. Byddai hyn yn parhau i beri heriau mewn perthynas â chyflwyno'r cwricwlwm, cynnydd, dysgu gan gyfoedion a datblygiad cymdeithasol.

Hefyd prin fyddai'r effaith y byddai'r opsiwn hwn yn ei chael ar gapasiti arweinyddiaeth a gwydnwch trefniadaethol. Er y gallai clystyru ddarparu mynediad at rwydweithiau proffesiynol ehangach ac arbenigedd a rennir, byddai cyfrifoldebau arwain yn parhau i gael eu dosbarthu ar draws sawl ysgol. Mae risg y gallai trefniadau clystyru pellach gynyddu'r galwadau ar gapasiti staff ac arweinyddiaeth heb fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd yr ysgol. Felly byddai'r manteision addysgol sy'n cael eu sicrhau yn dibynnu'n fawr ar effeithiolrwydd trefniadau arweinyddiaeth, strwythurau llywodraethu ac ymrwymiad parhaus yr ysgolion partner.
Hefyd, ni fyddai clystyru yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch addasrwydd a chyflwr adeilad yr ysgol. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd i wella a chynnal a chadw'r adeilad a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas ar gyfer defnydd addysgol. Hefyd bach fyddai'r effaith ar sefyllfa ariannol yr ysgol, ac mae'r diffyg presennol yn y gyllideb, y gost uchel fesul disgybl a'r heriau cynaliadwyedd ehangach yn debygol o barhau.

Mae tystiolaeth o drefniadau presennol yr ysgol yn arbennig o berthnasol. Er gwaethaf y manteision cadarnhaol sydd eisoes wedi'u gwireddu drwy gydweithio, rhannu arweinyddiaeth a threfniadau ar ffurf ffederasiwn, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn ymwneud â nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth a'r adeilad. Mae hyn yn dangos bod clystyru pellach ar ei ben ei hun yn annhebygol o gyflawni maint y newid sydd ei angen i sicrhau dyfodol tymor hir yr ysgol.

Nid oedd arolygiad 2018 Estyn o'r ysgol yn ei rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol, gan ddangos y gellir cynnal safonau o dan y trefniadau presennol. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth y byddai clystyru ar ei ben ei hun yn sicrhau gwelliannau sylweddol mewn deilliannau addysgol, gwydnwch trefniadaethol neu gynaliadwyedd tymor hir y tu hwnt i'r manteision sydd eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r trefniadau cydweithio presennol.

Yn gyffredinol, gallai clystyru gryfhau cydweithio proffesiynol, darparu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr a chefnogi'r gwaith o rannu arbenigedd rhwng ysgolion. Fodd bynnag, mae llawer o'r manteision hyn eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r trefniadau presennol. Er y gellid parhau i gynnal safonau addysgol a gwella agweddau ar y ddarpariaeth, ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n ymwneud â niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth, addasrwydd yr adeilad neu hyfywedd tymor hir.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai clystyru yn caniatáu i'r ysgol aros ar agor, gan ei chadw fel canolbwynt i'r gymuned leol a chadw ei rôl o ran cefnogi cydlyniant cymunedol a hunaniaeth leol.

Byddai hefyd yn caniatáu parhau i ddefnyddio'r adeilad at ddibenion cymunedol a gwasanaethau lleol, gan gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar lle bo'n berthnasol. Fodd bynnag, os nad yw clystyru yn darparu ateb tymor hir cynaliadwy, efallai y byddai ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol yr ysgol, a allai effeithio ar ymgysylltu a hyder cymunedol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio (cludiant)

Ni fyddai clystyru yn newid trefniadau teithio yn sylweddol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan y byddent yn parhau i fynychu eu hysgol leol. Fodd bynnag, efallai y byddai angen rhywfaint o deithio ychwanegol ar gyfer gweithgareddau a rennir, trefniadau addysgu ar y cyd neu i staff symud rhwng yr ysgolion. Yn gyffredinol, prin fyddai'r effaith ar drefniadau teithio disgyblion o gymharu ag opsiynau cau. Byddai angen rheoli unrhyw deithio sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cydweithio er mwyn lleihau tarfu.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Er bod clystyru yn cynnig cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio, rhannu arweinyddiaeth a gwneud y mwyaf o'r adnoddau, nid yw'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Bancffosfelen.

Nododd yr Awdurdod Lleol hefyd fod llawer o'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â chlystyru eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r trefniant rhannu pennaeth presennol gydag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog. Er bod y trefniant hwn wedi cefnogi capasiti arweinyddiaeth a chydweithio, nid yw wedi mynd i'r afael â materion niferoedd isel y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol na chyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgol.

Yn benodol, ni fyddai clystyru yn datrys y problemau sy'n ymwneud â niferoedd isel o ddisgyblion, lefelau uchel o gapasiti dros ben na'r pryderon sy'n ymwneud â chyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol heb fuddsoddiad sylweddol. Byddai'r ffactorau hyn yn parhau i effeithio ar gynaliadwyedd tymor hir yr ysgol a'i gallu i ddarparu addysg o ansawdd uchel. Byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn. Mae hyn yn golygu y byddai'r heriau addysgol a threfniadaethol sy'n gysylltiedig â chyflwyno, cynnydd a gwahaniaethu o ran y cwricwlwm yn parhau.

Hefyd, mae llwyddiant trefniadau clystyru yn dibynnu'n fawr ar gapasiti arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu effeithiol a gallai roi pwysau ychwanegol ar staff a thimau arwain. Prin yw'r dystiolaeth hefyd bod clystyru ar ei ben ei hun yn darparu ateb tymor hir cynaliadwy i ysgolion bach iawn. Byddai'r opsiwn yn ymestyn trefniadau sydd eisoes ar waith i raddau helaeth a phrin yw'r dystiolaeth y byddai cydweithio pellach ar ei ben ei hun yn sicrhau gwelliant digonol i fynd i'r afael â'r materion a ysgogodd yr adolygiad.

Er y byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r ddarpariaeth yn y gymuned, credir na fyddai'n darparu lefel sylweddol o welliant mewn deilliannau addysgol, gwelliant yn yr amgylchedd dysgu nac yn gwella cynaliadwyedd tymor hir yr ysgol. Am y rhesymau hyn, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru.

Opsiwn Amgen 7- Mwy o Ddefnydd Cymunedol o'r Safle / Cydleoli gwasanaethau	
Cryfderau	**Gwendidau**
Cadw adeilad yr ysgol fel ased cymunedol ym mhentref Bancffosfelen.	Nid yw'n mynd i'r afael â'r niferoedd disgyblion yn yr ysgol sy'n isel ac yn gostwng.
Gallai ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau cymunedol, cyfarfodydd a digwyddiadau lleol.	Nid yw'n mynd i'r afael â'r lefel uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.
Gallai gryfhau cydlyniant cymunedol a chynnal cyfleuster cyhoeddus amlwg yn y pentref.	Nid yw'n datrys y diffyg yng nghyllideb yr ysgol nac yn gwella cynaliadwyedd ariannol tymor hir.
Gallai ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol.	Byddai materion sylweddol o ran cyflwr ac addasrwydd yr adeilad yn parhau ac yn golygu bod angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol.
Gallai helpu o ran parhad gwasanaethau fel gofal plant, dysgu cymunedol neu weithgareddau hamdden neu eu hehangu.	Byddai mwy o ddefnydd cymunedol yn creu cyfrifoldebau gweithredol, cynnal a chadw a rheoli ychwanegol.
Cadw cyfleuster y gellir ei werthfawrogi gan drigolion lleol.	Mae gan adeilad yr ysgol Gyflwr Gradd C ac Addasrwydd Gradd D a byddai angen buddsoddiad sylweddol waeth beth fo'r lefel o ddefnydd cymunedol.
Potensial i wella mynediad cymunedol i gyfleusterau y tu allan i oriau ysgol.	Ni fyddai mwy o ddefnydd cymunedol yn mynd i'r afael â heriau addysgol sy'n gysylltiedig â charfanau bach a threfniadau addysgu oedran cymysg.
Cadw darpariaeth y Cylch Meithrin sydd eisoes yn gweithredu o'r safle.	Gallai darparu cyfleusterau cymunedol ychwanegol yn yr ysgol ddyblygu cyfleusterau sydd eisoes ar gael yn yr ardal leol, gan gynnwys neuaddau cymunedol a lleoliadau sefydledig eraill.
	Gallai'r galw am ddefnydd cymunedol fod yn annigonol lle mae cyfleusterau eraill eisoes yn bodoli ac ar gael i grwpiau lleol.
	Gallai mwy o ddefnydd cymunedol o'r ysgol leihau'r defnydd o leoliadau

	cymunedol presennol, gan effeithio ar eu hyfywedd hirdymor o bosib.
	Byddai angen ystyried unrhyw fuddsoddiad sy'n ofynnol i hwyluso defnydd cymunedol yn erbyn y cyfleusterau cymunedol eraill sydd ar gael gerllaw.
	Mae cynllun yr adeilad a defnydd yr adeilad yn golygu nad oes lle ychwanegol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar y safle. Mae'r cae chwaraeon presennol ar dipyn o lethr ac nid oes modd defnyddio'r cyrtiau pêl-rwyd a bydd angen buddsoddiad arnynt i sicrhau eu bod yn cyrraedd safon dderbyniol.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Datblygu'r safle fel canolfan gymunedol ehangach sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau i drigolion lleol.	Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd i wneud yr adeilad yn addas ar gyfer defnydd tymor hir.
Creu cysylltiadau cryfach rhwng yr ysgol, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol.	Gallai rhwymedigaethau cynnal a chadw parhaus barhau i gynyddu.
Cefnogi llesiant cymunedol drwy ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol.	Efallai na fyddai defnydd cymunedol ychwanegol yn creu digon o incwm i wrthbwyso costau gweithredu a chynnal a chadw.
Archwilio cyfleoedd cyllid allanol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau cymunedol.	Gallai dirywiad yr adeilad gyfyngu ar ddefnydd yn y dyfodol a chynyddu risgiau iechyd a diogelwch.
Darparu lleoliad ar gyfer digwyddiadau lleol, dysgu oedolion a gweithgareddau hamdden.	Gallai'r galw am gyfleusterau cymunedol ychwanegol fod yn annigonol i gyfiawnhau buddsoddiad parhaus.
Cefnogi amcanion Ysgolion Bro lle bo hynny'n briodol.	Gallai cyfleusterau cymunedol presennol yn yr ardal ehangach leihau'r angen am ddarpariaeth ychwanegol ar y safle.
	Efallai y byddai neuaddau a chyfleusterau cymunedol presennol yn cael llai o archebion pe bai gweithgareddau yn cael eu trosglwyddo i safle'r ysgol.
	Gallai llai o ddefnydd o gyfleusterau cymunedol sefydledig gael effaith andwyol ar gynaliadwyedd ariannol y cyfleusterau hynny a'r grwpiau sy'n gyfrifol am eu rheoli.
	Gallai adnoddau cymunedol fod yn ddarniog ar draws sawl lleoliad yn hytrach na'u canoli yn y cyfleusterau presennol.
	Gallai buddsoddiad cyhoeddus mewn addasu adeilad yr ysgol roi diffyg gwerth am arian lle mae cyfleusterau cymunedol addas eisoes ar gael yn yr ardal.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Gallai mwy o ddefnydd cymunedol o safle'r ysgol ddarparu rhai manteision anuniongyrchol drwy fwy o ymgysylltu rhwng yr ysgol, rhieni, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol. Gallai partneriaethau ychwanegol greu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, mentrau dysgu cymunedol a phrofiadau allgyrsiol ehangach a allai gyfrannu mewn modd cadarnhaol at lesiant disgyblion, ymgysylltu cymunedol ac ymdeimlad o berthyn. Gallai'r dull hefyd gefnogi egwyddorion Ysgolion Bro a chryfhau rôl yr ysgol fel ased cymunedol.

Fodd bynnag, er y gallai mwy o ddefnydd cymunedol ddarparu manteision cymunedol a chymdeithasol, byddai'n cael effaith uniongyrchol gyfyngedig iawn ar ansawdd yr addysg a ddarperir i ddisgyblion. Ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r heriau addysgol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd isel o ddisgyblion, llawer o leoedd gwag, capasiti staffio cyfyngedig, trefniadau addysgu oedran cymysg a phryderon ynghylch cynaliadwyedd tymor hir y ddarpariaeth. O ganlyniad, ni fyddai'r profiad addysgol sydd ar gael i ddysgwyr yn newid fawr ddim.

Byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn amgylchedd ysgol bach iawn a phrin o hyd fyddai cyfleoedd i ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau cyfoedion mwy o oedran a chyfnod datblygiad tebyg. Byddai staff yn parhau i wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â chynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu ar draws sawl grŵp blwyddyn a chamau cynnydd yn yr un ystafell ddosbarth. O ganlyniad, byddai llawer o'r heriau addysgol sy'n gysylltiedig â gweithredu ysgol fach iawn yn parhau.

Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cael ychydig iawn o effaith ar wella ysgolion ac ar wydnwch sefydliadol. Er y gallai partneriaethau cymunedol ddarparu cyfleoedd a chymorth ychwanegol, ni fyddent yn gwella gallu'r ysgol i ymateb i heriau addysgol tymor hir.

Yn bwysig ddigon, ni fyddai mwy o ddefnydd cymunedol yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gweithredu o adeilad Cyflwr Gradd C ac Addasrwydd Gradd D. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd i gynnal a gwella'r adeilad waeth beth fo'r defnydd cymunedol sy'n cael ei wneud. Gallai defnydd cymunedol ychwanegol hefyd gynyddu gofynion gweithredol, rheoli, diogelu a chynnal a chadw, gan greu pwysau pellach ar safle sydd eisoes wedi'i gyfyngu.

Nid oedd arolygiad 2018 Estyn yr ysgol yn ei rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol, gan ddangos y gellir cynnal safonau o dan y trefniadau presennol. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth y byddai mwy o ddefnydd cymunedol yn arwain at welliannau sylweddol mewn safonau addysgol, deilliannau dysgwyr, capasiti arweinyddiaeth, gwydnwch trefniadaethol neu gynaliadwyedd hirdymor. Felly ni fyddai'r opsiwn yn cael fawr o effaith ar y ffactorau addysgol allweddol a ysgogodd yr adolygiad.

Yn gyffredinol, er y gall mwy o ddefnydd cymunedol o'r safle ddarparu manteision cymunedol, cymdeithasol a llesiant a helpu i gadw'r adeilad ysgol fel ased lleol, mae'n ateb defnydd cymunedol yn bennaf yn hytrach nag yn ateb addysgol. Ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n ymwneud â niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, addasrwydd adeilad neu hyfywedd tymor hir.

O ganlyniad, er y gellid parhau i gynnal safonau addysgol, prin yw'r dystiolaeth y byddai'r opsiwn yn gwella deilliannau addysgol neu'n sicrhau dyfodol tymor hir yr ysgol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol drwy gadw'r adeilad ysgol fel ased cymunedol a darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol ym mhentref Bancffosfelen. Gallai mwy o ddefnydd cymunedol ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau, gwasanaethau ac ymgysylltu cymunedol, ond ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau addysgol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.

Rhaid ystyried hefyd y cyfleusterau cymunedol eraill sydd ar gael yn yr ardal fel Neuadd Gyhoeddus Bancffosfelen a Chrwbin a Neuadd Goffa Pontyberem.

Gallai darparu cyfleusterau cymunedol ychwanegol yn yr ysgol ddyblygu'r ddarpariaeth bresennol a gallai leihau'r defnydd a wneir o leoliadau cymunedol sefydledig. Felly, byddai angen cydbwyso unrhyw fanteision sy'n deillio o fwy o ddefnydd cymunedol o'r ysgol â'r effaith bosibl ar gynaliadwyedd a hyfywedd y cyfleusterau cymunedol presennol hyn.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio (cludiant)

Ni ragwelir y byddai unrhyw newidiadau sylweddol i drefniadau teithio gan y byddai'r ddarpariaeth addysgol yn aros ar y safle presennol. Gallai unrhyw weithgareddau cymunedol ychwanegol arwain at gynnydd cymharol fach mewn traffig ymwelwyr y tu allan i oriau ysgol arferol, a chan mai dim ond nifer fach o leoedd parcio sydd ar gael ar y safle gallai fod effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a allai effeithio ar drefniadau trafnidiaeth leol.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Er y gallai mwy o ddefnydd cymunedol o adeilad yr ysgol ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol, daeth yr Awdurdod Lleol i'r casgliad na fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Bancffosfelen.

Byddai niferoedd isel y disgyblion, llawer o leoedd gwag, y diffyg yng nghyllideb yr ysgol a chyflwr gwael ac addasrwydd adeiladau'r ysgol yn parhau. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o hyd i gynnal a gwella'r safle waeth beth fo'r defnydd cymunedol sy'n cael ei wneud.

Ystyriodd yr Awdurdod Lleol oblygiadau ymarferol darparu gwasanaethau ychwanegol ar y safle hefyd. Mae'r adeiladau'n cael eu defnyddio at ddibenion ysgol sy'n golygu nad oes lle ychwanegol yn yr adeilad i ddarparu gwasanaethau ychwanegol a defnydd cymunedol, yn enwedig pan fydd yr ysgol ar agor. Mae'r Cylch Meithrin eisoes yn gweithredu o'r ysgol ac mae'r ystafelloedd sy'n weddill yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd dosbarth neu ar gyfer y gwasanaeth cinio.

Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol nifer fach o leoedd parcio ac nid oes digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y staff, y defnyddwyr gwasanaeth a'r ymwelwyr ychwanegol a allai fod

yn gysylltiedig â chydleoli gwasanaethau eraill. Gallai hyn greu anawsterau gweithredol, rhoi pwysau ychwanegol ar drefniadau parcio lleol ac effeithio ar weithrediad diogel y safle o bosib.

Mae problemau mynediad o ran grisiau i'r fynedfa a thrwy'r adeilad, mae'r caeau ar oleddf ac mae'n annhebygol y bydd eu hangen ar dimau chwaraeon lleol ar gyfer gemau, mae diffyg cyfleusterau hygyrch i bobl anabl ac ar hyn o bryd nid oes lle yn yr adeilad i ddarparu gwasanaethau ychwanegol heb darfu ar yr ysgol.

Ystyriwyd hefyd y galw tebygol am gydleoli gwasanaethau yn yr ardal. Mae'r Cylch Meithrin eisoes yn gweithredu ar y safle ac mae'r cyfleoedd cydleoli ychwanegol yn gyfyngedig oherwydd maint, cynllun a hygyrchedd yr adeilad.

Hefyd, mae cyfleusterau cymunedol presennol eisoes ar gael yn yr ardal, gan gynnwys Neuadd Bancffosfelen, Neuadd Crwbin a Neuadd Goffa Pontyberem, sy'n golygu y gallai datblygu cyfleusterau cymunedol ychwanegol yn yr ysgol arwain at ddyblygu'r ddarpariaeth ac effeithio ar hyfywedd y lleoliadau sefydledig hyn o bosib.

O ganlyniad, er y gall mwy o ddefnydd cymunedol a chydleoli gwasanaethau gynnig rhai manteision cymunedol, ni fyddai'n darparu ateb cynaliadwy na chost-effeithiol i'r heriau addysgol, ariannol ac eiddo sy'n wynebu'r ysgol ac felly mae'n cael ei ddiystyru fel opsiwn a ffefrir.

Opsiwn Amgen 8- Cau Ysgol Gynradd Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion i'w hysgol agosaf	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai disgyblion yn cael budd o adeiladau gwell o gymharu â'r adeilad ysgol presennol, gan fod gan yr ysgolion sy'n derbyn yn gyffredinol gyfleusterau sydd mewn cyflwr gwell ac sy'n fwy addas.	Colli ased cymunedol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod yr ysgol yn cau, gallai hyn gael effaith ar wasanaethau lleol, yn enwedig y Cylch Meithrin.
Nid yw'r rhan fwyaf o'r ysgolion sy'n derbyn yng nghategorïau gweithgarwch dilynol Estyn, sy'n dangos y byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo i ddarpariaeth sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf, gyda chyfleoedd ar gyfer gwell mynediad at gwricwlwm ehangach, gweithgareddau allgyrsiol a grwpiau cyfoedion mwy.	Mae safonau'r ysgolion sy'n derbyn yn amrywio, ac mae un ysgol mewn categori mesurau arbennig ar hyn o bryd, a allai fod yn risg yn dibynnu ar ddewis y rhieni.
Byddai disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol sy'n derbyn, gan sicrhau parhad y ddarpariaeth iaith yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod.	Tarfu ar staff a'r posibilrwydd o ddileu swyddi.
Mae'n bosibl y byddai disgyblion yn cael budd o fynychu ysgol fwy â charfan o	Tarfu a chyfnod ansefydlog i ddisgyblion a'u teuluoedd.

ddisgyblion o oedran tebyg, yn dibynnu ar ba ysgol y maent yn ei mynychu.	
Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion sydd, gyda'i gilydd, â llawer o leoedd gwag; mae dros 200 o leoedd gwag ar gael ar draws y pum ysgol agosaf o gymharu â 48 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Bancffosfelen. Mae hyn yn dangos bod digon o gapasiti yn yr ardal leol i ddarparu ar gyfer disgyblion.	Gallai pellteroedd teithio gynyddu, gan gael effaith negyddol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol o bosib. Byddai'r teithiau'n amrywio o oddeutu 1.3 i 4.7 milltir yn dibynnu ar leoliadau'r ysgol sy'n derbyn a chartrefi'r disgyblion.
Byddai problemau'r diffyg yng nghyllideb Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn cael eu datrys.	Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu cludiant i'r disgyblion yr effeithir arnynt a fydd yn cynyddu costau cludiant.
Byddai'r arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol cyffredinol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu. Byddai cyllid nifer y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd gyda'r disgybl a thrwy hynny wella cyllideb yr ysgol honno.	Cau'r ysgol a cholli darpariaeth addysg yn y gymuned.
	Mae'n bosibl y byddai'r garfan o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn cael ei rhannu pe bai'r disgyblion yn mynychu ysgolion eraill.
	Byddai cau Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog i ben, gan arwain at golli trefniadau rhannu arweinyddiaeth sefydledig a chydweithio rhwng yr ysgolion.
	Byddai'r cynnig yn golygu goblygiadau ariannol i Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, na fyddai'n derbyn y tâl atodol o ran cyllid ffederasiwn sy'n gysylltiedig â'r trefniant presennol mwyach a byddai angen iddi adolygu ei strwythur arweinyddiaeth yn y dyfodol a'i threfniadau cyllido cysylltiedig.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfle i wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd cyffredinol y ddarpariaeth addysg yn yr awdurdod lleol drwy leihau lleoedd gwag ar draws yr ardal a defnyddio lleoedd ysgol presennol yn well.	Risg o wrthwynebiad cryf gan rieni a rhanddeiliaid i'r cynnig.

Potensial i ryddhau adnoddau cyfalaf drwy werthu safle presennol yr ysgol. Gellid ailfuddsoddi'r arian hwn i gefnogi gwelliannau i'r ystad ysgolion ehangach.	Risg o wrthwynebiad cryf gan y gymuned i'r cynigion.
Potensial i gryfhau hyfywedd yr ysgolion sy'n derbyn drwy gynyddu nifer y disgyblion, cefnogi cynaliadwyedd ariannol tymor hir a gwneud defnydd mwy effeithiol o staff ac adnoddau.	Mae dewis y rhieni yn golygu bod dosbarthiad disgyblion ar draws yr ysgolion sy'n derbyn yn ansicr, a allai arwain at effeithiau anwastad ar gapasiti ysgolion.
Cyfle i ddisgyblion allu mynychu ysgolion sy'n cynnig cwricwlwm ehangach, grwpiau cyfoedion mwy ac amrywiaeth ehangach o weithgareddau allgyrsiol, gan wella profiadau addysgol a chymdeithasol.	Gallai pellteroedd teithio hirach effeithio ar lesiant, presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion os nad yw hyn yn cael ei reoli'n effeithiol.
Cyfle i wella ansawdd yr amgylchedd dysgu i ddisgyblion drwy gael mynediad i adeiladau ysgol sydd mewn cyflwr gwell ac yn fwy addas yn gyffredinol.	Risg na fydd trefniadau pontio yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, yn enwedig i ddysgwyr sy'n agored i niwed.
Cyfle i gefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod drwy atgyfnerthu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau ysgol cynaliadwy.	Gallai dod â'r trefniant rhannu pennaeth presennol i ben greu pwysau tymor byr o ran arweinyddiaeth ac o safbwynt ariannol ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog wrth i drefniadau eraill gael eu sefydlu.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Gallai'r opsiwn hwn ddarparu nifer o fanteision addysgol sylweddol. Byddai disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd drosglwyddo i ysgolion lleol eraill, yn dibynnu ar ddewis y rhieni a'r lleoedd sydd ar gael. Er bod rhai ysgolion cyfagos yn ysgolion cymharol fach hefyd, mae gan sawl un drefniadau ffederasiwn ffurfiol neu strwythurau trefniadaethol mwy sy'n darparu gwell capasiti arweinyddiaeth, mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio proffesiynol a mwy o wydnwch trefniadaethol. Felly, gallai disgyblion gael budd o gael mynediad at brofiadau addysgol ehangach, cyfleoedd gwell o ran y cwricwlwm, mwy o ddarpariaeth allgyrsiol a chyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â grŵp ehangach o gyfoedion nag sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Bancffosfelen.

Mae asesiad o gapasiti ysgolion lleol yn dangos bod digon o leoedd ar gael mewn ysgolion cyfagos i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bancffosfelen ar hyn o bryd. Yn gyffredinol mae pob un o'r ysgolion hyn yn darparu addysg sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Er bod nodweddion ysgolion derbyn unigol yn wahanol, mae gan sawl un strwythurau arweinyddiaeth cryfach, trefniadau ffedereiddio ffurfiol, capasiti staffio ehangach a mwy o wydnwch trefniadaethol nag sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Bancffosfelen. Fodd bynnag, gan y bydd dewis y rhieni yn pennu pa ysgolion y mae dysgwyr yn eu mynychu yn y pen draw, ni ellir rhagweld gyda sicrwydd yr union fudd addysgol y byddai dysgwyr unigol yn ei gael a gallai amrywio yn dibynnu ar yr ysgol sy'n cael ei mynychu. O ganlyniad, byddai disgwyl i safonau addysgol gael eu cynnal yn gyffredinol ac mae'n bosibl y byddant yn well i rai dysgwyr drwy gael mynediad at gyfleoedd ehangach, trefniadau arweinyddiaeth cryfach a phrofiadau addysgol ehangach.

Gallai llawer o ddisgyblion hefyd gael budd o fynychu ysgolion â charfanau mwy o ddysgwyr o oedran a chyfnod datblygiad tebyg. Gallai hyn ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, rhyngweithio â chyfoedion, gwaith tîm, datblygiad cymdeithasol a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Gallai strwythurau staffio mwy a threfniadau ffedereiddio hefyd ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth cwricwlwm, arbenigedd, cymorth llesiant a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Fodd bynnag, yn wahanol i'r opsiwn a ffefrir, nid yw'r cynnig hwn yn nodi ysgol dderbyn ddynodedig. Byddai dosbarthiad y disgyblion yn cael ei bennu gan ddewis y rhieni a chapasiti ysgolion. O ganlyniad, gallai'r garfan bresennol o ddysgwyr gael ei gwasgaru ar draws sawl ysgol. Gallai hyn arwain at wahanu grwpiau cyfeillgarwch, rhwydweithiau cymorth sefydledig a pherthnasoedd cyfoedion a gallai leihau'r parhad a'r sefydlogrwydd sy'n gallu cefnogi proses bontio lwyddiannus a llesiant dysgwyr.

Gallai'r profiadau addysgol sydd ar gael i ddisgyblion amrywio hefyd yn dibynnu ar yr ysgol sy'n derbyn y mae'r dysgwyr yn ei mynychu. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion cyfagos yn darparu addysg sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, mae gwahaniaethau mewn trefniadau arweinyddiaeth, ansawdd yr adeiladau, darpariaeth cwricwlwm, blaenoriaethau gwella ysgol a deilliannau disgyblion.

Mae safonau addysgol yn debygol o gael eu cynnal a gallai llawer o ddisgyblion gael budd o gyfleoedd ehangach o ran y cwricwlwm, adeiladau gwell a grwpiau cyfoedion ehangach. Fodd bynnag, oherwydd bod disgyblion yn gallu trosglwyddo i sawl ysgol wahanol, mae'r opsiwn yn cynnig llai o sicrwydd, parhad a chysondeb o ran deilliannau addysgol. Gallai arwain at wasgaru grwpiau cyfeillgarwch, amrywiad mewn profiadau addysgol a threfniadau pontio llai cydgysylltiedig o bosib.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai cau'r ysgol yn golygu colli ased cymunedol pwysig a gallai gael effaith ehangach ar hunaniaeth a chydlyniant cymunedol. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu canolbwynt ar gyfer gweithgarwch lleol, a gallai cau'r ysgol leihau'r cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol. Efallai y bydd goblygiadau i wasanaethau lleol hefyd, gan gynnwys Cylch Meithrin Bancffosfelen, y byddai angen iddo symud o bosibl neu gallai fod mewn perygl os na nodir darpariaeth amgen addas. Gallai'r cynnig hefyd gael effeithiau y tu hwnt i gymuned uniongyrchol Bancffosfelen. Byddai cau'r ysgol yn dod â'r trefniant ffederasiwn meddal presennol ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog i ben. Byddai hyn yn arwain at golli'r tâl atodol o ran cyllid ffederasiwn sy'n gysylltiedig â'r trefniant ac yn golygu y bydd yn rhaid i Ysgol Llanddarog adolygu ei strwythur arweinyddiaeth yn y dyfodol a'i threfniadau cyllido cysylltiedig, gan fod swydd bresennol y pennaeth yn cael ei rhannu ar draws y ddwy ysgol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio (cludiant)

Byddai'r opsiwn hwn yn effeithio ar drefniadau teithio ar gyfer disgyblion. Mae'r pellter rhwng Ysgol Gynradd Bancffosfelen a'r ysgolion agosaf yn amrywio o oddeutu 1.3 i 4.7 milltir. Er bod rhai ysgolion wedi'u lleoli yn yr ardal gyfagos, byddai angen teithiau hirach i gyrraedd rhai eraill. Bydd yr union bellteroedd teithio yn amrywio yn ôl lleoliad cartref y disgyblion a dewis y rhieni. Byddai cludiant am ddim yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi cludiant yr Awdurdod Lleol ar gyfer disgyblion cymwys. Byddai angen rheoli'r effaith

bosibl ar amseroedd teithio, llesiant a phresenoldeb yn ofalus pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Er y byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â nifer o'r heriau allweddol a nodwyd, gan gynnwys niferoedd isel y disgyblion, lleoedd gwag, materion ariannol a chyflwr yr adeilad presennol, mae'n achosi peth ansicrwydd ynghylch cyrchfannau terfynol dysgwyr, profiadau addysgol, trefniadau cymorth a chanlyniadau pontio.

O dan yr opsiwn hwn, dewis y rhieni fyddai'n pennu'r ysgolion y mae disgyblion yn eu mynychu, a allai arwain at wasgaru'r garfan ar draws nifer o ysgolion gwahanol. Gallai hyn darfu ar grwpiau cyfoedion sefydledig a llai o barhad i ddysgwyr.

Gallai profiadau addysgol, cyfleoedd cwricwlwm, ansawdd adeiladau, darpariaeth llesiant a chapasiti arweinyddiaeth amrywio yn dibynnu ar yr ysgol sy'n derbyn a ddewiswyd gan y rhieni. Felly, ni fyddai'r opsiwn hwn yn gwarantu mynediad at arweinyddiaeth gref, cyfleoedd ehangach o ran y cwricwlwm, na gwasanaethau llesiant a chymorth ADY sefydledig, gan fod argaeledd ac ansawdd y darpariaethau hyn yn amrywio rhwng ysgolion lleol.

Yn ogystal, nid yw'r opsiwn hwn yn sicrhau y byddai disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol sydd â'r adeiladau gorau sydd ar gael, gan y gallai disgyblion fynychu ystod o ysgolion sydd ag addasrwydd a chyflwr adeiladau amrywiol.

Yn ogystal, credir y byddai'r opsiwn hwn yn darparu ychydig o ansicrwydd ynghylch cynllunio pontio, cymorth bugeiliol, llesiant dysgwyr a pharhad y ddarpariaeth addysgol.

Am y rhesymau hyn, mae'r opsiwn trosglwyddo i'r ysgol agosaf wedi'i ddiystyru gan nad yw'n darparu lefel gyson o fanteision addysgol a threfniadaethol ac o ran llesiant.

Atodiad F: Ffurflen ymateb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgynghori ar y cynnig i

- gau Ysgol Bancffosfelen o 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Pontyberem o 1 Ionawr 2028 ymlaen.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i chi wneud sylwadau ar y cynnig a'r opsiynau eraill, ac awgrymu opsiynau eraill. Mae croeso i ymgyngoreion wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau amgen yn lle cau sydd wedi'u nodi gan y cynigydd yn ogystal â'r prif gynnig ac awgrymu opsiynau amgen eraill yn lle cau a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros gau (h.y. yr heriau allweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu ac y mae'r cynigydd yn ceisio eu datrys).

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig.

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

---

1. Ydych chi'n ymateb fel:

☐ Rhiant, gofalwr neu warcheidwad

☐ Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr

☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned

☐ Cyngor Cymuned

☐ Arall: Nodwch _____

2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

3. Teimlwch yn rhydd i rannu unrhyw sylwadau neu resymau dros eich ateb gan gynnwys unrhyw effaith yr ydych yn credu y gallai'r cynnig ei chael (dewisol).

4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Bancffosfelen yn eich barn chi?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill:

5. Yn ôl Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith andwyol neu'n cael effaith lai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r materion a nodwyd gan yr ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

Hoffech chi gael gwybod am gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori?

☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

Os hoffech chi gael gwybod, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a dewis iaith (Cymraeg/Saesneg):

Diolch am lenwi'r ffurflen ymateb.

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u llenwi i'r cyfeiriad canlynol:

Mr Owain Lloyd,
Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden,
Neuadd y Sir,
Rhiw'r Castell
Caerfyrddin
SA31 1JP

neu drwy anfon copi wedi'i sganio drwy e-bost at RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Fel arall, gallwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein: Arolwg SNAP

Dychwelwch eich ymateb erbyn 22 Rhagfyr 2026. Ni fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried